

Cyfres Duw a Diwylliant: 1

PALU'R ARDD

DIWINYDDIAETH DIWYLLIANT

R.M Jones

CYNNWYS

ATHRAWIAETHAU CRISTNOGOL DIWYLLIANT

1. PENARGLWYDDIAETH DUW: Y GARDDWR CYNTAF	3
2. CREADIGAETH: DEUNYDD I'R ARDD	30
3. DEDDF A THREFN: SUT MAE'I THRIN	49
4. GWERTHOEDD DIWYLLIANT A'I BWRPAS	65
5. Y GORCHYMYN I DDIWYLLIO	83
6. GRAS CYFFREDINOL YN DIWYLLIO PAWB	100
7. CWYMP A GELYN DIWYLLIANT	116
8. FFRWYTHAU'R CORFF A FFRWYTHAU'R YSBRYD	126
9. SANCTEIDDHAD: I'R CRISTION	146
10. SYNNEWYR O DDUW: I BAWB	170

1. PENARGLWYDDIAETH DUW: Y GARDDWR CYNTAF

Wrth drafod diwylliant, nid wyf am geisio disgrifio arferion, na gwisgoedd na nodweddion meddwl unrhyw gyfnod mewn unrhyw ran arbennig o'r byd. Ni bydd sôn chwaith am ddawnsiau gwerin na chwaraeon na gwyliau lliwgar. Yr hyn a archwilir yn benodol yn yr ymdriniaeth hon yw'r egwyddorion Beiblaidd ynghylch meddwl Duw, a pherthynas ein bywyd fel credinwyr neu anghredinwyr, â'r gwaith o ddiwyllio'r ddaear. Bydd y drafodaeth yn canoli'n fwyaf manwl ar yr hyn a eilw diwinyddion yn Orchymyn Diwylliannol, a cheisir arolygu'r prif athrawiaethau Beiblaidd ar hynny sy'n berthnasol. Mae Duw yn fwy na Phenarglwydd ar Iachawdwriaeth dyn: mae'n Benarglwydd ar Fodolaeth ac Anfodolaeth ei hun oll, bob cil a chornel. Ac felly y dylid ei ddathlu a'i addoli, a'i gyflwyno. Ni ddylid ei gydnabod yn llai, na hawlio llai ar Ei ran.

Tamaid bach arwyddocaol o'i deyrnas yw diwylliant dyn. Mae Penarglwyddiaeth Duw yn rhoi undod a chydlynad i'r diwylliant hwnnw. Mae hefyd yn rhoi iddo ddimensiwn ysbrydol benbwgilydd. Gardd yw diwylliant.

Natur wedi'i diwyllio yw gardd.

Ond pwy oedd y Garddwr Cyntaf?

Er mwyn imi osod yr ysgrifau hyn yn eu persbectif Beiblaidd o'r dechrau, gwell imi'n syth ddyfynnu dwy adnod o Genesis 2: 7-8, 'Yna lluniodd yr Arglwydd Dduw ddyn o lwch y tir, ac anadlodd yn ei ffroenau anadl einioes; a daeth y dyn yn greadur byw. *A phlannodd yr Arglwydd Dduw ardd yn Eden*, tua'r dwyrain; a gosododd yno y dyn yr oedd wedi ei lunio.'

Duw oedd y Garddwr Cyntaf, y diwylliwr cyntaf oll, felly.

Yn gyntaf yn hanes y byd, cafwyd y Creu o fewn deddfau. Wedyn plannwyd Gardd fel parhad o'r Creu. Ac yna'n drydydd, rhoddodd Duw'i Orchymyn cyntaf yn benodol i ddyn, a dweud, 'Byddwch ffrwythlon ac amlhewch, llenwch y ddaear, a darostyngwch hi.' Dyna'r hyn a elwir yn Orchymyn Diwylliannol.

Dyna hefyd y parhad garddwrol mewn tri cham. Ar ôl hynny, cafwyd yn yr amgylchfyd hwnnw, y gorchymyn i garu Duw a chyd-ddyn, a llawer o faterion eraill. A'i fwiad oedd i ddyn, gydag ewyllys rhydd, yn bennaf ac yn gyntaf, ddiwyllio'r ddaear yn stiward gan barhau'i waith dwyfol Ef o garu creadigol. Hynny yw, yn y dasg ddynol ymarferol o ogoneddu drwy garu'r Crëwr a'i Gread, a thrwy garu cyd-ddyn o fewn cyd-destun diwyllio, ceid ffrwythau i'r corff a ffrwythau i'r ysbryd. Dau fath o ardd.

Hyn hefyd oedd pwyslais yr Hen Destament megis y Testament Newydd, a hyd yn oed gan rai pobl annisgwyl wedyn, fel Paul, Awstin, Acwin, a Chalfin: buont yn meddwl am fwy nag am Waredigaeth. Meddylwyd am Greadigaeth a Rhagluniaeth lawn: mewn lle ac amser. Arferiad ymhlith rhai Efengyleiddwyr diweddar fu'r pwyslais mewnblyg personol yn unig, ac nid adlewyrcha gyflawnder bwriadau Duw. Mae'n hawdd deall, wrth gwrs, sut y symudodd y pwyslais i 'achub' yr unigolyn o hyd. Oherwydd eithafrwydd y Cwmp a'r gwahanu difrifol oddi wrth brofiad llawen ufudd a byw o Dduw, sylweddolwyd mai dim ond drwy Waed aberthol Crist, mai drwy ddeffroad bywydol yn yr Ysbryd Glân, ac mai drwy berthynas real rhwng y pechadur a Duw ei hun yn unig y gellir bodloni Duw. Ni fwriedir gwadu'r pwyslais hwnnw byth: fe'i ceir gan Paul wrth gwrs. Ond dymunir estyn hynny i gynnwys Penarglwyddiaeth Duw, Sancteiddhad, a llawnder Cariad yn ôl ehangder bywyd tragwyddol o addoliad gan ddechrau yng nghyflawnder realiti'r Cread; yn y deall, y serchiadau, a'r ewyllys, yn y nef ac ar y ddaear. Y cwbl drwy gymhelliad diwylliol yr Ysbryd Glân.

Cyd-destun pwysig yw hyn i sancteiddhad, i ufudd-dod i'r gorchymyn diwylliannol, i gydnabod Penarglwyddiaeth Duw ar fywyd oll, ac i ddatlu'r Gras Cyffredinol ac Arbennig a roddodd Duw i bawb i'w garu Ef yn Ei holl ogoniant. Bydd y gweddau hyn yn cael eu mawrygu yn yr ysgrifau hyn, eithr nid er mwyn ceisio llenwi bwlch yn yr efengyl a gyflwynir gan efengyleiddwyr yn y cyfnod diweddar. Ceisio cydnabod yr ydys yn gyfredol gredo ddigon adnabyddus ynghylch swyddogaeth y Cristion erioed, sef nid achub eneidiau'n bennaf (er bod hynny'n dyngedfennol bwysig), ond diogelu'r pwrpas sydd gan Dduw ar gyfer pob dyn, ar y ddaear ac yn y nef. Sef ei ogoneddu Ef – ei addoli, ei foli, a'i fwynhau Ef yn dragywydd.

Mae'r Salmu'n rhoi cryn sylw i Dduw fel 'Diwylliwr y Greadigaeth'. Dyma ddarn o Salm 65:

Rwyt yn gofalu am y ddaear ac yn ei dyfrhau,

gwnaethost hi'n doreithiog iawn.

Y mae afon Duw'n llawn o ddŵr;

darperaist iddynt yd.

Fel hyn yr wyt yn trefnu ar ei chyfer:

dyfrhau ei rhychau, gwastatáu ei chafnau,

*ei mwydo â chawodydd a bendithio'i chnwd.
Yr wyt yn coroni'r flwyddyn â'th ddaioni,
ac y mae dy lwybrau'n diferu gan fraster.
Y mae porfeydd yr anialdir yn diferu,
a'r bryniau wedi'u gwregysu â llawenydd;
y mae'r dolydd wedi eu gwisgo â defaid,
a'r dyffrynnoedd wedi eu gorchuddio ag yd.
Y maent yn bloeddio ac yn gorfoleddu.*

Gwyddom fod y Cristion yn meddwl am Dduw fel yr Achosydd Cyntaf. Ef yw'r Un sy'n dweud 'Bydded', sy'n ymestyn ymhellach na darparu'r defnyddiau crai. Yn *Hanes Athroniaeth y Gorllewin*, soniai Brian Davies fel hyn am Domos Acwin: 'Yn ei farn ef, cwestiwn taer a chyfreithlon yw 'Sut y daeth fod yna unrhyw fydysawd? Cwestiwn y mae'n rhaid bod ateb iddo. Ac fe rydd Tomos yr enw "Duw" i beth bynnag sy'n ateb i'r cwestiwn hwn. Duw, yn ôl Tomos, yw'r rheswm paham y mae yna fydysawd o gwbl ... Y mae'n taeru byth a hefyd fod y cwbl y gallwn ei feddwl amdano, y cwbl y gallwn ei ddeall, yn gyson ddibynnol ar Dduw am ei fod o gwbl ...'. Yr ydym yn wynebu'r cwestiwn felly, 'Sut y daeth fod *rhywbeth* yn hytrach na *dim byd o gwbl?*' Mae hynny'n wir. Ond pan ddwedwyd 'bydded', yr oedd y gair yn atseinio drwy dragwyddoldeb Benarglwyddiaeth Duw. Sut y digwyddodd dim wedyn? Nid y 'bydded' cychwynnol, un digwyddiad, nac un profiad oedd gair Duw. Fe ymestynna ymlaen i bob 'bydded'.

Dyna grynhoi ac aralleirio'r bennod gyntaf yn Genesis. Yn yr ail bennod, wrth ganolbwyntio mwy ar ddyn, eglurir yr estyniad dwyfol hwn. Sonnir am y swydd arall gan Dduw. Yn ychwanegol i fod yn Fodolwr, y mae'n Arddwr. Fel hyn yr adroddir: (Gen. 2: 8-9) 'A phlannodd yr Arglwydd Dduw ardd yn Eden ... A gwnaeth yr Arglwydd Dduw i bob coeden ddymunol i'r golwg, a da i fwyta ohoni i dyfu o'r tir.' (Gen. 13: 10) Ffrwytho gan Dduw oedd y Creu; parhad wedyn oedd plannu'r Ardd.

Fel y Garddwr Cyntaf, yr oedd Duw yn Arweinydd ac yn Esiaml. Ei fwriad ef oedd i ddyn yntau bob amser ffrwythloni'r ddaear hyd yn oed ar ôl y Cwmp. Rhaid oedd i Adda ei hun fod yn Arddwr bob amser. Sonnir bod llawer o'r brenhinoedd ar ôl Adda yn Arddwyr llythrennol: 2 Bren. 21: 18, 20; 25: 4; Solomon Preg. 2: 5; a Jer. 39: 4. Yr

oedd gardd Ahasferus yn ddigon helaeth i ddarparu gwledd (Esth. 1: 5) ‘i’w dywysogion a’i weision.’

Gellid crybwyll dwy nodwedd a oedd yn perthyn i Ardd. Lle caeedig oedd: dyna ystyr y gair Hebraeg. Yr oedd gan Ardd ffiniau megis ‘cae’. Hynny yw, yr oedd yn uned neu’n undod. Ond yr un pryd, o fewn yr Undod, ceid Amrywiaeth. Medd Solomon 2:5, ‘gwneuthum erddi a pherllannau, a phlannu pob math ar goed ffrwythau ynddynt; gwneuthum hefyd lynnoedd i ddyfrhau ohonynt y llwyni coed oedd yn tyfu.’

Nid amhriodol yw synied am Dduw felly’n drosiadol yn rholio drwy’r Greadigaeth o hyd ac yn llafurio fel pe bai Ef yn gweithio’n gyson mewn gardd, ymhobman yn creu unedau lle y mae Amrywiaeth o fewn Undod mewn amllder trefnus. Ac y mae Ef yn parhau i wneud hyn drwy’i Ysbryd Glân yn drosiadol yn ffrwythau’r Ysbryd byth wedyn. Eithr hefyd drwy’i Ras Cyffredinol i ddyn, y mae wrthi yn galluogi hyd yn oed pobl ddi-Dduw i ffrwythloni’r ddaear yn ddiwahân. Yn ogystal â’r Greadigaeth ffrwythlon, felly, gwelir yr Amryw mewn Un ar waith yn drefn gynhenid yn yr Atom a’r Gell bob un; ac felly gyda holl ddoniau’r blodau a’r prennau a’r anifeiliaid yn ogystal â’r cyneddfau dynol. Hyn oedd ac yw gogoniant Duw.

Ond ceir sôn am Ardd Ddynol a Dwyfol mewn ffordd arall yn y Beibl. Sef fel cyffelybiaeth i’r Eglwys. (Can. 4: 12, 16; 5: 1; 6: 2; Salm 48: 1, 2; 102: 16; Eseia 58: 11 a 61: 10, 11; Jer. 31: 12; 1Cor. 6: 13, 19,20 a 7: 34; Dat. 21: 27). I Bantycelyn, yr Eglwys oedd Gardd yr Iesu mewn un o’i emynau mwyaf. Fe’i hailgyhoeddwyd gan Thomas Parry yn *The Oxford Book of Welsh Verse*, sef ‘Gardd yr Iesu’. Dathlu prydfferthwch yr Eglwys y mae. Ni allaf i lai na meddwl yn gyferbyniol am Ardd yr Adda Cyntaf yn cael ei ateb gan yr Eglwys yn y Testament Newydd, sef Gardd yr Ail Adda. Yng Nghymru, y bardd mwyaf rhwng Tudur Aled a T. Gwynn Jones, yn ôl y pennaf o’n beirniaid, Saunders Lewis, oedd Pantycelyn. Dichon fod y bardd hwnnw’n synied yn bennaf am y Greadigaeth weledig ac anweledig gyda’i gilydd yn yr emyn, er ei bod yn syrthiedig, yn wir am ei bod yn syrthiedig. Wrth symud oddi wrth y ffrwythau gweledig er mwyn cronni’i olwg ar y ffrwythau anweledig, canodd delyneg drawiadol a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Ffarwel Weledig, Croeso Anweledig Bethau*. Bu’r Eglwys ddaearol yn ddiâu’n Ardd. Ond meddwl y mae Pantycelyn hefyd am Baradwys Nefol, yr Ardd sydd y tu draw i’r llen: ‘O Salem bur! O Seion wiw!’ Cychwyn allan y mae’r emynydd yn y fan a’r lle ar

un o'i 'deithiau' enwog i gyflwyno'i genadwri i'w bobl. Mae'n ben bore. Sylwer fel y dechreua'r gerdd yn y presennol gyda'r gwaith o'i flaen ar y pryd. Gwêl acw y bobl ifainc, mor hyfryd fyddai iddo gyfarfod â hwy drachefn o'r newydd, gydag ychydig o rai hen, tadau a mamau: mor dlws i gyd —

*Mi bellach goda' ma's
Ar fore glas y wawr
I weld y blodau hardd
Sy 'ngardd fy Iesu mawr:
Amrywiol ryw rasmusau pur,
A ffrwythau'r paradwysaid dir.*

Mynd y mae i fwynhau tlysni'r saint. Mae Pantycelyn, efallai, yn cychwyn ar siwrnai feunyddiol gyffredin tua'r Seiadau, sef yr Eglwys Anweledig yn y fan yna'n ymestyn yn Weledig. Ac y mae hyn yn brofiad hardd a synhwyrus fyw iddo. Dathlu a moli y mae y fath ryfeddod. Mae ef yn llawenhau wrth gwrdd â'i gyd-Gristnogion:

*Edrychwch draw i'r de
A'r gogledd, y mae rhes
O harddach brennau lliw
Po fwyaf bôm yn nes;
Eu peraidd flas a'u haroglau llawn
Sy'n dangos nefol, ddwyfol ddawn.*

Rŷm ni'n sylwi ar y pwyslais a'r mwynhad i'w synhwyrâu. Bardd rhamantaidd oedd Williams. Soniai yn y pennill hwn am y gweld, y blas, a'r arogl, a'r apelio at y glust hefyd gyda'r gynghanedd sain yn y llinell olaf. Mae Williams yn aros gyda'r synhwyrâu a'r amrywiaeth yna yn y pennill nesaf. Ond sylwch ar y cyfeiriad at Gilead: mae'n dathlu harddwch y greadigaeth yn gyntaf mewn llyisiau a blodau, ac yna'n wynebu un cam ymhellach.

*O anghyffelyb flas!
O amrywioldeb lliw!
Hyfryta' erioed a gad
Ar erddi gwlad fy Nuw,
Hi, Gilead fwyn a'i haroglau pur
Bereiddiodd awel Canaan dir.*

Meddai Paul am natur unol synhwyrâu i'r Cristion (1 Cor. 3:7), 'Nid yw'r plannwr yn ddim, na'r dyfrhâwr, ond Duw, rhoddwr y tyfiant... Canys eiddo Duw ydym ni, fel cydweithwyr; gardd Duw, adeiladwaith Duw ydych chi.'

Dyma ddyfnder pleser. Gardd yr eglwys, ffrwythau'r Ysbryd. Mae'n amlwg yn y pennill wedyn fod y profiad hwn o ffrwythau'r Ysbryd yn y bywyd hwn 'yn magu hiraeth cry' / am hyfryd dŷ fy nhad'. A thua'r pwynt cyfarwydd hwnnw, y mae'r pwnc yn symud ychydig ac yna'n canolbwyntio o'r newydd yn y ddau bennill olaf. Yn y pennill olaf un, ffarwelio y mae, gan droi o un byd i fyd arall, 'Ffarwél, ffarwél,' medd ef gan adleisio teitl y gyfrol. Mae ef hyd oed yn ffarwelio â'r blodau gweledig braf yn y Seiadau; ond o ddarllen yn ofalus, mae yna hefyd elfen o blethu un Ardd i mewn i'r llall fel pe bai eu cysylltiad eisoes wedi'i sefydlu.

Roedd triagl neu falm Gilead yn enwog oherwydd ei rinweddau meddyginiaethol. Hynny yw, wrth gyrchu i'r Seiadau, yr oedd Williams yn mynd i blith y rhai a iachawyd gan ei driagl (Gen. 37: 25; Jer. 8: 22; 46: 11; 51: 8). Rhaid cofio bod Williams yn ymwybodol iawn o feddyginiaeth ar ôl iddo gael peth hyfforddiant yn lleol. Ac yn wir, yr oedd ef ei hun yn dod o ardal a fu'n enwocach na'r un arall yng Nghymru am ei meddyginiaeth. Nid oedd ef o hyd ond yn ddwy ar hugain oed pan fu farw'r olaf o Feddygon Myddfai nid nepell o'i gartref. (Cysylltid Myddfai a'i hymdriniaeth feddygol â Llyfr Coch Hergest, wrth gwrs, er bod y testun yn mynd yn ôl ymhellach na hynny.) Mae Dr Eifion Evans yn ei gofiant campus i Bantycelyn yn crybwyll y ddau feddyg lleol, John Williams a John Jones, fel dylanwadau posibl arno.

Yr oedd yn arferiad hefyd ymhlith yr Iddewon i weddio mewn gardd weithiau. Gwyddom am ymdrech waedlyd yr Arglwydd mewn gardd (Ioan 18: 1, 26; 19: 41), ac amdano'n cael ei gladdu mewn gardd; ac yna'n cael ei gamgymryd gan Mair fel garddwr. Efallai mai camgymeriad diniwed, bron yn ddiystyr, oedd ei gamgymryd fel garddwr. Ond po fwyaf y mae dyn yn darllen y Beibl, mwyaf y gwelir bod pob gair yn cyfrif, a bod yna adleisiau ac ystyron ysbrydol yma ac acw'n gyson ym mhob man. Does dim damwain.

Cyfarfyddiad pobl hefyd yw'r eglwys yn yr emyn hwn. Deil credinwyr heddiw i gyfarfod mewn 'Gardd'. A'r Eglwys, wrth gwrs, yw criw Duw. Hwy eu hunain yw Ei gartref Ef. A'r Nefoedd yw cartref Ei bobl. Yn y naill le a'r llall, gwaith Duw a dyn yw palu'r Ardd hon. Rhoddodd Ef lyfr o gyfarwyddiadau iddynt feddwl yn ofalus am y gwaith hwnnw. Ond cymorth i ddeall y llyfr syml a dwfn hwnnw yw sylweddoli mai

‘Duw gyda ni’ yw Ef, a bod ein dinasyddiaeth eisoes yn y nef. Bwriadwyd inni breswyllo am byth yn yr Ardd hon.

*

*

*

Mae cofio cyfoeth y bywyd Cristnogol, a’r modd y mae Penarglwyddiaeth Duw yn cyffwrdd â bywyd ym mhob rhan o’i Greadigaeth drwy Ras Cyffredinol a Gras Arbennig, yn nerth canolog i bawb. Ehengir hefyd ein hymwybod o’r grefydd Gristnogol. Mae’n hynod bwysig peidio â chyfyngu ar hawliau Duw ac ar ei roddion. Disgwylir gweld y rhoddion hyn yn gyntaf gan Gristnogion yn eu gwaith o ddiwyllio’r ddaear. Wrth gwrs, y mae i’r efengyl lwybr clir a phenodol a chyfyng ar ryw olwg ym myd ymarweddiad: y mae Ei Ras Arbennig ef hefyd yn ymddangos yn gyfyngedig ysbrydol ei effaith. Ac eto, rhad ras yw hefyd ac mae’n agored i bawb o ran y cynnig. Mae hefyd yn anfeidrol, hynny yw yn ddifedur o ran dyfnder a llawnder. Ni ddylid byth roi argraff o gulni crebachlyd wrth sôn am ryfeddodau’r Efengyl Gristnogol. Sôn yr ym am gyfoeth mwyaf bywyd. Mewn gwirionedd, y mae beirniaid all-gristnogol yn tueddu i’w cyferbynnu eu hunain â Christnogaeth; eithr y mae’r union faterion y maent yn dyrchafu eisoes yn rhan gydnabyddedig yn aml o’r grefydd, ond yn amgenach i’r Cristion. Garddwyr o fath ydynt hwythau fel ni oll.

Bu rhai carfanau Cristnogol yn rhy barod i dystiolaethu’n ddiflas dywyll am sychdduwioldeb. Ond hyfryd clywed yn y Beibl ei hun am y Mawl sydd i fod yng nghraidd y dystiolaeth Gristnogol iach. Mor ddathliadol yw’r Eglwys a bortreadwyd yn yr emyn gynnu gan Bantycelyn. Fe glywn am y Mwynhad o Dduw. Fe ymglywn â glendid a bendith y bywyd Cristnogol ymarferol. Ni allwn lai na mwynhau cwmpeini melys ein cyd-Gristnogion, a chael blas ar gyfarfod â hwy a bod gyda hwy yn ymestyniad eu doniau.

Yr wyf yn tybied, ymhlith llawer o Gristnogion efengylaidd y byddaf i’n dod ar eu traws, fod mwy o dipyn bellach yn pwysleisio’r wedd gadarnhaol a llawnder diwylliannol ar yr efengyl nag a geid ymhlith pietistiaid a gofiar ryw drigain mlynedd yn ôl. Ar un cyfnod yng Nghymru, ceid Cristnogion digon ffyddlon ysywaeth a fyddai’n gwgu ar chwaraeon, a llenyddiaeth storiol, ac ar fwynhau pleserau difyrus a dramâu. Fe eid mor bell gan rai lleygwyr pietistig ag esgeuluso llawnder Sancteiddhad ym mhob gwedd ar fywyd wrth gyhoeddi Cyfiawnhad drwy Ffydd yn unig. Fe esgeulusid dyfnder a

pharhad Gras Cyffredinol wrth fawrygu Gras Arbennig. Ac ni chyflwynid fel y dylid efallai'r bwysicaf o'r Athrawiaethau, sef Penarglwyddiaeth Duw. Cofiwn bellach mai rhan ganolog (ond rhan) o gyfanrwydd Gogoneddu Duw yw Cyfiawnhad drwy Ffydd.

Mae'n bwysig i'r Cristion aeddfed fod yn wyladwrus ynghylch llawnder ein diwylliant. A gellir canfod bod diffyg yn y fan yna yn ein tystiolaeth mewn oes pryd y mae Seciwlariaeth wedi dod yn brif elyn. Ofnid byd y greadigaeth wrth ofni bydolrwydd. Methodd diwinyddion a gwŷr lleyg efengylaidd yn rhy aml ag adeiladu meddwl cytbwys a oedd yn cydnabod Penarglwyddiaeth Duw ar bob rhan o fywyd. Cafwyd hollt rhwng yr eglwys fel Sefydliad lleol ar y naill law, a chyfrifoldeb dyn gerbron y Greadigaeth a'i fywyd beunyddiol yn yr Eglwys weledig-anweledig bob dydd ar y llaw arall. Aeth y Dystiolaeth ym mryd rhywrai i dlodi'r awdurdod dwyfol dan y deall dynol. Ac yr oedd hyn yn dwll mawr yn arfogaeth hanfodol y Gwirionedd. Cymerwyd rhagdybiaeth au.

Methiant Lewis Edwards, a methiant y Colegau Diwinyddol (nes ei bod yn rhy 'hwyr' arnynt) oedd peidio â gwybod yn greadigol beth i'w wneud â Seciwlariaeth. Methent yn rhy aml o flaen y Naturiol di-oruwchnaturiol. Methent o flaen ysgolheictod Beiblaidd di-absoliwt. Methent o flaen Gwyddoniaeth allwyddonol. Aeth eu parodrwydd i gyfaddawdu neu i 'ddisgrifio' yn 'ddiduedd' o flaen gelyniaeth a chasineb anochel academiaeth naturiol yn gydymffurfiad anfeiriadol tost. Methent â bwrw'r gelyn yn ddigon caled. A gwnaethant Gristnogion cyffredin yn ysglyfaeth anghyfaddas i hyn.

Cafwyd yr hyn a alwaf yn Ddad-gymdeithasiad o'r Goruwchnaturiol/Naturiol.

Gŵyr pawb fod crefydd wedi gadael ei ôl yn drwm ar wreiddiau moesol Cymru, hyd yn oed i raddau mewn cyfnod seciwlar cymharol 'ddi-foes'. Ac mae rhai safonau, hyd yn oed mewn modd negyddol yn gadael eu heffaith bron yn ddjarwybod. Her hyfryd o hyd yn y Gymru gyfoes yw 'Cerwch eich gelynion' neu 'Gwnewch i eraill fel y carech iddynt hwy ei wneud i chwi'. Ond *rhan* aruthr o bwysig o ddiwylliant yw'r cywair moesol hwn; a gweithredoedd moesol yw ffrwythau Gras Cyffredinol. Wrth gwrs, y mae anghredinwyr yn medru bod yn bobl foesol amlwg. Weithiau, er siom i Gristnogion, y mae ymroddiad anghredinwyr i wasanaethu cyd-ddynion yn gallu rhagori ar gredinwyr drwy Ras Cyffredinol. Eithr, nid moesoldeb yn unig yw'r garddio da lle y rhagorant weithiau. Yn ddiwylliannol mewn ffyrdd eraill lawer, o ran parhad yr iaith dyweder, a'r cariad at addysg, o ran parhad llesg ac arwynebol y diddordeb mewn canu Plygain a

chanu gwerin a Cherdd Dant ac mewn safonau celfyddydol, yn y diddordeb mewn hanes, mewn peth parch at adeiladau'r llannau (ac adeiladau gwych yn gyffredinol), mewn gwyliau a mudiadau diwylliannol, yn wir mewn llawer iawn o ymarweddiad iach cyfoes, ceir o hyd yma ac acw olion o wreiddiau Cristnogol traddodiadol, ac yn sicr o ddiwylliant cryf. Ac eto, gweithreda rhai o'r anghredinwyr o fewn cyd-destun sefydledig Cristnogol.

Gadawodd Cristnogaeth ei hôl mewn llawer o ymadroddion ar lafar gwlad. Mae'n wir mai go brin y byddai'r fath beth â Chymreictod gwâr gyda ni o gwbl heddiw oni bai am yr eglwysi. Mae'r Diwylliant a'r profiad o Gristnogaeth yng Nghymru wedi cydlunio hunaniaeth Gymreig er ein gwaethaf. Bu'r Beibl yn ganolog i ffyniant ein rhyddiaith a hyder yr iaith. Wedyn, y mae'r math o ymroddiad cadarnhaol a gafwyd i adennill diwylliant, y math o ymostyngiad, a'r diffygion Cymreig hefyd (yn baradocsaid) yn adlewyrchu ein hunaniaeth foesol barhaol, ac yn rhan o'n profiad ffurfiannol ein hun a'n diwylliant parhaol. Gwedd ar israddoldeb nodweddiadol y berthynas drefedigaethol Gymreig yw un o'r rhesymau dros ddiffyg creadigrwydd a dynwaredoldeb diwinyddiaeth ddiweddar Cymru a thros dderbyn dogmâu a ffasiynau anghrediniol o'r tu allan yn rhyrwydd, a mynd â hwy ar lawer cyfrif ymhellach na'n cymdogion. Yr un trefedigaethrwydd taeog mae arnaf ofn, sy'n cyfrif am deneurwydd anwreiddiol y meddwl diwinyddol Cymreig, ac felly'n gadael ôl ar hunaniaeth. Dadgymdeithaswyd y Goruwchnaturiol a'r bywyd naturiol, do. Âi'r anuniongred yn erlidiwr i'r union gred.

I rai seciwlarwyr, bu hyn oll yn drueni ac yn wastraff. Ond nid ar eu hochr hwy yn unig y bu Dadgymdeithasiad o'r Goruwchnaturiol. Pan gyfieithwyd un cyfweliad gyda Dr. M. Lloyd-Jones o'r Gymraeg i'r Saesneg ynghylch ei agwedd at Gristnogaeth a Chenedlaetholdeb, cafwyd peth gwrthwynebiad ymhith rhai Cymry di-Gymraeg efengylaidd. Tybiwyd ei fod yn wladgarwr Cymreig gormodol. Eithr o'r gwledydd tramor yn yr Affrig ac yn Asia, wele, derbyniwyd llythyrau o werthfawrogiad a diolch, 'Mae'n ein deall ni!' Yr hyn yr oedd yn ei ddeall oedd Bywyd a Diwylliant unigryw pob gwlad yn yr Ardd. Oherwydd bod y Dr. Lloyd-Jones bob amser yn dechrau cyfarch ei wrandawyr drwy ddechrau yn y diwylliant lle yr oeddent yn sefyll (boed yn Sandfields neu yn Westminster), ac oherwydd bod ieuenctid Cymraeg y cyfnod, a llawer o'r oedolion aeddfed yn teimlo baich trwm ynghylch diwylliant israddedig eu gwlad ar y pryd, dangosodd ef ei gydymdeimlad a'i ddealltwriaeth. Ac oherwydd y profiad hwn,

deallai wledydd eraill ledled y byd ei eiriau yn well na rhai Gwrth-Gymry yn eu gwlad eu hunain.

Y gwir yw bod baich diwylliant a chyflwr seicolegol y Cymry di-Gymraeg ar y pryd yr un mor anghenus ymhlith y Cymry Cymraeg hwythau; yn fwy mae'n debyg. Caed lleiafrif a ddilynai'r ymagweddu imperialaidd o unffurfio pawb yn ôl y ddelw Lundeinig; gan goleddu anwybodaeth ddifrifol am Gymreictod ar egwyddor. Ymunent yn y lladdedigaeth ddiwylliannol (*cultural genocide*). Ofnent wladgarwch Cymreig oherwydd yr hir gyflyru canoledig ynghylch imperialaeth. Ond caed mwyafrif ohonynt yn y bôn, diolch am hynny, a geisiai beidio ag atgyrchu'n negyddol ddi-deall.

Ac yr oedd yn bwnc pwysig: Duw a diwylliant.

Mewn gwirionedd, bu'n fwy nag allwedd i mewn i drafferthion gan un genedl, (allwedd a oedd hefyd yn fodd i ddealltwriaeth gydwladol ddifrif): yr oedd hefyd yn ufudd-dod i Dduw ac yn allwedd i amryw athrawiaethau Cristnogol hollol ganolog a sylfaenol. Osgoïd diwylliant gan rywrai yn y traddodiad efengylaidd diweddar oherwydd ymgyfyngu i athrawiaeth Cyfiawnhad (a thröedigaeth, aileni, ac yn y blaen). Ond yr oedd osgoi diwylliant yn golygu ymyrryd â rhai o athrawiaethau mawr y Ffydd Uniongred. Esgeulusid yn enbyd wir fyfyrdod ar bynciau mawr megis Cyfiawnder dyn a dyn, Pwrpas a Phatrwm y Greadigaeth, Gras Cyffredinol, y Gorchymyn Diwylliannol, y Gweledig a'r Anweledig, Penarglwyddiaeth a Sancteiddhad cyflawn gan gynnwys anghenion cymdeithasol. A phynciau yw'r rhain oll sydd o'r pwys mwyaf i bawb ar ôl iddynt ddod yn Gristnogion aeddfed.

Gwir mai allwedd i'r Tŷ yw Cyfiawnder Cyfiawnhad. Allwedd hynod o gyfredol arall yw Aileni hefyd. Ond y mae angen trafod yn fanwl y ffordd i fyw yn y Tŷ wedyn. A hyd y oed cyn dod i mewn i'r Tŷ, mae'n deg rhoi gwybod beth sydd yn y Tŷ o safbwynt ymarferol a llawn, a pham y rhoddwyd dyn yn y Tŷ o gwbl.

Cafodd Dr Lloyd-Jones ei fagu mewn cenedl a safai ers mil a hanner o flynyddoedd yn nesaf at wlad arall a wnaeth imperialaeth yn ffordd o fyw. Dysgodd ef garu'r naill wlad a'r llall. Dysgodd am gyfoeth y ddwy dreftadaeth Gristnogol. A bu gweld safbwynt a natur perthynas y ddwy wlad gyda chydymdeimlad a chariad yn fodd iddo ymgydnabod â sefyllfa gymdeithasol yn ogystal â phersonol cryn gyfran o'r byd.

Yr oedd brodyr a chwiorydd yn y ffydd, y Teulu i'r un Tad, yn sicrhau calonnau i'w gilydd, beth bynnag oedd y cefndir diwylliannol. Yn ogystal â Gras Cyffredinol, sefydlwyd gan Iesu Grist Ras Achubol gweithredol, Gras Arbennig, ar gyfer pawb sy'n ei dderbyn yn Waredwr ac yn Arglwydd. Byddai hwn yn rhoi bywyd newydd i bawb sy'n credu ynddo, neu'n dibynnu arno. Byddai hefyd yn trawsffurfio diwylliant gan fod pawb sydd ynddo Ef yn greadur newydd (II Cor. 5:17). Mewn materion cyffredin, y mae diwylliant y credadun a'r anghredadun yn derbyn doniau heb wahanu. Ond y mae presenoldeb Crist yn medru newid yr unigolyn a'i ddealltwriaeth a lled ei wybodaeth am fywyd, eithr hefyd y mae'n medru lledu a dyfnhau diwylliant i gynnwys dimensiwn pellach. Gelwir y gwaith hwn yn Sancteiddhad. Gardd arbennig yw ym maes Diwylliant.

Mae a wnelo Sancteiddhad â'n gwaith bob dydd. A thrwy Ras Cyffredin, ochr yn ochr â Gras Arbennig y caiff Cristion allu i fyw. Gwelir felly fod a wnelo Diwylliant ag amryw athrawiaethau mewn Cristnogaeth: 1. Penarglwyddiaeth y Garddwr cyntaf; 2. Y Greadigaeth; 3. Trefn a Deddfau; 4. Gwerth a Diben ac egni bywyd; 5. Y Gorchymyn Diwylliannol; 6. Gras Cyffredinol; 7. Y Cwmp; 8. Ffrwythau'r Corff a Ffrwythau'r Ysbryd; 9. Sancteiddhad; 10. Synnwyr o Dduw. Nid ceisio chwilio yr wyf brif sylfeini cenedl ddiwylliannol na dim o'r fath wrth roi rhestr fel yna. Ceisio ystyried yr wyf beth sydd a wnelo diwylliant yn gyffredinol ym mhob cenedl â Christnogaeth, er fy mod yn gwreiddio'r sylwadau yn y sefyllfa Gymreig. Yr hyn a ddadleuwn i yw bod diwylliant ar ei lawnaf a'i fwyaf cytbwys po fwyaf cyfansawdd ac ymarferol y bo Cristnogaeth. Nid mewn cornel ddiwylliannol unochrog y tyf Cristnogaeth. Ond yn rhy aml yn y gorffennol, fe fu cariad rhyngwladol yn esgus i rai Cristnogion hyrwyddo Imperialaeth a lladd y diwylliant bach gan y diwylliant mawr.

Bwriedir yn awr drafod arwyddocâd diwylliannol pob un o'r gweddau hyn yn eu tro. Bwriedir ystyried ehangder diwylliant Cristnogol cenedlaethol a chydwladol. Eto, er diogelu ffaith Gras Cyffredinol, ceisir wynebu'r diwylliant daearol hwnnw sydd hefyd yn elyniaethus i awdurdod yr efengyl. Mae hynny hefyd yn rhan o brofiad y Cristion bob amser. Ceisir hefyd ystyried perthynas gytûn Gras Cyffredinol a Gras Arbennig. Mae'r llinyn termau hyn (a roesom uchod) yn ymddangos yn beiriannol ac yn oer. A dyma'r union feirniadaeth atgyrchol sy'n gyfarwydd hefyd ym maes Diwinyddiaeth Gyfundrefnol. Yn wir, y mae'r disgrifiad hwn o berthynas Diwylliant ac Arfaeth Duw

wedi codi dwy feirniadaeth o safbwynt ‘diwygiad’ efengylaidd yn y cyfnod diweddar. Yn gyntaf wrth ddarllen am Gyfundrefneg Gristnogol a threfn Diwylliant, gall ymddangos braidd yn rhy ymenyddol ac amhersonol allanol. Nid yw’n rhoi’r dyledus le i dywalltiad grym yr ysbryd, a natur bersonol gyflawn y galon doredig. Gwaith bob dydd yw. Ond wrth gwrs, yng nghanol y drefn ddynol oll y saif Duw personol-dragwyddol. Un y tu hwnt i fesur meddwl dyn yw, eithr un a roes arno’i hun agwedd gwas. Un yw a’n carodd bob un yn bersonol, ac a’i haberthodd ei hun drosom. Ef yw’r Absoliwt i’r creu, i’r deall, i’r Gwirionedd, ac yn wir i’n holl gyneddfau.

Ond yn ail, y mae trefn, neu Gyfundrefneg Ddiwylliannol yn cyffwrdd mewn Diwylliant â materion heblaw canologrwydd Cyfiawnhad dyn. A rhan o enciliad Calfiniaeth (yn rhyfedd iawn) o ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen (yn wahanol weithiau i Arminiaeth, i raddau) oedd pwysleisio Tröedigaeth a Chyfiawnhad ar draul Sancteiddhad, a materion Iachawdwriaeth yr unigolyn ar draul Penarglwyddiaeth Duw a’i berthnasoldeb ym mhob rhan o’n bywyd bob dydd. Fforffedwyd llawer o le Duw yn y cwbl o fywyd drwy efenglyddiaeth amddifad.

Eto, yn drydydd, rhaid gwylid nad yw'r adwaith yn erbyn *trefn* Duw yn tarddu o Ramantiaeth wyllt, rydd fyfiol. Gwylier y gogwydd Rhamantaid cyfoes, Ôl-foderniaeth, sydd wedi dylanwadu ar y ffasiynoldeb diweddar tuag at ymddatodiad a chwalfa ddogmatig gan adael y diwylliant i ymdroi mewn nwydau dynol amddifad. Gwylier hefyd yr ymgais i drin crefydd a dinasyddiaeth gyfoes naturiol ar wahân. Tuedd Ôl-foderniaeth deimladol a’i rhagdybiau (sef gwahanu) fu cefnu ar ddeallusrwydd cytbwys diwylliant ac aeddfedrwydd ysbrydol y canrifoedd. Ofnwyd trefn megis rhagluniaeth.

Bwriad yr astudiaeth hon yw archwilio’r weledigaeth Gristnogol am ddiwylliant o safbwynt sy’n gyfan gwbl ysgrythurol, am fod yr ysgrythur yn llawlyfr i’r cwbl o fywyd, naturiol a goruwchnaturiol. Cred yr awdur mai’r unig ffordd i wybod rhywbeth am egwyddorion o bwys mewn unrhyw faes yw drwy ymwybod yn gyntaf â’r datguddiad gan yr Ysbryd Glân ei hun yn y Beibl. Does dim lle i Gristnogion gyfaddawdu rhwng y safbwynt lle y rhagdybir mai *dyn* a’i farn a’i *brofiad* ei hun sy’n sylfaen i wybodaeth, a’r safbwynt lle y rhagdybir mai *Duw* personol-dragwyddol sy’n benarglwyddiaethol yn y canol ac yn fan cychwyn i bob ystyriaeth. Efô yw’r rhagdyb i’r unigolyn profedig, ac yn Absoliwt angenrheidiol. Bydd angen hefyd archwilio’r gwrthwynebiad dwfn ar sail

Seciwlariaeth i ddiwylliant Cristnogol ar ran rhywrai ôl-fodernaidd. Felly y ceir adnabod y gwrthwynebydd. Cafwyd peth felly nid yn unig o du nihilistiaeth a negyddiaeth danseiliol, eithr hefyd yn ôl yr ymgais o du pietistiaeth a mynachaeth i hollti bywyd. Cyfunol yw Cristnogaeth o ran natur, ac y mae'n wylidwrus o duedd gyson gan y dyn syrthiedig boed yn Gristion neu beidio i danseilio gweddau addas ar waith, nid yn ôl y drwg a'r da yn benodol, eithr yn ôl y naturiol a'r goruwchnaturiol, y creedig a'r cadwedig, y corfforol a'r materol, yr unigol a'r cymdeithasol. Tueddir gan rai pietistiaid i synied am gelfyddyd fel chwarae ffôl, fel addurn, ac fel ymgais i gynhyrfu'r nwydau mwyaf hunanol. Cyfyngwyd hawliau Duw a diddordebau'r Crist weithiau i ambell wedd ar fywyd yn unig. Ac alltudiwyd tiriogaethau helaeth yn nheyrnas diwylliant. Hyderir y gallwn ailsefydlu ein cydnabyddiaeth o benarglwyddiaeth Duw ym mhob gwedd ddiwylliannol ar ein bywyd.

*

*

*

Ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yng Nghymru megis mewn rhai gwledydd eraill, y mae'r Sefydliad addysgol, celfyddydol a gwyddonol, wedi ymgaledu mewn safbwynt seciwlar. Rhagdybiau naturiol, yn hytrach na rhai goruwchnaturiol/naturiol sydd wedi ffurfio'r ffordd arferol mwyach o feddwl am ddiwylliant. Hyd yn oed wrth drin Hanes, er mor bwysig fu Cristnogaeth yn ffyniant gwareiddiad y Gorllewin, cafwyd culni syniadol cynyddol ac awydd i fod yn fwyfwy seciwlar. Cymerwyd yn ganiataol nad oedd gan Gristnogaeth ddim cyfoes i oleuo neb am adeiladwaith yr olygwedd bresennol ar fyd a bywyd. Felly, er gwaetha'r dystiolaeth, fe'i bychanwyd mewn Hanes. A bu Cristnogion yn rhy barod i gilio. Aethpwyd i lercian o'r neilltu a gadael cyfanrwydd y Greadigaeth er mwyn arbenigo ym maes aileni. Hynny yw, ni chafwyd trafodaeth gyfansawdd ar adeiladwaith y meddwl Cristnogol.

Mewn gwirionedd, yn sgil anwybodaeth oherwydd cyfnod o 'ryddfrydiaeth' ddyn-ganolog, ac oherwydd newyddiaduraeth gwirclyd am sectau crefyddol, tyfodd diffyg meddwl am arwyddocâd y meddwl Cristnogol.

Ym mryd y Cristion, fe luniwyd y Greadigaeth er gogoniant i Dduw. Ffrwyth ei Arfaeth neu'i Gynllun Ef ydoedd. Cyn sefydlu'r Defnyddiau sy'n diriaethu'r Greadigaeth honno yn ddiwylliant, yr oedd gan Dduw eisoes blan: trefn a deddfau gwyddoniaeth a'r celfyddydau, mewn pethau byw ac yn y difywyd. Gwedd ar y creu trefnus hwnnw oedd

corffori ynddo werth a phwrpas. Felly, diriaethwyd y Defnyddiau hyn ganddo yn ddosbarthau ac yn gyfundrefnau mewn sfferau deall neu weinyddol. Fe'u trefnwyd, gyda Duw yn Benarglwydd ar Sfferau gwahân sy'n unol gydlynol, a chan bob Sffêr ei math o hunanlywodraeth briodol yn ôl ei natur ei hun, eithr yn cydweithredu â'i gilydd yn ôl sofraniaeth Duw.

Stiwardiaeth dyn oedd uchafbwynt y Greadigaeth gyflawn hon, cwmp neu beidio. Fe'i crëwyd ef ar ddelw Duw ac mewn perthynas â Duw, a dyfarnwyd iddo'r dasg o ddiwyllio ac o ddwyn ffrwythlondeb i'r ddaear mewn llawer dull a modd. Dyma'i waith beunyddiol. Ac ystyr bod ar ddelw Duw oedd bod dyn yn meddu ar ddeall ac ymwybod ohono'i hun ac o'i berthynas â Duw. Dibyniaeth oedd natur hanfodol y berthynas honno. Corfforwyd y pwrpas penodol daearol yna yn yr hyn a elwir yn 'Orchymyn Diwylliannol'. Hynny yw, gorchymyn oedd i ddyn i fod yn ffrwythlon, yn gynyddol, ac yn llywodraethol. Dyma'r siars sylfaenol i'r greadigaeth oll, ond i ddyn yn benodol, ac nid yn unig *cyn* y Cwmp (Gen 1: 22; 1: 28) ond *wedyn* (Gen. 9: 1, 7); nid yn unig yn yr Hen Destament (Salm 6: 6-8) eithr yn y Newydd hefyd (Iago 3: 7). Y Cwmp a greodd y rhwyg yn y berthynas gywir rhwng dyn a Duw.

Er mwyn i ddyn gyflawni'r dasg ddiwylliannol hon, i fod yn 'greadigol' yn ôl ei ddelw ddwyfol, rhoddwyd iddo yr hyn a elwir yn 'Ras Cyffredinol', doniau diwahân (hynny yw, yn annibynnol ar ei greddo), doniau 'naturiol'. Y mae'r rhain yn helaeth ac yn gyfoethog, gan gynnwys bywyd ei hun, yr ymwybod o Dduw (*sensus divinitatis*), dealltwriaeth ddadansoddol a chymariaethol, rheswm, synnwyr moesol ac esthetig a seicolegol, heblaw doniau i drafod y gwahanol Ddefnyddiau a gorfforwyd gan Dduw yn ei Greadigaeth. Rhoddion i ddyn, yn feddyliol ac yn gorfforol, yw Gras Cyffredin, sylfaen i ddiwylliant, peth a rennir gan ddynion fel ei gilydd (Math 5: 44-45; Luc 6: 35). Gras yw'r ddawn benarglwyddiaethol hefyd i atal neu i leihau'r drwg human ddinistriol.

Ond ar draws y drefn, y gwaith, a'r doniau hyn, digwyddodd trychineb farwol. Cafwyd yr hyn a ddisgrifir â'r term trosiadol 'Cwmp'. Ni allwn anwybyddu hyn ar unrhyw gyfrif. Cafwyd chwyn yn yr Ardd. Collodd dyn ei ddawn bennaf, sef ei berthynas â Duw, ei ddibyniaeth, ei adnabyddiaeth, a'i gariad. Nid oedd dyn yn gallu deall Duw mwyach. Ceisiodd ef ddisodli lle Duw yn y berthynas. Ac o'r herwydd collodd y dyn naturiol fywyd. Dryswyd gwerth, trefn, a phwrpas. Yr oedd dyn, wrth natur bellach,

wedi'i ddyrchafu'i hun yn anweddus ac yn anymarferol. Mwyach, yr oedd rhyw arwahanrwydd wedi'i feddiannu. Collodd yr hyn a alwaf yn Ddisgyrchiant Ysbrydol, peth cynhenid sylfaenol.

Beth yn union yw 'diwyllio' mewn amgylchiadau felly?

Ufuddhau o hyd i'r gorchymyn cyntaf a roddodd Duw i ddyn, sef ffrwytho. Mae'n golygu diwyllio'r daear drwy hyrwyddo ffrwythlondeb ym mhob modd sy'n bosibl — boed mewn amaethu, mewn addysg, mewn cludo a gwerthu nwyddau, mewn meddyginiaeth cyrff a meddyliau, mewn gweinyddiaeth o lawer math, drwy drefnu diddanwch i feddwl a chorff hefyd, neu mewn golchi'r llestri, casglu sbwriel, ac wrth gwrs yn ganolog drwy gyflwyno'r efengyl a moli'r Arglwydd. Mae'r cwbl yn tarddu yn Nuw. Ac ni all dyn fyw ar lefel gorfforol nac ar lefel ysbrydol heb hyn.

Dyweddodd ef wrth y gwryw a'r fenyw gyntaf: (Gen. I, 28) '*Byddwch ffrwythlon ac amlhewch, llenwch y ddaear a darostwng hi; llywodraethwch ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ac ar bopeth byw sy'n ymlusgo ar y ddaear.*'

Fe'i haildroddodd wedi'r Cwmp fel y'i gwelsom wrth Noa a'i feibion. Dyma'r gorchymyn cyntaf a ddatganodd wrthynt hwythau: (Gen. IX, 1) '*Byddwch ffrwythlon, amlhewch a llenwch y ddaear.*' (cf. Gen. IX, 7). Mae safle'r cyfarwyddiadau hyn yn dra arwyddocaol. Dyma sylfaen y bywyd normal ymhob cyfwng.

Ond wedyn, pa weddau ar y ffydd Gristnogol sy'n berthnasol wrth feddwl yn ddyfnach am y rhai sy'n bychanu'r 'gorchymyn diwylliannol' hwn fel y'i gelwir? Beth sydd gan y Beibl i'w ddweud am ddiwyllio — ac am beidio â diwyllio?

Wedi sefydlu'r patrwm priodol a sefydlog ar gyfer perthynas dyn a'r ddaear gyda'r gorchymyn hwn, yr oedd dyn wedi cwmpo oddi wrth gynllun Duw. Ar ôl perthynas ddi-febl rhyngddo a'r ddaear, a rhyngddo a Duw, dyma ddyn yn anufuddhau ac yn ei ddyrchafu'i hun a'i syniadau ef goruwch trefn Duw. Oherwydd hyn, collodd fwy na pherthynas, llygrwyd popeth: ei gorff a'i feddwl a'i waith : (Gen III, 19).

*'Trwy chwys dy wyneb y byddi'n bwyta bara
hyd oni ddychweli i'r pridd,
oherwydd ohono y'th gymerwyd;
llwch wyt ti, ac i'r llwch y dychweli.'* (cf. Rhuf. VIII, 20-22)

Yn bersonol, yr oedd dyn wedi'i roi ei hun yn flaenaf, a rhan o ystyr tröedigaeth adferol fyddai blaenori Duw, ymostwng a chydabod Ei Benarglwyddiaeth mewn

meddwl, gair a gweithred. Hyd yn oed mewn gwaith beunyddiol, ceir strwythur sy'n canoli ar Dduw: Ef sydd yng nghanol bywyd, ac y mae'r Cristion yn medru sylweddoli hynny:

*Os nad yw'r Arglwydd yn adeiladu'r tŷ,
Y mae ei adeiladwyr yn gweithio'n ofer.
Os nad yw'r Arglwydd yn gwyllo'r ddinas,
Y mae'r gwylwyr yn effro'n ofer. Yn ofer y codwch yn fore
a mynd yn hwyr i orffwys
a llafurio am y bwyd a fwytewch.' (Salm CXXXVII, 1-2)*

Mae yna rai nodweddion sy'n perthyn i ddiwylliant y mae'n werth i ni eu nodi. Cymerer hau, medi, cywain a pharatoi bwyd er enghraifft. Ceir bwlech go estynedig rhwng y bwriad neu'r penderfyniad cychwynnol i weithredu, a chyflawni'r gweithrediad olaf. Ar gyfer hynny hefyd fe all fod yna elfen o gynllunio a threfnu. Yn wir, dichon fod angen mynd yn ôl ymhellach byth, ac ystyried y traddodiad dwfn, yr hyfforddiant, a'r cefndir hanesyddol sydd y tu ôl i'r fath waith o safbwynt cyfoes. Ac yna ymlaen drwy'r cwbl i Absoliwt. Yn fynych, mae yna ymwybod o safon hefyd, ac awydd i gyflawni pob cam yn y broses gyda thipyn o arddeliad. Ceir chwaeth ac ysbryd dethol yn ogystal. Ac y mae cyfuniad o'r holl elfennau hyn yn gallu ffurfio ymwybod o wareiddiad a balchder ynghylch bod yn greadigol. Dichon, mwyach, y bydd mewnfario nwyddau a threfniadaeth ariannol yn cael eu sefydlu i roi'r broses lawn ar waith yn faterol. Magwyd arferiadau i blethu adeiledd cyfoethog potensial ffrwythlon o gylch y gymdeithas ryngwladol yn ysbrydol ac yn faterol.

Hynny yw, nid atgyrch anifeilaidd syml ac amrwd yw paratoi bwyd, a'i fwyta'n ddisyfyd bob tro, yn y bywyd dynol diwylliedig hwn. Ceir arferion yn ogystal ag offer ynglŷn â'r gweithgaredd. Gall fod yna fath o gyfundrefnau gyda phob achlysur gweithredol o'u mewn eisoes yn bodoli ymlaen llaw yn ddelfrydol yn y meddwl. Ond undod yw i ddiben.

Pan feddyliwn am ddiwylliant, ni feddyliwn yn unig am ddiwyllio'r tir. Yn wir, yn ein bryd ni yn fynych heddiw, diwyllio'r meddwl ei hun yw'r brif wedd ar ddiwylliant. Ac i wneud hynny, y mae'r iaith a'r celfyddydau yn elfennau canolog. Ond nid hwy yn unig, ond popeth sy'n dyfnhau ac yn meithrin gwerthoedd a chynnwys a ffurfiau'r dychymyg a'r ysbryd.

Pan sonia'r Cymry am eu diwylliant, meddylliant yn arbennig am eu cân a'u chwedl gynt; eithr hefyd am orffennol eu crefydd. Yn wir, cymdeithas grefyddol o fath oedd pob cymuned ar un adeg ledled y byd, a chanddi nid yn unig ei hiaith, eithr hefyd gredoau a dulliau meddwl crefyddol ac arferion. Rhoddai deddfau crefyddol fywyd ac agwedd iach at natur ac at fywyd dyn ei hun. Lluniwyd traddodiad, o fewn rhagdybiau Cristnogol, sut i drin anifeiliaid a pheiriannau a'i gilydd.

Drwy gydol y rhan fwyaf o hanes dynoliaeth ac ar hyd a lled y ddaear, ffurfiwyd diwylliant cymdeithasol i raddau helaeth o gylch credoau cyffredin gwâr a dulliau meddwl ysbrydol. Rhagdybiau oedd y deddfau a'r rheolau a wreiddid mewn crefydd. Da y dywedodd Christopher Dawson, 'Ymddengys mai mor afresymol fyddai hi i gymuned drefnu'i diddordebau heb gyfeirio at ddeddfau crefyddol aruchel ag y byddai diwyllio'r tir heb roi sylw i rod y tymhorau'.

*

*

*

Pwnc unol grymus i ddiwylliant cymunedau fu'u crefydd. Heblaw diogelu traddodiad a gwarchod trefn a dysgu doethineb, bu ganddi swyddogaeth ddeinamig a bywydol. Yn hanes llenyddiaeth Gymraeg, yn ogystal ag mewn pensaernïaeth, moesau gwâr, ac ymddygiad, bu Cristnogaeth yn ganolog. Ond hyd yn oed mewn cyfnod cyn-Gristnogol, tystiai'r chwedlau a oroesodd ac a ddatblygodd fod themâu yn ogystal â sefydliadau megis y frenhiniaeth, y cyfreithiwr, a'r teulu yn dra dyledus i ymwybod 'crefyddol'. Yn gymaint felly nes y gallai Dawson honni bod pob ffordd o fyw, o ran potensial, yn ffordd tuag at Dduw.

O ddiffinio perthynas crefydd a diwylliant, a dal felly nad rhan o ddiwylliant yw crefydd ond rhan o grefydd yw diwylliant, rhaid ychwanegu hefyd fod diwylliant yn fynegiant anochel o grefydd pobl. Os yw person yn hedonist, yna y mae ei ddiwylliant yn mynd i gael ei feddiannu fel arfer gan bleserau'r cnawd. Os yw'n nihilydd, bydd ei ddiwylliant ar chwâl. Ond os Cristion yw, dylai ei ddiwylliant gyflawni ei bwrpas Cristnogol ar y ddaear. Hynny yw, bydd ystyr gadarnhaol a chydlynol bywyd i rywun — neu ei ddiffyg ystyr — i'w cael yn y peth mawr sy'n cael mynegiant yn y peth bach. Dyma effaith yr Absoliwt. Mae'r hyn sydd yn y meddwl ynghylch diwedd neu ddiben y bywyd ysbrydol yn cael ei fynegi tan benderfynu'n arwyddocaol yr hyn a wneir ymlaen llaw.

Mae'n anghywir felly awgrymu mai rhan o ddiwylliant yw crefydd. Mae a wnelo crefydd yn gyntaf â chyn-ddiwylliant, sef â natur 'gynhenid' dynoliaeth o ran bodolaeth. Mae a wnelo hefyd yn ail ac yn darddiadol â natur allanol oll sydd wedi'i diwyllio benbwgilydd. Ond mae a wnelo yn y bôn â'r goruwchnaturiol. Hynny yw, y mae'n holl gynhwysfawr, ac o fewn ei rhychwant cyflawn fe geir yn gyson ddiwylliant ysbrydol. Datblygiad o'r Creu iach yw'r diwyllio hyn i gyd.

Hawdd deall y gamddealltwriaeth amdani. Y mae rhagdybiau a gwaith crefyddol ar gerdded drwy gydol amrediad diwylliannol syrthiedig, eithr nid oherwydd bod crefydd yn rhan o ddiwylliant, ond am fod diwylliant yn rhan annatod o deyrnas crefydd. Yn y fan yna, fe geir hen gamddealltwriaeth dreiddgar ac allweddol gyffredin ym myd dyneiddiaeth: sef gosod syniadaeth dyn yn y canol: yr wyneb yn wyneb bach yn ceisio disodli'r Wyneb yn wyneb Mawr. Proses ddynol o fewn gofod ac amser ysywaeth yw cymryd dyneiddiaeth yn ddogma digwestiwn. Gwedd yw oherwydd y tymhorol. Wrth geisio lleoli crefydd fel un elfen yn unig o fewn rhychwant bywyd dyn, agorir y fflodiart i'w gwneud hi'n elfen ar wahân i'r lleill. Cedwir yr arwahanrwydd hwnnw gan Bietistiaeth grefyddol, ac y mae Cristnogion efengylaidd weithiau yn plygu i'r demtasiwn gan ymgyfyngu yn aml i ddechreuad bywydol Crefydd, sef iachawdwriaeth. Hynny yw, hyd yn oed gyda'r mater mwyaf sanctaidd, mae'r *dyn* yn cael blaenoriaeth ar ogoniant Duw. Mewn gwirionedd, o ran tarddiad, blaenoriaeth a hanfod, fe'i gwreiddir yn yr Absoliwt. Fe'i cyfeirir at Ei ogoniant Ef. Adeg trai yn hanes dyn, da cofio am faint Duw.

Pan ddywedir, sut bynnag, fod Cristion *yn* y byd, heb fod *o'r* byd, hawlir bod mwy na'r berthynas ddaearol gan y Cristion, eithr bod y cysylltiad daear hwnnw hefyd yn bod. Mae a wnelo'r Cristion â'r gweledig a'r anweledig. Yn 'ddaearyddol' fel petai, y mae panorama Cristnogaeth yn lledu i fod mor gynhwysfawr â Theyrnas Duw. Nid oes yr un wedd ar ddiwylliant i neb nas gwreiddir mewn rhagdybiau, neu mewn seiliau crefyddol. Dyma gyfeiriad pob agwedd tuag at absoliwt. Dyma gydnabod hefyd, gan Gristion, Benarglwydd Duw dros bob dim.

Mae'r darlun mawr hwnnw yn angenrheidiol ar gyfer gwerthfawrogi'r darlun bach. Hebdo, tuedd dyn yw canolbwyntio ar waith ei ddwylo'i hun yn hytrach nag ar waith Duw. Gall ganolbwyntio ar yr offer crai i wneud y gwaith, yn hytrach nag ar natur a phwrpas gweithio ymhlith gweithwyr Duw, yn wir er gogoniant i Dduw.

Mae'n amlwg, o leiaf yn y traddodiad diwygiedig efengylaidd, fod diwylliant yn rhan o *Benarglwyddiaeth Absoliwt Duw* ym mryd Calfin. Mae'r Benarglwyddiaeth yn cynnwys y planedau. Mae'n cynnwys pob gronyn o dywod yn y Sahara a phob diferyn o ddŵr yn y Tawelfor. Dyma gryn gyfrifoldeb i'r gweledydd llydan. Mae'n amgylchu'r baban sy'n sugno bron ei fam, a'r henwr sydd y tu hwnt i gymorth pob meddyginiaeth. Hi sy'n pennu'r tywydd a'r deddfau sydd ym myd natur i gyd. Mae a wnelo â'r bywyd sydd y tu hwnt i'r bedd. Nid oes dim wedi bod, yn bod, nac sydd eto heb fod, sydd yn croesi ffin ei hawdurdod hi. Hi biau gofod ac amser, ynghyd â thragwyddoldeb.

Ond ai crefydd yw peth fel hyn? Onid mater dieithr yw hynny? Mae gan grefydd, fel y mae'r ymdriniaeth hon wedi ceisio'i ddadlau eisoes, le cwbl sylfaenol yn arwain diwylliant. Eto, y mae hefyd yn baradocsiaidd yn un o'r arweddau o fewn diwylliant. Yn ôl Alwyn D. Rees, crefydd oedd calon diwylliant, ac yr oedd ef yn cysylltu *culture* nid â 'cultivate' ond â 'cult'. Crefydd oedd rhagdyb eithaf pob dim iddo ef.

Beth, felly, a wna Cristnogaeth o fewn Diwylliant cyffredin a chyffredinol, a'r traddodiad llenyddol Cymraeg yn benodol? Fe'i cyfanna. Ymestynna rhychwant sylweddoliad i gwmpasu'r ysbrydol yn ogystal â'r materol. Egyr ddrysau'r meddwl, ac eglura gydberthynas pethau. Nid ymestynna Penarglwyddiaeth Duw ar draws un wedd ar fywyd yn unig: ymestynna ar draws pob dim. Hau hedyn yn ein bywyd yw Cyfiawnhad (ymhlith pethau eraill): mae Sancteiddhad yn golygu chwynnu (ymhlith pethau eraill), a dyfrha yn ystod y dyddiau sych. Cwmpesir bywyd i gyd.

Ond nid ychwanegir odid un fodfedd o raid at ddawn *naturiol* drwy ddod yn Gristion, er bod dealltwriaeth yn ymledu. Eto, disgwylir gofal o hyd. Yn wir, pan fyddir yn gwyro'n syrthiedig i fod yn bietistig, gellir bod yn ddistrywiol ac yn negyddol. Gall Cristnogaeth syrthiedig gul (ac y mae pob 'eglwys' allanol ar y ddaear hon yn Gristnogaeth syrthiedig) fod yn niweidiol i Gristnogaeth ei hun. Gall sarhau Crist. Eto, cynigia'r Efengyl weledigaeth lawnach: gall gynhyrfu ymroddiad ac egni mewn Sancteiddhad. Yr ym yn byw mewn 'safle cyfadeileddu' (*construction site*). Tyf pobl gyffredin i fod yn anghyffredin. Blodeua ymenyddau. Dyfnha gwelediad a dealltwriaeth. A rhoddir llafar i'r mud, o fewn cyd-destun uwch-naturiol.

Mae hyn yn weddol agos at safle'r Piwritaniaid. Fe'i ceid ymhlith y pum safbwynt a enwir gan Richard Niebuhr wrth drafod perthynas Cristnogaeth a Diwylliant, sef: 'Crist

yn trawsffurfio Diwylliant'. Dyma'r lle y safai Piwritaniaid Lloegr, at ei gilydd yn yr 17eg Ganrif, a Phiwritaniaid Lloegr Newydd a Chymru yn y ganrif wedyn, yn ogystal â Neo-Galfiniaid yr Iseldiroedd yn y 19eg Ganrif. Dylai Cristnogion ymroi i weddnewid y celfyddydau, masnach, y proffesiynau, bywyd teuluol, addysg, a llywodraeth. Rhaid, cyn belled ag sy'n bosibl, fod yn halen yn y gymdeithas, gan hawlio mai Crist biau'r cwbl mewn gwirionedd. Gwnawn hyn yn realistig gan gydnabod mai maes cymysg yr ydym yn gweithio ynddo (Math. 13: 24-30). Ond, hawlia Duw y gymdeithas yn ogystal â'r unigolyn.

Mae gan bawb 'ffydd' (fel y mae gan bawb reswm a theimladau personol). Ffydd oruwchnaturiol neu ffydd naturiol. Ffydd yr Absoliwt neu ffydd yr Ego Trosgynnol. Yng Nghymru bu Cristnogaeth, drwy drugaredd, yn Fetanaratif canolog i'n traddodiad.

A rhan o Gymru Gristnogol, felly, fu'i diwylliant.

Nid symleiddiad yw'r gosodiad hwn. Ond bydd angen diffinio neu ddisgrifio'r geiriau 'Cristnogaeth' a 'diwylliant' yn weddol gryno cyn i'r gosodiad hwnnw fod yn glir yn yr unfed ganrif ar hugain. A bydd diffinio o'r fath yn llai syml na'r gosodiad ei hun.

Oherwydd y dull seciwlar o ystyried Cristnogaeth, – a chrefydd, wrth gwrs, ydyw Seciwlariaeth, ffordd o ymagweddu at Dduw, – fe ddaeth yn arferiad go gonfensiynol ac ystrydebol galed yn yr ugeinfed ganrif i seciwlarwyr gyfrif mai rhan ymylog o ddiwylliant oedd Cristnogaeth. Tybient mai amlochrog oedd diwylliant a gynhwysai amaethyddiaeth, y sefydliadau cymdeithasol, diddordebau hamdden, gwyddoniaeth, gwleidyddiaeth, yr anthem genedlaethol, daffodiliau ac yn y blaen. Un o'r aml ochrau hyn, un o'r rhai lleiaf dylanwadol neu bwysig ym mryd llawer, oedd Cristnogaeth. Felly y troid y berthynas ysbrydol chwithig yn norm syniadol peniwaered.

Mewn Cristnogaeth neu mewn Seciwlariaeth, y mae a wnelom o raid â Phenarglwyddiaeth. Mae 'Cristnogaeth' wrth gwrs yn air a luchir o gwmpas yn bur gafalîr. Gwell imi geisio penodoli'n fras ym mha ffordd y byddaf i'n ei ddefnyddio yn hyn o drafodaeth. Ceisiaf ddiffinio 'Cristnogaeth' yn ôl tair gwedd – ei meddwl, ei pherthynas serchiadol, a'i gwaith ewyllysgar. Bydd yn rhaid bod yn or-gryno, wrth reswm. O ran cynnwys meddyliol, datguddiad goruwchnaturiol yw Cristnogaeth gan yr Ysbryd Glân: y Gwirionedd. Darllenwn amdani yn y Beibl ar ei hyd. Dywed wrthym am gymeriad Duw, am berthynas a gwaith Duw a dyn. Ond y mae'r tair gwedd a nodais yn

berthnasol i Ddiwyllio. Rhan o waith yr Ysbryd Glân wedyn yw'r ymateb gweddnewidiol a phrofiadol sydd yn gyntaf yn argyhoeddi dyn o ddwyyster ei angen. Gyda hynny mae'n ennyn Cariad ymhyfyrdol tuag at Dduw ac awydd i ymostwng ac ufuddhau iddo yn y galon newydd. Cyfeiria'r Ysbryd y pechadur at Iawn Iesu Grist ar y Groes. Dyna sy'n gwneud Cristnogion. Gwaith yr Ysbryd Glân wedyn yw'r gwaith o Sancteiddio Cristnogion ailanedig o ddydd i ddydd i ogoneddu Duw yn ymarferol drwy ffrwythloni'r ddaear er gogoniant i Dduw, drwy wasanaethu cynllun Duw ac wrth garu cyd-ddyn, a thrwy foli Duw mewn myfyrdod, gair a gweithred. Mewn gwirionedd, ffordd o *fyw* yw, sef o gredu ac o weithredu, yn ogystal â ffordd o fodoli a barnu dan gyngor yr Ysbryd. Mae Cristnogaeth yn ymwneud â'r holl berson, yr holl gymdeithas, yr holl greadigaeth, boed yn fywydol neu'n ddigynnau. Darperir ynddi fywyd tragwyddol. Dyna'r dimensiwn goruwchnaturiol uniongred yn blwmp yng nghalon y naturiol.

O fewn y cyd-destun llydan hwnnw y canfyddwn ddiwylliant. Gwaith cyfyngedig Duw a dyn, yn bennaf, yw diwylliant, er y gellid — drwy'r estyniad o Dduw a gydnabyddwn yn ei greadigaeth — weld elfennau eraill ategol ar waith. Arweiniad, felly, gan Dduw, ac ymatebiad gan ddyn yn y greadigaeth i'r gorchymyn i ffrwytho yw diwylliant, boed yn ymwybodol felly neu beidio. Hynny yw, un o ddibenion Duw a dyn yn hyn o fydysawd yw bod Duw yn cael Ei ogoneddu drwy ddarostyngiad y ddaear mewn ffrwythlondeb daionus. Rhoddir gwerth ac ystyr, trefn a diben i'r holl ddiwyllio hwn gan ymgnauldoliad, bywyd a marw Iesu Grist. Darllenwn a dysgwn am hyn eto, a'i ddeall rhywfaint drwy gymorth yr Ysbryd Glân yn y Beibl, lle y rhoddir pob gwybodaeth yn wrthrychol i fod yn oddrychol.

*

*

*

Un o gyfraniadau pennaf Ôl-foderniaeth yn niwedd y ganrif ddiwethaf oedd canolbwyntio'n sylw (er yn negyddol) ar rai o hanfodion diwylliant fel y'u cydnabuwyd ers canrifoedd gan Gristnogaeth. Ceisiwyd ar hyd yr ugeinfed ganrif, wrth gwrs, gefnu ar wreiddiau ysbrydol *gwerth, trefn a diben* fel cymhellion diwylliannol Cymreig, yn arbennig tua throad y milflwyddiant. Cafwyd amryw resymau am y gogwydd hwn, ac am wanychu deallolrwydd a phrofiadaeth y dystiolaeth Gristnogol Feiblaidd. Yn sgil dyneiddiaeth yr Ymoleuo gynt, gwnaethpwyd y dyn naturiol yn ganolog. Yn sgil Rhamantiaeth, dyrchafwyd teimladau, greddfau, a goddrychedd yr ego. Yn sgil

Moderniaeth (term sydd a wnelo rywfaint â ffasiwn a grym newyddiaduraeth), dyrchafwyd y 'newydd' syml ar draul popeth arall megis y drwg neu dda sy'n arhosol. Ceir bob amser hen gynneddf yn natur y dyn traddodiadol i ymwrthod ag awdurdod Duw, a'i wneud ei hun yn dduw. Felly, y mae ambell un o ragdybiau Ôl-foderniaeth mor hen ag Adda. Ceir bob amser botensial mewn dyn i anghredu. Yn lle un Duw, a'r un ffydd, a'r un meddwl, yn lle un Gwaredwr ac un Arglwydd, yr hyn a geisiwyd oedd lleng. Y lliaws oedd y tueddrwydd. Ymhlith rhagdybiau mwyaf ffasiynol Ôl-foderniaeth, fe geid y duedd i bleidio Lluosedd (Pluralism). Aeth bod yn erbyn union-gred yn ystrydeb.

Dyma ddogma blinedig gan Ôl-foderniaeth o natur gymysglyd ac arwynebol na chafwyd digon o hunanfeirniadaeth yn ei chylch. Ymgysyllta â'r ffaith gyfoethog fod pob unigolyn yn ymateb i fywyd rywfaint yn wahanol i'w gilydd. Mae pobun yn dod â chefnidir a rhagdybiau gwahanol wrth ystyried problem bersonol yn ddemocrataidd. Ceir o'r herwydd amllder o ddeongliadau wrth astudio un gerdd, dyweder. Tybia rhai fod hynny'n chwalfa. Ond oblegid yr amllder hwn fe'n cyfoethogir, a cheir datblygiad meddyliol. Ond ceisir estyn y rhagdyb ddogmatig hon ymhellach na'i thiriogaeth briod ei hun. Dadleuir bod amllder o ddeongliadau yn yr un maes yn *gorfodi* amhenodolrwydd neu amhendantrwydd ym mhob maes, does 'dim ots' pa un. Hynny yw, gwneir 'absenoldeb yr absoliwt' yn absoliwt, ac amhendantrwydd o'r herwydd yn bendant. Tardda'r rhagfarn hon o ryddfrydiaeth feddyliol ddogmatig lac. Arweinia hyn wedyn at amhenderfyniadaeth sentimental am ei bod eisoes yn cychwyn mewn amhenderfyniadaeth heb ddod i gwlwm.

Nid ffrwythlondeb yw hyn ond Amrywiaeth heb Undod. Chwalfa heb Gyfeiriad.

Ond priodol cofio bod a wnelom yn y fan hon hefyd â strwythur meddwl ac iaith sy'n afreal. Nid yw'n ymarferol inni ddeall yn eglur heb y *cyfuniad* disgybledig o ansefydlogrwydd o fewn sefydlogrwydd, ansicrwydd o fewn sicrwydd, a'r lluosedd o fewn yr un. 'Gwahuno' iach yw'r term a fathwyd ar gyfer y mecanwaith gorfodol sydd gan y meddwl o 'wahanu ynghyd ag uno'. Gwahenir drwy gyferbynnu dau wrthrych. Rhaid deallol yw sylwi ar y gwahaniaethu sy'n diffinio amrywiaeth yn y byd. Ond pe na welem (yn ffasiynol) ond gwahaniaethau heb y cysondeb sydd mewn gwrthrych o fewn gofod — yn y lle hwn ac yn y lle acw, o'r cyfeiriad hwn ac o'r cyfeiriad arall, yn ogystal ag o fewn amser, gyda thebygrwydd heddiw a doe, o eiliad i eiliad, — yna chwalfa

bersonol fyddai pob profiad. Rhaid mewn symudiad deallol effeithiol ganfod tebygrwydd yn ogystal â chyferbyniad; yr un ynghyd â'r llawer; llusedd ac undod. A hyn sy'n gwreiddio ffrwythlondeb dilys diwylliant yn yr Ardd. Dyna yw bod yn ddydol.

Ar sail dogma llusedd, ceisid gwneud rhinwedd o ansicrwydd, bid sicr. Ceid meddylwyr go gyffredin a go ystrydebol o'r herwydd yn brolio 'ansicrwydd soffistigedig'. Dyma gallineb y meddylwr diog. Dyma uwchraddoldeb y dilynwr taeog gerbron bwli masnachol ffasiwn. Dyma hefyd y meddwl 'arferol' sydd heb ymaflyd yn y ffaith fod pob gair a brawddeg, pob gramadeg ym mhob iaith, yn undod o undodau, sy'n sylfaenol yn ymwneud â'r 'gwir'. Ceir llusedd, ceir; ond o fewn unedau, rhagosodir rheidrwydd o ddeuoedd neu druoedd; gwneir y sylfaen o hyd, a hynny o fewn unedau cyn bod dyn yn gallu meddwl na llefaru. Dyna rym unol Penarglwyddiaeth Duw.

Beth, felly, yw'r gwahaniaeth rhwng delfryd diwylliant yr anghredadun a'r credadun? Neu beth yw'r gwahaniaeth rhwng perthynas diwylliant gras cyffredinol neu ras arbennig?

Dwg y naill a'r llall ffrwythlondeb, trefn, a 'mawl' anymwybodol. Ond dwg y credadun hefyd sancteiddhad a mawl *ymwybodol*, a threiddia'i galon yn ysbrydol drwy bethau a ystyrir yn 'seciwlar'; dwg ddimensiwn personol-dragwyddol. Mater o ansawdd ac o gyfeiriad yw hyn, ac y mae hynny wrth reswm yn treiddio drwy'r cwbl. Newid yw sydd mor ddwfn nes gweddnewid bywyd oll. Nid ychwanegiad nac atodiad mohono, ond chwyldro.

Gwnaeth Lewis Edwards gynt ymdrech i gymeradwyo'r Cyfosodiad Hegelaidd i galonnau Calfiniaid o bob enwad drwy osod y ddeuoliaeth rhwng rhagordeiniad dwyfol ynghyd â chyfrifoldeb dyn yn gyfosodiad goruwchnaturiol ac absoliwt a rôl fethodoleg i bob dull meddyliol. Yn wir ni ddeellid meddai rhai ond drwy fethod Hegelaidd. Ond dechreuai Lewis Edwards yn y lle anghywir. Penarglwyddiaeth Duw yn unig, nid fformiwla dyn yw'r rhyddid cywir. Meddwl Duw sy'n cwmpasu paradocsau diddirnad y dyn syrthiedig deuol — bodolaeth y drwg o fewn y Greadigaeth dda, rhad ras, cydfodolaeth etholedigaeth a chosb, ac yn y blaen, Ei gyfundrefn Ef, heb gyfaddawdu. Ac eto, yr oedd yna baradocs absoliwt: y Duw hwn sy'n ddydol, a'i dragwyddoldeb mewn amser. A gwrthodai Calfin ei hun ddatrys y Gwir hwn drwy fformiwla athronyddol.

Ni raid ofni'r cyfuniad, wrth gwrs. Mae'r cariad dwyfol yn cwmpasu deublygrwydd trist dyn naturiol. Oherwydd hynny, nid oes angen ceisio cyfaddawdu bob amser rhwng diwylliant y byd a diwylliant Cristnogol, yn syml oherwydd bod Gras Cyffredinol a Gras Arbennig yn eiddo amlwg i'r Cristion. Gall yr anghredadun a'r credadun rannu'r un cyfrifoldeb dewis gerbron Duw, ond y mae Penarglwyddiaeth Duw yn ewyllysio gweithredu'n wahanol yn y naill a'r llall.

Seiliwyd pietistiaeth grefyddol gynt mewn camddealltwriaeth ynghylch natur y 'byd'. Mae'r Cristion yn meddwl am y 'byd' mewn dwy ffordd (o leiaf):

- (i) Y byd creedig, ffrwythlondeb Duw, gwedd ar deyrnas Duw. Duw yn caru'r byd Ioan 3: 16. Diwylliant yw un o'r gweddau ar fywyd dyn, bywyd crefyddol dyn a'i ddimensiwn tragwyddol.
- (ii) Y byd ar wahân i Dduw fel y mae, heb fod o dan benarglwyddiaeth yr Absoliwt yn dybiedig, y *bydol* gwrthun sy'n darfod, yr hunanlywodraeth amddifad. Hyrwyddir y dybiaeth gan Bietistiaeth sy'n sarhad ar Benarglwyddiaeth Duw: 1 Ioan 5: 19; Ioan 14: 30; 1 Ioan 2: 15-17; 5: 4.

Didorol cyferbynnu safbwyntiau Luther a Chalfin yn hyn o broblem: Luther am droi calonnau unigol; Calfin — yn cydnabod Crist sy'n llywodraethu popeth ac yn achub y 'byd' (gan gynnwys diwylliant) fesul unigolyn *ac* yn gymdeithasol. Roedd y Beibl i Luther yn ffynhonnell gwirionedd achubol; i Galfin — roedd yn norm hefyd i bob bodolaeth.

Beth yw hyd a lled teyrnas Crist felly?

Tybia'r bydol fod ganddo fodd i fodloni dyn. Ymddyrchafa'r 'byd' i gynnwys crefydd, er cael ei reoli yn ôl egwyddorion a chwantau dynol o fewn natur. Adlewyrchir y rhwyg yma yn y cyferbyniad rhwng:

(i) dyn fel creadur Duw, yn eiddo i Dduw, dinesydd yn Ei deyrnas Ef, yn awyddus i wneud ewyllys ei Grëwr — yn broffwyd (i'r gwirionedd), yn offeiriad (i garu Duw), yn frenin (i stiwardio'r bydysawd), a

(ii) dyn fel annibynnwr hunanlywodraethol.

Maes y gad yw Gardd y Cristion. Rhyfelfa ddramatig yw rhwng Diwylliant Afiach a Diwylliant Gwâr.

Mae hyd yn oed pobl gyntefig yn ymwybodol fod diwylliant yn weithgaredd crefyddol. Yn wir, oherwydd cyntefigrwydd syml eu golwg ar fodolaeth, canfyddant y cysylltiad rhwng eu gwaith bob dydd a chrefydd yn gliriach mae'n debyg na gŵr 'cymhleth' seciwlar y byd diwydiannol. Felly, cafwyd gynt y duwiau Amaethon a Gofannon yng Nghymru. Deallwyd rhywbeth bach ynghylch bodolaeth Duw drwy Ras Cyffredinol a *sensus divinitatis*. Cydweithwyr â Duw yw dyn yn dwyn ffrwythlondeb er ei waethaf ei hun.

Eto, ymgyfeiria llydanrwydd bywyd i gyd tuag at yr Absoliwt; dyna yw crefydd ostyngedig, yn ei 'galon' lle y daw dyn o hyd i'w wreiddyn crefyddol (Diarh. 4: 23; 23: 26). Ond nid digon hynny. Rhaid penodoli o fewn y meddwl, felly, beth yw cynnwys y gwrthosodiad diwylliannol sy'n llunio tyndra. Gwelsom fod yna frwydr ddiwylliannol. Ni ddylid bod yn ddall o 'optimistaidd' ynghylch hyn, a hynny'n unig. Nid dyn a Duw, felly, nid amser a thragwyddoldeb yw, yn unochrog gytûn ac ar wahân; ond pechod a gras, Crist a'r gwrth-Grist, bendith a melltith i mewn yn yr arena. Ac y mae presenoldeb Duw ym mhobman. Un o'r offer ar gyfer gogoneddu Duw yn wyneb hyn yw'r ddaear. Gras a roddwyd gan Dduw yw natur. Ac wedi i ddyn syrthio, rhoddodd Duw ras i ddyn i drafod natur yn iawn. Hyn yw'r fframwaith i iechyd. Dyma fframwaith bywyd lle y mae Duw wedi dewis gweithredu. A gweithreda drwy ddatguddiad arbennig.

Ceisiwn felly fyfyrion am ymestyniad y materion hyn, yn arbennig, ac yn benodol, â'n traed ar y ddaear Gymreig. Ac wrth wneud hynny o fewn cyd-destun penodol a real yr Ardd Gymreig, fe ganfyddwn amryw gwestiynau arholiad dirfodol yn codi. Dyma rai:

1. Ym mha ffordd y gellir dweud bod Cymru rhwng 550 a 1900 yn Ddiwylliant Cristnogol?

A fu gan y Diwylliant hwnnw yn ysbeidiol gyfraniad i'r byd?

Sut y lluniodd wareiddiad nodedig y tu mewn iddo'i hun? Onid yw'r diwylliant unigryw hwnnw yn werth ei ddatblygu ac yn haeddu teyrngarwch ei bobl?

Cafwyd ar un adeg gadarnle clir a phendant y gellid anfon allan ohono genhadon i'r byd i fod yn dystion i'r gwareiddiad hwn, a heb imperialaeth. Do: yn y chweched a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda'r Seintiau ac ar adeg y Cenhadon Efengylaidd, er enghraifft.

2. Sut y gellir sôn am Ddiwylliant Cristnogol Cymraeg heddiw? Beth yw'r berthynas gywir rhwng Diwylliant a Chrefydd yn y cyd-destun cyfoes?
3. Onid oes cyfrifoldeb Cristnogol gan y Cymro i'r Diwylliant Cymraeg heddiw?

Dyna 'gwestiynau arholiad' go iawn. A chawn sefyll yr arholiad hwnnw mewn penodau eraill. Gellir meddwl am wahanol werthoedd sy'n gysylltiedig â meithrin Diwylliant Cymraeg: buont yn rhan erioed o'r diwylliant Cymreigaidd:

- (a) Carthu cymhleth y Taeog, gan dynnu'n teyrngarwch a'n cynhaliaeth yn ôl o'r hen arferion imperialaidd.
- (b) Cynnal Traddodiad Unigryw, Hardd, Dwfn a Gwerthfawr.
- (c) Hyrwyddo'i ran yn Amrywiaeth Diwylliannol y Byd.
- (ch) Dywedir bod perthynas Diwylliant o fewn treftadaeth Gristnogol ddatblygedig i fod yn gaffaeliad i ystwythder a dyfnder meddwl, i addysg, i foesgarwch. Ond nid dyna pam y dylai Cristion ei hyrwyddo, wrth gwrs. Eithr yn syml, er mwyn ufuddhau i orchymyn Duw i fod yn ffrwythlon (yn y lle yr ydym yn fwyaf cymwys ac yn arbenigol ein cefndir, fan yma, os na elwir ni'n benodol gan Dduw i'w wasanaethu mewn man arall heb orlywodraethu a heb ddistrywio'r un daioni a gwareiddiad ffrwythlon). Gellir ychwanegu bod y daioni hwn o dan Benarglwyddiaeth Duw yn bosibl oherwydd Gras Cyffredinol, a hwnnw, yn rhyfedd iawn i'r Cristion ac i'r sawl sydd heb gredu yn Nuw, yn ymwybodol. A chlod i'r Garddwr cyntaf o'r herwydd yw ein rhan.

2. CREADIGAETH: DEUNYDD I'R ARDD

Mae'n rhyfedd fel y mae ymdriniaeth â Duw a diwylliant yn gorfod ymwneud â rhai o'r prif athrawiaethau Cristnogol – Penarglwyddiaeth Duw, Y Ddeddf a'r Drefn, (gan gynnwys crynodeb yr Arglwydd Iesu Grist o'r ddwy brif ddeddf: i garu Duw a charu cyd-ddyn), y Greadigaeth a'r Gorchymyn Diwylliannol, y Cwmp a Pechod, Sancteiddhad i'r sawl sy wedi dod yn Gristion, Gras Cyffredinol, pwrpas Bywyd, Moesoldeb a Gwerthoedd.

Ac oherwydd mai Duw a luniodd y Greadigaeth ac felly'n hollbresennol ynndi, Ef a ddarparodd holl Ddeunyddiau diwylliant. Mae'n sylfaen i fywyd naturiol, sydd felly er gwaethaf y Cwmp yn adlewyrchiad o'i Ogoniant.

Beth felly yw prif thema neu destun y penodau cyntaf o Genesis?

Ai'r greadigaeth yn unig? Ai dyfodiad dyn?

Nage: yn y dechreuad – Duw. Ein cyflwyno ni i Dduw tarddiadol a chreadigol a wna'r ysgrythur hon. Dywed rywbeth am allu a chymeriad ac ewyllys Duw. Nid ein goleuo ni ynghylch y dull y crewyd y byd a wna'r geiriau hyn yn bennaf. Ein cyflwyno a wna hyn oll i'r Crëwr, ac esbonio bod a wnelo'r Greadigaeth â gwaith Duw, sy'n esgor ar waith dyn. 'A da oedd'.

Ac wrth inni fynd ymlaen drwy'r Beibl, peidier â meddwl mai adrodd hanes dyn yw'r prif destun. Nid Abraham, Isaac, Jacob, Dafydd Frenin, Eseia, ac yn y blaen sydd dan sylw yn flaenaf. Nid nhw yw'r arwyr. Ond hanes Duw ei hun o hyd ac o hyd, Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, ar waith. Dyma Ei hanes yn palu'r ardd. Y greadigaeth a garodd yw Eden; ac yng Nghanaan, Ef yw'r Prif Gymeriad. Dod a mynd y mae'r Brenhinoedd a'r Proffwydi.

Pa fath o Dduw yw hwn? Duw yw ef a saif uwchlaw pob peth ac ym mhob peth. Un yw Ef y mae ei awdurdod yn ymestyn hyd yr eithafoedd, o'r manaf i'r mwyaf, drwy bob dim sy'n digwydd, a'r tu hwnt. Ni ellir Ei gyfyngu i un swyddogaeth yn benodol. Nid yw Ef yn bodoli er mwyn dyn, nac er mwyn achub dyn. Duw dechreuol a phenarglwyddiaethol yw Ef. Byddai cyfyngu ar Ei arwyddocâd mewn unrhyw fodd yn sarhad. A'r Duw hwn sy'n caru'i greadigaeth.

Mae sylweddoli tarddioldeb pob peth yn Nuw yn gymorth inni ddeall gwedd ac ystyr unol pob peth. Nid oes dim arall ond Ei eiddo Ef. A hebdo Ef collwn ystyr bodolaeth diwylliant creadigol. Ef a rydd ystyr i bopeth creedig.

Ond beth yw'r dull a ddefnyddia'r Ysgrythur i gyflwyno'r Duw hwn sy'n creu? A yw'n ceisio cyflwyno'r rhyfeddod o greu mewn modd gwyddonol yn ôl dulliau annigonol unrhyw gyfnod? A yw'n manylu ar natur yr atomau yn y Deunyddiau a wna, a'u tarddiad? A yw'n esbonio'n union beth yw ansawdd gwyddonol yr holl ddeddfau naturiol y mae'n eu sefydlu, y DNA, ac ym mha ffordd yr adeiladwyd celloedd gwaed Adda a'r cyfundrefnau a luniwyd yn adeiladwaith ei gorff a'i feddwl? Ai dyna'r bwriad ffaeledig yn *Genesis*? Ynteu yn ôl dulliau gwyddonol manylach y bumed ganrif ar hugain?

Pe felly, a fyddai wedi gallu llwyddo o fewn mil o dudalennau, neu filiwn o filoedd, i amlinellu a chynnwys manylion adeiladwaith y greadigaeth oll i ddyn cyfyngedig ei ddeall. A allai holl lyfrau gwyddonol y tipyn unfed ganrif ar hugain amgylchu miliynfed ran o'i ryfeddod?

Nid dyna'r dull a fabwysiadodd o'i ddatguddio'i hun yn y greadigaeth. Pes gwnaethai, ni buasai Adda, mwy na'r gwyddonydd disgleiriaf yn yr ugeinfed ganrif neu'r bumed ar hugain, wedi gallu amgyffred mwy na'r manion lleiaf yma ac acw. Nid oedd hynny'n ofynnol ar y pryd nac yn awr.

Pa ddull a fabwysiadodd Duw felly?

Dull Mawl. Dyna'r dull sylfaenol a pharhaol a oedd gan Dduw, ac sydd ganddo heddiw, i ddyn ddeall digon o'i Wirionedd i dderbyn yn feddyliol ac yn ysbrydol bopeth y mae ei angen arno. Iechyd yw Mawl.

Dim ond drwy'r egwyddorion Cristnogol Moliannol hyn o Greadigaeth a Rhagluniaeth y mae modd 'esbonio' pethau'n gwbl ddigonol ddibynnol. Gwirion fyddai'r sawl a ddisgwyliai iddo esbonio mewn modd nad yw'n berffaith. Mae'r Greadigaeth a'i harddwch a'r gwaith creadigol sy'n para ynddi yn arwain yn ôl at y Crëwr. Yr Ysgrythur drwy Fawl sy'n egluro i ni egwyddorion dilys Cristnogol: 'achos', 'bodolaeth', 'gwerth', 'trefn' (sy'n cynnwys 'ystyr', a 'moesoldeb') a 'phwrpas'. Heb feddu ar y rhain (neu eu *rhagdybio* hwy) ni allai'r anghredadun weithio na diwyllio yn foddhaol. *Rhagosodiadau* ydynt felly a roddir i ni; ac y maent yn ddigon 'rhag' i'n meddwl ni. Y Duw hunanwireddol yn unig yw'r priod 'rhag' i'r Cristion a'r anghredadun. Nid oes amgen. Fe'i gŵyr y Cristion. Nis gŵyr yr anghredadun yn ymwybodol; ac o'r herwydd, ni cheir ganddo berthynas feddyliol ddeallus. Druan o'r gwyddonwyr a'u rhagdybiau bythol gyfnewidiol mewn balchder unfed ganrif ar hugain.

Heblaw tystiolaeth oddrychol a gwrthrychol anochel am *fodolaeth* Duw, y mae'r Greadigaeth hefyd yn mynnu bod y fodolaeth honno'n mynnu *perthynas*; a'r berthynas honno yw caru, adnabod, a stiwardio, ac adeiladu atomau ei chelloedd: canfod Duw yn Ei ogoniant yn y Greadigaeth, a diwyllio'r Greadigaeth honno benbaladr er Ei glod. Testun Mawl yw'r holl bethau yna. Ac yn ei waith 'creadigol' bach ei hun, y mae dyn yn y diwedd yn adleisio'i Grëwr.

Cyswllt yw'r Greadigaeth rhwng Duw a dyn creedig.

A dangos hynny yw rhan o waith yr Ysgrythur mewn modd sy'n sylfaenol farddonol hanesyddol, yn ddoethinebol sagrafenol, o Genesis i Ddatguddiad. Ni chais gyflwyno'r esboniad yn null gwyddoniaeth y bumed ganrif cyn Crist na'r bumed ganrif ar hugain wedi'i oed Ef, gan egluro pob problem yn yr effeithiau perthnasol nad oes modd inni eu hamgyffred hyd yn oed pe baem yn eu gwybod yn fanwl. Go brin na buasai neb effro yn disgwyl hynny. Ond yr hyn a ddisgwyliem yw Mawl i'r Creawdwr ynghyd â'r gwir hanesyddol fel y gallai'r symlaf lwyddo i'w ddeall yn ddigonol, yn ôl yr hanfodion patrymog hardd. O ble y daethom ni? Pam? I ble'r ydym ni'n mynd? Gwir digonol yw'r cwbl sydd yma mewn arddull dragwyddol.

Cyflwynir ni i Greadigaeth a luniwyd gan Dduw personol-drosgynnol. Rhwir i ddyn *sensus divinitatis* (synnwyr o Dduw) fel y gall y symlaf o bobl iach ymateb i'w bresenoldeb. Yr unig rwystr yw'r gynneddf syrthiedig, sy'n codi mewn dyn gynddaredd neu farwoldeb creulon, yn y profiad hwnnw.

Dyma ddyn yn yr Ardd ddwyfol felly. Ond yn yr ardd ddynol fe gafwyd Sarff.

Does dim modd 'deall' y Sarff chwaith mewn termau materol. Ond yn sgil bodolaeth y Sarff, a cholli'r cyswllt glân rhwng dyn a Duw, daethpwyd i ddeall yn baradocsaidd ragor o wirioneddau am Dduw ei hun a rhai o gynneddfau prydfarth Duw. Oherwydd y Sarff, fe roddwyd Mab i ni a allai'i threchu. Cynigiwyd perthynas lân a pherffaith o'r newydd y tu hwnt i gyrraedd marwol y Sarff. A chawsom wybod y gwir am Dda a Drwg. Cynigiwyd buddugoliaeth brydfarth i'r hyn a wnaeth Duw i'w gymodi'i hun â'i blant drwy'r Weithred fwyaf daionus a mwyaf cariadus a allai fod. Ond erys honno yn ddirgelwch, y tu hwnt i'n dirnadaeth; ac yn wir, nid yn unig gostyngeddwydd, ond y

mae synnwyr cyffredin hefyd yn dangos inni fod aruthredd y byd ysbrydol mor ddwfn fel na ddylem ddisgwyl ei ddeall ond 'yn ddigonol'.

Eto, datguddiwyd yn fras beth o'r hanes – y Creu, y Diwyllio, a'r Cwmp – gan Foses. Hanes ysbrydol-gorfforol oedd hyn, wrth gwrs; a thipyn yn naif fuasai ei drafod fel arall. Nid yw'n groes o gwbl i dipyn dealltwriaeth Gwyddoniaeth o'r Greadigaeth, nad yw er hynny yn esbonio'r drwg mewn unffordd arall. Ac yn sicr, nid oes angen ymatal rhag yr ymchwil fythol i adeiladwaith rhyfeddol y bydysawd yn ei gyflawnder er gwaethaf presenoldeb angau a phechod a Satan. Diwyllio yw peth felly.

Mae'r greadigaeth, felly, mewn modd syml ond moliannus effeithiol, yn cyflwyno i ddyn dystiolaeth eglur o ryfeddod, mawrhydi a gallu Duw. Digonol yw'r greadigaeth ei hun drwy lygaid Mawl i argyhoeddi person cytbwys iach o fodolaeth a gwaith Duw. Wrth gwrs, y mae'r dyn naturiol yn gwrthod y datguddiad hwnnw, ond y mae yno, ac y mae'r sawl sy'n gwrthod ei wefr yn ddiesgus. Gyrrir dyn i ymwrthod â'r dystiolaeth sydd o flaen ei synhwyrau, serch hynny, er bod y greadigaeth yn dwyn olion digamsyniol o'i Gwneuthurwr a'r Trefnydd, ac y mae'r gelyn ei hun hefyd yno mor eglur i synnwyr cyffredin.

Heb dderbyn bod yna Dduw, nid oes dim cyfeirbwynt eithaf i gynnig yn synhwyrol onest nac achos, bodolaeth, gwerth, trefn (sy'n cynnwys deddfau) na phwrpas. Absoliwtrwydd Goruwchnaturiol Duw yn y pen draw yw'r unig sail esboniadol foddhaol i'r rhain. Neidir drostynt a wna'r dyn 'damweiniol' yn niffyg hunanymholiad ei Ego Trosgynnol. Damwain a gaiff esbonio'r anodd iddo. Eto, pe bai'r theori ddamweiniol a relativrwydd metaffisegol yn gywir, ni ellid esbonio er enghraifft yr un o'r materion hollol ymarferol ac angenrheidiol sydd ger ein bron bob dydd.

Nid oes gan y greadigaeth, megis dyn, gyfeirbwynt eithaf ynddi ei hun. Arwyddbost yw'r naill a'r llall sy'n cyfeirio'i ffordd at yr Absoliwt, y Duw hunanddatguddiol, Hwn sy'n ateb y pam yn ogystal â'r sut. Hwn yw Garddwr y Greadigaeth.

Yn ystod y ddadl newyddiadurol a gafwyd yn 2009-2010 oherwydd dathlu dau ddogwyddiad yn hanes Darwin, bûm i'n chwilio'n daer ymhlith anghredinwyr am dystiolaeth wyddonol ynghylch tarddiad Deunydd, a Drygioni, tarddiad Trosglwyddo Cenhedlol Bywydol, tarddiad yr ymwybod bythol-bresennol o Bwrpas, ac o'r DNA

(Deoxyribose-nucleic acid), a tharddiad y broses o Ffurf, y pam a'r sut. Yn achos Hawking, roeddwn i'n darllen ein bod ni'n gorfod dechrau gyda'n hen gyfaill dyfal Disgyrchiant ac roedd popeth wedyn yn creu bywyd a phopeth ohono'i hun. Camp go acrobatig fu peidio ag esbonio tarddiad y 'dechreuwr' real ei hun, gorchest fentrus ar sail y fethodoleg oddrychol.

Mae'r Darwiniaid yn tueddu i gychwyn mewn man go ddatblygedig eisoes yn hanes bodolaeth. Meddai Charles Darwin mewn llythyr at James Hooker ym 1871: 'If (and oh! What a big if!) we could conceive some warm little pond, with all sorts of ammonia and phosphoric salts, light, heat, electricity etc. present, that a protein compound was chemically formed ready to undergo still more complex changes.'

O na bai'r bylchau hyn eisoes ganddo ar blât.

Ymddengys fod dyn yn tueddu i gyfyngu gwybodaeth i'r hyn a wŷyr, – *wedi'r pwll* – drwy ddulliau amser/gofod, am bethau y tu hwnt i amser/gofod yn ôl ei wybodaeth ar y pryd, boed yn y 6ed ganrif cyn Crist, neu'r 6ed wedyn, y 6ed ganrif cyn heddiw fel y bydd y 6ed ganrif ar ein hôl. A'r hyn y mae'n chwilio amdano drwy'r 'amser' yw modd y tu allan i'r bydysawd i greu'r bydysawd. Onid effeithiai hynny ar bopeth gwyddonol wedyn? Yr Ardd er enghraifft. Nid modd i ddsbarthu yw ei her, ond y modd i ddechrau mewn dim ac esbonio popeth, gan ddweud pam.

Priodol cofio nad yn Genesis yn unig y ceir y sôn am y Greadigaeth yn y Beibl, er bod yr hanes yn y fan yna yn rhyfeddol ac yn ogoneddus. Clywch wedd arall fwy rhyfeddol ar y digwyddiad cychwynnol hwnnw. Dyma sut y mae'r bennod gyntaf o Epistol Paul at y Colosiaid yn sôn am berson a gwaith ein Harglwydd Iesu Grist: *'Hwn yw delw'r Duw anweledig; oherwydd ynddo ef y crewyd pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear, pethau gweledig ac anweledig... Trwyddo ef ac er ei fwyn ef y mae pob peth wedi ei greu. Y mae ef yn bod cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll.'* Dyma iaith Mawl ac iaith Hanes, y Goruwchnaturiol ar waith, a Christ, ail berson y Drindod, eisoes yn adeg y Creu.

Roedd y Greadigaeth ei hun yn ddigon o dystiolaeth am Dduw a lefarodd.

Yr ydym yn gyfarwydd â'r wybodaeth hon ar ôl darllen Efengyl Ioan, wrth gwrs, hyd yn oed os nad ydym yn deall y pwerau nerthol, a phresenoldeb ymarferol ail Berson y Duwdod yn y weithred oruwchnaturiol anferth honno: *'Daeth pob peth i fod trwyddo*

ef: hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod. Ynndo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd... Yr oedd yn bod, a daeth y byd trwyddo, ac nid adnabu'r byd mohono.'

Dyma gyd-destun pwerus a digonol i sylweddoli cyd-destun hanes ysbrydol goruwchnaturiol diwylliant, a gwedd ar y diwylliant a ewyllsiodd Duw: sef hollbresenoldeb Crist. Ac i sylweddoli'r gwrthyferbyniad goruwchnaturiol hefyd.

Dyma ateb plaen ac eto syfrdanol i'r holi ynghylch arwyddocâd perthnasol y Creu, pan feddyliwn am Undod â Christ. Mae'r cwbl oll ynghlwm wrtho Ef ac yn ddi-fai gynhenid. Dyma'r Goruwchnaturiol fel nas clywsom mewn unman arall. O'r dechrau cyntaf, fe gafwyd, yn yr hyn a wnaethpwyd gan Iesu Grist, ei bresenoldeb a'i hawliau a'i gyfeiriad cydlynol Ef. Dyma ddatguddiad eglur a heriol yn y Testament Newydd. Ac y mae'n hawlio sylw. Mae'n dweud llawer wrthym am Berson Crist. Mae'n gymorth inni'i adnabod Ef. Ond dywed am Ei berthynas â'r greadigaeth. Bydd yn rhaid defnyddio lletach deall a dyfnach dychymyg nag wrth ddadansoddi'r elfennau sy'n llunio gwneuthuriad dŵr pwll dyweder. Mae'r Greadigaeth yno'n grwn er mwyn i ni edrych oddi wrtho tuag at Greawdwr goruwchnaturiol. Ie, gor-uwch-naturiol yw Hwn.

Pan lwyddwn i ystyried ein perthynas ni â phob dim, dyma'r weledigaeth sy'n esbonio i ni'r perspectif Goruwchnaturiol/Naturiol cywir. Yn gyntaf oll, ceir yr un tarddiad gwerthfawr i bopeth, boed yn weledig neu'n anweledig. Ceir cydlyniad rhwng pob dim (does dim yn ddrylliog, ynysedig, ar wahân i hawliau Crist). Ceir cyfeiriad a phwrpas i bopeth. Mae ei ansawdd Ef yn sylfaen i'r cyfan. Hynny yw, gwyddom am gyswllt pob dim â'i gilydd. A'r Absoliwt yn y pethau yna yw'r Unwr.

Eto, drylliwyd y berthynas honno rhwng dyn a Duw. A bu'n rhaid adfer, clymu, ail-blannu, a glanhau'r Ardd. Ni bydd modd inni wynebu perthynas Duw a diwylliant oni byddwn hefyd yn wynebu dwyster a dychryn y gelyn a geisiai ddifwyno'r cwbl, yn arbennig perthynas pethau. Hawdd deall symud pwyslais efengylu ambell waith oddi wrth addoli a gogoneddu a moli Duw er mwyn sôn am achub dyn. Adfer perthynas Duw a dyn yw'r allwedd i ddeall *canol* y Greadigaeth. Ond y mae a wnelom yn y bôn â Duw sydd o ran Ei hanfod yn helaethach nag achub dyn. Arwain at Hwnnw a wna'r Greadigaeth.

*

*

*

Mae awdurdod Cristnogol yn helaeth ac yn amlochrog.

Ni bydd neb yn synnu bod cyfrol mor gynhwysfawr â'r Beibl yn sôn am y Creu. Wedyn, mynnir yn aml mai'r prif beth yw achubiaeth dyn a'i fywyd bob dydd. Ond yr un rheswm sydd i'r ddau beth, ein cyfeirio ni at Dduw. Onid dyna'r efengyl? Y Creu yw'r neges gyntaf yn gronolegol. Hyn sydd yn gyswllt anghenus ym mhob un, yn Gristion neu beidio. Eto, nid dyna'r unig gyswllt. Nid oes gobraith inni wrth gwrs heb Greawdwr ar waith mewn byd syrthiedig. Dyna pam y mae cymaint o sôn gan Galfiniaid am Greawdwr a Gwardwr ynghyd felly. Eto, gofynnwn: onid digon yw cyfeirio at iachawdwriaeth dyn, at ei aileni, y pechadur yn cael ei adfer i berthynas â Duw, heb gael cyd-destun y Creu na'r Sancteiddhad?

Pam y mae'r Epistol at yr Effesiaid yn sôn am berthynas y gweithiwr a'i feistr o bethau'r byd? Yn wir, y mae cymaint o'r Testament Newydd (mwy na'i hanner efallai) yn sôn am Sancteiddhad – llyfrau cyfan ynddo. Mae hyd yn oed yr Arglwydd Iesu Grist yn dweud llawer amdano, ie hyd yn oed yng ngweddi'r Arglwydd. Eto, ni all dyn wneud dim oll fel Cristion heb iddo fod yn gadwedig. Oni ddylem ganoli'n gyfan gwbl ar ddechrau crefydd yn yr aileni? Heb hynny, does dim Cristnogion ar gael, heb neb i ddweud y gwir am y Greadigaeth ei hun.

Rhoir mwy o le i faterion eraill yn y Beibl, oherwydd bod bywyd y Cristion mor llydan, a'r berthynas â Duw yn lletach o lawer nag achub. Gall canolbwyntio ar angen dyn ein llygatynnu oddi wrth flaenoriaeth meddwl am bethau pwysicach. Dyna pam yr oedd yn fuddiol dechrau ym Mhenarglwyddiaeth Duw. Eto, wedi'r Creu a'r berthynas rhwng y Crëwr a'r creedig, beth yw'r angen i ddwyn pob rhan o'n bywyd beunyddiol, pob munud o bob dydd at draed Crist yn hytrach na sôn yn unig am berthynas dyn a chyd-ddyn? Yn syml er mwyn inni gymhwyso ein holl weithredoedd er clod iddo Ef. Hyn hefyd sy'n berthnasol i'r anghredadun, ac yn wedd ar y Benarglwyddiaeth.

Rhyfedd wrth gwrs ond gwir ddigon yw bod 'holl gyngor Duw' yn llawer mwy na bywyd dyn. Un o'r beirniadaethau ar Evan Roberts a diwygiad 1904 oedd na wyddai ef beth i'w wneud â'r bobl a ddô'i'n Gristnogion o dan ei weinidogaeth wedi iddynt ddod i brofiad o Dduw. Cynnyrch ysgol Charles Finney oedd ef. Dyna oedd effaith y dethol ar Air Duw a'r syniadaeth am y ffordd y dylid lliwio a llunio'r efengyl drwy ganolbwyntio'n ormodol ar y profiad o ddiwygio ymarferol. Achub oedd popeth.

Y dacteg oedd mynd yn ôl dro ar ôl tro at ddechrau crefydd mewn aileni, drwy waith yr Ysbryd. Wedi i berson gael ei aileni, sôn eto yr wythnos ar ôl hynny am yr un aileni, ymlaen wedyn at yr un peth, hyd yn oed os oedd yr holl gynulleidfa eisoes efallai yn eiddo i Dduw. Ymlaen o hyd at ailenedigaeth. Hyn oedd yr efengyl wedi'r cwbl. Moesoldeb wedyn wrth gwrs. Pechod oedd fan yna. Ond heb nodi'r awdurdod ym mhob gwedd ar fywyd ym mhob rhan o fodolaeth nac am ein lle yn yr Ardd, onid ofer yw?

Bid siwr, gwyddom bellach nad achubiaeth dyn oedd ac sydd bwysicaf, ond gogoniant Duw. Yng nghanol ein golwg, Ef sydd yno – Ei fawredd a'i harddwch, Ei lendid a'i drugaredd, Ei allu a'i gariad Ef biau'r goron ar bopeth. Y perygl bythol yw canoli'n ormodol ar ddyn.

Ie ... ond: onid yn ei ymwneud â dyn y canfyddwn Dduw yn fwyaf gogoneddus? Onid gogoneddu Duw yw cydnabod a mawrygu'r holl bwrpas y tu ôl i'r Ymgnewdoliad? Iesu oedd Ef, achubwr, wedi'r cyfan. A dyrchafodd enw Duw wrth farw dros wrthryfelwr hunanol. Onid ym marw iawnol yr Arglwydd Iesu y canfyddwn orau Ei gariad a'i dosturi a'i dduwdod, ac y down i'w adnabod fwyfwy? Onid diolch am hynny bob amser sy'n gweddu i bawb ohonom sy'n Ei garu, hyd dragwyddoldeb? Onid dyna'r lle y down i amgyffred Duw mewn cynifer o'i arweddau ac y cawn fodd i'w foli? Beth arall y dylem ei geisio neu'i grybwyll hyd yn oed? Onid oedd efengyleiddwyr ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn llygad eu lle ynghylch perygl ymadael yn ormodol â dysgeidiaeth y Groes, er gwaetha'r diwygiad mawr? Onid yn y fan yna y ceir uchafbwynt cariad Duw?

Mewn gwirionedd, cyflwyna'r Beibl inni fframwaith inni ddeall holl gyngor Duw. Dechreuir drwy gyflwyno Creadigaeth hardd fel yr oedd i fod. Wedi'r Cwmp, mae Duw drwy'i Fab yn datrys tramgwydd pechod a'r bedd. Ac arweinir ymlaen at ogoneddu'r diwedd drwy Nefoedd newydd a Daear newydd.

Beth felly yw canlyniad y duedd Bentecostalaidd i gyfyngu swyddogaeth yr ail berson a'r trydydd yn y Drindod i'r rôl achubol yn unig? Gellid deall y cymhellion sydd y tu ôl i ddiffinio Iesu Grist yn ôl rôl achub uchafbwyntiol. Ond ni wna'r tro i aros yn y fan yna gan fod y duedd hon yn crebachu ac yn bychanu'r Arglwydd, a chan mai hollol annigonol yw o sabwynt y Gwirionedd. Yn y pen draw mae'n gwanychu'r dystiolaeth amdano. Yn wir, nid dyna'r ddealltwriaeth o lawnder anferth Iachawdwriaeth ei hun na'r Greadigaeth ei hun.

Ac eto, wrth gwrs, dyna uchafbwynt perthynas dyn a Duw. A 'pherthynas' yw calon yr Efengyl Gristnogol. Gallem yn rhwydd wneud cam â'r pwyslais Efengylaidd. Y neges yw i beidio â cholli golwg ar rychwant a gweithredoedd Duw, ac isbwysleisio'r Creu. Wrth gwrs, Achubwr yw Ef, ond Arglwydd yw hefyd. Mae'r Crëwr yn *Iesu*. Ond eisoes, Brenin yw Ef ar bob peth, Carwr pob peth hefyd. Hwn yw'r person sy'n marw drosom ni; ond Hwn hefyd sy'n arwyddocaol i bob ymwneud â'n bywyd ar y ddaear hon. Un yw i'w ddilyn ym mhob dim. Y gwir yw bod angen i'r Efengyllyddwr gydnabod cyflawnder Person a swyddogaeth Crist. Onid e, crebachu yw'n cred.

Mae a wnelo Ef â bywyd oll, felly. Er mor dyngedfennol o bwysig yw tröedigaeth, y mae anwybyddu llawnder bywyd yn sarhad ar Benarglwyddiaeth a swyddogaeth Crist. Mae cyfyngu'r efengyl i dröedigaeth yn gwrthosod diwylliant a swyddogaeth briodol Crist yn yr Ardd. Mae'n dilorni'r corff oherwydd pwysigrwydd a gwerth yr ysbryd, yn groes i hawliau Crist mewn gwirionedd ac yn tanseilio efengylu ei hun, am fod yr Arglwydd Iesu Grist yn ôl y dystiolaeth orau sydd gennym amdano yn berthnasol i bopeth. Heb hynny, yr ydym heb olwg ddigonol ar Ei Berson.

Aethpwyd ymlaen wrth drafod Cristnogaeth ymhellach na bodolaeth neu ddigwyddiad y Greadigaeth, oherwydd bod y Greadigaeth hithau wedi mynd yn ei blaen. Wrth ystyried arwyddocâd a natur a phwrpas y Greadigaeth, nid oedd dewis ond gwireddu pob athrawiaeth arall drwy'r Ysgrythurau. Y gwir yw bod y greadigaeth yn llefaru ac yn tystio'n ddiderfyn drwy ragluniaeth. Ond y mae yr un mor wir bod y gwrandawr yn ffaeledig o'i mewn mwyach. Duw, felly, a lefarodd drwy amryfal arddulliau, ffurfiau, a phersonoliaethau gynt ac yn awr.

Sylfaenir yr olwg ysgrythurol ar y Greadigaeth ei hun ar y weithred ddwyfol o greu *ynghyd* â rhaglunio. Ni all y Crëwr a'r Rhagluniwr, sef Duw, lai na bodoli. Ni all y credadun lai na chydnabod bodolaeth y Deunydd creedig. Eithr mae Duw yn dal i weithio ac i weithredu. Ni fedr anghredadun wrth gwrs, er gwaethaf ei dipyn dysg, gynnig profion terfynol pam y mae deddfau yn teyrnasu, nac fel y mae i bob digwyddiad achos a phwrpas. Rhagdybiau yw'r rheini oll iddo. Yr unig ragdyb sy'n medru sicrhau rheswm di-dwll dros y rhain oll yw bodolaeth Duw a llais Duw ar gyfer gweithredu. Profir Duw iddynt (ymhlith pethau eraill), o ran rhesymolrwydd gant-y-cant, gan amhosibilrwydd y gwrthwyneb. Nid oes i'r rhagdybiau angenrheidiol, na bodolaeth, achos na phwrpas i

weithredu'r un ystyr ond o fewn fframwaith absoliwt cadarnhaol a chanddo ddeinameg gyfeiriedig.

Hynny yw, ni all yr anghredadun, er pob ymdrech daer, ddarparu'r seiliau eithafbwyntiol angenrheidiol – ym meysydd bodolaeth, achos, trefn, ystyr (sy'n wedd ar drefn) na phwrpas – nac ar gyfer gwybodaeth a moesoldeb – heb Dduw. Yr unig ateb llawn resymol i'r cwbl, yw'r Duw tragwyddol-bersonol. Dyna pam, er mawr ymdrech, y mae'n gwbl amhosibl profi nad oes Duw. Hwn sy'n cyfrif hefyd sut y caiff Cristnogion sylfaen i'w diwylliant o fewn creadigaeth drefnus ystyrllon, a hynny am iddynt gael prawf personol ohono. Mae hyd yn oed amheuaeth yn ein cyfeirio at Dduw.

Pe bai hon yn greadigaeth gan siawns, byddai pob ffaith ar chwâl. Ni cheid perthynas rhwng pethau a'i gilydd. O'r herwydd, byddai iaith yn gwbl ddamweiniol, heb yr un cysondeb, heb categorïau dadansoddol, heb gydlyniad. Byddai dealltwriaeth yn gorfod dechrau o'r newydd a darfod gyda phob profiad. Byddai hyd yn oed dweud bod rhywun yn anghredu'n amhosibl.

Iawn oedd Pantycelyn yn *Golwg ar Deyrnas Crist* i osod yr Arglwydd, nid yn unig ar ddechrau pob dim, eithr hefyd ar ddiwedd pob dim, yn cyflwyno'r Greadigaeth oll yn ôl i Dduw, yn gwblhad, yn uchafbwynt, ac yn fuddugoliaeth sydd wedi gweithredu wedyn cyn ei digwydd. Efô yw'r rhagosodiad ar gyfer pob peth, yr Absoliwt personol angenrheidiol. Cymerwn felly fod yna Dduw na all ond bodoli a gweithredu. Ef a greodd ac a drefnodd y byd a rhoi iddo hanes cyflawn. Dyna'r eithafbwynt a hawlir; a'r ôl-osodiad hefyd.

Beth yw'r gwrthwynebiad i hyn? Ai gwneud syniad *dyn* darfodedig yn eithafbwynt damweiniol heb darddiad? Ni ellir profi dim ar y sail yna. Ni ellir esbonio'i fodolaeth i ddechrau, nac achos nac effaith. Ni ellir ei brofi'n empeiraidd gan na all y meidrol yn fod yn siŵr o'r hyn sydd y tu hwnt i'n profiad empeiraidd; ac nid yw'r egwyddor empeiraidd ei hun yn brofadwy'n empeiraidd.

Symuder ymlaen i Werth, felly. Mae'r Duw hunanwireddol a greodd Werth ac a gyhoeddodd Werth yn y bennod gyntaf o Genesis yn ddigonol i esbonio pob gwerth sy'n bod ac sy'n gorfod bod, gan gynnwys gwerthoedd pob dydd. Ond dyn ohono'i hun, o'r braidd ei fod ef yn gallu esbonio sut y mae hyd yn oed bodoli'n 'werthfawr' yn bosibl (hynny yw, yn werth iddo gael yfory) heb sôn am ddim arall.

Beth am drefn a deddfau? Y gwir yw bod yna drefn ac 'anhrefn' ym mhob man. Yr hyn sy'n caniatáu inni'u canfod, dewis, a phwyso, a mesur yw Duw a ymfodola. Dim arall. Ni all dyn 'hunanlywodraethol' ddibynnu'n llwyr ar un ddeddf naturiol yn fwy na'r llall heb wreiddio'i ragdybiau a'i wybod o'r tu allan iddo'i hun. A chyda phwrpas wedyn, nis ceir heb y dimensiwn a ganfyddir yn y Crëwr a'r Barnwr Tragwyddol Personol. A heb y rhain oll, byddai diwylliant ei hun yn amhosibl. Ond ffenomen dreiddgar yw Creadigaeth.

Hyn oll a hunan-ddatguddiwyd o fewn cyd-destun *y tu hwnt* i amser a lle yn unig, fel y gellid dod o hyd i bwrpas sylfaenol i bopeth yn yr Un sy'n rhagflaenu ac yn uwchfodoli y deddfau naturiol meidrol. Heb y Pwrpas gwrthrychol ei hun, ni byddai'r mân bwrpasau ond yn hwylio ar chwâl mewn gwagle. Er gogoniant i Dduw y mae popeth yn cael gwerth ac ystyr. Heb Ei drefn Ef, ni chaem ein tipyn trefn ni.

*

*

*

Mae unigrywiaeth ac amrywiaeth ffurf a chynnwys y Beibl yn rhoi cryn anhawster i ysgolheigion sy'n ceisio'i drin megis llyfrau eraill. Mae'n tarfu weithiau ar ragdybiau ynghylch dyddio a dehongli. *Onid ymhlith yr ysgolheigion crediniol sy'n derbyn awdurdod y Beibl a hefyd yn rhagdybied bodolaeth y Goruwchnaturiol, ceir dau grŵp bras sy'n arddel anffaeledigrwydd y Gair – sef y llythrenolwyr a'r trosiadwyr.* Mae'r naill a'r llall yn credu mai Gair Duw ydyw. Credant fod y cwbl yn wir ac yn awdurdodol. Plygasant ill dau'n ufudd gerbron y geiriau a anadlwyd drwy ddyinion meidrol gwahanol gan yr Ysbryd Glân. Ystyriant yr Ysgrythur yn ddi-wall fel y daeth oddi wrth yr Ysbryd hwnnw. Pleidiant ysgolheictod llawysgrifol, awdurol, ac ieithyddol; a gellir cydnabod didwylledd a gofal y naill garfan a'r llall, a'u cyd-barchu.

Gall y naill garfan a'r llall gydnabod bod y llythren (sy'n wir) yn gallu lladd, a'r Ysbryd yn gallu bywhau. Cydnabyddant fod yna Dduw geirwir goruwchnaturiol sy'n gweithio mewn Hanes ac yn llefaru'n wir. Ond a gaf rybuddio y trosiadwyr yn arbennig, gan fod rhyddfrydwyr anghrediniol yn dewis yr un llwybr sylfaenol yn union â hwy i raddau ond er mwyn rhwygo Gair Duw a'i ddiffrio a'i ddiberfeddu? Nid esgus yw trosiad na barddoniaeth y Beibl lle bynnag y bo, i ddianc rhag Hanes. Nid esgus yw chwaith i ffoi rhag y Goruwchnaturiol. Does dim dwywaith ynghylch hanesyddoldeb ysbrydol a chorfforol yr ysgrythurau: ymwnânt â'r hyn a ddigwyddodd yn ddiriaethol. Does dim

dwywaith chwaith ynghylch goruwchnaturioldeb yr ysgrythurau. Duw goruwchnaturiol a ddatguddir i ni yn y fan yna, o'r Greadigaeth ymlaen. A rhaid i'r llythrennol ragflaenu.

Pa awdurdod arall, cyn y Creu, a all *adrodd* am y Creu? Neb ond y Creawdwr, Iachawdwr, Cynhaliwr; Tad, Mab ac Ysbryd Glân. Penarglwydd ystyr a threfn, y Carwr mawr yw Ef. A themau Mawl ydynt oll. Ni ellir symud at ddeall trosiadol heb ddeall llythrennol.

Seilir y trosiadol ar y llythrennol, megis y mae pob llythyren yn symbol.

Peidier felly â chamgymryd grym llythyren na throsiad na hawliau'r Beibl. Eto, dim ond drwy gymryd iaith yn 'llythrennol' hanesyddol o ddifri y deuir i gredu ac i adnabod yr hyn a fynega hyd yn oed ar ffurf trosiad. Plentyn sy'n ceisio dweud y gwir yn llawnach yw trosiad neu alegori (gw. *Galat.* 4:21-5:1). Allwedd i dŷ'r llythrennol yw trosiad. Os ceisir gwneud môr a mynydd o'r drosiadaeth ymbellhaol, ac os ceisir felly osgoi ymrwymiad yn yr ystyr llythrennol, yna ni phrofir natur ieithyddol trosiad. Nid dyfais i wanhau credu a dibynnu ac ymgrymu fu nac yw trosiad. Byth. Mae iaith ei hun i gyd yn drosiadol; trosiadol yw popeth a ddywedir: dethol (yn drosiadol) yw pob hanes; cynrychiolwyr yw seiniau geiriol i wrthrychau eraill. Pan ddywedir sillaf megis 'gardd', dibynnir ar Wirionedd dichwarae. Yr hyn a wneir drwy iaith yr Ysgrythurau yw galw arnom ni i dderbyn gwirionedd di-wall yr hyn a ddwedir, gan mai Gair Duw yw hyn. Dyma fu'r ffordd briodol a'r ffordd orau o ddatgan y Gwirionedd. Dyma'r unig ffordd ddigonol i fynegi ffydd sy'n hanesyddol ac yn ysbrydol yn ei hanfod o'r Creu drwy'r Ymgnewdoliad, a'r Atgyfodiad i ddyfodiad yr Ysbryd Glân ac ymlaen i Farn. Beth bynnag yw'r ffordd o'i ddehongli, deuer at hyn fel plentyn. Deuer heb osgoi a cham-drin geiriau dilys. Rhaid edrych drwy sbectol iaith drwy gydol y Beibl o Genesis i Ddatguddiad tuag at yr hyn sydd o'r tu ôl, a gorau po fwyaf syml y bo'r llygad felly. Drwy'r hyn a roddir ac a gredir y dysgir deall. Dyma, os mynnir, y llwybr mwyaf bywiol o daclus bob amser i ymaflyd mewn trosiad llythrennol. A dargyfeiriad anghrediniol yw popeth llai.

Yr ydym yn byw yn y llythrennol ac yn byw yn y trosiadol yr un pryd. Dyna a sylweddola pob beirniad gofalus a geisiodd fyfyrion ddwys am lenyddiaeth drwy ddoniau Gras Cyffredinol. Yn hyn o beth, mewn Gras Cyffredinol fe gyfrennir o'r un doniau gan bob meddyliwr ystyriol.

Yn y gwrthwynebiad anghrediniol sefydliadol o awdurdod yr ysgrythur, ni chafwyd gormod o ddealltwriaeth o'r dull troadol/llythrennol o ddarllen Mawl. Enghraifft bwysig o hyn oedd y disgrifiad neu'r dehongliad o 'Uffern', nad yw'n gemegol fanwl, mae arnaf ofn. Enwir gwahanol nodweddion ohoni gan yr ysgrythur: (1) Tân, (2) Tywyllwch, (3) Cosb, (4) Ail Farwolaeth, (5) Alltudiaeth o Bresenoldeb Duw, (6) Dim Gorffwys, (7) Wylo ac Ysgyrnygu Dannedd. Ond ym mryd Calfin, trosiadau oedd y rhain oll ar gyfer yr annisgrifiadwy. Ac felly y'i dilynwyd ef yn ddiweddar gan efengyleiddwyr canol y ffordd megis J.I. Packer, Billy Graham, Leon Morris, a D.A. Carson. Mae'n debyg y byddai'r all-wyddonwyr llythrennol ac 'atheistig' yn y cyfeiriad arall yn ddealladwy amheus am adnod megis Eiseia 55: 'a holl goed y maes yn curo dwylo'. Dyma'r rhai hefyd a gondemniai'r Beibl am sôn am yr haul yn codi. Ond di-glem yw darllen o'r fath.

Dull arall gan wrthwynebwyr y Beibl heblaw anwybyddu troadol/llythrennol er mwyn pleidio anghysondeb neu wallusrwydd y Beibl oedd cymryd egwyddor mewn un rhan o'r Beibl: megis 'llygad am lygad' (lle yr oedd yn cyfleu cydbwysedd barn, a'r gwrthwynebiad i fynd dros ben llestri wrth farnu) heb ystyried yr estyniad diweddarach i drugaredd Gristnogol, Math. 5, 39: 'Ond rwyf i'n dweud wrthyh...' Y mae Duw drwy gydol yr Hen Destament hyd at gyflwyniad y Testament Newydd yn datblygu datgeliad llawnach ohono'i hun. Felly y disodlir llawer o'r cosbau troseddol, er bod eu difrifoldeb yn aros. Erys yr egwyddor o finiogi wrth ddisodli trefniadaeth wleidyddol a phriodasol, a diweddarau deddfu ynghylch eiddo a gweision caeth. Tystio yr ym i Dduw a'i dadlennodd ei hun ymhellach, gan bwyll, o dywyllwch deall hyd at yr ymddangosiad perffaith; ond nid ar chwarae bach.

Gwyddys am lu o geisiadau i danseilio ysgrythur, pob un o'r hen amser, sydd wedi diflannu fel niwl y mynydd erbyn hyn: gw. astudiaeth ohonynt gan Norman Geisler a Thomas Howe, *When Critics Ask*, (Grand Rapids. MI 1992), Gleason L. Archer Jr, *New International Encyclopedia of Bible Difficulties*, (Grand Rapids, MI 2001). Yr wyf yn credu bod yr hen ddull negyddol hwnnw o ddarllen y Beibl wedi'i chwyldroi'n fwyaf penodol o dan ddatblygiad gwyddor archaeoleg: gw. John Elder, *Prophets, Idols and Diggers*, (New York, Books Merrill, 1960).

Yn Oes Aur Amsterdam a'r Hen Princeton ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd ddiwedd yr ugeinfed ganrif, oes Charles Hodge, A. A. Hodge, B. B.

Warfield, a J. Gresham Machen, dull Mawl oedd y dull a fabwysiadwyd i ddehongli dehongliad y Beibl. (gw. *Calvin, Geneva, and Revival*, Westminster Conference, 2009)

Mewn Mawl y sefydlir lle Duw yn y weithred o Greu ac yng nghynhafiaeth y Greadigaeth mewn Diwylliant.

Tair prif wedd Gristnogol sydd ar Ddiwylliant.

- (1) Bodolaeth: Bod (Ymatebir iddo'n sythweledol)
- (2) Gwy-bodaeth: Tafod (Fe'i dadansoddir)
- (3) Ymddygiad: Mynegiant (Fe'i cyfansoddir)

A cheir ysywaeth dair ffordd fras gan ddynion o synied am y Greadigaeth:

- (A) Yr olwg hunanlywodraethol: dyma'r damweiniol, lluosol chwâl, relatif, amhenderfyniadol, yr Ego Trosgynnol yn llywio pob casgliad: Agnostig.
- (B) Golwg y Deist lle y ceir y Dylunydd, a dyn sy'n gallu ymateb yn synhwyrol i iaith, mathemateg, gwyddoniaeth, moeseg, rhesymeg oherwydd cadw math o wybodaeth isymwybodol o Dduw. Hynny yw, credu bod trefn yno, ond heb warant.
- (C) Gwarant Penarglwyddiaeth Duw sy'n clymu'r cwbl yn ddeheuig ystyrllon a phersonol mewn perthynas: y Cristion a'r Molwr. Gall y Greadigaeth a'i harddwch a'r gwaith creadigol arno gan ddyn ein harwain at Dduw, gan gynnwys y Dylunydd.

Mae'r Duw cynhwysfawr yn hawlio'r seiliau i bob diwylliant yn y Greadigaeth. Mae arnaf ofn fod pobl, pan fyddant yn sôn am 'ddiwylliant', yn synied yn bennaf am ddiwylliant aruchel a dethol. Ni byddant yn meddwl am 'ddiwylliant' fel rhywbeth sy'n disgrifio menyw yn dechrau dilyn deiet er mwyn colli pwysau. Nid 'diwylliant' rywsut yw chwarae rygbi na hyd yn oed canu pop. Tueddant i synied am Rembrandt a Dante, am y Parthenon ac am Blato. Rhywbeth i'r crach yw diwylliant meddir.

Ond diwylliant i Dduw oedd pob twf iach yng ngardd ei Greadigaeth.

Credir yn fynych mai rhaid yw meddu ar gryn allu a doniau neilltuedig i gyfrannu at ddiwylliant cyfnod. Dyna'r tudalennau yn y papurau Sul a osgoir gan y 'werin'. A hwyrfrydig fyddid braidd i goelio bod rhywun sy'n trwsio teiar beic neu'n coginio stecen yn arddangos gwedd ar ddiwylliant ei wreiddiad a'i wareiddiad. Ac eto, i bobun academiaidd sydd wedi gorfod myfyrio o ddifrif ynghylch diffiniad diwylliant yn ei ystyr

lawnaf, cesglir y byddai pob gweithred o'r fath sy'n uwch na'r anifeilaidd a'r greddfoll yn adlewyrchu diwylliant rhywun. Dyna'r rychwant.

Yn hyn o beth y mae diwylliant i ddyn mor gyffredin â chrefydd. Gellir dweud fod y naill yn rhan o'r llall y down yn ôl ato oherwydd mai canolbwynt perthynas yw. Ond i rywrai, y bythol gwestiwn yw, pa un yw'r rhan, a pha un yw'r cyfan?

Ceir ymwybod o grefydd (o fath) gan bob person lle bynnag a phryd bynnag y mae a wnelo â chredu neu anghredu yn Nuw a Gwirionedd, boed yn foesol neu'n anfoesol, ac yn rhoi sylw i werthoedd neu beidio, ac yn synied am ystyr marwolaeth neu beth yw'r hunan. Ewch i'r ddryswig neu i ganol anialwch, mae crefydd yn ffenomen gyffredinol yn y fan yna, hyd yn oed pan geisir bod yn ddifater amdani. Nid ffenomen neilltuedig i ryw seremonïau penodol nac i ryw bobl ysbrydoledig yw crefydd. Nid oes dim y tu allan i gylch diddordeb y crefyddwr nac i gylch awdurdod Duw, hyd yn oed y negyddol. A chamgymeriad fyddai neilltuo crefydd i unigolion dawnus neu swyddogol wahân nac i unrhyw ffordd benodedig o feddwl am fywyd. Mae crefydd yn bresennol ym mhob ffordd o fyw ledled y ddaear; ac felly, diwylliant. Ond y mae a wnelo crefydd hefyd â'r Greadigaeth heb ei diwyllio, ac ar wahân i ddyn. Dyna'i rychwant i mewn a'r tu allan i amser a lle. Mae crefydd yn diffinio'r Greadigaeth.

Dwy ffenomen ar 'wahân', felly: diwinyddiaeth a diwylliant – i rywrai, dyna ddau bwnc esoterig braidd. Ond materion cyffredin iawn ydynt. Diwylliwr a chrefyddwr oedd y dyn cyntaf. A thybiaf mai priodol fyddai ceisio ystyried beth oedd ac yw eu perthynas i'r dyn cyffredin nawr, gan fod y naill gyflwr a'r llall wedi'r cwmp yn eiddo i bawb ac yn effeithio ar ein bywyd i gyd. Ni pherthyn Crefydd i un hanner o'r ymennydd, a Gwyddoniaeth neu Ddiwylliant i'r hanner arall, fel y myn rhai. Mae yna Feistr ar feistr Mostyn.

I mi, yr union athrawiaeth Feiblaidd sy'n egluro orau natur y berthynas rhwng Cristnogaeth a diwylliant yw '*Undeb* â Christ'. Yn rhy fynych, oherwydd dylanwad Cyfriniaeth, dylanwad a all fod yn hyfrydol iachusol bid siŵr, tueddwn i feddwl am yr undeb hwnnw mewn modd profiadol neilltuedig. Ond credaf mai pwysig yw cofio am undeb llawnach, mewn modd hollol ymarferol ac ewyllysiol, a gafwyd mewn Ymgnawdoliad. Mae a wnelo ag ymddygiad a gweithredoedd o lawer math. Lle bynnag y bo gwerthoedd neu drefn neu ddiben bywyd y mae crefydd. Gydag aeddfedrwydd, fe

ddysg y Cristion fod Cariad yn golygu llawer mwy na Serch Rhamantaidd neu Ryw. Golyga Dduw. Mwy yw hefyd na phrofiad goddrychol ysbrydol. 'Os cerwch fi, fe gedwch fy ngorchmynion.' Rhyfedd o fyd. Mae Cariad ar waith, ac yn bodoli yn y baw a'r ymostwng, mewn gwasanaeth, mewn gweithredu aberthol. Felly yr unig y Cristion â Christ mewn diwylliant o bob math. Efô sy'n rhoi i ddiwylliant ei ystyr amlochrog a'i ruddin priodol. Yn y bôn, mae'r ateb yn y ffaith mai Duw yn unig sy'n creu, ac mae Duw a dyn (er yn wahanol o ran gradd) ill dau yn diwyllio. Duw cariad yr undod yw'r Crëwr.

Yn oes Fictoria, ceisiodd Matthew Arnold, ac yn ei sgil W. J. Gruffydd yng Nghymru, ein perswadio ei fod yn gallu llunio barddoniaeth a oedd i bob pwrpas yn ddwyfol-debyg. Gwelent swydd broffwydol i farddoniaeth. Ond hefyd tybient fod eu dychymyg a'u hawen hwy eu hun yn medru cyrraedd uchelderau a oedd i bob pwrpas yn uwchnaturiol, yn 'arallfydol', ac yn meddu ar ansodau'r Duwdod. Drwy'u hymdrechion awenyddol, ymgodent i awdurdod uwchlaw'r dynol cyffredin. Nid dyna'r tro cyntaf y cysylltwyd yr Awen â'r Allor. Roedd y rhan fwyaf o feirdd Cymru yn yr oesoedd canol, efallai o Daliesin hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn arddel tarddiad dwyfol o'r fath i'r Awen. Ond dichon fod yna beth gogwydd gwahanol yn y pwyslais rhwng y ddau gyfnod: wedi Fictoria ac ynghynt. Lle yr oedd Matthew Arnold a Gruffydd yn synied amdanynt hwy dan eu stêm eu hunain yn cyrraedd y nefol leoedd, tybiai'r beirdd am ganrifoedd ynghynt fod yna amodau yn y weithred o ufuddhau i'r Awen a'u gorfodai hwy i gydymffurfio â daioni a harddwch a meddwl a darddai yn yr Ysbryd Glân. Daw hwnnw i lawr atynt hwy gydag awdurdod. Ar y naill law, codai'r dynion eu hunain i fod megis duwiau; ac ar y llaw arall, ddi trefn ac ysbryd y Duwdod i lawr i blygu dynion i batrwm a meddwl a oedd yn rhodd ddihaeddiant iddynt hwy.

Mae'r ddwy olwg hyn ar natur ac ymddygiad yr Awen yn esgor hefyd ar ddwy olwg gyferbyniol ar berthynas yr Allor a'r Awen, sef diwinyddiaeth a diwylliant. Ymgais yw'r ysgrifau hyn i fyfyrion ar berthynas arddwrol a dibennol diwylliant – nid y celfyddydau yn unig, ond llediad pob gwedd ar y diwylliant dynol – a diwinyddiaeth. Ceisir ystyried hefyd a yw synied bellach am yr ysbrydol fel grym nid yn unig yn y celfyddydau, ond mewn diwylliant cyffredin, yn bwnc sy'n meddu ar unrhyw ystyr neu arwyddocâd yn y dyddiau gwrth-oleuedig ôl-fodernaidd hyn? Diwylliant yw gwaith corfforol ac ysbrydol dyn er mwyn Duw: Crefydd yw perthynas Duw a dyn ym mhob

peth ac ym mhob gweithred. Pan roddir Diwylliant yn ei le, yna ym mryd y Cristion y mae Duw yn dod i lawr i'r canol bob dydd, fel y gwnaeth yn y Creu ac yn yr Ymgawdoliad. Gellid enwi lleoedd lle na cheir diwylliant dynol: ni ellid enwi unlle lle na cheir Duw.

Felly, wynebwn yr anialwch a ddaeth atom o'r gorffennol, gyda'n meddyliau'n fwy effro.

Bellach, mae rhai o ragdybiau neu ddogmâu diwedd yr ugeinfed ganrif yn cael eu herio'n bur gyffredin. Er enghraifft, mae'r damweiniol a'r relativ wedi dechrau mynd o dan gysgod eisoes. Mae'r rheidrwydd i amau heb ddatrys, (a hynny fel petai'n egwyddor meddwl), ei hun yn cael ei amau. Ac yn lle dull confensiynol y materolwyr anhunanfeirniadol, dechreuir aildderbyn fwyfwy y rheidrwydd o Absoliwt a Threfn.

Ystrydebol braidd (oherwydd diogi ysbrydol) fu'r patrwm arferol ar gyfer ymagweddu at grefydd neu anghrefydd yn nechrau'r unfed ganrif ar hugain: ansicrwydd diddychymyg os dirdynnol o ddiwyd, arferoldeb sgeptig y pantheist diberson. Gwrthodir y Creu a neidir yn hapus braf at ateb ymddangosiadol pob ateb, sef esblygiad. Tewir ynghylch gwraidd y drefn ddeinamig. Ni thelir sylw i esblygiad cyntaf *bodolaeth*. Ac y mae cam cyntaf popeth, *bywyd a chyfundrefn a goroesi*, yn gyfleus o absennol i feddylwyr honedig gyfoes. Ni thrafodir rhagdyb yr Ego Trosgynnol, nac anocheledd *rhagdyb*. Ni thrafodir hyd yn oed *Absoliwt y gwir*. Ni thrafodir yn ystyrion y 'dadleuon' yn erbyn yr *Ysbryd Goruwchnaturiol*. Yn rhy aml, ar y cyfryngau, rhyw fath o gefndir cyfarwydd digynnwys yw hyn oll i'r ochr dybiedig gadarnhaol a hoffai bleidio Cristnogaeth newyddiadurol – awyrgylch, ysbrydoledd heb naratif na sylwedd ystyrol, yr awydd am y ffrâm heb y cynnwys, actio'n ystumiol, allanolion, styntiau 'carismatig', a'r goddrychol 'traddodiadol': peidio â thrafod yn ddeallol y llenwi bylchau a esbonnir yn uniongred Feiblaidd, dyna sydd fwyaf cyfleus.

Yn y goreuon, sut bynnag ceir hiraeth ysbrydol dwfn, ac awydd i ymgolli yn y cyfanrwydd lletach. Datblygiad gonest a syml yw o'r *sensus divinitatis*, gyda'r holl beryglon o fodloni ar ymwybod o fodolaeth. Ond y perygl pennaf heddiw fel erioed yw'r Ego Trosgynnol, yr ymwybod balch o'r hunan. Hynny yw, yn rhy aml, eir yn arallfydol ormodol neu'n ormodol brin, heb fyfyrion'n ddigonol am y cysylltiad a ddatguddir drwy weddau gwahanol yn gyson drwy gydol yr Ysgrythurau. Mae tipyn o waith ymarferol ar

ôl felly ym maes addysgu er mwyn sylweddoli catholigrwydd Diwylliant a Diwinyddiaeth, os ydym yn mynd i ateb rhai o brif broblemau Cymdeithiad y Naturiol a'r Goruwchnaturiol.

3. DEDDF A THREFN: SUT MAE'I THRIN?

Trefn ar Natur yw Gardd. Ond y mae Natur ei hun eisoes yn meddu ar drefn – tymhorau, crinder dail yn darparu gwrtait, mae yna gelloedd ymhobman. Nid oes Deunydd heb Drefn. Mae'n wedd ar Fodolaeth. Ac y mae'r garddwr da yn manteisio ar y rhain, ac yn ychwanegu 'chwynnu' atynt.

Mae yna drefn oherwydd Gras Cyffredinol. Hynny yw, Duw a roddodd drefn, heb i neb ei haeddu. Ond mae yna bellach ym mhob man ysfa am drefn, hiraeth gan ddyn am ymwybod â pherthynas ystyrion rhwng popeth â'i gilydd. Nid ydym wedi'r Mudiad Rhamantaidd yn ddigon effro i hynny; a cheir math o awydd 'mentrus' neu ddymuniad cnawdol am yr hyn a elwir yn Rhyddid, sy'n golygu mor aml benrhyddid hunanol yr Ego Trosgynnol. Dyna'r elfen anarchaidd dreisgar sy'n goglais pob un yn gynhenid, nid yn unig o ganlyniad i'r Cwmp, eithr hefyd oherwydd bod yna ymwybod 'cyfiawn' gennym fod caethiwed o unrhyw fath yn beth annymunol. Anesmwythyd i Ramantwr yw trefn.

Fe ellid disgwyl y gellid rhannu'r ffrwythau'r ardd mewn dwy faged. Yn fwyaf niferus, yn wir yn gyffredinol, ceir basged yr anghredinwyr. Ac yn lleiafrifol, bob amser efallai, basged y credinwyr. Eto, gellid disgwyl mai dwy faged sydd gan y credinwyr hwythau gan fod ganddynt yr un rhaid i ddiwyllio'r ddaear yn gyffredinol ag a ddisgwylir gan anghredinwyr, – ffrwythau'r Corff, – eithr gan ychwanegu ffrwythau'r Ysbryd. Mae disgwyl i'r sawl y dihunwyd eu hysbrydoedd i ddwyn gerbron y ddau fath, er lleied, mewn basged anfeidrol ei maint. Deuliaeth yw bywyd y credadun, sy'n dymuno, – hyd yn oed i'r ffrwythau naturiol, bob amser, – ddwyn nodweddion anweledig difrif yn ei ysbryd.

Y mae'r dyletswyddau'n bur debyg mewn Gras Cyffredinol i gredadun ac i anghredadun, ond ceir perthynas o fath unigryw yn eiddo i Gristion. Yr un deddfau *naturiol* a'r un gyfundrefneg *naturiol* sydd gan Gristion; ac mae'i waith ef, fel gwaith yr anghredadun, yn golygu dadansoddi a chyfansoddi'r ddaear; eithr iddo ef neu iddi hi y mae Sancteiddhad yn golygu bod bywyd oll, mewn cyfanrwydd unol newydd, yn cynaeafu mewn dimensiwn arall i Grist hefyd.

Os yw'r dehongliad hwn yn gywir, y mae hyn yn golygu y dylai'r disgrifiad o ddiwyllio i Gristion fod yn wahanol – ac yn llawnach mewn ffordd od – nag i'r anghredadun. Mae hefyd yn golygu, oherwydd rhyw fath o dir cyffredin, o leiaf yn eu lleoliad daeryddol a'u hanghenion corfforol a meddyliol, ac oherwydd eu bod yn byw

gyda'i gilydd mewn cymdeithas, ac yn wynebu llawer o'r un problemau moesol o hyd, fod yr hyn a feddylia'r Cristion yn ychwanegol (yn ei fryd ei hun, o leiaf) yn berthnasol hefyd i anghredadun, er na wŷr hwnnw beth yw peth felly. Mae yna weddnewidiad i fywyd naturiol i Gristion; ac o'r herwydd, mae yna ychwanegiad ysbrydol hefyd i fod yn gorfforedig yn y gras cyffredinol sy'n eiddo iddo.

Mae'r gosodiad hwn am ryw reswm yn ddirgelwch i anghredinwyr am nad ydynt yn fodlon synied am sefyllfa 'anghyfartal' honedig. Anesmwythant hefyd ynghylch ymgais dybiedig ac amheus o du'r Cristion, i broselytio. Yn wir, y mae hyn yn gamddealltwriaeth annifyr, gan y dylai rhyddid meddyliol ganiatáu i ddychymyg pawb daflunio i safbwynt hyd yn oed y rhai sy'n anghytuno â hwy. Ni ddylid teimlo rhwyrstr gan artist dawnus o anghredadun rhag mwynhau gwaith credadun fel celfyddyd, beth bynnag y bo'r anghytundeb. Ond mae yna wrthuni cynhenid yn bod ambell waith. Cyfyd aroglau anffodus weithiau uwchben y berthynas. Yn y pen draw, nid yw'r anghredadun yn deall ychwanegiad neu weddnewidiad credadun ond i raddau.

Bydd unrhyw sôn am Gristnogaeth, a'i chyfraniad i Feirniadaeth Lenyddol, yn dramgwydd i anghredinwyr. Cofiaf feirniad o Gristion yn cael ei herio am fod ei egwyddorion yn cael eu defnyddio i oleuo rhyw ddadleuon ynghylch Ffurf lenyddol. Atebai'i fod yn ofni nad oedd ar adeg eu sgrifennu, ddim yn ystyried cyflwr eneidiau'i ddarllenwyr, fwy nag wrth ddisgrifio thema bersonol arall. 'Ond yr ych chi'n cyflwyno'r efengyl yn eich gwaith beirniadol yn fynych', meddid. 'Ydw', meddai'r beirniad, 'ond heb unrhyw fwriad i droi neb yn gredadun. Mae'r esboniad o'r efengyl yn y lle a'r lle oherwydd ei fod yn egluro neu'n cyfleu profiad thematig, sefyllfa a chredo'r bobl a drafodir.' Yn y Gymraeg o leiaf mae 'uniongrededd' Cristnogol – er mor ganolog am ganrifoedd – at ei gilydd wedi mynd yn ddiarth oherwydd dirywiad rhyddfrydig y cenedlaethau ers 1850. Ond o'r chweched ganrif hyd yr ugeinfed, bu trwch meddwl a gwareiddiad arweinwyr Cristnogol Cymru yn meddu ar Draddodiad Awstin/Calfin, hyd yn oed, o ran naws a detholiad cryf cnewyllyn cyson o gadarn o gredoau (neu yn ôl terminoleg Alvin Platinga 'the A/C Model', h.y. Acwin/Calfin). Hoffaf ymadrodd Tudur Jones, 'gwareiddiad Calфинаidd'. Pair hyn annifyrrwch heddiw i garwyr llên. Ond y mae'n ffaith academaidd y dylid ceisio'i deall. Fel yr oedd Dr Christine James hithau wedi gorfod esbonio rhai cyfeiriadau Beiblaidd go elfennol yng ngwaith Gwenallt, felly wrth

egluro'r meddwl a'r profiad Calфинаidd, ni ellir llai na cheisio diffinio aileni a chyfiawnhad a'r cyfryw faterion 'technegol'. Mater academaidd penodol yw hyd yn oed 'profiad' dwys yn y traddodiad Cymraeg, er mor anodd i rai yw deall ei strwythur.

Darganfod trefn mewn anhrefn yw un o ddiffiniadau Diwylliant, a dyna yw peth o swydd beirniadaeth lenyddol hithau: palu'r ardd. Ac os yw'r ardd honno i rywrai yn cynnwys Blodau'r Ysbryd, yna torchi llawes amdani.

Mae Trefn yr 'Amryw mewn Undod' yn rhywbeth y mae pob llenor (yn isymwybodol fel arfer) a phob beirniad llenyddol (yn ymwybodol) yn ymwneud ag ef. Ond y mae hefyd yn un o'r gweddau mwyaf sylfaenol mewn Diwylliant i gyd. Ac ymhellach, mae'n un o'r egwyddorion mwyaf pellgyrhaeddol hyd yn oed mewn Diwinyddiaeth. Wrth ystyried Duw ei hun, eglurwyd hwnnw i Gristnogion yn Dduw Tri-yn-Un (Tad, Mab, ac Ysbryd Glân). Ac eglurwyd yr Ail Berson, Iesu Grist, fel dwy natur mewn un person, yn Dduw ac yn ddyn. Ond fe'i mynegir hefyd gan Dduw drwy gyfundrefnau deuol a thriol (cyn belled ag y'u deallwn ni) ym mhob cyfran o'i Greadigaeth. Un o gyfundrefnau Gras Cyffredinol yw o eiddo'r Amryw mewn Un.

Bu'r holl gysyniad o drefn yn hanfodol i ddynoliaeth drwy gydol ei hanes er mwyn deall 'popeth' ac adeiladu iaith. Gair arall hanfodol inni fu deddf. Cyfarfyddwn oll â choedwig wyllt, a deuir o hyd i lwybrau drwyddi. Wynebhir cymysgedd aneglur o ran trefn mewn cymdeithas, a cheir bod yna fodd i ganfod patrymau ac i'w defnyddio hwy. Darostyngir afreoleidd-dra bywyd oll gan synnwyr. Yng nghanol y Cyfan, gwelir Cyfan sy'n Rhannau. Ac wrth wneud hynny, down yn nes at yr hyn a gyfrifwn yn Wirionedd ac yn ddealltwriaeth gywir.

Ymhlith y teimladau a brofir yn ddymunol neu'n hanfodol mewn Gwerth, y mae'r ysfa gynhenid hon am Drefn yn bur amlwg. Ceisir dewis y ffordd orau oherwydd eglurder a chymhendod. Dymuna llenor roi trefn ar ei brofiadau – eu dadansoddi a'u dosbarthu, gosod cydbwysedd arnynt. Ond gwna hynny o fewn cyd-destun rhoddedig o drefn sydd yno eisoes – miloedd, onid miliynau, o ddeddfau bach a mawr sy'n gynhaliaeth naturiol iddo ef a'i fyd. Darostwng y ddaear y tu mewn i'r rheini y mae.

Heblaw bod yna werthoedd sy'n rhoi boddhad i ddyn, y mae dyn yn troi at Werth fel y cyfryw, o anghenraid, er mwyn mwynhau'i drefn, neu o leiaf i ddarganfod rhyw

drefn o werth cymharol sydd ynddo – a yw hyn yn well na'r llall? Pa un a ddewisaf o'r ddau beth hyn neu o'r ddwy weithred hyn? Nid doeth yw symud heb hynny fel arfer.

Rhan o'r gwaith o ddiwyllio yw cyfraith gwlad hithau – y deddfau. Ond yn y creu, cafwyd deddfau naturiol, a roddodd drefn gynhenid ar y gymysgfa a'r gwacter cynhenid.

Mae'n amlwg fod yna wahaniaethau a thebygrwydd ymhobman. Diau felly fod y potensial i'r ddeuliaeth honno i'w gael yn y ffynhonnell eithaf ei hun. Ac yn wir, felly y'i datguddia'i hun, ac felly y'i gwelsom. Soniwyd am y ddwy natur mewn un, y Crist sy'n Dduw, a'r Iesu sy'n ddyn. Yr ysbrydol a'r materol. Gweddau yw'r materion hyn ar yr Undod Absoliwt. Perthyn y ddeuliaeth hon i'r ddeuliaeth o Newid a Sefydlogrwydd, Dewis a Gorfod: y gwahanu sy'n uno gwerth.

Mae'r cyferbynnu cyntaf (y Drindod) yn ymwneud wrth gwrs â graddfa gyfwerth, a'r ail (y ddwy natur) yn ymwneud â graddfa uwchraddol (ymostwng) ac israddol weledig. O sylwi ar yr ail, gallwn ddod i'r casgliad sicr, er enghraifft, fod addoli Duw'n bwysicach na moesoldeb cymdeithasol (neu ddyneiddiaeth resymegol). Ond oherwydd yr Undod sydd o gylch yr Amryw, y mae yna berthynas annatod rhwng y naill a'r llall. Rhinwedd yw ymostwng i'r Duw a ddatguddiodd i ni – yn nhrefn a chyfyngder ein deall – fodd i'w fawrygu Ef. Ac oherwydd addoli-garu Duw, dysgir caru dyn ar ei ddyfnaf.

* * *

Efallai mai dau o'r prif ddrysau trefnyddol i mewn i ddiwylliant yw iaith a deall. Ac y mae iaith, a meddwl o fewn iaith, yn un o'r prif offer ar gyfer gwareiddio unrhyw wlad. Ond y mae yna le go benodol i iaith mewn Cristnogaeth hefyd. Sonnir am yr Arglwydd Iesu Grist fel y Gair, ac am yr Ysgrythurau hwythau fel Gair Duw.

Sonnir am y Greadigaeth hefyd yn nhermau ieithyddol. Mae Duw yn datgan 'Bydded', ac yna, fe'i ceir. Ac fe'i ceir yn ôl y drefn ym meddwl Duw, yn ôl y *Logos* (cf. Logic). O'r drefn anweledig yn Arfaeth Duw y ceir y gweledig yn y Greadigaeth. Duw sy'n gweithredu ac yn llefaru synnwyr yw'r Duw Cristnogol, felly. Yn yr Arfaeth, yr oedd yr Wyddor neu'r Deddfau neu'r Gramadeg ei hun – yn anweledig. Ioan1:1 *Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair.*

Dyna'r cynieithyddol hefyd o safbwynt dyn, yr hyn a gyflwynwyd iddo, yn Drefn. Wedyn, y mae dyn yn ei dro yn darganfod ac yn dadansoddi'r drefn sydd ynddo ac o'i amgylch. Gwna hynny yn gyntaf wrth 'adeiladu' iaith, a thrwy ddefnyddio iaith. Gen.

2:19, *Felly fe luniodd yr Arglwydd Dduw o'r ddaear yr holl fwystfilod gwyllt a holl adar yr awyr, a daeth â hwy at y dyn i weld pa enw a roddai arnynt; a pha enw bynnag a roes y dyn ar unrhyw greadur, dyna fu ei enw.*

Cyn yngan iaith, bu gwahuno o fewn y broses i adeiladu iaith. Ond dyma hefyd ewylllys Duw i ddyn. Dywedodd y Nihilydd athrylithgar hwnnw Nietzsche un tro: 'Ofnaf nad ydym yn ymwardd â Duw gan ein bod yn dal i gredu mewn gramadeg.'

Un o'r pethau a wna iaith yw troi yr anweledig (Gramadeg) yn weledig (y frawddeg). Hynny yw, mae'n ymgawdoli. Yn wir, y mae hyn yn debyg i sagrafen, lle y mae gwrthrych sylweddol yn cynrychioli bod neu wrthrych ysbrydol. Dywed ieithyddion am hyn: 'Tafod' (y gyfundrefneg) sy'n cynhyrchu Mynegiant.

Mae gwyddor feddyliol iaith (ac adeileddeg) yn dangos bod yna batrwm ystyrion yn bodoli ar wahân i'r unigolyn. Fe'i defnyddir yn bont rhwng unigolion. Nid yw'n dibynnu ar y goddrych. Mae'n bodoli mewn ffurfiau gwrthrychol y gellir eu rhannu'n sefydlog er mwyn cysylltu pobl â'i gilydd. Tueddai'r Rhamantwyr gynt i orbwysleisio ac i dybied bod 'ystyr' yn dibynnu ar argraffiadau personol, mewnddrychol. A phen-draw hynny oedd tin-droi gyda'r diddiben a'r abswrdd. Ond ar ryw olwg, y mae patrwm iaith yn fath o wirionedd. Mae'n gorfodi cyffredinol, hyd yn oed am deimladau. Pan ddefnyddir iaith, yna y mae patrwm cyffredin 'amhersonol' yn cael ei fabwysiadu ar y pryd gan unigolyn yn y meddwl, a hwnnw sy'n cyfateb i'r patrwm ym meddwl siaradwr arall. Ceir yn hwnnw fath o gyfuniad cyffredin o wirionedd rhwng pobl.

Dyma'r wedd gyntaf ar iaith. Yn gyntaf oll felly, ceir delfryd neu wyddor *o'r golwg* yn y pen. Yn ail, moddion cyfathrebu hefyd *yn y golwg*.

Symudasom, fel y dywed yr ieithyddion, o Dafod yr ymennydd i Fynegiant y genau. Symudasom o'r Wyneb yn Wyneb Mawr (sef dadansoddi wyneb yn wyneb â'r Arfaeth neu'r Greadigaeth) yn y Gramadeg, at yr wyneb yn wyneb bach (sef cyfathrebu dyn â dyn) yn y frawddeg. Ac wrth gwrs, fel yr oedd gramadeg anweledig *yn botensial* ac ar gael ar gyfer pob pwnc dan yr haul, yn awr y mae'r frawddeg unigol *yn effaith* unigol, ac yn trafod pynciau arbennig unigol. Mae'n gallu cyflawni yn awr bob math o ffwythiannau yn ein bywyd a'n diwylliant pob dydd. Y mae'n diwylliant ar waith, boed yn draethu gwirionedd, neu'n ddatgan teimlad, neu'n fynegi ewylllys. Gall broffwydo, neu

orchymyn, neu weddïo, neu foli. Gall ddweud hanes neu ganu cân. A gall yn awr esbonio gwerth, trefn, a diben. Y tu ôl i ardd dda, fe geir cynllun.

Mae iaith bellach yn foddion i ddiwyllio, ac yn diogelu'r amrywiaeth yn yr undod mewn modd ymarferol. Gellir ei gofnodi o'r herwydd yn y cof mewn traddodiad. Yn wir, gwelir yr iaith yn rheidiol i wareiddiad. Yn yr ymdriniaeth hon, ni wnaethpwyd ond cymryd yr iaith yn enghraifft; ond ym mhob celfyddyd a gwyddor ceir rhyw fath o debygrwydd yn hyn o beth: ceir trefn neu egwyddor, ac fe'i mynegir yn ymarferol yn ôl deddfau.

Yn ôl y Beibl, (e.e. Salm 148) y mae *pob dyn* yn bodoli er mwyn 'moli' – mewn meddwl, gair a gweithred. Diben pob peth yw gogoneddu neu ddyrchafu Duw a'i drefn. Mae'r gogwydd godidog hwn – sy'n ddirgelwch anhysbys efallai i anghredadun – fel i'r mynyddoedd – fel pe bai'n gynhenid yn y greadigaeth, gan roi cyfeiriad ac ystyr i weithredoedd. Fel y mae pob peth yn faterol yn gogwyddo yn ôl disgyrchiant, felly y mae pob peth yn ysbrydol yn gogwyddo'n ôl rheidrwydd diben. Dyna'i drefniant mwyaf treiddgar. Mae ffrwythloni'n fath o Foliant. Dathliad o fywyd yw.

Felly, mae yna un peth sy'n gyffredin i Dafod ac i Fynegiant, er mewn ffyrdd gwahanol, sef y drefn gyfan a roir ar y gwylltineb neu'r dryblith: y cyfundrefnu ym mhob gwedd ar y naturiol. Mae'r daioni hwn yn nodwedd ganolog i harddu'r ardd.

Mae yna wedd arall y dylid ei chrybwyll yn sgil canolbwyntio sylw ar ddiwylliant o fewn crefydd. Ewyllys Da yn wreiddiol oedd amrywio'r ieithoedd (Gen. 10: 5, 20, 31, 32). Yna, ysywaeth, ar ôl y Dilyw, cafwyd undod iaith ac ymadrodd. Yr oedd hyn yn groes i ewyllys Duw. Ymddengys fod canoli ac ymchwyddo ac imperialaeth yn cydreddeg â'r duedd uniaith ormesol. Os mynnodd Duw eu gwasgaru ac amlhau ieithoedd (Gen. 11: 6-9), fel y gwyddom, o bryd i'w gilydd dan bwysau canoledig bydd un corff ieithyddol yn ceisio gormesu ar ddiwylliant arall. Collir yr iaith hanesyddol effeithiol. Ond bu hyn hefyd yn groes i ewyllys Duw (Neh. 13: 23-25). A chafwyd yr amrywiaeth ieithwedd a ewyllysiwyd gan Dduw ym Mabel: profwyd nad oedd hyn nac yn rhwystr nac yn dramgwydd yn y Pentecost. Dengys Datguddiad fod pob llwyth a chenedl yn dwyn priod iaith gerbron yr orsedd, a gellid casglu bod rhwyddineb cyd-ddeall y Pentecost yn rhagflas o'r Amryw-mewn-Un hwnnw. Felly y bydd diwylliant yn hyrwyddo ffrwythlondeb a chyfiawnder meddwl amrywiol.

*

*

*

Dychwelwn yn awr i ystyried ein diffiniad cychwynnol o ddiwylliant, mai gwaith neu weithred yw sy'n cael 'ffurf neu drefn mewn deunydd', a hynny er mwyn bod yn ffrwythlon. Dadansoddir y gwahaniaethau ac adeiladu'r unol i gydweithredu. Dyma sy'n digwydd mewn celfyddyd. Dyma hefyd sy'n digwydd mewn gwyddoniaeth. Mewn celfyddyd y mae'n digwydd pan fo'r meddwl yn gogwyddo'n bennaf oddi wrth y cyffredinol at yr arbennig; ac mewn gwyddoniaeth bur y mae'n digwydd, yn fras, pan fo'r meddwl yn gogwyddo'n bennaf oddi wrth yr arbennig at y cyffredinol.

Undod yw'r ddwy ffenomen hyn gyda'i gilydd. Mewn 'gair', megis mewn iaith lenyddol ac mewn casgliad gwyddonol, ni fedr yr arbennig anwybyddu'r cyffredinol na bodoli hebddo. Dwy wedd ydynt. Efallai mai teg ystyried eu perthynas unol drwy olygwedd gronolegol, hynny yw drwy synio amdani fel olyniaeth feddyliol. Ceir dau symudiad meddyliol mawr a 'chreadigol' felly – o'r cyffredinol i'r arbennig mewn celfyddyd, ac yna o'r arbennig i'r cyffredinol mewn gwyddoniaeth bur. Dyma'r drefn a sefydlodd Duw, fel y ceir peth celfyddyd mewn gwyddoniaeth, a pheth gwyddoniaeth mewn celfyddyd.

Ond y mae'n llawnach na hynny. Gallwn ei eirio'n wahanol. O'r tu mewn i Ddeunydd profiadol yng nghelfyddyd llenyddiaeth er enghraifft, (ac mewn diwylliant yn gyffredinol), ceir dau symudiad adeileddol: yn gyntaf, sythweled, o'r cyffredinol i'r arbennig, ac yn ail, egwyddori, o'r arbennig i'r cyffredinol. Wedyn, o'r tu mewn i Ffurf, ceir dau symudiad drachefn nid anghyffelyb: yn gyntaf, ystyr unigol, o'r cyffredinol i'r arbennig; ac yn ail, lluosog o'r arbennig i'r cyffredinol.

Felly y bu hi yng ngwaith Duw wrth iddo greu. Symudiad gweithredol o ddidoli neu o arbenigoli yn y fodolaeth fawr, dyna oedd y gwahanu sylfaenol iddo. Dyna ogwydd 'dirnad'. Yna, sylwn mai gwahanu oedd hyn o fewn undod dosbarth ac undod cyd-destun. Cysylltir y gwahanu felly yn unionsyth ag undod. Try'r dirnad bach hwn felly tuag at 'amgyffred' mawr cysylltiedig. Ond yn y creu, yr oedd y symudiad cyntaf yn gwahanu ('chwalu'r' Cwmp yw hoff olwg rhywrai) a hyn yn ymddangosiadol ôl-fodernaidd; a'r ail yn sefydlogi drwy gysondeb undod mewn gofod ac amser. Dyma'r ffordd y rhoddwyd Ffurf i'r Deunydd felly. A dyna a ddigwyddodd yn ymwybodol wrth enwi –

A Duw a alwodd y goleuni yn Ddydd, a'r tywyllwch a alwodd efe yn Nos. ...

A'r ffurfafen a alwodd Duw yn Nefoedd ... A'r sychdir a alwodd Duw yn Ddaear, a chasgliad y dyfroedd a alwodd efe yn Foroedd. (Gen. 1: 5, 8, 10)

Dyna un o sylfeini iaith. Sylfaenwyd Cristnogaeth ei hun ar wrthosodiad digymrodedd 'Hyn / Nid hyn'. Yn y cyd-destun hwnnw does dim 'undod eciwmenaid', dim cyfaddawdu, dim pont lipa. Cyll cyfosodiad gor-syml Hegel ei le. Mewn man arall – yn y credu ei hun – y ceir gwir eciwmeniaeth. Deuol yw gwreiddyn trioliaeth.

Yn awr, gwyddom fod yna batrymau triol yn ôl y ddeddf, yn ogystal â deuoliaeth gwrthosodiad. Ond cymerer ym maes iaith gyferbyniad triol y rhagenw personol: fi / ti / ef: nid cyfosodiad yw'r trydydd yn y fan hon. Cyferbynnir y gwrthosodiad dechreuol: fi / ti, sef y mewdol a'r allanol, y naill a'r llall yn bresennol (er mewn ffyrdd gwahanol). Yna: fi , ti / ef, sef y presennol a'r absennol (neu'r un y siaredir amdano fel pe bai'n absennol). Nid oes dim yn fwy gwrthosodiadol na'r presennol / absennol. Real yw'r gwahaniaeth hwn. Ni chânt yr undod llawnaf ond yn yr Absoliwt – yn egwyddor y person dwyfol. Ni wedir y gwahaniaethau hyn: ni wedir yr undod chwaith. Yr hyn sy'n bwysig drachrefn yw'r Ffurf yn ogystal â'r Deunydd. Ymddengys fod Ffurf yn cael ei tharddiad unol yn gyntaf, deuol yn ail, ac yna yn (1) egwyddor 'yr amryw (dau neu dri) o fewn yr Un'; (2) y gwrthosodiad; a (3) cyfosodiad olynol yr anweledig a'r gweledig.

* * *

Trefn yw diwylliant bob amser. Trefn Duw yw i ddyn, a thrwy ras neu ddawn Duw caniatéir i ddyn, o bob ffydd a dibyniaeth, weithredu'r diwylliant hwnnw a fedr.

Mae diwylliant yn ffynnu drwy drefn. Fel y mae baban bach yn ceisio llwybr wrth ddod at y ddryswig o lefaru pendramwnwgl sy'n taro'i synhwyrau ac wrth iddo brofi cymdeithas pobl eraill, y mae hwnnw'n darganfod hefyd, gan ddatgelu a meistrolï'r patrwm o batrymau seiniol. Felly y bydd y bod dynol ym mhobman yn wynebu dryswig gwrthrychau bywyd i gyd. Felly y mae yntau'n fforio trefn. Mae'n darostwng y gymysgfa a'r tryblith o amrywiaeth. Dargenfydd patrwm. Neu â ati i osod y patrwm a fyn ei feddwl ar y cythrwbl profiadol hwnnw. A diwyllia. Yn y dechreuad y mae'r Gair.

Cariad moliannus yw hyn oll yn sylfaenol: y dymuniad hardd i nesáu a pherthyn. Rhydd foddhad a diddordeb i'r enaid a'i cais. Sonia'r Arglwydd Iesu Grist fod caru yn golygu cadw ei orchmynion Ef, ac yn wir y mae'r ddwy ddeddf bennaf a sylfaenol yn

golygu perthyn i Dduw a pherthyn i gyd-ddyn. Cariad yw hanfod deddf a threfn. Dyna yw'r pwrpas i'r berthynas. Drwy garu-berthyn y dygir ffrwyth.

Mae trefn yn we gron sy'n caniatáu i gariad fod yn ymarferol. Nid mater o deimlo yw, yn bennaf, beth bynnag am bresenoldeb anochel teimladaeth yn ei ffynhonnell. Gwaith ymarferol mewn ffurf yw caru'n angerddol. Ac ewyllysia wasanaethu mewn mynegiant. Mae cariad yn ceisio trefn sy'n ei wneud ei hun yn weithredadwy. Wedi dod o hyd i'r drefn honno, y mae'n ymhyfrydu ynnddi ac yn ei choleddu.

Cynghanedd yw hyn oll, hynny yw harmoni. Ond gall fod hefyd yn gynghanedd ym maes Cerdd Dafod. Barddoniaeth yw'r mynegiant llawnaf, manylaf ac aeddfetaf celfyddydol o gariad sydd i'w gael. Sylwer gymaint o'r Beibl sy'n farddoniaeth amlwg. A dyna sut y mae'r ffenomen hon, y mwyaf ymylog o'r moethau (gellid meddwl), yn rhywbeth y gellid ei gyfrif ar y canol, yn uchaf o'r gweithredoedd dynol aeddfed. Cyflawna swyddogaeth fywyd mewn trefn drwy gariad yn y cyfrwng ieithyddol harddaf. Ac o'r herwydd, Mawl canolog yw'r Beibl oll. Nid perthynas yn unig yw, ond Cariad.

Bydd ieithydd wrth geisio darganfod y drefn sy'n sylfaenol i iaith, yn gorfod synied amdani yn gwllwm o unedau deuol a thriol, yn sylfaenol ddatblygu ac yn adlewyrchu'r ddeuliaeth fawr (yr anweledig a'r gweledig; y cariad sy'n farn); ac felly y bydd y diwylliwr yn ei waith yntau o osod trefn, hefyd yn gorfod darganfod trefn. A bydd y drefn honno drachefn yn gorfod bod yn ôl rhagluniaeth Duw.

Sôn yr ŷm yn gynhenid (efallai'n ddiarwybod) am hen sefyllfa a fu cyn y creu, a chyn pechod; ac am weddillion a oroesodd hyd heddiw drwy Ras Cyffredin. Dyma'r cynllun ym meddwl Duw. Mae Duw wedi ewyllysio undod o undodau daionus. Gwaith dyn yw canfod a chydabod hynny, a hyrwyddo hynny mewn ffrwythlondeb.

Adeiledir Diwylliant modern yn gyfannau er ein gwaethaf, felly, yn ôl egwyddor debyg i un greedig Gyfundrefnus – atom, cell, organ. Mae yna ysfa isymwybodol feidrol gan ddynoliaeth i gyfundrefnu holl ffwythiannau bywyd – iaith, addysg, iechyd, trafnidiaeth, moesoldeb (barnwriaeth), arian, amaethyddiaeth, ayb. yn ôl patrymwaith Duw. Mae gan y rhain isgyfundrefnau meidrol mewn mynegiant: cyfundrefn addysg (e.e. is-gyfundrefn addysg uwch), trafnidiaeth (e.e. is-gyfundrefn y rheilffyrdd). Trefnir y rhain bob un yn ôl amodau gofod (daearyddiaeth) ac amser (traddodiad). A gellir canfod mewn traddodiad ei hun yr helics dwbl (ffurf a deunydd). Mewn manau eraill, yr wyf

wedi ceisio manylu ar un o'r cyfundrefnau hyn, sef iaith (*System in Child Language*), a'i his-gyfundrefn llenyddiaeth (*Beirniadaeth Gyfansawdd*). Mae'r holl gyfundrefnwaith hwn yn cydlynu ac yn adlewyrchu Rhagluniaeth a Chymhellion Diwinyddiaeth Gyfundrefnol, yn ôl yr hierarci a ddisgrifiwyd yn *Canu'r Cynllun*. Sylwer, sut bynnag, ar ddau fath mawr o gyfundrefnau:

- (1) Y rhai naturiol, cynhenid, neu isymwybodol yn y meddwl, a
- (2) Y rhai a adeilada dyn yn fwriadus fel petaent yn estyniad neu'n atodiad i'r un cyntaf, ond yn ymwybodol ddewisol. Mae trefn Tafod yn goferu i mewn i drefn Mynegiant.

*

*

*

Yn fy nghyfrol *Ysbryd y Cwlwm*, 1998, ceisiwyd olrhain agwedd llenorion Cymru at Gymreictod o'r chweched hyd yr ugeinfed ganrif. Ymffurfiodd gan rai yn eu plith fath o gonsensws cyson. Apeliai'r arweinwyr yn bendant benodol at y Cymhelliad Moesol. Dyna Ras Cyffredinol i bawb yn arwain tua'r cadarnhaol a'r moliannus. *Adfer Moesoldeb* oedd bod y Cymry'n aros yn gyfrifol am eu bywyd eu hun. Ac adfer trefn genedlaethol ymhlith cenhedloedd y byd oedd yr amgylchfyd seicolegol, yn foisol yn ogystal ag yn gyfreithlon. Gresynent at daeogrwydd Cymry a oedd yn colli anrhydedd a chyfrifoldeb wrth gydymffurfio â hunaniaeth cenedl arall, a hynny am resymau elwgar a bydol fel arfer. Yr oedd israddoldeb strwythurol yn niweidio ansawdd diwyllianol. Deuai fforffedu cyfrifoldeb gwleidyddol â hunan-dwyll ac anobaith anhrefn foisol a gorbarodrwydd i fod yn wasaidd a derbyn camdriniaeth a distrywio diwylliant. Nid dyna a ddisgwyliesid. Glynu wrth rai o destunau eiconaidd y genedl a wnes i yn y gyfrol honno wrth chwilio am dystiolaeth ac enghreifftio. Nid chwilio am foisoldeb oedd y bwriad na dihysbyddu tystiolaeth: ni wnawn ond gwranddo ar y math o gymhellion (da a drwg) a goleddai arddelwyr diwylliant Cymraeg, bron yn isymwybodol mewn enghreifftiau dethol. Cydnabyddwn fod hunanoldeb yn gallu bod yn gymhelliad, megis syrthni ceidwadaeth wrth lynu wrth rai hen arferion. Ond yn ddjarwybod, yr hyn a ddôi i'r fei fwyfwy wrth olrhain ymagwedd rhai llenorion Cymraeg at eu diwylliant oedd yr apêl foisol. Heblaw dyddiadau, gwleidyddiaeth, a digwyddiadau syml – anadl einioes haneswyr, – ceid gan genedl fel Cymru ei Hanes Moesol a'i Hanes Syniadol.

Nid damwain oedd hi mai Gweinidogion yr Efengyl a Llenorion uchel-ddelfrydol fu arweinwyr y Mudiad Cenedlaethol yng Nghymru yn yr ugeinfed ganrif, er mawr ofid i lawer ohonom a hiraethai am undebwyr llafar ac economyddion o genedlaetholwyr. Ymdrechai Saunders Lewis a Gwynfor Evans i ymddangos yn faterol eu byd weithiau ac i drafod pynciau materol yn bragmataidd ymarferol. Ond llithrent ill dau yn reddfod yn ôl at Hanes a'r apêl foesol. Nid tan D. J. Davies a Dafydd Wigley y bu hi cyn i Gymry gwlatgar godi gwleidyddion normal i'w harwain ymlaen at y Cynulliad.

Hyd yn oed yn y byd moesol, diddorol sylwi ar y duedd anochel i synied amdano i raddau helaeth yn nhermau Deddf. Ceisir cydnabod y natur gyffredin a pharhaol sydd yno, a'r apêl i'r gydwybod sy'n ddwfn yng nghalon dyn.

Na synner bod yna Wrthdrawiad.

Pan syniwn am apêl foesol yn y maes diwylliannol, yn arbennig yng nghydestun Cymru, nid amhriodol yw sylwi ar y cyferbyniad egniol sydd bob amser yn bresennol yn y maes hwn. Ar hyd ei hanes, bu Cymru'n ymlafnio am fodolaeth yn erbyn lladdedigaeth ddiwylliannol (*cultural genocide*). Gan mai brwydr fu hynt diwylliant Cymru o'i geni, a chan mai brwydr yw bywyd y Cristion yntau o'i eni, digon priodol yw dynodi'n gyferbyniol, mewn dwy golofn (Cadarnhaol a Negyddol), pa weddau gwahanol ymhlith Bannau'r Ffydd sy'n berthnasol wrth ystyried ein diwylliant. Beth yw natur y gwrthdaro? Ystyrier yn benodol y fframwaith llydan ysbrydol a'r egwyddorion dyfnaf diwinyddol mewn ymryson:

Cadarnhaol

1. Yr Un Absoliwt: y Cyfeirbwynt eithaf.
Penarglwyddiaeth Duw yn wyneb yr ymgais i gyfyngu'r Crist i'r arallfydol – neu i'r dynol.
Hollbresenoldeb awdurdod Duw a'i argraff ar ei greadigaeth. Undeb Duw â dyn a phopeth arall.
Mwynhau Duw yn Ei lawnder er gwaethaf Pietistiaeth. Delfryd ysbrydol Cymru.
2. Amryw o fewn yr Un: gwahaniaethu yn angenrheidiol i ddirnad ac i werthuso.
Ffrwythlondeb mewn trefn a chynaeafu ynghyd, yn wyneb Da a Drwg.
3. Sancteiddhad: sef gweithredu yn ôl ffydd.

Negyddol

1. Dyn yn y canol: y cyfeirbwynt eithaf ac absoliwt.
Y chwalu ar ystyr diwylliant, colli mwynhad diwylliant sydd ynghlwm wrth werthoedd a phwrpas a threfn anfaterol. Undeb creulon gormes yr unffurf ac undonedd, Tŵr Babel. Ac eto Imperialaeth sy'n dileu gwahaniaethau bywyd. Hunanoldeb a'r Ego Trosgynnol.
2. Anarchiaeth a gormes anhrefn yr Ego Trosgynnol.
Tanseilio cydweithrediad cyfartal. Afreswm a diffyg cymhendod. Gwahaniaethau'n troi'n hagr ac yn greulon. Ôl-foderniaeth.
3. Bydoli ennill bywoliaeth a hamdden. Troi

Mawrygu'r hardd, y da a'r glân. Dyrchafu
Duw ac anrhydeddu safonau ymhobman
er clod i Dduw. Gweithredu cyfrifoldeb.

celfyddyd yn fusnes. Diwydiant yn distrywio
harddwch y greadigaeth. Gwaseidd-dra i Fater
ac i Seciwlariaeth. Plygu i'r anghyfrifol.

Nid amhriodol felly, yw synied am ddiwylliant ei hun yn ôl delwedd y Beibl o 'Frwydr'. Brwydr yw hi yn y bôn yn erbyn gwylltineb neu gythrwbl cyson ddistrywiol. Brwydr yw i ufuddhau ac i garu trefn rhyddid disgybledig. Brwydr tangnefedd yw fel petai rhwng dau fyd egwyddorol.

*

*

*

Rywsut, mae yna symud isymwybodol felly i geisio trefn fel diogelwch, a hynny yn erbyn symudiad tanddaearol cyfredol i ddryllio.

At ei gilydd, athronwyr a diwinyddion ac artistiaid ôl-fodernaidd dosbarth-canol cysurus sy'n arddel safbwynt Drylliadaeth (fragmentation) yn ddeallol, nid pobl gyffredin fel chi a fi. Plygwyd i'r cefndir oherwydd gormes ffasiynoldeb. Dyw'r anghredinwyr cyffredin chwaith ddim fel arfer wedi ystyried y fath gyflwr. Yr hyn sydd y tu hwnt i'w cydymdeimlad, sut bynnag, yw'r ymdeimlad fod yna gyswllt neu berthynas sy'n cadarn uno pob dim. Gwrthod yr Absoliwt unol y maen nhw (yn y golwg), yn hytrach na chofleidio egwyddor Drylliadaeth *per se*.

Ond dw i am ystyried beth yw canlyniad 'Drylliadaeth a gwrthod yr Absoliwt' ym myd moesoldeb. O fewn y rhagdyb yna, y mae pob un 'drosto'i hun'.

Hyd at y 1950au, er nad oedd y gymdeithas yng Nghymru yn un Gristnogol athrawiaethol, daliai'r ymddygiad a'r sentimentau a'r rhagfarnau a goleddid gan bobl yn unol â hen ymarweddiad a disgyblaeth aeddfed a chanddynt wreiddiau Cristnogol yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yna; ac yn arbennig yn y 60au, goferwyd dros ymyl y gwydraid, ledled y gorllewin, fôr o ragdybiau cymharol ddieithr i fod yn feddiannol ym meddyliau pobl – yn erbyn bywyd, yn erbyn y teulu, yn erbyn moesoldeb sefydledig a'r syniad o drefn. Daliwyd i fynd i gapeli o arferiad neu o sentiment. Daliwyd i 'lenwi pwlpuadau'. Ond graddol flinwyd ar anniddordeb y diffyg efengyl. Gwgid ar ddiweirdeb, ar lefaru gweddus, ar gwrteisi fel safonau. Cefnogid hyn gan foethusrwydd llencyndod newydd-gyfoethog. Dôl rhegi yn norm diddrwg ffasiynol, pornograffwaith yn gyffredin, ceid gloddest wrth ddatguddio diffygion ym mywyd preifat pobl (yn arbennig enwogion): aeth 'rhyw' amddifad yn ddelfryd ynghyd â 'thrwco gwragedd', 'ysgariad' ac

erthylu. Torrwyd disgyblaeth mewn ysgolion ac mewn cartrefi. Twpeiddiwyd addysg a'r celfyddydau. Drylliwyd gwedd sefydlog y gymdeithas. Mor rhwydd y difethir llestr.

Aethpwyd yn ôl at yr hen ddogma mai allan o ddyn ei hun y mae pob safon personol yn tarddu. A rhoddid mwy o raff i chwantau direswm. Deuid yn ôl â hen bwyslais Rousseau ar yr hyn a ystyrid yn 'rhyddid' llwyr. Ac arweinai hyn oll at ddiffyg ystyr, at ynysrwydd y dyn unigol, ac at y gred na ellid rhannu cyfathrebau o ddiffri â'n gilydd. Wrth i reswm gilio o ran awdurdod, gorseddid yr angerddau. Gorseddid hefyd y relativ a'r difater. Dyma fath o anhrefn.

Yn y bôn, ni cheid mwyach dda a drwg, cywir ac anghywir, er bod rhai o'r 'bobl gyffredin' yn dal yn hwyrfrydig iawn i ddilyn yr artistiaid a'r athronwyr ar hynny o hyn.

Fe ddywedwn i mai Ôl-foderniaeth o fath, heblaw'r traddodiad ceidwadol bythol ei hun, oedd y mudiad mwyaf dylanwadol yn niwedd yr ugeinfed ganrif, (a'i hadau ynghynt o lawer). Cododd lluosedd eclecticig, eciwmenaidd, ac amhenodol yn y cylchoedd crefyddol gweddilliol, heb ddim absoliwt, yn fodd i ddadadeiladu'r celfyddydau. Cododd chwalfa yn ddogma yn erbyn y posibilrwydd o sicrwydd. Cododd amheuaeth ddogmatig, nid fel modd i ddatrys problem, ond fel offeryn i beidio (ar egwyddor) byth â chael ateb. Wrth gwrs, gwreiddid Ôl-foderniaeth yn sicr yn y gorffennol. Theori hynafol ddiwinyddol oedd a darddodd yn y sylweddoliad o bwysigrwydd enfawr 'gwahaniaethau' mewn celfyddyd a gwyddoniaeth – ond bob amser, bu hynny yn ymarferol o fewn cyd-destun gwahaniaethu + uniaethu. Dyma gyfuniad hanfodol i ddeall, gwyddor a chelfyddyd. Ac yr oedd yn perthyn ac yn sylfaen i gyfuniadau hanfodol eraill, megis arbenigoli / cyffredinoli, tebygu / annhebygu, sefydlogi / ansefydlogi, cyfannu / rhannu. Rhwng *avant-garde* y deuddegau ac Ôl-foderniaeth y chwedegau tybid bod amddifadu iaith a gwaith o un hanner o'u cyfundrefnwaith yn fodd rhwydd tuag at 'Newydd-deb'. Dyma'r Sefydliad cydymffurfiol. Ond dyma gamddealltwriaeth o natur anochel iaith a chelfyddyd gyfun, a gwir natur newydd-deb creadigol. Theori heb ruddin oedd, a chafodd ganlynwyr Cymraeg. Yn y ffôedigaeth chwim ffasiynol rhag Absoliwt Cristnogol, ceid priodoleddau eraill yn y Metanaratif Ôl-fodernaidd. Bu yna bendantrwydd mawr gan rai ynghylch rhagdybied amhosibilrwydd y Goruwchnaturiol. Ymhlith rhai deallusion a hiraethai am fywyd llac ysbrydol, tyfai Pantheistiaeth fwyfwy.

Gwendid Pantheistiaeth yw nad yw'n gwahanu'n benodol rhwng y Crëwr a'r greadigaeth. Mae'n gwneud popeth yn Dduw. Gellir addoli pob peth ac unrhyw beth: yr Ego Trosgynnol yw yn y bôn. Ac mae felly'n gwadu Duw trosgynnol deallus. Mae'n cydnabod bod pob dim yn gysylltiedig; ond oherwydd na chydabyddir unigrywiaeth ac awdurdod tragwyddol personol Duw ei hun, y duedd yw dyrchafu'r FI, neu'r cysylltiad rhwng y fi a phethau eraill. Ni chanfyddir y Duw sydd yn y canol, ac sydd uwchlaw pob peth yn ogystal â bod ym mhob peth. Yn y fan hon ceir math o wrthwyneb i'r amddifadu Ôl-fodernaidd unochrog sy'n colli undod; a cheir *gormodedd* o undod, heb y gwahaniaethu priodol a geir – Crëwr Penarglwyddiaethol / Creedig Crediniol. Cyferbynnir *dyn* â'r *bydysawd*; ond nid cyferbyniad absoliwt yw peth felly. Y mae'r Duw di-greedig a'r greadigaeth ar y llaw arall yn gyferbyniad absoliwt i'w gilydd. Y mae *dyn* a'r *bydysawd* ill dau ar gael oherwydd gwaith estynedig yr Absoliwt, ac y maent yn ffitio mewn trefn a reolir gan yr Absoliwt. Ni sylweddolwyd chwaith y pechod *diriaethol* diffiniol yn erbyn Duw, na gwrthryfel sylfaenol dyn yn erbyn Duw trosgynnol: h.y. Nid oedd ymwybod (i) o bechod (ii) nac o'r angen am iachawdwriaeth (iii) na chwaith o'r hyn a wnaeth Duw er mwyn cymodi ac iacháu. Dyma rai arweddau egr dwfn sy'n treiddio drwy'r Diwylliant cyfoes, arweddau sydd a wnelont â'r camddechongliad gwrth-Gristnogol arferol o drefn. Anodd gyda'r fath blanhigion ymhobman yw gweithio tuag at Ardd lân.

Nid fy mod i, er hynny, am syml wrthgyferbynnu'r 'Moesoldeb Newydd' seciwlwr â Christnogaeth fel y cyfryw. Ceir yn y fan yna gynghrair annisgwyl rhwng dyngarwyr a Christnogion. Mae'r Moesoldeb seciwlwr chwâl yn cyferbynnu â Moesoldeb seciwlwr ymarferol. Ni chredaf chwaith mai'r Cristion yn unig sy'n gwrthwynebu Ôl-fodernaeth. Ffenomen yw honno sy'n groes i ddeallolrwydd a rheidrwydd cynhenid y meddwl cyffredin i fod yn gyfundrefnol. At ei gilydd, i berson ystyriol a meddylgar, yn wir, nid anodd yw tanseilio'i dadleuon. Ac er nad yw pobl, yn arferol, am ddadlau nac ymresymu ynglŷn â natur ystyrion yr athrawiaeth a gynhalia'r Ddrylliadaeth foesol ddiweddar, gallant arddel gwerthoedd fel pe bai safonau absoliwt i'w cael o hyd: 'Cristnogaeth' yw rywsut mewn lled frithgof.

Gallai rhywun seciwlwr er enghraifft ddilyn a chytuno'n esmwyth â'r ddadl fod undod a pherthynas gysylltiol yn gorfod cydfoli gyda gwahanu a chyferbynnu er mwyn deall iaith, ac mai fel yna yr oedd rheswm ymarferol yn gorfod ymddwyn er mwyn

goroesi. Gallai'r person seciwlar, ar sail y gydwybod hefyd, ddirnad y gwahaniaeth rhwng egwyddor gadarnhaol ac un negyddol. Fel yr oedd y person seciwlar yn derbyn bodolaeth a bywyd heb yr un clem o ble yr oeddent wedi dod, felly hefyd gallai dderbyn anocheledd trefn gyfundrefnus, nid y unig ym maes gwyddoniaeth ond ym myd moesoldeb hefyd heb holi'r tarddiad. At ei gilydd, nid yw'r awdurdodau sy'n arwain ffasiynau meddwl ac ymddygiad yn medru gweld y cyswllt rhwng y mân newidiadau a ganiatânt neu a hyrwyddant ynghylch disgyblaeth mewn ysgolion, trais ar y stryd, godinebu, â goddefgarwch ar y teledu. Does dim ymdrech i weld y darlun cyfan, na'r ateb cyfan sydd ar waith. Ond y mae'r diffyg undod a geir o du efengyleiddwyr, hwythau, sy'n ysgaru hwyl diwylliant ac antur gwaith bob dydd, a gwleidyddiaeth, oddi wrth y byd ysbrydol, yn perthyn yn y bôn i'r un Ddrylliadaeth ag a dderbynia Ôl-fodernwyr. Nid yn unig y mae'n sarhad ar Benarglwyddiaeth Duw; y mae'n gamddealltwriaeth o natur yr Eglwys amodedig sy'n cynnwys bywyd i gyd o'i chyferbynnu â'r eglwys leol drefnedig sy'n addoli o fewn ei chylch dyletswyddol ei hun. Ble aeth dawns Exod. 15:20; 1 Cron. 15:29; 1 Sam. 2; Salm 150:4 ?

Er mor amhoblogaidd fu Trefn fel cysyniad yn y cyfnod Rhamantaidd, ac nid heb reswm o gofio am ddisgyblaeth brennaidd anneallus, gwaith artistiaid erioed fu arddangos gorfoledd naturiaeth trefn aruchel a'i dyfnder cynhenid yn ffrwythlondeb y Greadigaeth. Wrth gyfosod Tafod (yn y meddwl) â Mynegiant (yn y dweud), ac wrth ganfod y naill yn cynrychioli undod a'r llall yn cynrychioli amllder, gallwn oll gydnabod cydbwysedd a hyd yn oed cyfwerthedd y naill a'r llall. Drwy drugaredd, yn nysgeidiaeth Ysgrythurol y Drindod, cawn ganllaw deallus llachar ynghylch cyfwerthedd yr undod a'r llawer, a hynny o fewn y Creawdwr ei hun. Ac felly y casglwn mai oherwydd trefn o werthoedd mawr ac o ddiben anochel yn unig y llwyddir i drin diwylliant gyda gwir barch. Gorchymyn gorfodol i bawb, yn gredadun ac yn anghredadun, oedd ac yw ffrwythwch. Ond cofier bod 'anghredu' ei hun yn golygu colli allwedd i foesoldeb Cristnogol yn ei lawnder' a gallwn ddyfynnu eilwaith sylw'r Gwrth-Gristion dychmyglon Nietzsche: 'Cyfundrefn yw Cristnogaeth, golwg cyflawn ar bethau y meddyliwch drwyddi â chysondeb. Os torrir un cysyniad allan ohoni, megis neges y gred yn Nuw, y mae'r holl beth yn dryllo'n ddarnau o'r herwydd: nid oes dim o werth ar ôl yn ein dwylo.'

4. GWERTHOEDD DIWYLLIANT A'I BWRPAS

Tyfir tatws oherwydd eu bod yn werth eu cael, yn enwedig wedi'u rhostio.

Yn yr ugeinfed ganrif, fe geisiwyd sefydlu'n gyffredinol nifer o ddogmâu 'newydd' ym meysydd Diwinyddiaeth a Diwylliant. Un ohonynt oedd nad oedd yna'r fath beth â Gwerth neu Safon. Yr oedd pob dim yn relativ. Yr oedd pob crefydd yn ddilys, neu mor annilys â'i gilydd, o fewn ei gyd-destun ei hun. Er enghraifft, fe fu Dewi Z. Phillips (*Faith and Philosophical Enquiry*) yn amharod i gondemnio aberthu plant mewn llwyth diarffordd na wyddai ef fawr amdano, am nad oedd yn gallu gwerthfawrogi beth oedd hyn yn ei olygu iddynt hwy. Mater o ddewis personol oedd pob dim, yn ei fryd ef, heb safonau moesol sefydlog. Preifat oedd pob moesoldeb.

Eto, i'r Cristion, credir bod 'Na Ladd' yn rhyngwladol gywir, oherwydd bod yna Awdur rhyngwladol penarglwyddiaethol i Werth Bywyd. Yr oedd y syniad lluosaid mai priodol oedd derbyn pob math o sefyllfa chwit-chwat, yn ôl diwylliant unigolyn, yn debyg i ddweud y gellid cael un math o ramadeg i un iaith mewn un ymennydd ac un math arall i'r un iaith mewn ymennydd arall, ac y byddai dau berson yn gallu cyfarch ei gilydd yn rhydd braf ac yn hapus annibynnol ar y pryd. Math o ddogma afresymol oedd peth felly, gyda phob dyndod yn rhy wahanol. Ym maes llenyddiaeth, ceisiwyd drwy'r rhagdyb yna ddistrywio'r egwyddor o werthuso. Ond nis gellid.

Fe ddywedodd A. J. Ayer, 'It is a characteristic of an agnostic to hold that the existence of a god is a possibility in which there is no good reason either to believe or disbelieve.' Ac felly, yn ôl arfer y cyfryw rai, fe anghredodd. Nid oes modd dianc rhag rheidrwydd rheidrwydd. Chwiliodd Ayer am reswm dilys i ddwyfoli ansicrwydd. Ac ni allai'i gael. Ond fe'i dwyfolodd yr un fath.

Bydd Cristion yn credu bod yna fath beth â daioni ar gael oherwydd bod Duw ar gael, a Hwnnw mewn dimensiwn cwbl arall i'r un relativ. Mae yna ddeddfau moesol mewnol ar waith oherwydd bod Duw wedi llefaru amdanynt. Arfer annuwiol yw arddel cyfreithiau o ran cyfleustra neu gytundeb cymdeithasol. Ond yn raddol, y mae diffyg gwerthoedd, relativrwydd a lluosedd, cyfleustra a hunanoldeb, wedi ymledu drwy'n diwylliant, ac wedi gweddnewid a'n gormesu ni fel cymdeithas o'r brig i'r bôn, yn amgylchfyd anhunanfeirniadol ffasiynol. Mae hyn wedi digwydd oherwydd bod yr Ego Trosgynnol, y fi fawr, wedi tyfu'n absoliwt.

Un o'r canlyniadau i hyn oedd bwlio pobl pe na hudid hwy gan y ffasiwn, neu'r llif, neu'r Sefydliad. Rhaid cofio mai'r Sefydliad heddiw yw'r gelynyon i union gred.

Eto, yn y pen draw, credu neu beidio, dibynna pob dim ar yr Un sy'n ddi-ddibyniaeth. Efô a osododd werth ym mhopeth, ac Efô a drefnodd fodolaeth a pherthynas gwerthoedd; ac ynddynt, yr unigol a'r cydberthyn. Wedi'r creu, datganodd i mewn i bopeth, 'a da oedd.' Ein tasg oedd nid dyfeisio gwerthoedd a oedd eisoes yn absoliwt, ond eu datgelu a'u gweithredu yn ôl y gorau, gan ddiolch am Werth. Dibyniaeth oedd Ef.

Gellir cael gwahanol *chwaeth*. Ac amrywia gwerth chwaeth o fewn amgylchiadau. Ond ni ellir ymwared â *gwerth*. Ymysg pethau eraill, heblaw iaith a meddwl, dibynna bodolaeth estheteg a moeseg pob dim ar y gwerth cynhenid a chydberthynol a osodwyd ynddynt yn gychwynnol. Dibynnant ar botensial cynhenid ac ar bwysigrwydd o fewn cymhariaeth ac amgylchiadau i bobl. Dibynnant ar y drefn, y lleoliad a'r berthynas wreiddiol; ar yr ufudd-dod i drefn a osodir ynom. Dibynnant ar ddyfnder cyfundrefn ysbrydol nad oes dim gwrthddyweddiad ynddi yn y bôn, er llawer o baradocsau ac er bod gwrthryfel yn ei herbyn. Trefn yw a ddibynna ar hanfod deddfwriaeth a geir ym mhob man; ac ar yr amcan sydd iddi. Dibynna gwerth rhywbeth felly ar y pwrpas yr amcenir ef ar ei gyfer neu y gellid ei ddefnyddio ar ei gyfer. Dibynnant ar Dduw. Y diwedd di-sigl sy'n diffinio ac yn penderfynu defnyddioldeb y dechrau.

I Gristion, Duw yw'r pen draw yn hynny o gyfeiriad hefyd.

Os dadleuwn fod pob dim yn dod o hyd i'w werth yn Awdur Gwerthoedd, yna ni allwn lai na chanfod y tyndra wedi'r cwmp rhwng Duw a dyn. Cofiwn am y tyndra hwnnw fel y'i darlunnir yn yr hanes am y wraig yn eneinio pen yr Iesu ag ennaint gwerthfawr. Addoliad unplyg oedd hyn. Ni chyfrifid y gost. Rhoddid popeth, ar un ystyr, i Dduw. Codwyd protest gan Jwdas, wrth gwrs, y dyn-garwr. A cheir esboniad eglur pam. Lleidr oedd ef. Ef oedd y trysorydd, a ddefnyddiai'i swydd i lenwi'i boced ei hun. Materolydd oedd. Yr oedd yn ben ar ei foesoldeb ei hun. Ond sylwer ar yr esgus a ddefnyddiai ef i guddliwio'i ladrad. 'Gallesid rhoi'r arian a'i pwrzasodd i'r tlodion.' Dyngarwch twyllodrus a balch oedd, cystadleuydd Duw. Yr un modd, ysbeilio cyfredol a digon annheilwng fuasai i rywun fod yn 'addolwr' heb fod yn 'ddisgybl'; bodloni ar 'fod' athronyddu yn cael y blaen heb 'wneud', defosiwn allanol heb ddilyn Crist (brenin y

tlodion) lle y mae dilyn yn rhan hanfodol o ddefosiwn Cristnogol mewn gweithred a chredu. Dyngarwch duwiol yw'r rhinwedd ddilys i'w mawrygu yn y bôn. Ac y mae'r Cristion yn priodoli pob diolch i Dduw, gyda pharodrwydd ac awydd i ymostwng.

Ar ryw olwg, darlunnir dau ladrad yn hanes yr eneinio: dyn yn dwyn oddi ar Dduw, hynny yw dyn sy'n lleidr yn dwyn oddi ar Un sy'n rhoddwr popeth; a'r un pryd yr oedd yn dymuno atal y wraig honno rhag ei rhoi ei hun i'r Arglwydd. Gellir cuddliwio'r cymhelliad bob tro, a thwylo eraill neu ein twyllo'n hun ein bod yn rhwystro addoliad i Dduw er mwyn ceisio gwerth sy'n 'uwch', megis y gwnâi Adda, yr Ego Trosgynnol cyntaf. Dymunir amddifadu'r Goruwchnaturiol, ac ymgfyngu'n llwyr i'r naturiol. Dymunir dileu un dimensiwn o werthoedd drwy eu symleiddio'n ddyn-ganolog. Ond amrywiol yw safle gwerthoedd, rhwng y goruwchnaturiol a'r naturiol, a rhwng y naturiol a'r naturiol. Ailenedigaeth sy'n penderfynu'r rhagor rhwng y gwahaniaethau sylfaenol hyn.

Mae yna lefel o ras, er hynny, sef Gras Cyffredinol, lle y trafodir pawb yn ddiwahân: ar ryw olwg y maent oll yn gyfwerth ac yn amddifad. Ond ceir lefel arall, sef Gras Arbennig, lle y bernir yn ddewisol gan bleidio neu amhleidio bywyd llawn neu beidio. A chyferfydd Gras Cyffredinol â Gras Arbennig yn y Rhoddwr. Cudd a'r tu hwnt i'r deall yw'r cymhelliad yn y fan hon, a'r cwbl a wyddom yw anian y Rhoddwr hwnnw, a bod Gras Arbennig yn cyflyru'r Cyffredinol. Bod a gwneud a wna rhoddwr Gras sy'n ddifrycheulyd gyfiawn, yn gariadus, ac yn berffaith, a dwylo gwag a churo taer y pechadur sy'n derbyn ganddo.

Yn fynych, ceisir esbonio gwerth yn ôl ei berthynas â'r pwrpas neu'r diben. Cyflyrir y dechrau gan y diwedd. Ac mae hynny'n burion. Ond pwysig yw bod yn wyliadwrus o'r fath gasgliad gor-syml. Yr un modd gyda gwerthoedd diwylliannol, tybir y gellir ymgymhwyso bob amser yn ôl yr amgylchiadau. Relatifaidd fyddent felly, a newidient drwy gael eu cyflyru ar y dechrau gan foddion cyrraedd y diben. A'r diben yn fynych yw'r materol: bwyta neu epilio. Y gwir yw mai 'da yw' oherwydd mai 'da oedd' yn gynhenid yn y creu ym mryd Duw. Ac ni chymhwysir yn briodol heb fod yr Absoliwt anrelatif hwnnw ar waith yn y galon.

*

*

*

Ni allwn lai na derbyn rheidrwydd cryn dipyn o'n bywyd. Cymerwn gymaint yn ganiataol heb ddewis. Mae cymaint o'n bywyd yn gynhenid y tu allan i reolaeth ein gweithredoedd. Yn y dewis cynhenid mewn gwerthoedd sydd rhwng bywyd a marwolaeth, dewiswn fywyd. Pam? Pan gyferbynnir Goleuni a Thywyllwch, yr adwaith sythwelediadol i'r dyn naturiol arferol yw pleidio Goleuni. Gellir ymateb yn fwy cadarnhaol mewn cyd-destun ymarferol, am ryw reswm cudd, tuag at garedigrwydd a chariad a thro da. Pam a sut y teimlir y fath sicrwydd bod un peth yn well na'r llall? Mewn byd damweiniol a chyd-destun a relativrwydd dogmatig, does dim angen i'r naill (yn rheolaidd ac yn benodol) fod bob amser mor amlwg ar y blaen i'r llall. Ond cyflyrwyd ni gan fath o arglwyddiaeth gadarnhaol yn y Gydwbybod. A chan Ras Cyffredinol.

Mae fel pe bai gwerth wedi'i adeiladu i mewn i'n barn yn gynhenid – fel egwyddorion bodolaeth gramadeg, hyd yn oed weithiau yn nannedd hunanoldeb.

Yr wyf yn ddigon parod i ystyried bod a wnelo goroesi cyntefig hefyd – sef bywyd – â'r rhagdybiaeth neu'r ysfa elfennaidd ryfedd hon. Ond nid oes dim ynglŷn â goroesi a pharhau sy'n gynhenid amlwg fel dadl neu fel rhinwedd y mae'n rhaid iddi berthyn i bethau. Pam lai na negyddu neu ddewis absenoldeb? Eto, nid dyna a wneir, mewn sefyllfa normal iach. Mae bywyd yn ddigon i'w drysori hyd at feddyginiaeth i'r eithaf. Gras Cyffredinol yw.

Does dim byd yn bodoli y tu allan i gyrraedd gwerthuso. Hyd yn oed y pethau na wyddom amdanynt: mewn amgylchiadau felly y mae ein gallu i werthuso yn peidio â'u cyfrif o werth i *ni*. Heblaw creu Deunydd, (y peth allan o'r diddim), a heblaw creu Ffurf (yr ansawdd sy'n rhithio celfyddyd trefn a chydbwysedd neu gydlynid siâp o'i fewn), dyma Dduw hefyd yn rhoi gwerth bywyd yn afradlon rad. Ac ynghlwm wrth werth o'r fath ceir grym, ysfa i'w feddiannu a'i hyrwyddo. Mae'n egnïol ddymunol. Olion *sensus divinitatis* yw Gwerthoedd, a'r Gras Cyffredinol a roir gan Dduw yn ddiwahân yn ein deall. Hyn sy'n caniatáu brwydr foesol hyd yn oed gan anghredinwyr.

Un o amryfal baradocsau Cristnogaeth wyneb yn wyneb â dyneiddiaeth bechadurus golledig yw bod gan Gristnogaeth, nid is, ond uwch syniad am ddyn. Gwêl dragwyddoldeb ynddo. Gwêl botensial perthynas â Duw. Mae'r Cristion yn argyhoeddedig fod dyn wedi'i greu ar ddelw Duw, a'i fod o'r herwydd yn meddu ar ystyr dragwyddol. Mae'n wir bod caru dyn a gwasanaethu dyn yn isradd (yn wir yn

ffynonelliad tarddedig) i garu a gwasanaethu Duw. Ond hynny sy'n creu lefel a bodolaeth gwerthoedd ac yn sicrhau dyfnder wrth sylweddoli ansawdd bywyd o hyd. Does dim syndod bod yna duedd i gredu nes bod hyd yn oed 'Dyneiddiaeth' wedi derbyn cryn ysbrydoliaeth gan y Diwygiad Protestannaidd, yn arbennig yn y 'gwledydd Calfinaidd'.

* * *

Mae gan bob cynnwys ddimensiwn metaffisegol. Hynny yw, nid oes dim yn bodoli y tu hwnt i gyd-destun goruwchnaturiol. Ac nid yw'r dimensiwn hwnnw byth yn wag nac yn ddiuedd. Ni fodola gwyddoniaeth ei hun heb wreiddyn crefyddol: ei ffydd yw'r gwreiddyn sydd y tu hwnt i theori yn y galon, y sicrwydd o ddeddf ac o ddaioni 'sefydlogrwydd' rheoleidd-dra, y dimensiwn anweledig.

Ond y mae'r gair 'diwylliant' hefyd yn gallu bod yn rhyfedd o ddemocrataidd. Tueddir yn rhy aml i synied amdano fel pe bai'n uchel-ael, yn ddethol iawn, yn perthyn i ddosbarth deallus a'r celfyddydau cain. Ond, yn yr ugeinfed ganrif, democrateiddiwyd y gair yn syniadol, a hynny yn fy mryd i yn gywir ac yn deilwng, er gwaetha'r twpeiddio. Sylweddolwyd nid yn unig bod y gair yn cwmpasu casglwyr sbwriel a phobl sy'n gyrru bysys, ac yn gweithio mewn banc, ond bod y rhain oll i bawb, yn bwysig iawn ac yn werthfawr odiaeth. Yr oedd i olchi llestri le arwyddocaol mewn diwylliant, megis siopa. Nid Prifysgolion yn unig oedd 'diwylliant'. Roedd y symudiad diweddar hwn, o blaid y sylweddoliad syml o arwyddocâd y pethau ymddangosiadol ddistadl, yn gywir o anrhydeddus benbwygilydd. Cynhwysai'r Celfyddydau a'r Gwyddorau, Masnach a Diddanwch, bob un yn meddu ar werth.

Eto, ysywaeth, gallai'r democrateiddio priodol hwn gydredeg â llithrad cyfatebol ddiog mewn safon. Oherwydd 'cywirdeb gwleidyddol' a ffug ddemocratiaeth, chwalwyd safonau yn ddiweddar wrth werthuso yn y celfyddydau. Ni wiw i blentyn ysgol gael ei gyfrif yn 'anghywir'. Difriwyd 'gweledigaeth' onid oedd yn gyffredin syml, gwrthodwyd y deallus, yr ymdrafferthus gain, y dwfn, a'r ymroddedig ym maes beirniadaeth lenyddol. A hynny, meddent, oherwydd 'y mwyafrif' democrataidd poblogaidd. Gorseddwyd yr ansafonol gan 'Ôl-foderniaeth'; ac erliidiwyd chwaeth. Yn aml, mae lleiafrif o ragoriaeth yn cael ei distadlu oherwydd diffyg nerth niferoedd. Ond nid wrth fwlio niferoedd bach (yn ddemocrataidd!) y mesurir gwerth mewn cyfanrwydd nac mewn amser. Mae'r sgriw bach hwnnw yn gallu cynnal cyfanwaith ynghyd.

Sylwer hefyd ar un egwyddor werthfawr.

'A rhyw wraig weddw dlawd a ddaeth, ac a fwriodd i mewn ddwy hatling, yr hyn yw ffyrlling. Ac Efe a alwodd ei ddisgyblion ato, ac a ddywedodd wrthynt, "Yn wir, yr wyf yn dywedyd i chwi, fwrw o'r wraig weddw dlawd hon i mewn fwy na'r rhai oll a fwriasant i'r drysorfa. Canys hwynt hwy oll a fwriasant o'r hyn a oedd yng ngweddill ganddynt; ond hon o'i heisiau a fwriodd i mewn yr hyn oll a feddai, sef ei holl fywyd".' (Marc 12: 42-44).

Ai dychymyg, ai amllder geirfa sy'n bwysig mewn gwaith llenyddol? A yw awdl hir wael yn rhagori ar englyn bach hardd? Ai'r enwogrwydd? Onid yr un sy'n rhoi o'i holl *fywyd* i'r gwaith yw'r sawl sy'n 'ennill'? Nid medr geiriol yn unig, nid y dychymyg yn unig, nid dyfnder meddyliol, ond yr holl fywyd, a'r holl ddawn a roddwyd iddo.

Mae 'diwylliant bach' Cymru yn fach efallai o ran nifer a maint; ond y mae anferthedd a harddwch cyfundrefn y Gynghanedd yn un o gampau mwyaf patrymwaith 'seiniol' mewn prydyddiaeth fydeang. Cydwladol o ran gwerth fu mudiad y seintiau yn hanes Cymru (Iwerddon, yr Alban, Cernyw, a Llydaw), y chwedl Arthuraidd, a mudiad 'cenhadol' o chwyldro diwydiannol yn y canrifoedd diwethaf, a chenhadon Cristnogol ac addysgol i Tahiti, Korea, Asam, a Madagascar. Mae yna uchelderau lawer o gyrhaeddiad.

Mae ystyfnigrwydd 'moesoldeb', fel ffactor o bwys wrth feirniadu llenyddiaeth, yn ddiddorol iawn. Mae moesoldeb 'cywir' gostyngedig yn wedd ar aeddfedrwydd personoliaeth; ac y mae aeddfedrwydd personoliaeth yn *un* o ragoriaethau llenyddiaeth. Ni cheir estheteg heb ruddin moesoldeb o ryw fath. Ystyrier yr egwyddor hon ychydig ymhellach: 'Y dyn da, o drysor da'r galon, a ddwg allan bethau da; a'r dyn drwg, o'r trysor drwg, a ddwg allan bethau drwg. Eithr yr ydwyf yn dywedyd wrthyich, mai am bob gair segur a ddywedo dynion, y rhoddant hwy gyfrif yn nydd y farn. Canys wrth dy eiriau y'th gyfiawnheir, ac wrth dy eiriau y'th gondemmir.' (Math. 12: 35-37). Bydd hyd yn oed yr esthetydd eithafol, felly, yn gallu sôn am gerdd 'dda'. Gall yr ôl-fodernydd relatifaidd neu nihiliaidd ymatal, oherwydd ei chwaeth, rhag darllen nofelau gwir 'wael'; ond y rhyfeddod yw, drwy ddawn anedig, y gall awdur adfeiliol (*decadent*) ambell dro, drwy Ras Cyffredin a phrofiad dynol dwfn, gynhyrchu'r trysor hardd.

Er gwaetha'r amllder amrywiol o ddoniau gwahanol sy gan bobl, cynhenid gyfartal yw eu heneidiau oll gerbron Duw – cyfartal o ran statws fel pechaduriaid, cyfartal yn y

wardigaeth a gynigir i bawb, a chyfartal ym mherffeithrwydd y sancteiddhad a addewir iddynt. Hyd yn oed, yn yr hen raniad a wnaed gan rai diwinyddion rhwng natur a Gras Cyffredinol, un ydynt. Gras yw'r Gras Cyffredinol a rennir i bawb: dyma sy'n naturiol. Ac nid yw cyflwyno gogoniant i Dduw mewn gwaith bob dydd yn llai o weithgaredd na'r cyflwyno addoliad uniongyrchol a roddir i Dduw er Ei glod oherwydd Gras Arbennig. Gras gan Dduw yw'r ddau.

Ymwahana Credadun ac Anghredadun, wrth gwrs, mewn galluoedd celfyddydol, mewn moesoldeb. Ond mae pobun yn gyfrifol, tan weithredu hyd yr eithaf.

Mae gwerth dyn yn gysylltiedig â delw Duw, ac erys hynny yn wir i bob un bob amser. O synied am urddas dyn yng ngoleuni'r Greadigaeth, ni ddibrisir llafur i fod yn ddigyfrifoldeb, i'w ostwng i'w wneud yn 'beth', yn ailadroddlyd dreisiol i'r dychymyg, i fychanu celfyddyd, sgil, hunanaberth ymroddiad, a gwreiddioldeb personoliaeth. Ac wedyn, yn yr ailgreadigaeth, a brofir mewn Gwardigaeth yn yr Arglwydd Iesu Grist, y mae'r pechadur a ailanwyd, yn y bôn, yn derbyn llawnder eithaf a pherffeithiol Gras Arbennig. Nid yw democratiaeth iach yn golygu difrïo'r lleiafrif bach iawn sy'n medru cyfrannu trysorau mawr iawn a fo'n sylfaen i werthfawredd y cyfan. Dim ond un Johann Sebastian Bach gaiff fod, un Dante, un Rembrandt mae'n wir. Ond yn y celfyddydau, er bod llawer arall yn rhinweddol, y mae goleuadau'r ychydig hwythau yn disgleirio i bawb, ac yn cydailleadu byd. Gwêl Duw bopeth.

*

*

*

Pan ystyrir 'poblogrwydd' ysgafn fel unig nod ymarferol i ddiwylliant Cymraeg, ni allaf i lai na meddwl mai tarddu a wna mewn llywodraeth sydd bellach yn noddwr i'r Celfyddydau. Dymuna'r awdurdodau ennill pleidleisiau i'w cadw mewn grym – yn ôl barn y cyhoedd: 70% yn erbyn Rhyfel Irac un mis, ddau fis wedyn 70% o'i blaid; hyn a hyn i un gyfrol o gelfyddyd wych, hyn a hyn i un gêm soccer. A anwybyddir treiddgarwch a dychymyg, ceinder crefft, dyfnder meddwl ac egni creadigol bellach: ynteu ai 'poblogrwydd' chwit-chwat y funud yw'r safon yn wleidyddol fyrolwg? 'Ti wyddost beth ddywed fy mhwsr'. Sentimentaliaeth, pornograffwaith meddal, trais, rhwyddineb, goglais y synhwyrau. Dysgu darllen y llythrennau heb allu dysgu darllen na deall y craidd. Cyflyru twpdra. Gorseddu gwacter. A banio gwedd ar y gallu dynol er mwyn plesio y

cyfartaledd lleiaf ei werthfawrogiad o gelfyddyd. Beth yw'r ots am ddeallusrwydd a gwerthoedd mwyaf datblygedig y meddwl?

Relatif yw popeth. Pam y dylem ni anfon cenhadon i Fryniau Khasia, Brasil a pherfedd Congo? Pa ots sydd am 'Wirionedd'? Ni ddylid, meddir, ymyrryd â hen draddodiadau dwfn a diwylliant brodorol – enwaedu merched bach, a'u haberthu, erthylu rhwydd – 'fy nghorff i', 'fi biau'r hawl' i lofruddio plant y groth os ydyn nhw'n ymyrryd â'm gyrfa neu'n seicolegol anghyfleus, – 'trais amdani', 'cladder nhw mewn cyffuriau' – dileer traddodiadau gwerin cefn gwlad hynafol a gwâr ar sail cywirdeb gwleidyddol. Ac os yw'n heconomi yn well o'r herwydd, ymlaen â ni. Beth yw'r ots? Relatifrwydd!

A'r trendi. Dadadeiladu a Thanseilio. Yr Avant-Garde! Dyma safon hygoelus ac anneallus bythol. Llyncu'r ffasiwn diweddaraf am mai ffasiwn yw. Carthion ar ganol llawr yw Celfyddyd. Mae'n herfeiddiol ac yn 'feiddgar' (O'r fath gysyniad) yn herio gorffennol mawr gan boeri i wyneb confensiwn yn ddifeddwl. Beth yw'r ots am ystyr, pwrpas, gwerth? On'd ydym ni'n newydd? Fe all ffasiwn y 'newydd' (sydd heb werthoedd cyfatebol) fod yn slogan go hen hefyd. Codir 'arbrofi' yn werth anhunanfeirniadol ddynewaredol. Ond does dim rhwyddach na llond sach o arbrofi hen heb fedrusrwydd. Dyna fu'r symudiad mwyaf di-oedolyn o safbwynt meddwl beirniadol a gafwyd erioed. A'r cwbl oherwydd diffygion deallol, gwanc, a diffyg gwreiddiau mewn aeddfedrwydd. Fe'i gelwir yn Ôl-foderniaeth o hyd, ers tro. Gormes y disgwylidig.

Brysiat i ychwanegu bod i'r *avant garde* ei swyn o hyd i ieuencid, ac i henebwyr neu gasglwyr creiriau, yn arbennig o gefn gwlad, lle y cysgodwyd hwy o fewn profiad go hynafol o arferoldeb defodol. Mae'n naturiol bod galw am ddarpariaeth ar bob lefel o ddeallusrwydd. Yn wir nid yw'r ffresni o ymateb yn gadarnhaol a geir weithiau i ddiffyg gwerth, diffyg ystyr a threfn, a diffyg pwrpas yn fater i'w wawdio'n ddidrugaredd. Wrth gwrs, y mae newydd-deb yn anghenraid, er nad bob amser y mae'r newydd yn rhinwedd. Dylwn ychwanegu nad ydys yn pleidio crynder diddatblygiad a chlo ffurfiol ystyrion yn syml fel profiad i'n boddhau fel y gwneid gyda seicolegwyr gestalt, nac oherwydd ei fod yn 'organaid', nac yn debyg i ddatrys pos. Nes at fy mhwynt yw'r rheidrwydd hwnnw mewn deall ac mewn iaith i glymu adeiladwaith amrywiaeth mewn undod, a rhanoldeb mewn cyfan terfynol oherwydd anghenion yr ymennydd dynol. Nes at y pwynt yw trwch

y dychymyg a'r teimlad aeddfed. Y gwir yw bod y clo a'r diben, yn debyg i reidiau eraill llenyddiaeth, megis ystyr a gwerth a threfn fel egwyddorion terfynol. A byddwn i'n eu pleidio oherwydd rhagosodiad anochel meddwl iach, mai dyna natur ddwyfol bodolaeth. Dyna'r cyflawnder terfynol mewn iaith. Ac nid yw'r egwyl gloff a negyddol a gafwyd ddiwedd yr ugeinfed ganrif namyn elfen arall, lai dawnus, yn y mosëig. Ymdrech deg a phriodol oedd ar y pryd, a hynod lwyddianus gredaf i yn nwylo celfyddion dawnus, i fynegi gwacter a seithugrwydd mewn cyfnod ôl-Gristnogol. Rhybudd oedd.

Megis gwrthbwynt neu gyfeiliant i Gristnogaeth, cafwyd drwy gydol athroniaeth y Gorllewin, o Socrates ymlaen hyd Hegel, fod undod a chydlynedd wedi bod yn rhagdybiau anochel i'r broses feddyliol yn ddi-fwlch. At ei gilydd, ni wna Ôl-foderniaeth, yn ei haflerwch, namyn ategu'r ymwybod mai anghenraid bywyd yw seiliau'r meddwl adeiladol. Mor amlwg yw ei gwendidau, fel y gall ysgogi angerdd yr hyn a gollwyd. Darganfod mewnldeb ystyroldeb a wneir megis braint angenrheidiol. Nis gwthir ar fywyd yn artiffisial. Ymateb yw, i'r hyn a geir yno eisoes. Ceir ffurfiau'n trawsffurfio'n ffurfiau bid siŵr – ond bob amser, ffurfiant. A ffurfiau ydynt o fewn cyd-destun diben. Myn yr Ôl-fodernydd mai casgliad o linyddau rhydd yw ei ddelfryd yntau, nad undod sydd, nad hyd yn oed undod ynghyd â rhai llinyddau rhydd. Ond y realiti sylfaenol nas osgoir yw cydberthynas a chydlyniad pob peth o ran natur, beth bynnag yw'r ddelfryd dybiedig.

Eto, gwrthryfela a wnawn. Perthyn gwrthryfel, yn iach ac yn anochel, o ran defod ac arferiad, – nid o ran egwyddor – i lencynrwydd megis i ddeallusrwydd. Disgwylir i'r llanc ystrydebol iach adweithio rywfodd neu'i gilydd. Os oedd traddodiad ar gael, ei wrthod sy raid. Dyma arwydd o gynnydd, meddir. Yn negawd cyntaf y ganrif ddiwethaf, parhawyd a charegwyd celfyddyd *avant-garde*, gan wrthod holl ragdybiau traddodiad. Cafwyd hen hen 'sioc' ar y pryd i'r meddyliau mwyaf archolladwy. Pleidiwyd newydddeb yn anfeirniadol fel prif nodwedd celfyddyd ... Ac yna, drwy drugaredd, chwap, y diweddai'r degawd cyntaf.

Ond daeth yr ail ddegawd. Ac yn yr un fan ysywaeth, y diweddai'r ail gyda llai o frwdfrydedd. A'r trydydd. Yna, erbyn y seithfed, ailgydiwyd gan 'fugeiliaid newydd' yn yr hen *avant-garde*. A'r wythfed a'r nawfed yn ailddarganfod hen rwyddineb 'arbrofi'.

Dechreuodd y newydd-deb parchedig heneiddio, a'r bywiogrwydd flinofarw. Ond ymlaen yr aethant yn arwrol, gan ddyfal barhau fel eu tadau a'u teidiau canonaidd, gyda'r un hen 'newydd-deb', tan lusgo'r un hen sioc. O sioc, sioc, sioc, i si, i s.

Ond *avant-garde* deinosawraidd oeddent oll bellach. Oni fuont felly erioed? Eto, dywedent y gwir.

Cymerer y profiad traddodiadol esthetig o 'glo' i gerdd, i stori, i ddianc. Tua chanol y ganrif (1952) fe gawsom 'Aros Godot', Beckett, drama a geisiai fynegi'r diddiben, y sefyllfa heb 'ddiweddiad'. Ceisiai wrthod clo. Doedd dim casgliad. Doedd neb yn mynd i unman. Ac yr oedd yn wir. Onid felly yr oedd bywyd heb bwrpas – profiad pawb bron yn yr ugeinfed ganrif ... ac onid felly pob canrif arall? Mynegwyd y diogi gydag egni. Gŵyr pawb fod hyn yn dryllio rhagdybiau disgwylidig a diwinyddol yr holl draddodiad parchedig dirywiol cynt. Gwasgarfa o frawddegau heb llyn ystyr a ddôi'n llenyddiaeth eirwir a phriodol i'r oes. Beth yw'r disgwylid onid bod rhyw fath o ddefod i gerdd dynnu i derfyn, o arferiad? Etifeddasom ragdybiau darllen cyfarwydd a diog o ddisgwylidig. Does dim angen diweddiad o gwbl; a daeth hynny hefyd yn ystrydeb, fel y tudalen gwag. Dywedai rywbeth gwir am serch dyn neu Dduw neu gydwybod y tro cyntaf, wedyn... Dyma fformiwla Ôl-foderniaeth yn ymsefydlu ac yn ymgaregu. 'Dysgwch y tudalen gwag ar eich cof, blant, erbyn yr arholiad.'

Ac yna, – peidiwch â dweud wrth neb, a cheisiwn sibrwd mor ddisylw ag y gallwn – 'wele *Wrth Aros Godot* yn gorffen.' Y mae hi ei hun yn profi prif nodwedd 'diweddiad', sef gorffen. Mae hefyd yn cyflawni un arall o nodweddion 'diweddiad', sef cyferbynnu â dechrau. Nid cyflwyno dadl ffug ynghylch absenoldeb diweddiad a diben ac ystyr yw herio diweddiad, ond peidio â diweddu. A methwyd â dweud a oes diwedd i gelfyddydwaith neu beidio. Meddai'r beirniad o arlunydd, 'Fi sy'n dweud a yw rhywbeth, i mi, yn gelfyddyd neu beidio.' Meddai'r llenor o feirniad, 'Fe mwyach sy'n fio.' A dyma'r Cymro dynwardgar yn hir neu'n hwyr yn dechrau arni o'r diwedd.

Yr un modd gyda theori drylliadaeth. Ac absenoldeb cydlyniad a'r 'theoria' priodol. A diffyg ystyr – rhagor o 'theoria' annilys.

Annigonol, drwy drugaredd, oedd y rhagdybiau ieithyddol a diwinyddol hyn. Theoriwyr gleision a gawd yn herio'r anheriadwy. Gan bwyll, dringwyd allan o bwll yr *avant garde* gan adael ar ei waelod chwaraewyr y rhagolwg rhigolog a'r diddychymyg

difeddwl. Ond anadlwyd o'r newydd. Methwyd, ond mewn theori, â chyrraedd y penagored: mae pob cyfan mewnol, o'r cyntaf hyd yr olaf, yn ddiweddedig ar y pryd. Safai diweddau'n fuddugoliaethus. Eto, mae hyd yn oed 'traddodiad' yn awr, ar yr union bryd y darllenir yr ymadrodd hwn 'yn awr' yn darfod, yr eiliad yma. Hyd y fan yma y cafwyd ffurf a chyfanrwydd i'n traddodiad diriaethol 'yn awr'. A'r traddodiad dilys arhosol fu'r arbrawf mwyaf.

* * *

Diben yw'r modd y mae'r dyfodol yn egluro ac yn effeithio ar werth y presennol. Felly, y mae'r Cristion yn ymgymhwyso fel Noa am ei fod yn gwybod beth sydd dros y gorwel. Derbynnir o'r herwydd Ystyr o'r tu allan i ystyr. Derbynia'r Cristion ei nod gan y Dyfodol. Hyn sy'n datgan perthynas mewn amser.

Mae tybied bod y meddwl gwyddonol yn meddu ar annibyniaeth heb ragdybiau yn mynd ymhellach na'r ffeithiau. Dogma di-sail yw peth felly. Cyffelyb yw'r didueddwr honedig, ym myd y materolwr, i gyfyngder y natur un-dimensiwn. Yn ôl Sartre, 'Rien n'a jamais aucune importance.' (Does gan ddim yr un iot o bwysigrwydd.) Y dyfodol dimensiwn-arall yw'r un sy'n gwahaniaethu rhwng gwacter ystyr Solomon a gwacter ystyr Nietzsche. Rhagdybiai Nietzsche fod Duw wedi marw: i Solomon roedd Duw'n aruthrol fyw ac yn dod â phob dim i farn. Nid Iwtopydd oedd Solomon am ddau reswm. Yn gyntaf, am ei fod yn realydd argyhoeddedig. Yn ail, am mai'r Oen yn unig a gâi dorri'r seiliau ar y sgrôl yn y patrwm yr oedd ef yn rhan ohono. Ac felly, gwyddai ef oferedd mewn bywyd o fewn fframwaith mwy.

Rhyfedd fel y mae yna ymdeimlad cudd o hyd fod gan bawb ohonom dargeddi er y gall y rhain ymryson yn bur wahanol i'w gilydd. Ar hyn o bryd, y mae'r gwleidyddion yn eu neilltuedd pleidlaisgarol yn ceisio gosod targedi i ysbytai, sef gostwng y nifer o bobl sy'n aros am driniaeth a chynyddu'r nifer o welyau rhydd. Ond mewn uned ddamweiniau ac argyfwng, y mae gan y meddygon nodau pur wahanol drwy drugaredd. Dymunant drin y cleifion mwyaf argyfyngus yn gyntaf. Pwysant a mesur y rhai sy'n gorfod disgwyl yn ôl taerineb yr alwad sy gan rai y mae arnynt eisiau brys. Ac ar y wardiau, ar ddiwedd y dydd, nid cyflymder y driniaeth sy'n bwysig, eithr ansawdd y gofal a'r llwyddiant i wneud gwaith yn dda.

Yn yr un modd, yn yr ysgolion, mae gan wleidyddion dargeddi eto – gostwng maint y dosbarthiadau, ennill hyn a hyn o farciau mewn arholiadau ac yn y blaen: materion rhifyddol fesuradwy. Ond fe fydd athrawon weithiau'n dewis amgenach nodau, megis diwylliant anfesuradwy'r plant, dyfnhau profiad, ehangu golygon, meithrin chwaeth, adeiladu moesau a pherthynas bersonol, cyflwyno cyffro medddwl effro. Disgwylid gan yr awdurdodau gywasgu'r rhain allan er mwyn y targedi 'go iawn', a gwario amser i 'gwecian' ystadegau. Wedyn y gorymdeithia'r pres ger bron.

Ym mryd Cristion, crëwyd popeth er gwasanaeth a chlod i Dduw. Drwy drugaredd, Duw popeth yw Duw, ac y mae eangfrydedd a diddordebau'n lletach ac yn fanylach nag unrhyw unigolyn na llywodraeth. Er bod dyn yn anelu at y newydd o hyd, i Dduw ni wna cwrs hanes ond dadlennu'r gweithiau a arfaethwyd eisoes ganddo yn y greadigaeth. Pan geir diffyg mewn un strwythur neu mewn un cynnyrch, pechod yw ei wreiddyn bob amser. Afiechyd sy'n ei anffurfio. Ac mae Amser yn gwastraffu amser.

Mae Cristnogaeth wedi dysgu hen wers ddirgel i bawb beth yw ei ddiben ar y ddaear, sef byw a llafurio er clod i Dduw. Mae hyn oll yn chwedl gwbl chwerthinllyd i rai fel 'Noa hanesyddol', a'i ddeuoedd llythrennol, fel y bedd gwag. Ond drwy gyfrif mai arweiniad a ffeithiau Duw sydd flaenaf, felly y cyfundrefnir gwerth a chynllunio fel ei gilydd. Ac felly y daw tragwyddoldeb yn ystyrion i breswyllo mewn amser. Wele ystyr anochel y Bardd a greodd y byd. Wele werthoedd a diben y tragwyddol.

Beth, felly, yw ystyr ysbrydol dweud mai 'gogoneddu Duw' yw diben bywyd a diwylliant?

Un peth sy'n gwbl syml eglur yn y Beibl yw mai dyna bwrpas dyn, fel y greadigaeth a bywyd, a phob peth arall. Efô yw delfryd perffeithrwydd, y norm cywir, er iechyd, a'r lles i ddyn, a'r prydfferthwch personol i'r amgylchfyd. Ac Efô yw'r nod i ddiwylliant a phob gweithred a wnawn – drwy ddyrchafu Duw â meddwl, gair, a gweithred. Mae yna fath beth â safon a gobaith. Onid siarad mewn haniaethau yw hyn? Wrth gwrs, nid mater arwynebol uniongyrchol yw hyn yn unig: eithr troi pob dim a wnawn – boed yn ymarfer corff, bwyta cinio, llenwi ffurflenni treth incwm, pob gweithgaredd amlwg – yn fath o emyn yn y galon. Ond y mae'n golygu mai'r bwriad i'r greadigaeth, yn arbennig bywyd dyn, yw bod y cwbl ysbrydol sydd yn cyfeirio tuag at

adeiladaeth, cadarnhau, dathlu bodolaeth – nid er ein mwyn ni – y goddrych truan – oll yn unol wrthrychol ag ewyllys eang ac amlochrog Duw gwrthrychol.

Mae 'gogoneddu Duw' yn golygu bod gwerth a threfn ac ystyr yn sylfaenol neu'n ganolog ddaionus. Nid ymgyfyngu a wna hynny i foeswersi nac i siarad 'duwiol' nac i 'broselytio'. Y mae ymhyfrydu yn y greadigaeth a hyrwyddo'r ffrwythlondeb yn nodweddion cwbl angenrheidiol mewn hwyl a chwerthin croyw. Rhinwedd yw'r ehangder a'r amlochredd. Nid yw hyn, yn y byd sydd ohoni, yn gwahardd realaeth a negyddiaeth. Fel arall. Yn yr amgylchiadau real, byddai ymguddio rhag hyn yn ddihangfa rhag ein dyletswydd gerbron Duw. Y mae eisiau dwyn pob dim at ei draed Ef, gan gynnwys pechod i'w felltithio a'i faddau. Dyna, mewn modd dwys, ffurfio safonau.

Wrth gwrs, pan grëir diwylliant iachus drwy Ras Cyffredinol, gwneir hynny oll – pan lwyddir yn hyn o gyfeiriad – yn isymwybodol hefyd er clod i Dduw. A gellir, wrth gwrs, felly, geisio arddel gwareiddiad a diwylliant sy'n ymwybodol Gristnogol, heb falchder a heb gulni. A chofier bod yr anghredinwyr – fel y mynyddoedd – yn gogoneddu Duw.

Ein cais, felly, yw ystyried 'blaenoriaeth' bob amser wrth geisio deall cyd-destun Cristnogol. Mae sylweddoli beth sy'n arwain mewn pwysigrwydd yn doddi popeth arall mewn persbectif.

Bu hyn weithiau yn fater go ddyrys mewn bywyd pob dydd i rai efengyleiddwyr oherwydd anghenraid cyfyng tyngedfennol y ffenomen o aileni difrif heb barchu llawnder sancteiddhad y Beibl. Hynny yw, mae'r digwyddiad profiadol enfawr hwnnw mor ganolog werthfawr i ddyn ei hun fel y gall lygatynnu Cristion oddi wrth gyfrifoldeb lled y prif beth: mawrhau Duw ym mhopeth. Fe all yn rhyfedd iawn newid y gwerthfawrogiad gwrthrychol o farwolaeth ac o atgyfodiad Crist ei hun o fewn cyd-destun rhagluniaeth. Dyna pam y mae myfyrio'n ddwys am 'Ogoneddu' yn briodol sylfaenol i fframwaith y meddwl yng Nghrist. Drwy sylweddoli bod Gogoneddu Duw yng Nghrist *bob amser* yn ddieithriad, yn y canol yn deg yn peri ei bod yn sylweddoli pwrpas aileni ei hun, pwrpas tyfiant, pwrpas y Greadigaeth, a'r Farn, a'r Deddfau, a'r Cariad a phob peth arall gyda'i gilydd. Gogoneddu, a gogoneddu llawn a goruchaf, yw hanfod cyfeiriad y gwyddorau, y celfyddydau, masnach, campau corfforol, a chenhadu'r efengyl. Y cyfanswm yw. Dim llai. Sylwer beth y mae hyn yn ei olygu i farddoniaeth a'r

celfyddydau megis i fywyd: fe rydd iddynt ddimensiwn dyfnach na'r arwynebol, a chyfoeth dyfnach na'r poblogaidd.

Credai Gwenallt mai un o briodoleddau mwyaf treiddgar a gwreiddiol llenyddiaeth Gymraeg oedd ei chymeriad cyson a sefydliadol Gristnogol. Nid cymeradwyo barddoniaeth a rhyddiaith uniongyrchol grefyddol Cymru yr oedd ef, fel y cyfryw. Ond disgrifio canol y dreftadaeth union cyflawn fel yr oedd, dyna a wnâi ef. Fe geid rhan o wreiddioldeb y parhad Gymraeg yn yr Ysbryd a oedd drwy bopeth ac o dan bopeth. Ceisiai'r daionus, a hynny mewn cefndir treiddgar o lygredd, gan ei osod mewn fframwaith o ganu serch, ac o chwedlau mytholegol cain. Ni raid codi math o orfrwdfrydedd sychdduwiol er mwyn gorfod cytuno bod llenyddiaeth Gymraeg yn amlwg grefyddol ei chraidd, yn fwy felly yn ystod rhai cyfnodau na'i gilydd. Fe'i gogwyddwyd hi mewn dimensiwn ysbrydol yn hynod wrywaidd hefyd neu'n batriarchaidd ei chraidd, ysywaeth, mewn llawer o gyfnodau. Byddaf yn gresynu am gulni'r naill a'r llall. Ond ni raid gormodieithu na mynd yn chwilboeth i geisio gwadu na chefnogi'r fath sefyllfa. Ffaith yw i'w hesbonio a chwilio'i harwyddocâd a'i gwerthfawrogi. Gwaith a bair inni efrydu'r byd fel y mae, yn ysbrydol ac yn gorfforol, yn ôl rhyfeddodau'i baradocsau.

Pe buasai amgenach dealltwriaeth o benarglwyddiaeth Duw dros fenyw a gwryw wedi lledu amrediad y meddwl llenyddol cytbwys, efallai y buasai wedi caniatáu rheitiach 'lle i'r fenyw' dyweder, o fewn ffrwythlonach traddodiad. Ond bu gormod o flaenoriaeth gartref i famau mewn rhai cyfeiriadau wrth esgor ar blant a'u magu. Wedi gresynu oherwydd cyd-destun pynciol mewn rhai cyfnodau yn hanes ein llenyddiaeth, gwiw yw wynebu potensial y presennol ymarferol. Gwiw yw sylweddoli hanes cyfartaledd ysbrydol yn anad dim, a gwahaniaethu rhwng ysgrifennu crefyddol ei *thema* a llenyddiaeth sy'n grwn ac yn gynhwysfawr ysbrydol, ei *naws*. Rhaid gwahaniaethu rhwng y pwnc a'r *naws*, y cynnwys a'r ysbryd a'u huna. Hynny yw, gellid cydnabod bod barddoniaeth, yn bur amlwg (ond, yn y bôn, lenyddiaeth i gyd) yn weithred hanfodol ysbrydol i bob rhyw. Erys o hyd ryw rin yn y gwaith o farddoni a fu ac sydd, pan fo'n llwyddiannus ac yn rymus, yn gogwyddo tuag at feddwl a themlo uwchlaw'r seciwlar. Mae ynddi fwy na'r ystrydebol amlwg. Cyfyd uwchlaw'r gwachul a'r 'bydol', y cyffredin gwasaid a'r amharch at fywyd, i feddiannu math o neilltuaeth lân. Myn werthoedd. Myn

drosogynnu amser a lle, er aros o'u mewn. Myn dynnu ar ddyfnder yr ysbryd dynol. A gesyd seiliau gwych i'r dyfodol.

Dyna'r pwysigrwydd i Gristnogion o werthfawrogi Gras Cyffredinol yn ogystal â Gras Arbennig, gan fawrygu canon ar sail gwerth.

Ac y mae'r methiant cyfoes ymhlith beirdd Cymru, boed yn wrywod neu'n fenywod, i werthuso yn arwyddo perygl i'r dyfodol. Tardd o ymwacáu. Tardd o ddiddanwch amddifad. Ymdlodi awenyddol bwriadol yw, ond yn anhunanfeirniadol. Collwyd, heb wybod na sylweddoli'r golled. Ond mae yna lawer siglad ar waith mewn rhyddiaith; daethai merched i mewn â'r traddodiad benywaidd iach gydag arddeliad ers tro byd; a hyderaf y bydd yr ysbryd benywaidd hwn yn lles i Gymru. Ond yr oedd dadwneud y drwg yn gryn dasg: ym maes barddoniaeth cafwyd mwy o drafferth seicolegol a chymdeithasol i dorri'r mowld negyddol ddiferched nag a dybid mewn ffeminyddiaeth. Pan ddaeth merched i'w treftadaeth briodol brydyddol, roedd yr anwerthuso eisoes wedi dechrau cydio; gallai rhywioldeb ymyrryd â gwerthoedd. Ac roedd eu lle o'r herwydd wedi cyd-daro â chyfnod o Ôl-foderniaeth relatif a diwerthoedd. O'r herwydd, ni chafodd y merched setlo'n hyderus o fewn cyd-destun o werthoedd cyson. Daeth yr adwaith dychanol a theg yn erbyn y symudiad ffeminyddol pwysig cyn bod y gwaith wedi'i derfynu. Difwynir pob mudiad da. Nid erys llenyddiaeth ei hun, er hynny, heb sicrhau gwerthoedd a'r pwrpas sydd mewn diwylliant iach. Dichon y gellid gobeithio, yn fwy hunanfeirniadol gytbwys, yn y cyfeiriad hwnnw i'r dyfodol.

* * *

Beth yw ystyr diwylliant 'Cristnogol', ymwybodol Gristnogol, heddiw mewn byd seciwlar?

Nid sôn yr wyf am *ddod* yn Gristion. Mae llwybr ffydd, cyfiawnhad ac ailenedigaeth wedi'i fapio yn y Beibl yn loyw; ac i'r rhai na cheisiasant ddianc rhagddo, y mae'n her eglur i'r gydwybod effro. Nid sôn yr wyf chwaith am *ddod* yn Gristion *ynghyd ag* ufuddhau wedyn drwy'r gorchmynion moesol cyn belled ag y gellir, er bod hynny'n cynnwys cryn dipyn o'r ateb, yn negyddol ac yn arbennig yn gadarnhaol. Sôn yr wyf yn hytrach am un peth ychwanegol a diwylliannol. Ceisio ymholi yr wyf am fywyd y galon sydd yng Nghrist o ran gwriad a chynnwys ac ystyr i gelfyddion diwylliant (sef pawb) bedair awr ar hugain bob dydd. Yr hanfod sy'n undod.

Felly, nid sôn yr wyf chwaith am fywyd y mynach, a hwnnw'n or-ar-wahân, yn abnormal felly, ac wedi'i gysegru (fel arfer) i ddefosiwn, er bod defosiwn, hwnnw'n sicr, yn rhan groyw o'r bywyd Cristnogol arferol. Nid sôn am ymgyrchu elusennol chwaith, nac am ymddygiad a buchedd garedig, na hyd yn oed gariadus. Mae'r rheini oll yn arwyddocaol; ond er yn ganolog, fel arfer ar gael yn gudd neu'n achlysurol yn ein gwaith a'n cymdeithas a'n hunigrwydd, nid ar bennau'r tai. Sôn yr wyf yn fwy penodol am ystyr bywyd o waith normal a hamdden iach beunyddiol ein diwylliant o fewn cyddestun cyson a bythol Crist. Sôn yr wyf am fywyd unigol a chymdeithasol, effro ac ynghwsg: am eithafbwynt felly, am anadlu Crist yn 'naturiol' o hyd, am yr artist yn ei holl fywyd sydd yn Ei gwmi'n wastadol, am fod yn gyfan gwbl ymhyfrydol ufudd iddo ym mhob man, am fod yn eiddo llwyr iddo, a rhodio, wedi'n gwisgo ynddo Ef. Sôn a wnaif am gael Ei argraff a'i sawr Ef ar y cwbl o fywyd. Dechrau ynddo Ef, teithio ynddo Ef, gorffen ynddo Ef, ac eto – a dyma graidd y cwestiwn – fod yn fod dynol cyflawn, gweithgar, cymdeithasgar, agored a rhydd o'i herwydd.

Os yw'r fath fywyd pencampwriaethol yn bosibl ac yn ddymunol, y mae'n wiw inni bensynied pa fath o fywyd yn union yw? Sut y mae Crist ynom ddydd a nos yn y banc, yn y cae rygbi, yn y cartref, wrth ddarllen, mewn carwriaeth, yn yr ardd, wrth feddwl, wrth deimlo, wrth ewyllysio, wrth weithio, wrth gysgu, yn ddynol ffrwythlon? Ceisio ymbalfalu at ateb y cwestiwn hwnnw yr ydys, ymhlith cwestiynau eraill, yn yr ymdriniaeth hon â Diwylliant. Cwestiwn tra phwysig yw i'r Eglwys ymhob cenedlaeth.

Ai rhannu bywyd sy'n ofynnol? Natur a Gras. Dydd Sul a Dydd Gwaith. Gras Cyffredin a Gras Arbennig. Dwy ran o dan wyneb. Ai dyna yw patrwm y Cristion normal, cyffredin iach? Mae'r cwestiwn yn hawlio tipyn o bendroni, a hynny ar lefel arferol, enghreifftiol, a phersonol. Ond na, nid cwestwn theoretig felly yw hyn. Tybiaf mai maes priodol mewn theori lenyddol Gristnogol fyddai myfyrdod ynghylch y berthynas a'r gwahaniaeth rhwng Ffydd a'r Esthetig (hardd), Moesoldeb (daionus) a'r Deallol (y gwir). Mae yna lawer arall mewn Cyfundrefneg lle y mae sylfeini sy'n berthnasol, megis perthyn yr Amryw mewn Undod, y Cyffredinol a'r Arbennig, yr Un a'r Llawer, Teimlad mewn Ystyr, Ffurf a Deunydd ac yn y blaen, yn arwyddocaol. Ond materion yw'r rheini oll i lyfrau eraill. Yn y fan hon, soniaf fod angen cydnabod yn syml sut y mae bodolaeth a gwaith diwylliant bob dydd yn y pen draw – i'r credadun a'r

anghredadun – yn cael eu mesur yn ôl ansawdd eu mawl cynhenid i'r Crëwr a'r Gwaredwr. Ni ellir byw heb werthuso.

Da sylweddoli bod pob Cristion yn meddu ar Ras Cyffredin a Gras Arbennig, y cyntaf yn gynwysedig yn yr ail. Ond y mae llenyddiaeth ei hun o fewn ein diwylliant cyflawn yn gwestiwn ymarferol enghreifftiol ac yn broblem benodol o fewn y fath ystyriaeth letach. Dyma alwedigaeth neilltuol, ac enghraifft o broblem braf i bawb bwygilydd; ond i'r llenor unigol, y mae'n bwnc i fyfyrddod, ac i'w feirniadu'i hun yn ngoleuni holl rod y Greadigaeth, hyd yn oed o fewn ei gornel fach ddirfodol real ei hun.

Cydwead ydyw Calfiniaeth o werthoedd sydd a wnelont â'r dyn Naturiol ac â'r dyn yng Nghrist. Ond y mae ychydig o halen yn medru melysu'r gymdeithas i gyd. Yn anuniongyrchol y datblygodd Max Weber ei esboniadau ynghylch dylanwad Calfiniaeth ar lewyrch economaidd y Gorllewin, a'u 'profi'n' fwyfwy argyhoeddiadol. Cawsant hwb eto yn ddiweddar gan yr atheist Niall Ferguson (2011) wrth sylwi fel yr oedd yr adfywiad Protestannaidd Cristnogol yn Tsheina a De America, yn wir, eu twf mewn Calfiniaeth yn ddiweddar, yn olyneddion priodol i Brydain, yr Iseldiroedd, y Swistir, yr Almaen, a'r Unol Daleithiau. Profasant yn gadarnach ac yn llai propagandaidd na Marx. Caffaeliad arall i ni yng Nghymru oedd astudiaeth gytbwys Ellis Roberts, *Weber* (1982) yng nghyfres *Y Meddwl Modern*. Meddai hwnnw, 'Er fod rhai yn honni fod elfen o bropaganda gwleidyddol yn ei waith yntau, dilysrwydd a chywirdeb ei gyfraniad sydd wedi mynd â bryd y rhan fwyaf o'i ddarllenwyr... Felly er mwyn gwarchod a chynnal teyrnas Duw ar y ddaear fe ymdrechai'r Calfinydd i ennill rheolaeth dros natur.' Hynny yw, wrth geisio teyrnas Dduw yn anuniongyrchol yr ychwanegir pob dim arall. A thrwy ymddiriedaeth cyd-ddynion yn nelfrydau gonestrwydd a gofal – er gwaethaf pwysau gwanc, materoliaeth, a hunanoldeb – yr adeileddid cymdeithas. Meddai Roberts ymhellach, 'Gonestrwydd, cynildeb, cysondeb a gwaith caled oedd y rhinweddau moesol ac egnïol a arweiniodd at yr uchelgais o greu elw a chyfoeth.' *Cyd-ddigwyddiad* oedd 'llwyddiant': sêl a systemateg. 'Yr oedd yr athrawiaeth Galfiniaidd yn caniatáu i'r aelod cyffredin, yn ogystal â'r offeiriad [swyddog], fyw bywyd crefyddol asgetaidd heb orfod encilio o'r byd hwn. Gwahaniaethai ef [Weber] rhwng asgetiaeth "arallfydol" y crefyddwr Catholig a'r asgetiaeth "fydol feunyddiol" a ddilynai'r Calfiniaid.' Edrych ar Dduw a oleuai'r edrych ar y ddaear ac ar gyd-ddyn.

5. Y GORCHYMYN I DDIWYLLIO

Dichon fod Cristnogion unionged yn weddol gytûn mai prif bwrpas dyn yw gogoneddu Duw. Ac o'r cychwyn cyfarwyddodd Duw ni ar y ffordd ymarferol i'w wneud. Fe'i gwneir drwy ufuddhau a dibynnu. Fe'i gwneir drwy fod yn ffyddlon i'r gorchymyn diwylliannol. Ac fe'i gwneir oll drwy garu. Y gorchymyn diwylliannol sy'n dangos inni mor ganolog yw Diwylliant mewn diwinyddiaeth Gristnogol yn rhaglen Duw.

Mae ei eglurder, ei leoliad, a'i ailadroddiad yn y Beibl yn cyhoeddi mai dyma'r gweithgaredd normal a ddisgwylir gan ddyn ar y ddaear. Chwe diwrnod o'r saith, dyna'r patrwm a sylfaenwyd i fywyd gweithiol. Dyna'r cyfarwyddyd i'r ffordd a roddodd Duw yn ôl yr hyn y byddai dyn yn Ei ogoneddu Ef fel arfer; ac un dull sylfaenol iawn o'i gyflawni yw iddo fynegi'i ufudd-dod, a'i ran yng nghynhaliaeth creadigaeth Duw, a'i ewyllys i gydweithredu â bwriadau hardd Duw ar y ddaear.

Fe'i cyhoeddidd yn loyw cyn y Cwmp ac wedyn, cyn y Dilyw ac wedyn; yn yr Hen Destament a'r Newydd. Fe'i darlunnid ar waith ac yn norm yn gyson drwy gydol yr ysgrythurau. Fe'i cysylltid â'r Ddeddf ym maes moeseg.

Ac eto, ychydig o sylw a roddir iddo gan ddiwinyddion Cymraeg. Dengys y Beibl sut y mae diwyllio yn cael ei ddifwyno gan y Cwmp. Yn lle llawenydd pur diwyllio, fe ddadlennir mwyach y straen, y baich a'r boen. Diau fod cyfrifoldeb dyn wedi'i wyro rhag sylwi ar bwysigrwydd y wedd hon. Ac y mae'r arwahanrwydd oddi wrth Dduw i'r dyn cyffredin yn dallu'r golygon rhag ei gydnabod, yn wir yn ei orfodi ef, megis y Cristion ei hun, i ddelio mwyach â'r rhwystr i wasanaeth rhwng ewyllys Duw a gwaith dyn. I bob golwg, yn fframwaith y berthynas Gristnogol rhwng dyn a Duw, ymyrrwyd â'r gorchymyn a'r berthynas normal hon, rhwng dyn a'r ddaear. Eto, deil yr athrawiaeth yno'n un i'w sylweddoli o hyd ac i anrhydeddu ei harwyddocâd ymarferol o fewn rhagluniaeth ysbrydol a Gras Cyffredin, er y gall bywyd ymarferol ei hun fod yn fygythiad.

Gelwir yr esgeulustod hwn ar fywyd ffrwythlon daearol y Cristion yn bietistiaeth. Camgymeriad mawr yw i Gristnogion anwybyddu'r maes hwn oherwydd eu bod yn rhannu'i ddyletswyddau gydag anghredinwyr. Ni ddylid anwybyddu'r parch sydd iddo yn fframwaith cynllun Duw. I'r lleygwr, mae'n gyfrifoldeb amlwg, er pwysiced y bo Cyfiawnhad a'r Aileni. A sut bynnag y bo gweinidogion y Gair yn dehongli natur eu swydd – a gellir deall yn burion y pwyslais wedi'r Cwmp i gennad ganoli ar efengyl iachawdwriaeth ac ar Fawl defosiynol – y mae ymarferoldeb beunyddiol a'r amser a

roddir i'r gweithgaredd hwn gan y dyn normal – a'r lle sydd i hyn yn athrawiaeth fawr Sancteiddhad i'r Cristion – y mae hyn oll yn ein darbwylllo bod angen hyd yn oed i weinidogion llawn-amser fod yn glir ynglŷn â lleoliad hyn o waith yng Nghynllun gwreiddiol a pharhaol Duw yn gyffredinol. Ac mewn gwledydd gorchfygedig bychain o fath Cymru ac o fewn cyd-destun gwanc sy'n difwyno'r amgylchfyd ymhob gwlad, y mae llawn sylweddoli natur yr ymgais giaidd i ddistrywio a gwenwyno ac i israddio ansawdd Diwylliant yn gyfrifoldeb na ddylid ei gymryd yn ysgafn.

Rhodddwyd i ddyn fywyd ac egni, doniau a dychymyg, corfforol a meddyliol. Fe'u rhodddwyd yn unswydd er mwyn cyflawni helaethrwydd amrywiol y gorchymyn yn rheolaidd ac yn loyw er clod i Benarglwyddiaeth Duw. Nid fel cosb y'i bwriadwyd yn gychwynnol, ond i ddyn fod yn adlewyrchiad o Dduw, neu'n estyniad o ddrych arglwydd ar Ei ddelw Ef. Mae a wnelo hyn â natur bodolaeth a phwrpas ac arbenigrwydd creadigol Duw a dyn. Fel y canodd y Salmydd (8: 3-9):

*'Eto gwnaethost ef ychydig islaw Duw
a'i goroni â gogoniant ac anrhydedd.
Rhoist iddo awdurdod ar waith dy ddwylo,
a gosod popeth dan ei draed:
defaid ac ychen i gyd,
yr anifeiliaid gwylltion hefyd,
adar y nefoedd, a physgod y môr,
a phopeth sy'n tramwyo llwybrau'r dyfroedd.
O Arglwydd, ein Iôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear!'*

Dyna bwrpas pob person ar y ddaear. Sut y mae'n cael ei gyflawni? Mae gwaith yr Amaethwr yn uniongyrchol amlwg. Diwylltio yr amgylchfyd yw ei swydd erioed. Ond perthyn athro, gwraig tŷ, plismon, clerc treth incwm, siopwr, banciwr, a bardd i'r un cynllun. Mae Cristnogaeth yn cynnwys popeth. A dichon fod gan y lleygwr yn ôl ei faes ei hun – yn amgenach hyd yn oed na gweinidog a neilltuir yn benodol i gyflwyno'r gair – gyfrifoldeb arbenigol i feddwl a dysgu a myfyrio mwy am y ddysgeidiaeth hon yn ôl anghenion neilltuedig. Sonir am frenhiniaeth y Cristion (Dat. 1:6, 5:10). A gwaith, yn ôl pob golwg, yw un o'r ffyrdd pennaf y mae dyn i fod i weithredu'i frenhiniaeth ar y ddaear.

*

*

*

Mae'n bwysig yn y cyd-destun hwn sylweddoli sut yr oedd Duw ei hun yn diffinio ac yn egluro Diwylliant i'r dyn cyntaf.

Yn sgil y fframwaith hynod graff a chyrhaeddbell, dichon y dylid ailddiffinio'r ateb i'r cwestiwn 'Beth yw Diwylliant?' fel hyn. Dyma'r gweithredu sydd fel pe bai'n ymateb cadarnhaol i'r Gorchymyn Diwylliannol a ddatganwyd gan Dduw. Hynny yw, elfen yw o fewn Arfaeth gydlynol Duw: gwedd ar ufudd-dod canolog. Lleisiwyd y gorchymyn diwylliannol yn gyntaf oll yn Genesis 1: 8. Fe'i hail-adroddwyd yn strategol yn Genesis 3: 19 wedi'r Cwmp; ac yn fras eto yn Genesis 9 :1 - 3 ar ôl y Dilyw. A cheir mynegiant moliannus o'i rym drachefn yn Salm 8.

Dyma'r gorchymyn cronolegol cyntaf a roddodd Duw erioed i ddyn yn weithredol. Dibynnai hefyd ar orchymyn cyntaf cyn-weithredol i'r Greadigaeth, 'Bydded'. Mae a wnelo â'i swyddogaeth gychwynnol ar y ddaear. Fe'i cyhoeddwyd felly'n arwyddocaol yn y dechrau i fod yn rhan o gynllun. Disgrifia berthynas dyn a'r ddaear honno mewn modd ystyrlon a pharhaol.

Nid dyma'r gorchymyn pwysicaf, wrth gwrs. Gellid crynhoi'r gorchymyn pwysicaf mewn modd a aralleirir sawl tro yn gynhwysfawr drwy gydol yr ysgrythur: 'Gogoneddwch yr Arglwydd'. 'Moliennwch Dduw'. 'Ceri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl'. (Math. 22: 37) Canolir hyn ar Dduw. A dyma'n gwaith a'n hyfrydwch pennaf yn dragwyddol. Ond nid yw 'ffrwytho' yn amherthnasol. Dyna'n pwrpas personol a phwrpas mewn diwylliant, oherwydd mai rhan yw o Ogoneddu. Dyna ystyr dyn i raddau.

Wrth ystyried pwrpas ymarferol dyn yn ddiriaethol o ddydd i ddydd yn ei berthynas â'r byd hwn, yna y mae'r gorchymyn cyntaf hwn i ddyn yn amlinellu un wedd eithriadol ganolog ar y ffordd y gogoneddir Duw. Gwelir ei osod yn llawn fel y'i traethwyd wrth Adda ac Efa; ac mae'r myfyrdod am bwrpas mor ystyriol allweddol –

'Duw a ddywedodd wrthynt, Ffrwythwch, ac amlhewch, a llenwch y ddaear, a darostyngwch hi; ac arglwyddiaethwch ar bysg y môr, ac ar ehediaid y nefoedd, ac ar bob peth byw a ymsymudo ar y ddaear.' (Genesis 1: 28)

Pan fu rhaid i ddyn aildechrau ei yrfa fel petai ar ôl melltith y Dilyw, dyma'r un gorchymyn eto yn cael ei roi drachefn i Noa a'i feibion:

'Ffrwythwch a lluosogwch, a llenwch y ddaear ... Pob ymsymudydd yr hwn sydd fyw, fydd i chwi yn fwyd: fel y gwyrdd lysieuyn y rhoddais i chwi bob dim ... Ffrwythwch ac amlhewch, epiliwch ar y ddaear, a lluosogwch ynddi'. (Genesis 9: 1-3)

Fel hyn y mynegwyd yr un pwrpas mawreddog hwn i ddynd drachefn ar gân gan Salm 8: *'Gwnaethost iddo arglwyddiaethu ar weithredoedd dy ddwylo; gosodaist bob peth dan ei draed ef'.*

Geiriau cyffredinol a llydain iawn yw'r rhain oll. A chynhwysfawr. Y maent yn amgylchu'r uniongyrchol a'r anuniongyrchol. Mae'r fam-gu sy'n gwarchod ei hwyres ar ran y rhieni yn cyfrannu at ffrwythlondeb, fel y gwna'r amaethwr. Mae'r llenor, a'r mecanydd ceir, y cyfreithiwr a'r mwyngloddwr, y wraig tŷ sy'n paratoi bwyd neu'n trefnu'r cartref a'r diddanwr sy'n darparu ar gyfer hamdden a meithrin y meddwl, y mae holl rychwant y gweithgareddau hyn a llawer o rai eraill yn cyfrannu'n anrhydeddus ac yn briodol tuag at esgor ar ddiwylliant a'i gynnal a'i hyrwyddo. Mae'r cleric treth incwm, a'r warden trafniadaeth, drueiniaid, y siopwr a'r dyn sy'n ysgubo'r ffordd yn ôl ei rythm ei hun, oll yn cyflawni'r pwrpas daearol priodol a roddwyd iddynt.

Ac y mae'r Beibl, a'r Arglwydd Iesu Grist yn ei ddamhegion, yn gweld pob bywyd, yn ei gyd-destun, ar waith yn ôl amodau Duw.

Math o gysgod yw hwn, mae'n wir, o denantiaeth ddirprwyol i'r Penarglwydd. Dyma a ddywedir amdano Ef: *'Yr Arglwydd a baratôdd ei orseddfa yn y nefoedd, a'i frenhiniaeth Ef sydd yn llywodraethu ar bob peth'.* (Sam 103: 19). Y tu mewn i'r deyrnas hon y mae dyn yn gysgod o'r Crëwr. Felly y rhoddodd Duw ei orchymyn i ddynd fel y câi'r gwaith dynol fod yn estyniad ac yn olynnydd ac yn barhad i'w waith Ef. Dyma Ef newydd orffen creu pob peth ar y chweched dydd; a chyn iddo orffwys, rhydd orchymyn eglur. Bydd dyn bellach yn byw'r cwbl o'i fywyd a'i waith ym mhresenoldeb Duw. Ac y mae'n rhan o'n myfyrdod yn y tudalennau hyn wrth ystyried diwylliant i gydnabod ac i foliannu'r ffaith fod a wnelo Duw â phob dim a wnawn. Diolchwn am hyn wrth ei roi ar Ei allor. Mae yna argraff ar bob dim a chyfeiriad i bob dim yn ôl y gwelediad sydd gan Dduw ar ein cyfer.

Yn achos Noa, ymhellach ymlaen, dyma orchymyn i ddynd sy'n byw *ar ôl* y Cwmp. Nid ymwaredir â phwysigrwydd y swyddogaeth o ffrwytho oherwydd yr anghenraid bellach i geisio gwaredigaeth ac i geisio Duw o'r newydd. Ceir tuedd gan

ambell Bietist i beidio â sylwi ar Noa, os gall, ac i synied hyd yn oed fod a wnelo'r pwyslais ar ddiwyllio â chyfnod 'cyn-Gristnogol' fel petai: *'A'r Arglwydd Dduw a gymerodd y dyn, ac a'i gosododd ef yng ngardd Eden, i'w llafurio ac i'w chadw hi.'* (Gen. 2: 15). Ond dyma, ymddengys, o bosib orchymyn 'tragwyddol' iddo mwyach. Gwaith – dan bryder, er gwaetha'r hwyl weithiau – dyna yw rhan lawen a thrist dyn fel dyn wedi Eden.

Diwylltio yw diwyllio iddo. Darostwng yr hyn sy'n ymddangos heb ddigon o drefn, i ddilyn trefn. A gwneir hyn yn allanol ac yn weithredol gorfforol, eithr hefyd yn fewnol ac yn feddyliol.

Yn fuan ar ôl creu dyn y mae Duw'n ei arwain ymlaen at y modd rhyfeddol i feithrin trefn feddyliol: (Gen. 2: 19 - 20). Dyma ddechrau diwyllio'r meddwl ym mhob gwedd arno drwy esgor ar iaith. *'A'r Arglwydd Dduw a luniodd o'r ddaear holl fwystfilod y maes, a holl ehediaid y nefoedd, ac a'u dygodd at Adda i weled pa enw a roddai efe iddynt hwy: a pha fodd bynnag yr enwodd dyn bob peth byw, hynny fu ei enw ef. Ac Adda a alwodd enwau ar yr holl anifeiliaid, ac ar ehediaid y nefoedd, ac ar fwystfilod y maes.'* Gwedd arall ar ddiwyllio oedd iaith, ac ar ddarostwng y ddaear yn y meddwl.

Mae'r ieithydd mawr Gustave Guillaume mewn darlith ym 1957 yn dadlau mai pwrpas cyntaf iaith yw ffrwyno'r cythrwbl meddyliol. I faban bach y mae'r delweddau sy'n taro'i synhwyrau yn gymysgfa ddireol ar y dechrau. Er mwyn deall, rhaid dod â'r cwbl i drefn. Gwahenir rhwng yr hyn sy'n gysurlon a'r hyn sy'n annifyr; yn wir, rhwng pob pren o'r ardd. Trefnir yr Ardd.

Wrth sôn am amrywiaeth Diwylliant, y mae pawb yn isymwybodol neu'n ymwybodol yn sylweddoli'i le ei hun o fewn rhyw fath o batrwm. Ceir meysydd lawer. Ond fe'u gwelwn oll yn ôl mosëig gwaith a hamdden mewn cymdeithas weddol amlweddog. Anghenraid ymarferol yw hyn, i'r byd modern yn arbennig. Ond fe'i cyfrifwn hefyd o fewn ein cwlwm gwerthoedd presennol yn rhagoriaeth ddynol. Rhagorol yw cydnabod patrwm o undodau amrywiol ym mhob celfyddyd a gwyddor.

Yr ydym eisoes wedi lledu'n diffiniad o Ddiwylliant yn o gatholig, gan synied amdano yn ôl cyflawnder ansawdd ac amrediad ein ffordd ddynol o fyw. Yn y bôn, ni ellir llai na thybied ei fod mor gynhwysfawr nes cwmpasu popeth y mae dyn yn gallu 'meddwl' amdano. Os yw dyn yn cyffwrdd â rhywbeth, ni all lai na mynegi agwedd wâr

neu anwar tuag ato. Mae ef yn defnyddio cymaint o weddau ar y greadigaeth yn ystod ei fywyd ymarferol, ac y mae popeth y mae ef yn ymwybodol ohono yn gallu cael ei gofrestru o fewn rychwant ei Ddiwylliant. Gŵyr fod gwareiddio yn ddaionus, yn bleser o fath, ac yn fanteisiol. Gwedd ar feddwl ei hun yw diwyllio.

Ochr yn ochr â'r amgylchfyd domestig a'r cymhelliad o fwynhad sy'n cynnwys llawer gwedd ar ddiddanwch personol a grybwyllais, fe restrir gan Dooyeweerd yntau nifer eithaf cynhwysfawr o sfferau deunyddiol neu weddau ar y greadigaeth. Arolwg hwylus iawn inni ddechrau meddwl amdani. Dyna Ffydd, Moeseg, Barnwriaeth, Estheteg, Cymdeithaseg, Iaith, Hanes, Daeareg, Dadansoddiad, Seicoleg, Bywydeg, Ffisegofodeg, Rhifyddeg. Maent fel pamau mewn gardd. Dyna arolwg go deg o Deyrnas Penarglwyddiaeth Duw ar y ddaear hon. Her yw i'r beirniad wrth ystyried y mathau o wareiddio sydd. Help ydynt i ufuddhau i'r gorchymyn. A gall Cristion fwynhau datganiad y Salmydd: '*Gosododd yr Arglwydd ei orsedd yn y nefoedd, ac y mae ei frenhiniaeth ef yn rheoli pob peth.*' Sonnir am y Mab: '*Efyw disgleirdeb gogoniant Duw, ac y mae stamp ei sylwedd ef arno; ac y mae'n cynnal pob peth â'i air nerthol.*' (Heb. 1: 3).

Yr ydym oll yn ymwybod â'r gweddau gwahanol hyn ar ein bywyd a'n diddordeb, am amrywiaeth pynciau celfyddyd a gwyddoniaeth. Am hyn y soniai Abraham Kuyper, pan ddatganodd, 'Nid oes yr un fodfedd yn holl rychwant bodolaeth ddynol lle nad yw Crist yn llefain, "Fi biau hyn" '. Felly, teg dweud am Gristion diwylliedig, 'Y mae'n byw'r cwbl o'i fywyd ym mhresenoldeb Duw'. Os meddylir am Ddiwylliant Cristnogol, nid ydym yn ei gyfyngu i ymgyrchu'n erbyn erthyliad, neu i fywyd defosiynol y Sul, neu'n erbyn ewthanasia, ac yn y blaen. Nid rhestr yw. Nid cilio chwaith a wneir oddi wrth fywyd beunyddiol y byd. Yn wir, mae'n cynnwys pob sffêr, ond gan ymledu hefyd o'r naturiol i'r goruwchnaturiol. Bywyd 'llawn + ' yw. Y cyflawnder unol mewn patrwm.

Er mor hwylus yw'r gair 'seciwlar' wrth gyferbynnu'r sefydliad crefyddol gweledig 'eglwys' â'r hyn sydd y tu allan i'r eglwys, nid yw'n fanwl foddhaol. Yn ôl athrawiaeth sofraniaeth y sfferau y mae pob gwedd ar ein bywyd yn grefyddol. Ceir amllder o sfferau, ond dônt oll yn unol o dan lywodraeth yr egwyddor arweiniol i'w diwyllio: teyrngarwch y galon. Tarddiad y gwirionedd, y *point d'appui* (golygbwynt canolog), sy'n caniatáu i ni syllu ar holl rychwant bywyd. Mae gan yr Arglwydd Iesu Grist safle unigryw o fewn trefn y Greadigaeth. Nid oes rhaniad rhwng Gras a Natur: y

mae'r cwbl yn ddarostyngedig i Grist. Eto, o ran swyddogaeth nid yw'r eglwys (leol, weledig) yn meddu ar safle awdurdodol goruwch pob perthynas gymdeithasol arall. Y mae gan bob un awdurdod o fewn ei sffêr ei hun, swyddogaeth wasanaethol o ran ei pherthynas â phob sffêr arall yng ngoleuni'r canol, Duw.

Mae rhannu'r awdurdod crefyddol oddi wrth bopeth arall yn wedd ar Seciwlariaeth. Math o Ffydd, felly, yw Seciwlariaeth hithau. Ei maes yw Creadigaeth Duw. Ond mae'n amddifad oherwydd ei deall anaeddfed ar wahân i'r Creawdwr. Cyfyngir pob sffêr gan ei swyddogaeth, felly, ond fe'i clymir yn ystyrion gan ei chydberthynas gymdeithasol â phob sffêr arall, dan olwg yr Absoliwt, boed yn Grist neu'n Drosynnol. Mae eu hannibyniaeth yn gosod cyd-ddibyniaeth arnynt. Ystyr eu 'rhyddid' tybiedig a'u hanian yw eu bod yn cael ffynhonnell eu bodolaeth a'u ffurf gan Dduw, ond eu cyfrifoldeb yn ôl amodau'r sffêr ei hun. Mae ganddynt yn y bôn 'wahuniaeth' – gwahaniaeth natur a deddfau, mathau o strwythur, ond tebygrwydd perthynas â'r canol. O ganlyniad, nid perthynas greedig dotalitaraidd mohoni. Tarddiad dwyfol cariadus ar y cyd sydd i bob awdurdod a math o hunanlywodraeth hyd yn oed gan y rhai a 'ymwahanodd'.

Sut bynnag, nid cyfwerth â'i gilydd yw gweithred pob 'sffêr' (nac is-sffêr) yn nhybiaeth y dyn naturiol. Fyddai neb yn gosod clwb criced yn gyfartal â llywodraeth gwlad er bod gan y naill a'r llall reolau annibynnol. Yr eglwys fel sefydliad, yn ddiaw yw'r fwyaf arwyddocaol. Gwahaniaethir yn ôl gwerth swyddogaeth – perthynas unigol, nid o ran rheolaeth safle. Mae yna hierarci gwerth a gwasanaeth. Eto, rhwng sfferau â'i gilydd, a rhwng sfferau a'r rheidrydd canolog sylfaenol, y mae yna gydbwysedd rhwng rhyddid ac awdurdod. Y mae awdurdod yn gwarchod rhag y defnydd anghyfrifol o ryddid, a rhyddid yn gwarchod rhag camdefnydd hunanol awdurdod. Ni chaiff un sffêr gipio hawliau'r un arall. Byddai disodliad o'r fath yn anffurfio trefn y cread.

Dyna pam y mae perthynas ostyngedig dyn i Dduw mor fywydol hyfryd.

Atal gorganoli pwer yw gwasanaeth datganoli sefydliadau dynol. Tuedd trachwant dyn yw gorganoli pwer ynndo'i hun. Ac eto, er y cydlynu rhwng sfferau 'seciular', nid oes cyfaddawdu ar agweddau yn ein dyfnaf teyrngarwch i'r dimensiwn ysbrydol. I'r dyn naturiol gelyniaethus, gall yr ystyr Gristnogol i'r fath benarglwyddiaeth fod yn dramgwydd mawr. I'r Cristion, y mae'n tynnu'i sylw allan at Un sy'n fwy nag ef.

Rhaid cofio nad oes yr un ddadl wrthrychol na'r un neges Gristnogol sy'n oddrychol dderbyniol i'r dyn naturiol. Goddrychol yw ef ynghylch pob absoliwt heblaw'i farn a'i wybodaeth gyfyngedig ei hun. Gwrthrychol yw'r Ysgrythur, ar y llaw arall, cyfrwng ffynonellol i'r gwirioneddau Cristnogol. Ac amhosibl yw i'r dyn naturiol eu *deall* hyd yn oed – ohono'i hun – o ran eu pwrpas ar y ddaear. Hunanwireddu a wna'r Ysgrythur drwy nerth yr Ysbryd Glân (gw. *Van Til's Apologetic*, gol. Greg L. Bahnsen, 1998, – 89, 92, 93), ac fe wna hynny esbonio safle presenoldeb y Goruwchnaturiol o fewn popeth naturiol a'r tu allan iddo.

Clywir o hyd gan rywrai, hyd yn oed ar ôl y Diwygiad Protestannaidd, gyferbynnu go chwyn rhwng y 'crefyddol' a'r 'seciwlar', rhwng arglwyddiaeth Duw dros y Sul, a'i ddiddordeb llai fel petai yn y chwe diwrnod arall. Nid yn anaml yn wir, hyd yn oed mewn llenyddiaeth fodern, y clywir gwrthdrawiad rhwng y corff a'r ysbryd; ac yn wir bu'n bwnc mawr yn ein llenyddiaeth ar un adeg; ac yn ein crefydd, erys yn ganolog o hyd. Cyn y Diwygiad Protestannaidd yr oedd y fath gyferbynnu'n fwy eithafol amlwg efallai. Yn wir, yr oedd yn wedd adnabyddus ar ddiwinyddiaeth gyffredin. A'r gwahaniad rhwng 'offeiriad' neilltuedig (a mynachod yn arbennig), neu fywyd sagrafenol yr Eglwys swyddogol ar y naill law, a'r gweithgareddau distadl a oedd gan lafurwyr yn y maes ar y llall yn unigolyddol bendant. Pan sylwid yn achlysurol ar y berthynas rhyngddynt, yr oeddid yn synied am lafur fel modd i blygu ac i ymostwng, gyda phob caledrwydd yn fodd i buro'r enaid. Gweddïo, myfyrio, hyfforddi, moli, a chopïo'r testunau sanctaidd oedd llafur priodol y gŵr crefyddol. Ond câi balu hefyd.

Gwrthodwyd y safbwynt hwnnw gan y Diwygwyr. *Cafwyd offeiriadaeth yr holl saint*. Newidiwyd ystyr y term 'eglwys'. Meddai William Tyndale, 'there is difference between washing of dishes and preaching of the Word of God; but as touching to please God, none at all.' Ac eto'r Piwritan Perkins: 'The action of a shepherd is keeping sheep ... is as good a work before God as is the action of a judge in giving a sentence, or a magistrate in ruling, or a minister in preaching.' (Cefais y cyfeiriadau gan Bill James, *Foundations*, 2003.)

Mae dysgeidiaeth yr ysgrythur ar hyn, yn enwedig drwy enau Paul, yn cwmpasu bywyd i gyd. Ymddengys fod carfan o eglwys Corinth yn bur bietistig ac yn didoli gwaith beunyddiol yn rhy lym oddi wrth gyd-addoliad. Alltudient rai o'r gweddau

naturiol a chorfforol ar fywyd, er mwyn gor-ysbrydoleiddio'u buchedd. Felly, yn ei lythyr cyntaf at y Corinthiaid (yn arbennig ym mhenodau 7, 10, 15) y mae'r Apostol yn cyflwyno'i ddysgeidiaeth ynghylch bywyd, priodas, defodaeth, cael pryddau bwyd, a gwaith cytbwys Gristnogol. Diau fod yna sffêr bwysig arbennig i'r 'eglwys leol'. Ond ni ddyrchefir hynny goruwch y sfferau eraill sydd oll o fewn awdurdod a chymdeithas Duw. *'Pa un bynnag ai bwyta ai yfed, ai beth bynnag a wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw.'* (1 Cor, 10: 31) Ac eto, *'A pha beth bynnag a wneloch ar air neu ar weithred, gwnewch bob peth yn enw'r Arglwydd Iesu, gan ddiolch i Dduw a'r Tad trwyddo ef.'* (Col. 3: 17) Ansawdd y gwaith a wnawn, a'r ymroddiad a rown iddo, yn ogystal ag yn ein perthynas â'n cydweithwyr, mae'n amlwg mai gwasanaeth ysbrydol a chorfforol yw i gyd. Mae popeth yn eiddo i Grist.

Eto, pan sieryd Dooyeweerd am sofraniaeth y sfferau, siarad y mae am foddau o wybod nid am ddeunydd gwrthrychol neu feysydd semantaidd gwybod yn unig. Nid y beth, ond y sut: y dull o'u profi sy'n cyfrif: gofodol, symudiadol, economaidd, cyfreithiol, ac yn y blaen. Moddau'r meddwl o weithio fel Cristion ydynt, a sut y meddyliwn am berthynas â phopeth. Dysgir inni barchu'r distadl a'r pwysig oherwydd cyfeiriad y cwbl yn yr Ardd.

Down i brofi'r trais ar sofraniaeth y sfferau pan geir ymddyrfhafu a gormesu neu oruwchlywodraethu – un neu fwy ar sfferau eraill. Digwyddodd sefyllfa o'r fath yn yr ymerodraeth Rufeinig (ac o dan dotalitariaeth Natsïaeth a Chomiwnyddiaeth) pan oedd y Wladwriaeth yn gorthrymu'n ormodol, a hyd yn oed yn disodli crefydd. Digwyddodd eto i'r gwrthwyneb yn yr Oesoedd Canol ac mewn rhai gwledydd Moslemaidd diweddar pan oedd sefydliad yr 'Eglwys' yn tueddu i ddod yn ben ar bob dim arall. (Gwahaniaethir yma rhwng yr Eglwys fel 'Sefydliad' a'r aelodaeth fel 'aelodaeth Dduw-roddeg yn nheulu Duw'.) Yn nheulu Duw, y mae undod ysbrydol yr Eglwys yn gydradd gydwethredol â phob swyddogaeth arall, a gellir yn deg sôn am weithio a gweddïo o fewn Cred. [*ora et labora*]. Addoliad yw'r cwbl. Yn yr un modd, ceir trais drachefn pan fo gwleidyddiaeth yn cilio oddi wrth yr ysbryd Cristnogol hollgynhwysfawr gan ymneilltuo i arddel pwer yn hytrach na chariad. Cyll egwyddor ei diben yn y fan honno: collir trefnu perthynas dyn a dyn o fewn perthynas dyn a Duw. Canys nid yw deddfau gwleidyddol priodol, mewn gwirionedd, yn erbyn y drwg yn unig, ond yn fynegiant o'r cariad hwnnw.

Pan draethir felly, wrth drafod sofraniaeth y sfferau, am yr amryw o fewn yr Un, yr hyn a feddylw'n yw ein bod yn dwyn pob meddwl yn gaeth i ufudd-dod Crist (1 Cor. 3: 21, 23) Sylwer fel y mae Calfin yn ymwrthod â'r rhaniad a gyflwynwyd ynghynt gan Acwin rhwng Natur a Gras. Ni rannwyd y byd creedig i fod yn ddau hanner, y naill dan lywodraeth ffydd (yr Eglwys) a'r llall dan reswm (Diwylliant). O weld annigonolrwydd rheswm ar ei ben ei hun, mynnai Acwin osod holl sffêr diwylliant o dan awdurdod yr 'eglwys'. Nis rhyddhawyd tan y Diwygiad Protestannaidd. Ceir rhaniad yn y byd – rhwng teyrnas Dduw a theyrnas Diafol; ond o ran y sfferau, y mae Duw a'r Diafol yn amryddawn ymwneud â phopeth creedig.

Yn ôl Dooyeweerd canfyddir moddolaethau (modalities) i'r galluedd dynol, dulliau o ymddwyn ac o ganfod swyddogaethau bywyd. Nodweddir pob un o'r rhain gan 'annibyniaeth' hawliau neu unigrywiaeth awdurdodol. Ond ar ryw olwg, y maent oll yn 'gydradd' fel rhannau hawliedig mewn cyfan. Ymddengys i mi fod y sfferau a enwir gan Dooyeweerd, weithiau'n ymrannu'n is-sfferau, a bod gennym sawl sffêr o sfferau. Cymerer gêm o rygbi neu gêm o dennis, cylchoedd bychain o fewn Ymarfer Corff neu Hamdden. Ni ddylai'r un o'r sfferau mawr a enwais (fel ffydd a ffiseg) ymyrryd â'r chwaraeon hyn, na hwy â'i gilydd. Mae i'r naill a'r llall ddeddfau cyfyngedig annibynnol. Nid yw'r gêm o rygbi yn ymyrryd â'r wladwriaeth nac â'r eglwys, ac nid oes disgwyl i'r eglwys nac i'r wladwriaeth ymyrryd mewn gêm rygbi. Ond hyd yn oed gyda rhywbeth mor ddistadl, y mae yna gydberthynas rhwng y sfferau. Effeithir ar ansawdd y maes chwarae gan foesoldeb neu gan yr economi, a dylanweddir ar y modd y cymhwysir y deddfau gan y dyfarnwr gan dueddiadau seicolegol. Bydd hyd yn oed ystyriaethau esthetig yn gallu lliwio arddull y chwarae, fel y gwna mathemateg mewn gêm griced.

Yn y gydberthynas odidog (yn y bôn) hon ac yn yr hyn sy'n gynhwysfawr i'r cwbl, ni ellir gosod yr un o'r gweithgareddau dynol yn bennaeth. Ni ellir dwyfoli hyd yn oed y wladwriaeth na'r eglwys sefydledig. Ni ellir cydnabod ond un pwynt hunanddigonol, un cyfeirbwynt absoliwt, ac y mae hwnnw'n amgylchu'r cyfan. Does dim felly'n ddiuedd. A thueddir cyfeiriad y cwbl gan y gwrthrychol uwchnaturiol, sef gan yr Arglwydd sy'n hawlio'r cwbl o fywyd iddo'i hun.

Mae perthynas y Wladwriaeth a Chrefydd wedi dod yn bwnc llosg yn ddiweddar, oherwydd agwedd ymosodol Islâm, a'r ffordd annifyr sydd gan Foslemiaid digon

swyddogol i ymagweddu at ddifodiant crefydd pobl eraill. Dyma bwnc mawr sy'n arwyddocaol iawn yn rhyngwladol. Gwyddom fod Islâm wedi ceisio hunaniaethu'r ddwy sffêr: y Grefyddol a'r Seciwlar. Digon teg ar ryw olwg. Math o Fyth hefyd, sy'n gysylltiedig â'r Eglwys Anglicanaidd, yw mai hi yw crefydd swyddogol y wladwriaeth Brydeinig. Cafwyd trafferthion yn Iwerddon hithau gynt oherwydd yr ymgais i asio'r naill gylch wrth y llall. Ond gwahanu llym mewn parch yw'r drefn arferol mewn gwledydd Cristnogol Protestannaidd.

Ac i rywrai, Seciwlariaeth yw'r ateb. Y grefydd honno yw'r unig un a wna'r tro fel Sefydliad gorfodol rhyngwladol, nid yn unig fel crefydd genedlaethol wleidyddol, eithr fel crefydd byd. Ni ofyn lai na seciwlareiddio popeth. Ond yn ôl y traddodiad diwinyddol Calфинаidd, ceir amgenach ffordd: sef athrawiaeth Cylch Sofraniaeth neu Arglwyddiaeth y Sfferau. Er y gall Cristion synied yn ôl ffydd ac argyhoeddiad ei fod yn arddel ei berthynas bersonol ac o ddifri â Duw ym mhob rhan o'i fywyd, fe geir gan gylchoedd o weithgaredd eu hunain, a chan bob unigolyn ei natur a'i ddeddfau, ei ofynion a'i awdurdod. Ac nid pridol yw bod y naill yn ymyrryd â'r llall. Felly, nid ymyrra cylch Miwsig â chylch Botaneg, na Ffiseg â'r Eglwys leol (nac â chylch o eglwysi). Mae i bob un pâm yn yr Ardd ei swyddogaeth. Er bod Duw'n teyrnasu, ac yn arwyddocaol yn ôl ei orchmynion sylfaenol – i ffrwytho ac i hyrwyddo daioni ac i ymddwyn yn foisol – ni ddylai'r 'Eglwys fel sefydliad' ymyrryd na chymryd arni'i hun yr awdurdod na'r hawl i reoli un dim arall. Gall gynnig gwasanaeth yn wirfoddol. Gall ymostwng a gweini – yn arbennig i'r rhai anghenus, y tlodion a'r amddifad. Gall amddiffyn yn erbyn cylchoedd eraill y rhyddid i addoli. Oherwydd rhyddid llafar, gall draethu ar gyfiawnder. Ond caiff pawb gyfrifol ganolbwyntio ar ei gylch priodol aneglwysig ei hun. Rhydd yw'r Eglwys, yn yr ystyr o bobl sy'n eiddo i Grist i fyw eu ffydd o fewn gwirionedd yr holl sfferau tan addoli, adeiladu'n ddiwinyddol, efengylu, ac annog neu weithredu cymorth trugarog. A Duw piau'r cwbl, er Ei fod Efô ei hun ar wahân i bob dim ac ym mhob dim.

Yn ei fywyd ymarferol bydd gan y Cristion o ddinesydd, felly, gyfrifoldeb i gymhwyso'i fywyd a'i feddwl i bob cylch gan weld y cwbl yn ddarostyngedig i Dduw. Ond gwirfoddol, perthynas Un ac un, Duw a Christion yw'r hyn sy'n llywodraethu ym mywyd y gymdeithas Gristnogol yn gyffredinol. Hynny yw, y tu allan i'r Addoldy, y mae'r un Cristion sy'n ddinesydd, yn fam, yn wyddonydd, yn chwaraewr pêl-droed, yn

fasnachwr, beth bynnag, ond bob amser yn Gristion. Ac yno, rhaid iddo/iddi ymostwng i gyfreithiau a defodau'r cylchoedd hunanlywodraethol hynny. Ym myd y Cristion, diurddasoli a diwertholi dyn fuasai seciwlareiddio heb sylweddoliad uwch.

*

*

*

Eto, cymerer un broblem fythol, sy'n un o beryglon gweithredu crefydd: moesoldeb. Cymerer y goddefgarwch ymarferol llac mewn 'cywirdeb gwleidyddol' yn erbyn Sensoriaeth. Rŷm i gyd yn erbyn 'Sensoriaeth' pobl eraill, meddan nhw, yn ôl dogma disgwyliadwy y rhyddfrydiaeth gyfoes. Mae pawb i fod i gredu mewn llafar rhydd diderfyn a chyfreithiol. Dyna yw 'rhyddfrydiaeth' go iawn. Dim ond rhyddid o'r fath sy'n caniatáu Cynnydd. A chanlyniad hynny yw nad oes dim yn gysegredig neilltuedig. Mae'r Duw hwnnw a addolwn ac a garwn, yn Dad ac yn Fab ac yn Ysbryd Glân, yn Rhywun y tueddwn i oddef yn rhwydd ei regi a'i gablu heb deimlo dim ond – 'chwarae teg i Ryddid llafar'. Ni all y gymdeithas felly gymryd ei Enw glân o ddifri. Ni'n brifir ni i'r byw fel y dylem, wrth i Rywun cysegredig a fawrygwn, mor hardd, gael ei sarhau – o ran hwyl, yn ôl egwyddor penrhyddid gormesol. Yr unig ryddid yw rhyddid gorthrwm y rhyddfrydwr, heb barchu dwyster ymrwymiad sanctaidd y goruwchnaturiol nas deallir gan y dyn naturiol, beth bynnag.

Fel arfer, mae'r hyn a geblir yn ymddangos mor gwbl hurt o ddiniwed onid diystyr i'r anghredinwyr. Pam na ddylid cael y rhyddid i ddweud 'porc' ar deledu Pacistân? Beth yw'r ots i ni? Fe'n denir ni yn anochel o'r herwydd gan y rheidrwydd beiddgar i ddweud 'porc'. Cyfareddir ni gan yr atyniad digymrodedd a diniwed i yngan 'porc'. Y fath orchest! Y fath feiddgarwch! Dyma waedd dros 'ryddid'. Nid oes dim byd arall yn cyfrif. Buddugoliaeth arall i ryddid meddwl yw torri'r rhwystredigaeth nad yw'n rhwystredigaeth i ni. Yr ŷm ni'n rhydd rhag y fath ffolineb. Porc! Porc! Porc! Dyna ni. Rhyddid, beiddgarwch, ac arbrawf.

Hynny yw, peidio ag arddel dim na chredu dim na chyfrif dim yn 'gysegredig', dyna yw'r unig ddogma posibl yn y pen draw. Pam yr ofnir dweud y gair hwn? Onid digrif hurt yw sefyllfa arhosol o'r fath yn yr unfed ganrif ar hugain? ... Ond beth yw gwerth 'rhyddid' diwerth o'r fath? Onid gwacter ystyr yw yn y bôn? Cul yw parch! Beth sy'n gysegredig i fi?... Ac etyb y bardd, 'Mae'r oll yn gysegredig.'

Yr wyf yn sôn yn awr nid am sensro gwybodaeth, gwleidyddiaeth ymarferol na sensro harddwch celfyddyd. Peidiwn â chymysgu'r tri pheth, er mwyn ceisio ennill pwynt. Nid sôn yr wyf am ddileu'r un ochr mewn dadl. Sôn yr wyf am barch at bersonoliaeth a pharchedigaeth tuag at hydeimledd ystyrllon person arall, ac eto gydnabod gwir ac anwir ei hun, heb ffrwyno rhyddid synhwyrol. Nid yw'r ffaith fod un person yn amddifad o gysegredigrwydd mewn cyfeiriad arbennig yn golygu bod rhaid cael rhwydd hynt iddo dreisio – yn enw 'rhyddid' tybiedig – yr ymwybod sydd gan rywun arall o'i gysegredigrwydd. Dylid bod rhyddid i ymarweddiad arall y llall yn glir. Mewn gwirionedd, *yr hyn a wneir yn rhy aml yw ein hamddifadu hunain o ryddid glân y cysegredig. Rhyddid unbennaeth y seciwlar fu peidio â pharchu hyn yn yr unfed ganrif ar hugain.* Nid oes ystyr anghywir i 'borc' i Gristion dyweder: ac eto, tramgwydd fuasai cymhelliad i'w ddweud er mwyn sarhau a chlwyfo. Anaeddfedrwydd eithafol yw profi mor flasus fuddugoliaethus yw brifo, heb ddeall.

Cymerer wedyn y duedd yng nghyfnod 'yr efengyl gymdeithasol' ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ddyneiddio crefydd. Diau fod i gyfiawnder cymdeithasol statws o bwys ym mryd pob Cristion effro (Ecsod. 21; Gal. 5; Col. 3). Heb yr ymwybod hwn ni buasai'r caethweision wedi'u rhyddhau. Ond gallwn anghytuno â rhai o'r cymhellion a brofid gan yr efengyl gymdeithasol foeseglyd. Nid oes gan gyfiawnder cymdeithasol cyfyngedig odid ddim pwysigrwydd o'i gymharu â'r gorchymyn i ofni Duw cynhwysfawr. Ni ddylid cyfartalu perthynas dyn a dyn â dyn a Duw ym mhob amgylchiad. Gallwn ddadlau'n agored. Eto, os gwneir hynny, nid oes gorfod ar Gristion i amharchu barn. Anodd i rywrai sydd heb berthynas â Duw werthfawrogi hyn. Gellir anghytuno heb atal rhyddid. Rhyddid barn a rhyddid llafar mewn gwlad Gristnogol yw mynegi ochr heb deimlo na pheri ymosod personol.

Weithiau gellir rhannu sfferau yn ôl egwyddorion cwbl artiffisial megis pan rannodd Marcsiaid yr economi yn ôl haniaethau uwchnaturiol mewn ffurfioldeb trefnedig. Damcaniaethir gwrthdrawiad gwneud rhwng y cynllunwyr a'r gweithredwyr, rhwng y cryf a'r gwan, rhwng y gweithgar a'r diog, rhwng y deallus a'r anneallus, y swyddogol a'r answyddogol, yn syml braidd; neu, os dymunir, rhwng Tafod a Mynegiant. Ac ni raid cael llawer o ymyrryd i sylweddoli mai rhannau o'i gilydd yw'r rhain: cyd-dechneg neu gyd-drefn o'r hyn a drefnir. Nid oes neb yn synnu wrth ganfod yr hyn a

ddigwyddodd maes o law yn y gwledydd comiwnyddol. Pan geir ymyrraeth o'r tu allan i'r sffêr y mae perygl agored yn codi, megis pan gais y wladwriaeth gipio rheolaeth grefyddol, gan ddefnyddio gorfodaeth rym a chan golli golwg priodol ar yr unigolyn a'i barch personol. A'r un modd wrth ddiffrïo hawliau cyd-ddyn.

Mae diwylliant dyn yn parchu 'dyn y cynlluniwr' a 'dyn y cynhyrchydd'. Cyfyd problemau o hyd, yn arbennig yn y gystadleuaeth rhwng y Gwasanaeth Iechyd a'r Adran 'Amddiffyn'. Sonia Duhamel yn ei gyfrol ar 'America', *Scènes de la Vie Future*, am gwmni rheilffordd yn gorfod dewis rhwng gwella cyfleusterau diogelwch ar y rheilffordd neu ynteu dalu costau yswiriant drutach. Daethpwyd i'r casgliad ei bod yn amgenach yn economaidd i dalu'r costau ychwanegol ar gyfer yswiriant. Pleidlais a gwleidyddiaeth neu atal busnes yn heddychlun yw'r ateb i sefyllfa felly.

Heblaw gwrthdaro iach rhwng y sfferau, fe geir hefyd gydweithredu a chydsynied cyrhaeddbell.

Priodol cofio bod Gwyddoniaeth a Chalfiniaeth yn cyfateb i'w gilydd o ran rhai pwyntiau go bwysig. Gwrthwynebant ragdybiaeth Ôl-foderniaeth. Tuedda Ôl-fodernwyr i ragdybied ansicrwydd yn ddogmatig. Y mae amheuaeth benagored yn fwy na thechneg iddynt. Mae'n gyflwr canolog terfynol. Nid dyna a gais na gwyddonydd na Chalfinydd. Ceisiant o ran egwyddor amgyffred yn unol, yr amryw o fewn yr un, cynllun, sefydlogrwydd, harmoni, trefn, cysondeb, gwirionedd.

Dymuna'r Calfinydd weithio yn ôl cyngor Duw, tuag at undod yn Nuw. Nid goddrychol yn unig yw harddwch hyd yn oed, na chariad, ond ansawdd yn y perffeithrwydd dwyfol. Argraffwyd peth o gymeriad Duw ar Ei greadigaeth. A phan fo artist yn ceisio mynegi'i brofiad, digon cymhleth o bosib, o ffurf synhwyrus, ceisio y mae adlewyrchu delfryd o ogoniant y Crëwr. Oherwydd yr elfen fawl, y mae celfyddyd yn cynnig uwch realiti nag a gynigia'r byd syrthiedig hwn fel arfer.

Fel llawer o athrawiaethau ymddangosiadol ddefosiynol mewn Cristnogaeth, y mae egwyddor a ffaith Penarglwyddiaeth Duw yn gyfoes arwyddocaol, felly. Ac mae'n hanfodol sylweddoli'i difrifwch. Rhyfedd, syfrdanol yn wir, i rywrai yn y gorllewin, oedd sylweddoli y gallai neb ymhlith dilynwyr Islâm wrthwynebu dyfodiad rhywbeth mor naturiol a chall â Democratiaeth. Ond ymhlith credinwyr mwyaf unplyg a difrif y grefydd Islamaidd, dyrchafu dyn uwchlaw Duw oedd synied y dylid rhoi barn bersonol chwit-

chwat pobl yn flaenaf. Theocratiaeth yn unig oedd priod greddo Moslem difrif, gan ddibynnu bid siŵr ar ddatguddiad arbennig o Dduw.

Felly yn wir, er mewn modd gwahanol, gyda'r Cristnogion Beiblaidd mwyaf difrif hwythau, a rhai eraill sy'n arddel yr enw Cristion, ped âi yn ddewis rhwng ufuddhau i Dduw a'i Air ynteu ufuddhau i'r llywodraeth, diau y caent eu bod hwythau yn y pen draw yn gorfod caniatáu i'w barn foesol, a'u bywyd i gyd, gael eu dwyn yn ufudd-dod i Grist. Dyna'r bobl sy'n gweddïo dros y llywodraeth gyda difrifoldeb ac yn credu'n ddwys, yn ôl ei ffydd, fod yn rhaid cynnal trefn lywodraethol gyfiawn i'r eithaf. Eto, nid y llywodraeth felly fydd y Penarglwydd.

Gwahaniaethir yn fanwl gan Brotestaniaid Beiblaidd rhwng 'Cristnogaeth' (neu'r Eglwys weledig ac anweledig 'go iawn' pobl ailanedig Duw) a'r *Sefydliad* allanol eglwysig, rhwng gwleidyddiaeth fel sffêr, a phlaid fel offeryn. I Brotestaniaid, ac i rai Catholigion bellach dybiaf i, nid yr eglwys ddaearol sefydledig sy'n mynegi ewyllys Duw, ond yr Ysbryd Glân drwy'r ysgrythur. Ac yn y Beibl, Duw ei hun sy'n ben ar bob diwylliant, ac y mae hynny'n golygu nid yn unig mewn arferion eglwysig, ond yn uniongyrchol yn Ei Air ar gyfer y teulu, gwaith hamdden, gwleidyddiaeth, gwyddoniaeth, y celfyddydau, pob peth. Mae ei awdurdod yn hollalluog dreiddgar. Efô yw'r Un sy'n Ben, ac yn Was, ac yn bopeth arall, i'r Llawer.

O ganlyniad, pan soniwn am Hollalluogrwydd Duw, cyfeirio yr ydym at ei allu a'i rym cynhenid. Dyma wedd ar ei gymeriad personol ei hun. Cysur yn wir i ddyn pechadurus yw sylweddoli mai Duw, o bawb, yw'r Penarglwydd ar holl weddau'n bywyd. Ar ei wely angau, yn eithafrwydd y gwendid eithaf, fan yna, erys Penarglwyddiaeth sicr Duw yn fendith ac yn gynhaliaeth arbennig. Er gwaetha'r duedd ddynol i geisio bod yn ben ei hun ac i ymwrthod â'r fath Fod â Duw sy'n drech na phob dim, os yw dyn doeth yn adnabod ei natur hunanol a negyddol a ffaeledig ei hun, y mae ganddo reswm am brofi cysur yn y man eithaf lle y profir canol pob peth. Mae'r cwbl oll, yn nwylo Duw sy'n drugarog a graslon i bawb a'i câr. Hyfrydwch o'r mwyaf yn wir yw Penarglwyddiaeth Duw yn y fan yna – testun gorfoledd. A'r Benarglwyddiaeth sy'n amodi Diwylliant.

Ac nid oes dihangfa rhag y gallu a'r ewyllys hwn. Nid oes angen na bwlch yn yr arfogaeth. Mae Penarglwyddiaeth yn cyrraedd at y rhaniadau lleiaf posibl o fewn yr ateb

ac at y manion lleiaf yng ngwneuthuriad gwaed dyn. Rheolir pob smic a smotyn o'r greadigaeth gan y Penarglwydd hwn.

Felly yn ei dro, Diwylliant hefyd: mor bwysig benodol yw diwyllio yn ôl rhaglen Duw.

Prydferth o arwyddocaol oedd Cywydd Iolo Goch (c.1325-c.1398) i'r Llafurwr:

*Hawdd i lafurwr hoywddol
Hyder ar Dduw Nêr yn ôl...
Ni cheffir eithr o'i weithred
Aberth Crist i borthi Cred,
Na bywyd – pam y beiwn? –
Pab nac ymherodr heb hwn...
Lusudurus hwylus hen
A ddywod hyn yn ddienn,
'Gwyn ei fyd, rhag trymfyd draw,
A ddeily aradr â'i ddwylaw'...
Aml y canaf ei emyn,
Ymlid y fonnid a fyn...
Arwydd mai hyn a oryw,
Aredig, dysgedig yw. (Gwaith Iolo Goch, gol. D.R. Johnston)*

Undod yw'r Greadigaeth, wedi'r cwbl, am fod ganddi Grëwr a Chynheilydd. Fe'i cynlluniwyd gan un ewyllys yn unol â sawl egwyddor a nod; ac un yw'r ffrwytho popeth hefyd, yn gorff ac ysbryd. Ceid a cheir amllder o rannau; ond undod diwñiad ydynt. Mae'r undod hwnnw'n wedd ar hanfod diwylliant, na ellir yn y pen draw ei ddryllio. Beth bynnag y bo ysfa dyn i gael i ffordd ei hun, ni ellir torri'r Benarglwyddiaeth sylfaenol. O geisio'i thorri, wynebier marwolaeth o reidrwydd. Ac mae bywyd cariadus dathliadol yn dibynnu ar y cydlynid godidog hwnnw, heb ddim arall. Mewn gwirionedd, yr hyn sy'n diffinio orau bwrpas y Gorchymyn Diwylliannol yng nghynllun Duw yw'r gorchymyn arall, y gorchymyn a gyflwynir fynychaf o bob un yn y Beibl, sef 'Molwch yr Arglwydd.'

6. GRAS CYFFREDINOL

YN DIWYLLIO PAWB

Gras Cyffredinol yw'r ffactor adeiladol mewn diwylliant. Rhodd Duw yw. Fe'i sianelir i mewn i ymwybod dyn gan y Gorchymyn Diwylliannol. Sylwasom fod y Gorchymyn Diwylliannol ar gyfer pawb yn ddiwahân. Gorfodaeth hefyd yw i ddynoliaeth yn gyffredinol. Cyfartal yw o ran braint i Gristnogion ac i bawb arall.

Ar gyfer cyflawni'r cyfarwyddyd i ddiwyllio, y mae Duw wedi darparu adnoddau sydd hefyd yr un mor gyffredinol. A thrwy Ras Cyffredinol y derbyniasom ddoniau, deall ac egni priodol ar gyfer diwyllio'r ddaear. Y mae'r Gras hwn yn golygu nid yn unig amrywiaeth galluoedd mewn rheswm, dychymyg, mathemateg a choginio. Mae hefyd yn cynnwys rhoddion tywydd, a gofod, ac amser. Mae Duw wedi ymagweddu'n gariadus at ddyn yn gyffredinol i fyw er gwaethaf pechod. Yn wir, gwedd ar Ras Cyffredinol yw gosod ataliad ar fuddugoliaeth terfynau pechod: 'gras ataliol' yw. Lle bynnag y gwelwn ryw 'ddaioni' dynol, profi yr ym y daioni rhwng dyn a dyn sy'n sianel i waith Duw ynom.

Pan ymholir beth yn y byd sydd a wnelo Duw â diwylliant, mae Gras Cyffredinol yn athrawiaeth gwbl allweddol. Disgrifir y ffenomen yn syml fel hyn ym Math. 5: 45,

Y mae Ef yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn rhoi glaw i'r cyfiawn a'r anghyfiawn.

Fe gynigir popeth yn rhad i ddynoliaeth, hyd yn oed yr efengyl, ac y mae'r helaethrwydd cyd-destunol o'r gras hwn i Gristnogion yn cael ei esbonio mewn estyniad arall ar y diffiniad yn 1 Cor. 3: 21:

Y mae pob peth yn eiddo i chwi – Paul, Apolos, Ceffas, y byd, bywyd, angau, y presennol, y dyfodol – pob peth yn eiddo i chwi, a chwithau yn eiddo Crist, a Christ yn eiddo Duw.

Cynigir hyd yn oed y Beibl yn ddiwarafun i bawb. Dyma, felly, fesur y ddawn a'r gallu a gynigir i ddyn yn gyffredinol i gyflawni'r gorchymyn diwylliannol. A 'gras' yw am nad yw dyn yn ei ennill. A gwir fod amrywiaeth medr yn ynni a lliw i'w ddaioni. Gwir hefyd fod y bydysawd wedi'i ysigo yn y Cwmp. Ond yn sylfaenol, arfogwyd dynoliaeth yn ddigonol i fyw ac i glywed. Nid ar ei liwt ei hun a thrwy'i nerth ei hun y byddai dyn yn cyflawni ewyllys Duw i ddiwyllio. Profir grym sylfaenol ac arweiniol mewn Gras yng ngharedigrwydd a chariad Duw tuag at ddyn syrthiedig, boed hwnnw'n eiddo iddo'n adnewyddol achubol neu ynteu ar wahân i hynny, (ac yn falch i fod ar wahân). Nid rhyw ymserchu ysgafn yw hwn, ond cariad eithafol a difesur. Mae hyd yn

oed y cynnig rhydd a rhad a chyffredinol o Ras Arbennig ei hun yn Ras Cyffredinol. Gymaint yw'r hoffter dwyfol o ddyn fel dyn, fel y darparodd Duw'r Tad farwolaeth Ei uniganedig Fab mewn dioddefaint i wneud iawn digonol ar gyfer ei holl elynion ei hun, pwy bynnag a bwysai arno am fywyd. A thrwy'r ddarpariaeth honno, a'r cydbwysu yng nghyfiawnder y Greadigaeth, galwodd ar bawb yn ddiwahân i'w dderbyn Ef a derbyn cymorth yr Ysbryd Glân i'w galon, a mwynhau bywyd tragwyddol.

Roedd Gras Cyffredinol yn bod cyn y Cwmp, ac mae'n bod wedyn. Bydd yn bod i'r rhai a fydd yn y nefoedd.

Cariad cadarnhaol Duw sy'n cyfrif am bob gwedd beth bynnag y bo ar Ras Cyffredinol. Disgyn y glaw ar y Cyfiawn a'r Anghyfiawn, yn gymhariaeth farddonol seml. Cwmp megis doniau personol, corfforol, meddyliol, cymdeithasol sy'n eiddo i unigolion gwahanol. Gwasgerir hwy'n 'annethol'. Hynny yw, mae gan bobl dda a drwg o bob llun a lliw briodoleddau personol dawnus. Ar ryw olwg, nid ymddengys fod y ffaith bod yr Ysbryd Glân yn trigo drwy Ras Arbennig yng nghalon Cristion yn ei wneud yn well arlunydd o gwbl nac yn well pêl-droediwr, gwyddonydd na masnachwr, casglwr sbwriel na meddyg, o ran ei allu cynhenid. Fe ddylai'i wneud yn well person, – yn well pechadur bid siŵr, a rhoi iddo gliriach diben. Ond o ran potensial naturiol y mae Duw'n rhannu'r medrau hyn yn ddiwarafun oherwydd Ei gariad dihaeddiant.

Ymhlith y rhoddion cadarnhaol hyn a ddarperir gan Dduw y mae'r atalfa ar wylltneb pechod mewn unigolyn a chymdeithas. Sylwn fod pobl, sydd heb odid ddim amgyffrediad o'r efengyl a heb feddu ar unrhyw berthynas ysbrydol â Christ, yn meddu'n aml ar anianawd hynod ddymunol. Medrant ar dro farnu'n foesol gywir. Ac o'r herwydd, medrant gyfrannu'n helaeth at ddiwylliant y ddaear. Ac felly y mae Gras Cyffredinol hefyd, yn ôl rhagluniaeth Duw, yn atal distrywio'r ddaear hon am y tro, gan ddarparu disgyblaeth ddigonol i hyrwyddo bywyd.

Codwyd peth dadl ynghylch terminoleg, ai *Gras 'Cyffredinol'* oedd y disgrifiad priodol ei hun – sef gras a rennir yn ddiwahân i bob un, oherwydd mai dynoliaeth yw *per se*, heb gyfrif na rhinwedd moesol na pherthynas fywydol, â Duw? Ynteu ai '*Gras Cyffredin*' oedd – sef gras hollol 'ddiarbenigrwydd', gras sy'n ymwneud â gweithgareddau syml bob dydd, nerth, iechyd, athrylith, dawn fach, tueddfryd, gallu i gyflawni unrhyw beth? Oddi wrth Dduw y mae'r cyfan, a rhodd rad a rhyfeddol yw. Credaf i raddau fod y

naill derm a'r llall yn gywir, ond nad yw'n Ras i'w *ystyried* yn ysgafn nac yn ddiarbenigrwydd.

A yw'r gras hwn yn ystyrion mewn ffordd nodedig i Gristion, er nad yw'n gwahaniaethu o ran ei wasgariad? Diddorol yw holi, gan fod Cristnogion mewn safle arbennig ac yn gallu bod yn hollol ymwybodol o ffynhonnell ddwyfol hyd yn oed Gras Cyffredinol. A yw'i brofiad ysbrydol yn gweddnewid arwyddocâd y gras hwnnw yn ei fywyd ef? Meddai Henry Martin 'er pan adwaen i Dduw mewn modd achubol, fe ddaeth paentio, barddoniaeth, a mwynderau i feddu ar atyniadau na wyddwn amdanynt ynghynt.' Hynny yw, mae sylweddoli'r Gras Arbennig hwn yn hyfrydwch effro i Gristion wrth iddo fyfrio am Dduw yn Gyffredinol. Fe â Gras Arbennig ati i ledu Gras Cyffredinol.

* * *

Beth felly yw'r gwahaniaeth rhwng Gras Cyffredinol yr anghredadun a Gras Cyffredinol y Cristion? Does dim rhagoriaeth amlwg o ran y doniau naturiol sy'n eiddo i Gristion oherwydd ei fod yn Gristion. Sut felly y dylai Cristion ystyried perthynas Gras Arbennig (neu Ras Achubol) a Gras Cyffredinol mewn bywyd Cristnogol bob dydd, gan fod Gras Cyffredinol yn eiddo i bob un yn syml fel bod dynol?

Wrth sgrifennu'r tudalennau hyn heddiw yr wyf newydd fod yn angladd hen fyfrywr annwyl i mi, a hen gyfaill. Ef oedd prif gyfieithydd y Brifysgol yn Aberystwyth. Y gwaith hwnnw oedd y drydedd flaenoriaeth iddo. Cyn hynny, ac o flaen popeth yr oedd yn Gristion ac yn ŵr teulu.

Eto, pan ddaeth yn Gristion, fe ddigwyddodd llawer iawn iddo. Dihunwyd ei ysbryd wrth gwrs fel y gallai brofi realiti perthynas Crist. Fe'i cyfrifwyd ef o ran statws, drwy waed Crist, yn gyfiawn gerbron y Tad, a'i groesawu ar unwaith i'r teulu tragwyddol. Ond beth a ddigwyddodd iddo yn ei fywyd beunyddiol? Beth am ei waith?

Ymhlith pethau eraill, agorwyd ei feddwl a'i brofiad i ddimensiwn anweledig. Yn awr, dyw'r sylweddoliad o'r anweledig ddim yn ffenomen anghyffredin i'r anghredadun meddylgar yntau. Gall hyd yn oed hwnnw ddod yn dra ymwybodol o'r deddfau cudd sy'n amodi llawer o fywyd – mewn ffiseg, mathemateg, ac mewn iaith ac yn y blaen. A doedd hyn ddim yn hollol amherthnasol i'r profiad o aileni fy nghyfaill, gan fod y deddfau hyn oll yn adlewyrchu meddwl Duw a'i arfaeth. Hynny yw, yr oedd yr anweledig ei hun i raddau hefyd yn Ras Cyffredin iddo am gyfnod wrth iddo glywed gwybodaeth am yr

efengyl. Ond, mae Gras Arbennig yn pwysleisio hefyd i galon y Cristion nid yn unig benarglwyddiaeth anweledig bywyd eithr hefyd priodoleddau aberthol y Duw personol ei hun.

Yr oedd y gŵr hwn eisoes yn gyfieithydd da megis eraill. Ond gwelai gywreinerwydd iaith mewn ffordd newydd. Oherwydd yr anweledig hwnnw, agorwyd ers tro byd, adeg ei dröedigaeth, lygaid ei enaid. Yr oedd yna *berson* a chanddo ddimensiwn goruwchnaturiol yn ei gynnal a'i wylid. Datguddiwyd iddo Dduw personol-dragwyddol. Fel deddfau Ffiseg yr oedd y Duw hwn yn ymwneud ag achos / effaith, ac yn meddu ar gymeriad parhaol, ac ar botensial a gyflyrai bopeth gweledig. Yr oedd hefyd yn Gariad. Ymwnâi drwy berthynas â'r sawl a wyddai'i angen. Ond daeth gwaith y cyfieithydd yn rhyfeddod ac yn ddiddorol i'm cyfaill. Dechreuodd feddwl o'r newydd am ei grefft fel nad oedd fawr neb arall yng Nghymru o'i flaen. Ni chymerai'r llafur yn faich nac yn ddyletswydd undonog. Treiddiai i'w gyflawnder. Gwelai fod gwahanol ieithoedd mewn ffyrdd gwahanol yn cynnwys patrymau a deddfau cyferbyniol. Archwiliai'r datblygiadau rhyngwladol gyda blas.

Soniais fel yr agorwyd teyrnas Crist tragwyddol iddo. Dyna Ras Arbennig Duw iddo. O hyn ymlaen, yr oedd y dimensiwn wedi ymagor yn barhaol fel yr oedd ef bellach bob amser hyd yn oed yn ei waith Cyfieithu yn byw ym mhresenoldeb Duw goruwchnaturiol. Cyfieithydd oedd ef o hyd, gŵr, tad, Cymro, cyfaill, cymydog, dinesydd ac yn y blaen, ond y cwbl i Dduw bellach. Felly, pan gafodd ei benodi yn gyfieithydd i'r brifysgol, Duw oedd ei bennaeth. Duw a roddai'i gyflog bwysicaf iddo. A gwnâi ef bopeth er clod i Dduw. Golygai hynny, iddo ef, fod yn rhaid astudio'r grefft a'r theori o gyfieithu hyd yr eithaf. Nid cyfieithydd 'cyflogedig' mohono. Astudiaid arddulleg gymharol. Daeth i wybod mwy am hanfodion cyfieithu na neb arall o bosib yng Nghymru ar y pryd. Daeth yn Ysgrifennydd ar Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Heblaw ymroi i wneud ei orchwyl beunyddiol o gyfieithu'n llafar straenllyd ar y pryd a'r llafur undonog caled o gyfieithu dogfennau a hysbysebion hollol ddiennaid o ddydd i ddydd, dechreuodd gynnal cwrs i gyfieithwyr o fewn y Coleg. Agorai feddyliau myfyrwyr i gywreinder ieithyddiaeth gymharol a sut yr oedd un iaith yn meddu ar gyfundrefneg wahanol i iaith arall. Hyfforddai eraill yn y gelfyddyd gywrain. Nid mater o gyfieithu ffwrdd-â-hi o un iaith i'r llall oherwydd rhyw synnwyr bawd oedd hyn. Cyfieithydd celfydd Duw oedd ef.

Rhaid oedd deall cyfrinion y grefft, y manion ynghylch trosglwyddo athrylith un iaith i athrylith iaith arall o ran anian gystrawennol, priod-ddull a chywair.

Roedd ef bellach yn byw mewn creadigaeth letach nag a fu'n eiddo iddo o fewn dimensiynau amser a gofod yn unig. Fe'i hamgylchwyd ef mwyach yn real iawn â gwybodaeth newydd 'gyfrinachol'. Ymagorai'i fywyd i gymdeithas feunyddiol lawnach. Ac wrth ei elin bob amser:

'Rwy'n dewis Iesu a'i farwol glwy'

Yn Frawd a phriod i mi mwy;

Ef yn Arweinydd, Ef yn Ben

I'm dwyn o'r byd i'r nefoedd wen.

Roedd yna chwys llafurus o hyd wrth gwrs ynglŷn â'r gwaith undonog hwnnw. Wedi'r cwbl, onid byd syrthiedig oedd hyn? Oedd. Ac un dyrchafedig hefyd.

Bu farw'n ifanc ond yn fuddugoliaethus.

Er bod Gras Cyffredinol ar waith o hyd, gweddnewidiwyd ystyr ac egni a hyfrydwch a chyfeiriad y gras hwnnw'n llwyr gan Ras Arbennig. Yn weledig, gallai ymddangos yr un fath efallai â'r cyfieithydd nesaf, ond yn anweledig yr oedd yn golygu rhywbeth cyfan gwbl wahanol.

Ac felly y gall bywyd fod hefyd yn achos gwraig tŷ, ffermwr, gweithiwr ffatri, postmon, athro ysgol, cler, beth bynnag. Os yw Gras Arbennig wedi cyffwrdd â'i fywyd, mae'n gweithio eisoes mewn lle arall ac mewn modd arall o dan Bennaeth newydd. A Gras Cyffredinol hyd yn oed yn wahanol.

Daeth fy nghyfaill bellach yn ddinesydd llawn mewn teyrnas arall. Yr oedd ef wedi bod eisoes, ysywaeth yn ei farn ef o bosib, yn ddinesydd yn yr hyn a elwir yn Deyrnas 'Unedig'. Ond yr un pryd yr oedd ef, oherwydd Gras Arbennig wedi gweithio mewn dwy deyrnas yr un pryd, a'r llall yn Deyrnas Wir Unedig. Y Deyrnas gyfiawn, ddiormes, ddibynnol a glân.

Derbyniodd ef drwy'r ddinasyddiaeth newydd honno ddwy rodd o fewn yr un rhodd Gras Arbennig, sef Cyfiawnhad a Sancteiddhad. Golygai Cyfiawnhad iddo fod Iesu Grist yn cael ei gyfrif yn ddirprwy iddo. Gwyddai ei fod ef yn methu â thalu'i ddyledion ysbrydol ei hun, ac yn methu o dan ei stêm ei hun â chlirio'r diffygion a'i hataliai rhag derbyniad i'r Deyrnas newydd. Ar un amser ac mewn un lle, daeth ef o farw

i fyw – yn ysbrydol fe gafodd ailenedigaeth. Ni allai wneud hyn drwy'i nerth ei hun. Roedd hyn yn gymharol sydyn yn y bôn, fel pob genedigaeth, ac fel pob marwolaeth o ran hynny. Un 'achlysur ' oedd. Ac fe'i dilynwyd dros gyfnod o flynyddoedd gan 'broses'. Wedi'r digwyddiad, cafwyd datblygiad ar hyd gweddill ei oes. Dyma'r Sancteiddhad. Ac yr oedd hyn yn newid ei agwedd at waith pob dydd.

Ond nid oedd hyn yn ynysedig.

Nid oedd a wnelo Cyfiawnhad fawr ond cyn belled ag yr oedd yn gyd-bresennol â Sancteiddhad. Y gwneud rhywun yn Gristion am y tro cyntaf yw'r Cyfiawnhad. Y bod yn Gristion (sy'n dechrau'r un pryd) yw Sancteiddhad. Mae Cyfiawnhad yn ddigwyddiad; ond ni ellid hawlio nad oedd y digwyddiad hwnnw ar unwaith eisoes yn dechrau'r sancteiddio, a hynny'n mynd i barhau yn broses hir. Yr oedd yn golygu ar gyfer Cyfiawnhad y ddelwedd sylfaenol o chwiliwr, a fuasai ar wahân i berthynas â Duw, yn dod yn ymwybodol. Gall hyd yn oed y gelyn a'r fföwr (yn anymwybodol) newid ei statws. Ar gyfer Sancteiddhad rhaid fyddai helaethu'r rhodd; a'r Teithiwr a'r Milwr (y frwydr rhwng Corff ac Enaid) yw'r delweddau cyffredin, ynghyd â'r Carwr.

Mewn Sancteiddhad yn awr, yr Ysbryd Glân yw'r awyr a anadla Cristion yn y Deyrnas Newydd. Nid rhywun i feddwl amdano yn achlysurol yw Duw. Ynddo Ef y bodola Cristion. Dyma'r lle yr ymsymuda. Does dim un lle yr edrycha heb fod Duw yno. Mae'n troi cornel, a'r fan yna y mae Duw. Pan ddihuna yn y bore, y sylwedd cyntaf a ddaw i'w feddwl yw ei Arglwydd; neu o leiaf, dyna'r dymuniad.

O gymharu Gras Cyffredinol yn achos Cristnogion â'r lleill, ai mater yw o wahaniaeth o ran lled y doniau? Onid ffaith yw bod Gras Arbennig y Cristion yn gweddnewid rywfaint hyd yn oed ansawdd y Gras Cyffredinol? Digwydd hyn i'r fath raddau fel y mae'n anodd gennyf feddwl sut y gall anghredadun ond o bell amgyffred gwaith Pantycelyn neu George Herbert neu Dante, fel y gwêl y Cristion hwy. Mae Gras Arbennig yn ymyrryd yn nealltwriaeth y person cyflawn o'r diwylliant mwyaf aruchel.

*

*

*

A yw hyn yn ychwanegu at adnoddau cyffredin y Cristion? Mae Diwylliant yn amlochrog: yn isel-ael, yn uchel-ael, yn feddyliol, yn gorfforol. Un o feysydd Gras Cyffredinol y gellid rhoi peth sylw iddo yw Dysg neu Ysgolheictod. Ymddengys, weithiau, fel pe bai gan rywun sy'n ymdroi mewn maes fel y Byd Ysbrydol beth mantais

dros y tlotyn cymhleth dibrofiad yn yr 'yrfa' Gristnogol ddiwylliannol. Onid help i wybod beth yw Cristnogaeth yw Ysgolheictod? Ynteu anfantais? Mae ysgolheictod seciwl ar waith o fewn y cyneddfau a'r meysydd a ystyrir yn Ras Cyffredinol gan Gristnogion. Gall fod yn ddisglair. Cawn oll ryw fudd o hynny; ac ysgolheictod seciwl yw un o'r ffyrdd pennaf i estyn llawnder a dyfnder Diwylliant. Ac eto, gall dwyllo dyn.

Bydd ysgolheictod Cristnogol yn gweithio o fewn Gras Cyffredinol a Gras Arbennig. Mae'n meddu ar rinweddau dysg naturiol. Ac o safbwynt cynulleidfa'r Cristion, gall gwaith pob ysgolhaig medrus fod yn ddiddorol, yn benodol o fewn cylch Gras Cyffredinol. Ond Duw yn unig a gyfranna Ras Arbennig. Gall y symlyn eithaf, os oes Gras Arbennig ganddo ddeall yr hanfod mewn Cristnogaeth yn well na'r academydd o sylwedd. I bawb, gall ysgolheictod gan Gristion dilys fod yn adeiladaeth ysbrydol ac yn hwb i fyfyrddod pleruser. Ond ym maes Diwinyddiaeth, erys rhai o'r prif feysydd yn gaeedig i anghredadun.

Eto, mae yna gyneddfau digon cyffelyb a phynciau cyffelyb (o leiaf, ar yr wyneb) gan yr anghredadun megis i'r credadun. Ym mha le, felly, y ceir methiant mewn dirnadaeth o ran yr Academydd o anghredadun? Ni ddealla yn ysbrydol fyw darddiadau *ffynhonnell* bywyd, *ffynhonnell* gwerthoedd moesol ac esthetig, trefn gytbwys wefreiddiol deddfau. Ni ddealla chwaith bwrpas absoliwt na'r diben ysbrydol yn y pen draw. A rhwng y ddau begwn yna ni ddeallir ystyr waelodol rhagluniaeth ddim yn y canol, ac wrth reswm nid ymwybyddir yn effeithiol â phresenoldeb Duw personol dragwyddol ynglŷn â hyn i gyd. Ni ddeallir fawr felly am eithafwydd symledd calon brofiadol.

Gellir ymgais i oleddfu llawer gwedd ar y rhain. Er enghraifft, gellir ar dro gael Athro Cadeiriol mewn Gwyddoniaeth sydd ei hun yn deffro'n ysbrydol wrth geisio esbonio bod bywyd wedi tarddu o'r gofod; ond saif yn ôl a sylweddola nad tarddiad yw peth felly, eithr gorsaf. Gall ddweud ar y llaw arall, yn ddi-ddadl, mai damwain yw popeth. Ond ei ragdyb yw hynny. Gwir fod yna ymgais i absoliwteiddio'r relatif; ond medr dadleuon hyd yn oed rhai rhesymegol ymwared â'r ddadl ddi-sail honno yn bur gwta. Gŵyr y credadun syml hyn oll ym mêt ei esgyrn. Mae yna fantais wrth gwrs o sylweddoli mawredd dimensiynau hyd yn oed y rhai naturiol. A gellir cymeradwyo Dysg wrth gwrs nid yn unig ym maes Gras Cyffredinol. O safbwynt y sawl a ailanwyd i'r dimensiwn ysbrydol, gall Dysg fod yn gymorth amheuthun i ddeall a mwynhau llawer a

ddigwyddodd, a pham, yn ei lawnder godidog, a gweld gogoneddau newydd. Beth am y ddysg, felly, sydd i fod gan Gristion? At ei gilydd, y mymryn lleiaf o ddysg sy'n ddigonol i ddod yn Gristion 'deallus' a 'dwfn'. Argyhoeddiad o angen, o lygredd, o wrthryfel yn erbyn Duw. Canfod y sarhad, y bwlch. Dyna'r ddysg gychwynnol. Cipolwg wedyn ar lendid yr Arglwydd; adnabyddiaeth, sythwelediad o'i harddwch. Caru go iawn. Dyna ragor. Clywed galwad wedyn: edifarhau, ymostwng, ildio, ufuddhau, i gyflwyno dwylo gwag a chalon dlawd. A derbyniad. Dyna'r caffaeliad olaf. I gyd *en bloc*. Weithiau, bydd hyn yn ddysg sydyn iawn. Gyda'r fath wybodaeth, a'r fath ysgogiad, gall y distadlaf o blant y llawr ymateb, ni waeth pa mor annysgedig y bo, o bosib yn barotach na'r dysgetica, o ddod yn waglaw i dderbyn Gras Arbennig Iesu Grist.

Bu ymwneud yr efengyl oruwchnaturiol â dysg o'r fath yn fan go gynhennus i ddiwylliant 'gwrthryfelwr' gyfarfod â'r ffydd Feiblaidd. Mae'n wir wrth gwrs fod dysg wedi bod yn llawforwyn i'r genadwri Gristnogol o'r dechrau cyntaf. I'r Cristnogion cynharaf oll yr oedd gwybod am yr Hen Destament a gwreiddiau Crist yno a pherthnasoldeb hwnnw iddynt hwy, ar y pryd ac o hyd heddiw, yn fater awchus sylweddol o gryn arwyddocâd. Ac yna, fe hyrwyddwyd yr efengyl hon ar dro drwy wasgaru gwybodaeth am rai o'r athrawiaethau dyfnaf a mwyaf dwys. Ffeithiau hanesyddol a dealltwriaeth athrawiaeth (yn ogystal â phrofiad byw personol), dyna gynhysgaeth ganolog y traddodiad eglwysig. Ond bu dysg a myfyrdod yn gyfryngau hefyd i heresi, ac adeg y Dadeni Dysg i amheuo rhagdybus gael eu harfer a'u hyrwyddo i geisio datod a thanseilio'r genadwri hanesyddol. Yn y cyfnod diweddar, yn arbennig ym maes Beirniadaeth Feiblaidd, bu'r ymgais ysgolheigaidd i ddyneiddio'r Beibl gwrthrychol a'i drin fel pe bai'n llyfr naturiol, ac fel pob llyfr arall, yn fodd rhagdybus ymchwyddog i ddysg ymddwyn fel pe bai'n wrthwynebydd i uniongredd. Dyna'r ymddygiad uwchradd balch yn barnu Duw, yn hytrach na dysg go iawn sy'n canfod y dimensiwn angenrheidiol. Dadgymdeithaswyd y Naturiol a'r Goruwchnaturiol.

Wrth drafod Dysg, felly, y mae'n sylfaenol ganolog inni ystyried yn gyntaf y rhagdybiau caniatool. Gras yw rhagdyb yn aml. I'r sawl sydd heb ddim profiad na gwybodaeth oruwchnaturiol y mae bron yn anochel heddiw eu bod yn dymuno cyfyngu dysg i'r dimensiwn naturiol. Mae yna anallu cynhenid i drafod y goruwchnaturiol yn

ystyrlon, a thry'r anallu hwnnw drwy ffasiwn wrth reswm, yn falchder ac yn ystyfnigrwydd ac yn elyniaeth.

Mewn gostyngeddwydd y ceir adnabyddiaeth. Mae a wnelom bob amser â'r cyrchdull sylfaenol. Beth yw'r cyfeirbwynt eithaf? Ymhle y ceir gwreiddyn awdurdod?

Dywed yr anghredadun dibrofiad mai dyn yw'r cyfeirbwynt hwnnw, a'i feddwl hunanlywodraethol ef a'i 'brofiad' cyfyngedig o'r allanolion syml yn ffin derfyn iddo. Yna, y mae'i gasgliadau yn gorfod aros ar lefel yr un dimensiwn hwnnw. Mae'n cael ei atal cyn dechrau. Mae yna gylch penodol syml, ac y mae'n cael crwydro o'i gwmpas o fewn terfynau gofod ac amser.

Dyweder ar y llaw arall fod Duw trosgynnol-bersonol, Duw anfeidrol a ymgnawdolodd yn ei Fab wedi dod yn real i ddyn, dyweder mai am ddyn felly yr ydym yn siarad. A dyweder bod gan yr ysgolhaig brofiad diriaethol a dirfodol o Dduw felly, Duw a enwaedodd ei galon ac a fywhaodd ei ysbryd. Yna y mae dimensiwn arall, ychwanegol, wedi gorfod ymagor iddo. Mae ganddo ragdyb hollol wahanol i'r dyn naturiol cyfyngedig. Ysgolhaig i Dduw yw. Ac os yw'r Duw hwnnw, y Duw clasurol hanesyddol wedi llefaru, yna y mae'r hyn a ddatguddiodd Ef yn gwisgo ystyr arbennig.

Seiliau'r meddwl sy'n penderfynu pa mor ddibynnol yw'r adeilad a godir arno. Pa mor ddihun yw rhywun felly? Beth yw rhychwant ei brofiad? Pa fath o ddefnyddiau sy'n agored iddo?

Un o'r problemau enfawr a gyfyd wrth ystyried y Beibl yw a yw'n llyfr goruwchnaturiol neu beidio. Os caewyd y meddwl naturiol eisoes yn erbyn hyd yn oed y posibilrwydd o'r goruwchnaturiol, fe wnaethpwyd peth go anysogolheigaidd, ddwedwn i. Y mae rhagdybio'n gaeedig yn y fath fodd fel pe bai'n ysgaru pob gwybodaeth a allai ddod o un cyfeiriad neilltuol oherwydd nad yw'n dod eisoes o gyfeiriad 'a hoffai ef'.

Cwestiwn arall sy'n destun dadl mewn Gras Cyffredinol i Efengyleiddwyr hyd yn oed, yw *dehongli llythrennol* a *dehongli trosiadol*. Dibynna hyn i raddau ar y rhagdybiaeth gyntaf ynghylch y goruwchnaturiol. Os alltudir y posibilrwydd o ddimensiwn y tu hwnt i ofod ac amser, yna bydd y gallu i ddirnad a deall digwyddiadau gwyrthiol wedi'i ddifwyno cyn dechrau. Bydd yna ymgais efallai o hyd i bleidio'r trosiadol os yw'n fodd i beidio â chymryd pethau o ddifri. Ond gydag ysgolheictod seciwlar llythrennol, rhwyddach yw derbyn y casgliadau anghrediniol parod a syml.

O'm rhan i fy hun, tueddaf i ganfod y llythrennol yn y trosiadol a'r barddonol ynghyd â'r trosiadol yn y llythrennol, a'r rhain yn fwy o bresenoldeb clwm nag a gred amryw o'm cyd-gredinwyr uniongred. Efallai fod gennyf lawer iawn mwy o barch at wirionedd ac anrhydedd y barddonol a'r trosiadol na'r llythrennol, yn fwy felly nag sydd fel arfer yn gyfarwydd ymhlith rhai cyd-Gristnogion. Eto, bron yn ddieithriad – efallai yn wir ddieithriad – yn yr hyn sy'n bwysig ac yn greiddiol yn y mater a ddysgir, gellir dod yn union i'r un casgliadau crediniol hanfodol. Yr wyf i'n credu mai'r ffordd orau a'r ffordd gywir sylfaenol i ddarllen trosiad yw 'yn llythrennol'. Dyma'r llwybr i mewn i adnabod y gwirionedd ieithyddol yn fyw. Ac fel arfer, y mae'r neges mor eglur, boed yn llythrennol neu'n drosiadol, fel nad oes problem inni'i derbyn ac ufuddhau'n llawn iddi. Barddonol yw calon y Beibl. Nid esgus yw'r trosiadol na'r barddonol i ddianc rhag yr union beth a ddywedir yn blwmp ac yn blaen. Ffordd, yr unig ffordd weithiau, yw o ddweud y gwir. Modd yw'r trosiadol a'r llythrennol i gyrraedd yn fynych yr un orsaf ac i ddweud yn fyw wrthym beth y dylem ei gredu. Y mae Duw felly, yn y Beibl, yn Fardd ac yn Hanesydd. Sylfaenir y Beibl ar wirionedd hanesyddol, ond fe'i cyflwynir o Genesis hyd Ddatguddiad yn drosiadol ysbrydol yr un pryd i gyffwrdd â'r galon effro.

Weithiau, wrth gwrs, y mae'r llythrennol yn gryf ddiwyro ac yn gadarn oruwchnaturiol. Boed felly. Nac ofner y goruwchnaturiol, mewn 'modd' naturiol. Weithiau, yr un pryd yn aml – y mae gan y llythrennol ddimensiwn darluniadol mwy cyffredinol. Mae'n goleuo ufudd-dod â symlder calon. Ac mae gan reswm ei wirionedd drwy 'bechu' ar yr ochr llythrennol.

Cymerer Atgyfodiad corff yr Arglwydd Iesu Grist. Dyma ddigwyddiad hanesyddol plwmp a phlaen y cafwyd llawer iawn o dystion iddo a llawer o ganlyniadau cytûn. Does dim amwysedd ynglŷn ag ef i'r meddwl diragfarn: (I Cor. 15; 5-7) 'a'i weled ef gan Ceffas, yna gan y deuddeg. Wedi hynny y gwelwyd ef gan fwy na phum cant o frodyr ar un waith, o'r rhai y mae'r rhan fwyaf yn aros hyd yr awron, eithr rhai a hunasant. Wedi hynny y gwelwyd ef gan Iago, yna gan yr holl apostolion.' Ceisir gwadu'r atgyfodiad hwn weithiau, yn syml oherwydd rhagdybied yn orfodol absenoldeb y goruwchnaturiol. Arferiad gwael yw hynny. Ceisir ei drosiadoli yn anonest hefyd, heb seiliau. Ond o ddilyn y llwybr hwnnw o gam i gam, does dim Iesu Grist ar ôl.

Rhagdybiau eithriadol anghyfrifol sydd. Goruwchnaturiol fu ei natur Ef, o raid (yn ôl pob tystiolaeth), a ddaeth yn naturiol.

Yn hyn o beth y mae agwedd y Bereaid yn yr Eglwys Fore, wyneb yn wyneb â chenhadaeth Paul (Saul), yn ei dasg o wireddu, yn oleuedig:

(Act. 17; 11-12) 'Y rhai hyn oedd foneddigeiddiach na'r rhai oedd yn Thesalonica, y rhai dderbyniasant y gair gyda phob parodrwydd meddwl, gan chwilio beunydd yr Ysgrythurau, a oedd y pethau hyn felly. Felly llawer ohonynt a gredasant, ac o'r Groegesau bonheddig, ac o wŷr nid ychydig.'

Wrth i ysgolheigion ystyried y berthynas rhwng Gras Cyffredinol a Gras Arbennig, nid oes gwell enghraifft na'r Beibl. Dyma hefyd dystiolaeth o fawredd hael Gras Cyffredinol. Cyfieithwyd y Beibl i fil o ieithoedd yn ystod y degawd diwethaf, fe'i cariodd yn genadwri i filiynau o bobl, yn rhad ac am ddim weithiau, yn sicr yn gynnig rhydd a rhadlon. Cynigiwyd yr iachawdwriaeth i dyrfaoedd yn gyffredinol heb warafun i neb. Nid Gras Arbennig yw hyn: Gras Arbennig yw'r gwaith yn y galon sy'n ymateb. Gras Arbennig yw'r ysbryd tlawd yn plygu ac yn derbyn. Dyna waith yr Ysbryd Glân yn aileni'r anghredadun ymhlith yr Eglwys anweledig i gofleidio'r maddeuant ac i garu'r iachawdwr. Ond Gras Cyffredin yw'r Beibl ei hun.

Yr ysgrythurau fel arfer sy'n esbonio orau i ddyn natur ei angen. Drwy Ras Cyffredinol deall y cymhwysa'r Ysbryd Glân wybodaeth Iesu Grist i'r galon dlawd. Gŵyr y dyn normal fod arno anghenion dybryd. Gŵyr am brinderau gallu a moes. Gŵyr am farwolaeth. Ond yr ysgrythurau sy'n egluro craidd hyn oll iddo fel materion personol-dragwyddol. Dadlennir iddo ansawdd ei golledigaeth. Cais ef ateb. Ac fe roddir i ddyn gynnwys i'w brofiad; a'i berthynas i hyn oll mewn Gras Arbennig.

Ni elwir ar neb oll i ddod i brofiad emosiynol o fath neilltuol, ond i wirionedd ac i adnabyddiaeth. Ni elwir neb i deimlad, eithr i berthynas. Ond i berthynas a ddiffinnir yn wrthrychol gan ffeithiau a gorfoledd yr Ysgrythurau. Ffydd o fewn amser a lle cyffredinol ac arbennig, a ffydd mewn tragwyddoldeb, yw'r ffydd Gristnogol. Ffydd hanesyddol yw sy'n ymestyn y tu hwnt i hanes, oherwydd i'r dihanes ymgartrefu mewn hanes. Y dihanes hwnnw a greodd hanes, ie, gan William Morgan ac yn llên Cymru.

Gelwir arnom wrth ystyried Gras Cyffredinol a Gras Arbennig i gadw mewn golwg yr un pryd y berthynas rhwng y Gweledig a'r Anweledig, y Naturiol a'r

Goruwchnaturiol. Wrth i ragdybiau dyn-ganolog alltudio un hanner o'r hafaliad, gall ymddangos fel pe bai'n datrys ambell broblem. Ond y gwir yw mai sefydlu, o'r newydd, a wna bob problem. O fewn cyd-destun cyflawn o'r math yna, y mae'r Cristion yn 'deall' ac yn cael o bosib ei 'wybodaeth' arbennig.

*

*

*

Mae Gras Cyffredinol a Gras Arbennig yn mynd â ni at fyd o gyffredinoli ac o arbenigo. Carwn ddychwelyd wrth bendroni am hyn at hen gyferbyniad y bûm yn sôn lawer tro o'r blaen amdano, sef y pegynu rhwng y Cyffredinol a'r Arbenigolion (Tafod a Mynegiant). Mewn Tafod ym myd iaith ceir y deddfau a'r strwythurau cyffredinol parhaol – megis gramadeg – sy'n hanfodol yn y pen ar gyfer Mynegiant arbennig yr holl frawddegau unigol ac unigolyddol ar y pryd. Wrth geisio olrhain twf iaith plant a didacteg ail iaith wedyn, y mae deall ac olrhain trefn olynol a chydlynol elfennau'r strwythurau mewn Tafod yn gwbl angenrheidiol er mwyn deall canlyniad dros-dro y Mynegiant. Mae yna symudiad rhwng y naill a'r llall. Y cyntaf sy'n adeiladu ac yn cyflyru ac yn amodi'r ail. Felly y prawf Cerdd Dafod wrth olrhain Cerdd Fynegiant ym maes llenyddiaeth. Y patrwm yw'r Tafod, a'r Mynegiant sy'n llythrenoli.

Ymddengys i mi mai yn Nuw yn unig, ac yn ôl ei drefn Ef yn unig y ceir y gwir gyffredinolion ac absoliwtiau pur. Y rheini sy'n gyfrifol am safonau neu egwyddorion absoliwt ar waith ynglŷn â chyfiawn ac anghyfiawn. Yn Nuw'r Creawdwr y ceir undod y cyffredinolion ac ystyr eithaf moesoldeb a gwerthoedd sy'n gwneud Diwylliant yn bosibl. Mewn dyn, y creedig, ac yn ei brofiadau gweledig ef y ceir y pethau arbennig ymarferol sy'n perthyn i'r amrywiaeth a'r gwahaniaetholdeb dynol, y digwyddiadau unigol a'r gweithredoedd arbennig. Tuedd hollol naturiol y dyn chwâl fu gogwydd Ôl-foderniaeth ddiwylliannol at luosedd a gwahaniaetholdeb. Yr amrywiaeth lluosaid hwnnw fu ganddo heb yr undod. Ond y mae'r cyswllt rhwng yr Anweledig a'r Gweledig, y Cyffredinol a'r Arbennig, yn gyswllt cwbl angenrheidiol. Mae'r naill yn y llall.

Felly, pan ddatganodd yr eglwys Bresbyteriaidd Ddiwygiedig yn America ym 1800 na châl neb aros yn aelod os oedd hefyd yn berchen ar gaethweision, gweithredai ar egwyddor ac awdurdod dealedig a deallol o ysgrythur anffaeledig. Derbyniodd fod y Beibl yn gosod ffurf a rhyddid mewn cymdeithas a llywodraeth. Cydnabyddai ysbryd dynol pob caethwas. O fewn y persbectif materolaidd amddifad ni cheid dim egwyddor

eithaf i amodi dyfarniad o'r fath. Tuedd y materolaidd oedd tybied bod pob dim yn relativfaidd. Ond o fewn cyfiawnder y persbectif cyffredinol Beiblaidd, ddi'r rhyddid i gaethweision yn gri a ddi'n gyffredinol oddi wrth Dduw.

Po bellaf yr eir tuag at ddeddfau'r greadigaeth, pellaf y sylweddolir diffyg relativrwydd y sylfeini. (A chyda llaw, gwylir y gwahaniaeth rhwng relativfaeth a relativrwydd. Rhagdybia theori Einstein o relativfaeth fod goleuni yn y bydysawd, bob man, yn teithio yn ôl cyflymder cyson mewn gwactod. Does fawr o relativrwydd yn relativfaeth Einstein). A llefaru am Dduw a wna pob man. Drwy'r effeithiau y darllenwn yr achos. Oherwydd yr absoliwtiau a'r cyffredinolion a angorir yn yr Absoliwt, y mae i'r manylion unigol eu hystyr. Y mae'r Absoliwt ei hun yn hunan-ddehonglwl ac yn hunan-lywodraethol. Y mae'r arbenigolion neu'r unigolion oll yn ddibynnol.

Mae gan Gristion o ysgolhaig, felly, broblem ddiddorol heddiw. Sef Amgylchfyd Gormes Cydffurfiaeth o fewn cyd-destun seciwlar: y rhagdyb anffodus a dyfodd yn ddogma. Ond yn ein gwybodaeth i gyd, yr erys Duw. A hyn yw'r her i'r ysgolhaig 'diduedd'.

Ers dau gan mlynedd, dyweder o fewn disgyblaeth 'Hanes Modern', ni bu'n briodol sôn am law Duw, rhagluniaeth, na dim arallfydol felly ymhlith academyddion, hyd yn oed pan drafodid Diwygiad. Os yw materion o'r fath yn gallu bod yn ymarferol mewn pwlpud, maent yn bur ddirmygus yn y byd academaidd seciwlar. Eto, nid anghrediniaeth niwtral yw peth felly, yn ddiddisgyblaeth ac yn ddiragdybiaeth braf, ac yn ôl rheswm. Gall credadun ystyried yn bwylllog i ba raddau y gall dderbyn rhagdybiau materol o'r fath. Fe ellid trafod rhagdybiau materion o safbwynt materol, heb eu credu i'r pen, ac yn sicr yr un pryd heb ystyried eu bod y tu hwnt i ystyriaeth. Ac nid prinder academaidd yw'r broblem ynghylch rhagdybiau Cristnogol, deallol 'diduedd'. Pam na ellid hefyd ymdrin yn bersonol o fewn cyd-destun arall â'r posibiladau o ddimensiwn goruwchnaturiol heb golli wyneb? Fe ellid esbonio a chydabod *sensus divinitatis*, heb anesmwytho'n chwyslyd ddi-ddysg. Felly hefyd, gellid trafod rhagdybiau a'r amhosibilrwydd llwyr o fod heb ryw fath o ffydd. Eto, erys rhwystr mewn Cristnogaeth fel y cyfryw sy'n profi'n obsesif i'r byd.

Beth yw hyn?

Un dimensiwn eithafol arbennig yw'r tramgwydd gwahaniaethol mewn Cristnogaeth, sef awdurdod tragywydd. Mor feddiannol yw'r rhagdybiau y tu ôl iddi nes eu bod yn didoli barn mewn modd mor chwyrn: mae'r ymarfer cymedrol o wahaniaethu cynnil yn cael ei glwyfo. Mae safbwyntio'n Gristnogol o'r herwydd yn gofyn am elyniaeth. Dyna sy'n cynddeiriogi'r ysgolhaig academiaidd anghrediniol mewn Cristnogaeth. Ac nid dyna'r cwbl. Onid yw rhagluniaeth a thrugaredd hefyd yn awgrymu didoli darllenwyr? Penarglwyddiaeth Duw yw'r pennaf rhwystr.

*

*

*

Pa mor bell felly y gall Cristnogaeth ei mentro hi wrth ystyried arwyddocâd rhagdybiau Cristnogol gerbron Seciwlariaeth, yn arbennig o safbwynt Gras Cyffredinol?

Mae'r ymagweddu llinellol o hanes a dderbynnir gan Gristnogaeth, ynghyd â'r disgwyliadau gobeithlon a chadarnhaol, mae'r parodrwydd i chwilio am batrymau, a'r fframwaith o gyfiawnder ac o werth, oll yn gwbl briodol. Nid yw'n amhriodol chwaith ymagweddu'n negyddol yn erbyn yr hyn sy'n amlwg anfoesol.

Rhaid cerdded yn garcus, wrth chwilio'n ddyfal am y cadarnhaol. Ac y mae llawnder y dyfnder mewn dealltwriaeth Gristnogol ynghylch pob gwedd ar fywyd yn iachus werthfawr. Mae'r cydymdeimlad a ddylai fod gan Gristion tuag at bob cloffyn yn gaffaeliad gwir. Dylai miniogrwydd pob myfyrdod ynghylch gwerthoedd o bob math weithredu er lles mewn ysgolheictod. Dengys fod a wnelo Hanes â phawb a phopeth, yn weledig ac yn anweledig, heb wadu ffaith gwerthuso sy'n penderfynu ffurf Hanes.

Llwyddwyd erbyn hyn, yn bennaf drwy gymorth dadleuwyr Cristnogol, i ladd y rhagdyb go od a hynod arwynebol a chibddall fod modd bod yn wir ddiuedd mewn Hanes. Mae'n ddigon gwir bod eisiau archwiliad dygn a hunanfeirniadol o'r holl dystiolaeth sydd ar gael, a bod angen dadansoddi ac ymchwilio yn drwyadl drefnus. Ond cyn gynted ag y dechreuir dethol y dystiolaeth ar gyfer ei chyflwyno, a gwerthuso, a chyn gynted ag y ceisir dehongli'r dystiolaeth honno, y mae rhagdybiau di-rif yn brigo i'r fei. Dylid bod yn hynod garcus. Ni raid i integreti neb gael ei 'ddifwyno'. Ond amhosibl yw esgeuluso gwerthoedd yn gyfan gwbl. Yr ysgolheigion mwyaf amheus yw'r rhai nad archwiliasant eu hamheuron eu hunain ac eto sydd am frysio i'w hanghofio. Mae'r sawl a wŷr ac a eddyf ei ragdybiau yn cael y fantais o wybod ychydig sut y mae'r broses yn gweithio.

Rhaid i Gristion o ysgolhaig, meddwn, fod yn garcus. Ond a yw hynny'n golygu bod yn gachgi, cuddio'r gwirionedd, bod yn unochrog, dweud hanner y stori, cofio bod y materol yn fath o gyfleustra cyffredinol, a'r empeiraidd heb egwyddorion na deddfau anweledig?

Na: yr hyn a olyga yw bod ymddwyn yn ystyriol, yn drugarog hyd yn oed, yn gydymdeimladus, gan ddechrau yn y lle y mae'r gwrthwynebydd yn sefyll, yn gymorth i ddiffinio a gwybod heb dderbyn rhagdybiau'r lleill.

Rywbyrd neu rywle, dylai fod yn amlwg i ysgolhaig o Gristion beth sy heb fod gan yr anghredadun mewn golwg. Dylai'i archwiliadau am hynny fod mor gyflawn ag sy'n bosibl gan ddadlennu'r holl ragdybiau a'r holl gasgliad perthnasol. Ond rhaid gweithio o fewn amgyffrediad Gras Cyffredinol yn anochel arferol. Ac annheg yw tybied bod pawb yn gallu cyd-deimlo na chyd-ddeall pob peth ynghylch yr absoliwt y mae'n rhaid yn y bôn ei gydnabod. Dylai'r credadun 'diniwed' fedru gwneud peth o'r cyd-ddeall hwnnw am iddo fod ei hun unwaith yn anghredadun. Y mae diffinio dilysrwydd hunaniaeth y Cristion hwn, mewn cyd-destun felly, yn dibynnu ar ddysgeidiaeth Galfinaidd 'Dyfal-barhad y Saint.'

Ceisiwyd yn fras arolygu swyddogaeth ddiwylliannol Gras Cyffredinol. Roedd dyn unwaith wedi torri Deddf pob deddf, ffynhonnell pob trefn, yr union amod a ddaliai'r greadigaeth wrth ei gilydd. Drylliwyd canol ystyr dyn. Beth o werth oedd ar ôl felly? Dim byd newydd. Dim ond yr union ras ag a roddodd inni y Greadigaeth a bywyd a threfn a chynhaliaeth elfennaidd yn y lle cyntaf. Hyn oedd ateb Duw i'r Tir Anial. Yr ateb i'r Gorchymyn Diwylliannol yn yr oes newydd i Bawb, – Gras (Arbennig a Chyffredinol), O'r fath beraidd sain.

7. CWYMP
A
GELYN
DIWYLLIANT

Mae llawer un ohonom yn cael pleser a thrafferth os oes gennym ardd wrth y tŷ. Ond y mae pawb ohonom yn cael trafferthion gyda'r chwyn. Ac os wynebwn ymhellach ardd ein bywyd beunyddiol, mae'r blinder yn gallu bod yn waeth na thrafferth.

Eto, go brin fod y dyn naturiol – hyd yn oed os cred ef fod rhywbeth o'r fath bwysigrwydd i'w gael â llygredd cynhenid wedi llithro (yn ddieithriad) i mewn i berffeithrwydd y byd – ddim yn ystyried llawn ddifrifoldeb y mater hwn. A dywedwn yn hwyliog, eithr yn bur gywir: 'Does neb yn berffaith.' Dyma'r hyn sydd a wnelo â gwrthodiad dyn o air Duw. Dyrchafodd dyn ei ffydd ynddo ei hun uwchlaw barn a doethineb a daioni Duw. Sarhaodd Dduw am y tro cyntaf. Fe'i dianrhydeddodd. Fe'i cyfrifodd yn gelwyddog. Yn lle cynllun Duw, ceisiodd ddyrchafu'i gynllun ei hun. Dyma Ego Trosgynnol Adda. Cododd i ryfela yn ei holl rwysg megis un o'r duwiau.

Am byth wedyn, dyma wahaniad wedi digwydd rhwng y Goruwchnaturiol a'r Naturiol nas cafwyd ynghynt. Byddai'n rhaid wrth ddigwyddiad Goruwchnaturiol arall, un cwbl anghyffredin cyn y gellid byth gywiro'r berthynas hyfrydlon honno. Ond yr oedd y dyn hwn a'r cynllun mor werthfawr yng ngolwg Duw, nes nad oedd dim yn rhy fawr iddo Ef ei wneud er mwyn aduno'r berthynas hardd.

Priodol cofio nad Barn gytbwys oedd y farn a dderbynai dyn. Disgynnodd melltith arno; ond disgynnodd trugaredd yr un pryd. Ni allai dyn byth dalu am ei gamwedd. Gwrthododd holl gynllun a deddf Duw i'r bydysawd. Un o'r dulliau, a ddefnyddiai'r anghredadun i gael esboniad i'w gyflwr chwithig oedd beio Duw. Hoff ganddo feio Duw am ei ddioddefaint – y 'Duw creulon', y 'Duw a ganiataodd ddioddefaint yn y lle cyntaf', y 'Duw a barodd fod drwg ar gael'. Ond Duw a roddodd ryddid ewylllys i ddyn. Hwnnw sy'n llywodraethu'r Greadigaeth. Ond nid dyna'r unig Dduw a ddatgelwyd i Gristnogion; eithr Duw maddeugar, Duw aberthol, Duw perffaith a chyfiawn yn Ei ddaioni. Rhaid deall y cwbl yn y cyd-destun datguddiedig. Ym malchder ei hunan-ddyrchafiad, aeth dyn yn ysbrydol ddall. Nid oedd modd i ddyn ddeall Duw nac ystyr y drwg yn iawn heb fod yr Ysbryd wedi'i oleuo'n llachar. Un o'r gwersi disgleiriaf y gall dyn eu dysgu mwyach yw sylweddoli presenoldeb a difrifoldeb pechod.

Fel y gwelsom, parhaodd gwaith diwylliannol Duw ar ôl iddo lunio dyn o bridd y ddaear:

Yr Arglwydd a blannodd ardd yn Eden, o du'r dwyrain, ac a osododd yno y dyn a luniasai Efe. (Gen. 2: 8).

Ac yno y plannodd ef Foesoldeb. Sefydloedd y moesoldeb hwnnw mewn arwydd syml o wahaniad rhwng Eden a marwolaeth. Arwydd eithafol o elfennol oedd rhwng da a drwg, rhwng perthyn ac arwahanrwydd, rhwng bod yn y teulu dwyfol a bod y tu allan iddo. Rhoddwyd gwraidd syml i Foesoldeb. Clymwyd diniweidrwydd hwnnw wrth gydlynid dyn a Duw. Gan fod y pryd hynny ewyllys rhydd gan ddyn, roedd ganddo bob amser ddewis felly. Gallai fyw neu farw, gallai bechu neu beidio. Gallai berthyn neu ymwahanu. Gallai roi 'syniadaeth' Duw yn y canol, neu 'syniadau' dyn: gostyngeddwrwydd neu falchder. A Balchder dyn fu'i gwmp. Hyd y dydd heddiw, drwy Edifeirwch pur, gwir Edifeirwch o'r galon yn unig, y ceir Maddeuant a'r posibilrwydd o adferiad. Cwmpodd Diwylliant ei hun.

Canolbwynt disgyrchiant ysbrydol, craidd dibyniaeth dyn, oedd Duw, dyma natur bywyd llawn, bob cell yn wir. Arwydd o'r Absoliwt perthyn hwnnw oedd ffrwyth y pren. Esboniad treiddgar oedd hyn – y ffrwyth a'r pren: arwydd o darddiad pob bywyd a ffrwythlondeb arall. Ffynhonnell hefyd oedd i'r ymwybod o awdurdod a dibyniaeth oruwchnaturiol. Ond fe'i gwrthodwyd. Cipiwyd yr egwyddor o ddiidibyniaeth mewn ffrwyth. Gwyddom oll beth a ddewiswyd. Yr Ego Trosgynnol. Esboniwyd y drefn i ddyn; ac fe'i torrwyd. Cyd-fyw â Duw, neu beidio. Daeth marwolaeth o'r herwydd i fyd Adda. Trodd y cwbl o gylch symbol y ffrwyth. Ac eto, nid oedd Duw wedi gorffen â dyn. Nid oedd gorchymyn Duw ynghylch 'diwyllio' chwaith wedi darfod yn y fan yna, er y byddai ansawdd a diddanwch a llewyrch y dasg ddiwylliannol bellach yn wahanol:

'Trwy chwys dy wyneb y bwyte'i fara, hyd pan ddychwelwch i'r ddaear; oblegid ohoni y'th gymerwyd: canys pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli. (Gen. 3: 19)

Math o ddeddf oedd hyn eto, i ddyn syrthiedig. Gweithio a oedd yn briodol i hwnnw o hyd. Nid ymwardwyd â'r gorchymyn diwylliannol. Ond bellach, mae hadau marwolaeth ynddo ac yn ei waith. Gall ei waith fod yn drwm, gall ddiodeff o elyniaeth a chenfigen a malais ei gyd-ddynion, gall pethau fynd o'u lle; a nam ymddangos yma, neu ddiffyg ymddangos draw. Gweithio o dan anfantais y bydd ef mwyach. Bydd perffeithrwydd yn amhosibl iddo er mai dyna yw ei briod nod o hyd.

Creasid ysbryd dyn yn wreiddiol i bwysu ar Ysbryd Duw, fel y corff yn pwysu ar y ddaear drwy ddisgyrchiant. Dyma ddeddf perthynas dirgelwch a llawenydd yr ysbryd. Y berthynas hon oedd ffynhonnell pob hyfrydwch. Bellach, er bod gan bob person ysbryd, mae'r ysbryd hwnnw'n gynhenid farw i Dduw. Mae'n bodoli heb ogoniant perthynas.

Collwyd perthynas pan beidiodd ysbryd dyn â dibynnu ar Dduw. Dyna'r Cwmp dyfnaf, y gwahanu mawr, y golledigaeth sylfaenol. Ein tuedd gynhenid yw bychanu'r digwyddiad hwn. 'Yr ydym yn gwneud ein gorau. Dyw pethau ddim cynddrwg' ac yn y blaen. Ond wrth gwrs, bu'n ddramatig o erchyll yn ei hanfod, er bod Duw o'i ran yn ein cysgodi'n drugarog rhag eithafrwydd y difrifoldeb yn ystod ein hoes. Dyma darddiad pob marwolaeth, pob trais ac annhegwch, pob ffeidd-dra, llofruddiaeth a godineb, pob casineb, pob anffyddlondeb, pob diffeithwch. Mae yna gaos. Mae'n anodd sylweddoli difrifoldeb llawn y fath ffenomen. Yr ymwahanu enfawr ynom, a rhyngom a Pharadwys.

Eto, darpara hyn lawer o themâu mwyaf llenyddiaeth: trasiedi, gwrthdaro, drama. Mewn llenyddiaeth, mae'n cyflyru llawer iawn iawn o'r hyn sy'n digwydd mewn storïau. Ymddengys fod Gras Ataliol (hynny yw gras cyffredinol) ar waith o fewn Llenyddiaeth yn y cyfnod presennol mewn Mynegiant llenyddol. Crea hyn dyndra mewn stori a drama. Hynny yw, o fewn cyd-destun y Cwmp, trowyd yr Amryw-mewn-un syrthiedig yn ffrwythlon. Darparwyd i'r dychymyg fodd i weddnewid y profiad o gaos yn ymwybod dyrchafol, gyda thosturi a hiraeth am yr hyn a gollwyd. Gwelir hyn yng ngwaith Gruffudd ab yr Ynad Coch, Dante, a thro ar ôl tro mewn beirdd fel Racine a Shakespeare. Unwaith eto, grym trefn gras a ganfyddir yn hyn oll. Ond gall ddod â thywyllwch diderfyn bron i fywyd rhai pobl; tywyllwch a all arwain i argyhoeddiad amgen. Bu ateb: cafwyd Ymgawdoliad. Arweiniodd yr Ymgawdoliad at bethau eraill, megis Iawn i ddyn. Ac yn yr Ymgawdoliad newidiodd hanes y byd oll. Rhoddwyd i'r greadigaeth gyfle newydd. Cafwyd presenoldeb newydd a wnâi bosibilrwydd adfywiad i'r berthynas.

Yn wir, mae'r anodd i ddyn meidrol fynegi gwir ddifrifoldeb (yng ngolwg Duw) am y weithred a'r cyflwr o Bechod. Rhaid bod y peth hwn mor aruthrol o ddwys fel y bu'n rhaid i'r Tad ei hun anfon y Mab tragwyddol i'w aberthu'i hun a chymryd holl faich pechod y byd ar dywyllwch ei ysgwyddau er mwyn unioni'r hollt ofnadwy a gafwyd. Hollol amhosibl yw dychmygu mor ddychrynlyd oedd y rhwyg yna yng nghynllun glân

a pherffaith Duw. Dadgymdeithaswyd y Naturiol a'r Goruwchnaturiol. Y Cariad difrycheulyd sy'n cael ei sarhau hyd yr eithaf. Y berthynas anferth o annwyl rhwng Duw a dyn a wrthodwyd.

Yn ôl y dehongliad Cristnogol, er hynny, cyn y drwg sy'n gyffredin i natur dynoliaeth i gyd, ac yn gynhenid bellach yn ein genedigaeth a'n marwolaeth, cafwyd yn wreiddiol ddaioni a chytgord perffaith yng nghymdeithas dyn a Duw, cytgord a ddrylliwyd. Roedd Duw wedi gosod deddfau yn y greadigaeth. Tra oedd dyn yn byw yn unol â'r deddfau hynny yr oedd yn mwynhau hyfrydwch perffeithrwydd anfarwol. Pan anufuddhaodd, pan wrthryfelodd yn erbyn deddfau a threfn Duw, daeth drygioni i ganol ei fywyd moesol, a marwolaeth i mewn i'w fywyd yn gyffredinol. Chwalwyd y drefn gynganeddus. Dyma'r dimensiwn sy'n esbonio popeth sydd o'i le ar ein bywyd. Symleiddiwyd yr esboniad yn aruthr i fod o fewn rhywfaint o'n deall. Ond dimensiwn goruwchnaturiol oedd. Eto, erys Gras Cyffredinol hyd yn oed yn y fan yna.

Yr ymateb cyfoes i hyn yw peidio â'i gymryd o ddifri – naill ai drwy fychanu pwysigrwydd y drwg personol, gan honni ein bod yn 'well na rhywrai' o leiaf. Ceisir trin llygredd (er nad marwolaeth fel arfer) fel rhywbeth cymharol ysgafn; neu fel rhywbeth 'goruwchnaturiol' dychmyglon afreal. Prin yw'r argyhoeddiad dwfn a byw o sarhau Duw, neu o'i wrthod yn argyfyngus. Y gwir yw nad oes gan y dyn anianol ddim amgyffrediad o anferthedd hanfod yr hedyn lleiaf o Bechod. Y Cristion yn unig a fedr ganfod i ryw raddau aruthreddingol y digwyddiad hwn.

Yn ôl y dehongliad Beiblaidd, y mae nerth Pechod yn dragwyddol dreiddgar, ac fe'i gwelir fel gweithred (neu feddwl) yn erbyn Duw personol. Anghrediniaeth yw'r mwyaf eithafol o'n pechodau: peidio â dibynnu arno, ar Gariad y Greadigaeth. Tuedd y dyn seciwlar, anghofus, dethol ei ddeall, os meddylia am y term 'pechod' o gwbl, yw ei weld yng nghyd-destun troseddau'r papur newydd – lladd, trais rhywiol, lladrata, ac yn y blaen. Ond i Gristion, gelyniaeth enbyd yn erbyn Duw yw. Ymgais aruthr yw i danseilio trefn gariadus Duw – Ei werthoedd a'i amcanion Ef. Collwyd trwyadleddd disgyrchiant ysbrydol dwyfol.

Yn y cyfnod ôl-fodernaidd, ceisir herio'r ymwybod o werth, o drefn, ac o bwrpas. Gwedir ystyr yn fynych. Ceisir diorseddu pob safon absoliwt ddisgyrchiannol. Ar lefel weddol arwynebol, gorseddir relativrwydd 'diniwed'. Ond wrth wadu absoliwt, gwneir

gosodiad absoliwt arall. Ac wrth wadu ystyr, fe'i gwneir wrth fynegi yn ôl patrwm ystyrllon iaith. Wrth geisio ymwadu â threfn, plygir mewn gramadeg i fframwaith o drefn, a cheir pwrpas wrth agor ceg i wrthddweud pwrpas. Mewn byd sy'n dibynnu ar fodolaeth gadarnhaol, gorsymleiddiad yw dyrchafu'r negyddiad yn anhunanfeirniadol. Erys dyn mewn cylch dieflig. Dyma amodwaith ei ddiwylliant.

Mae'r negyddol, fel mowld i feddwl ac i fyw, yn ei gael ei hun mewn safle go unig. Mae'n traethu'r gwir, fel y mae pob pechadur ymwybodol effro yn ei gyfaddef. Realedd yw'r negydd o fewn cyd-destun cadarnhaol. Diddorol a phwysig yw sylwi ar y gwahaniaeth rhwng y ddau safle – ceisio profi a gwybod i sicrwydd Dduw sy'n bod (ac sy'n agored i bosibilrwydd perthyn), a cheisio heb unrhyw fath o sicrwydd brofi absenoldeb Duw, sef na all ddim bodoli yn un man, a thrwy unrhyw fath o bosibilrwydd.

Mae'r math o lenyddiaeth ac o feddwl sydd ar waith mewn byd o bechod yn anhraethol wahanol i'r math o feddwl a fuasai ar waith mewn byd perffaith, difarw a sanctaidd, cyflwr sydd y tu hwnt i'n dealltwriaeth lawn. Nid yn unig y mae pechod yn gywir o safbwynt realedd portreadu bywyd: does dim modd ei wadu'n gall. Ffynnon yw i lenyddiaeth 'realiaid.' Colled fyddai cau llygaid iddo. Ac o'r herwydd, o fewn y cyferbyniad sy'n ei amlygu, y mae cynnwys pechod yn ein golwg ar fywyd yn gwbl angenrheidiol os ydym am fynegi profiad gwir o fywyd, ac yn wir, os ydym am fyw'n ymarferol. Ni ellir delweddu diwylliant dyn yn gatholig weledigaethus optimistaidd heb ymwybod â phresenoldeb y llygredd a'r anghred yn ein natur. Ond fe grewyd dyn i fyw mewn Mawl, ac erys pob cell 'fyw' ohono mewn marwolaeth gerbron y fath sialens. Yn y Beibl ei hun y ceir y disgrifiad unigryw a pherffaith o'r cyflwr hwnnw a'i ganlyniadau.

Ceir dau ateb o du perthynas dyn a Duw i bechod, yn ôl dehongliad Cristnogol. Y naill ym mryd ac yng ngwacter y dyn naturiol. A'r llall gan y sawl y bywhawyd ei ysbryd, a edifarhaodd, ac a gafodd ei dderbyn gan Grist. Eto, ceir Gras Cyffredinol sy'n gweithio drwy'r gydwybod a'r greadigaeth i bob un. Dyma'r ateb dros dro ynghylch bodolaeth. Ond mae'r ateb llawn ar gael, a'r gallu i'w dderbyn. Perthyn Gras Cyffredinol ein creadigrwydd i balu'r Ardd, ac fe wasgerir ei ddaioni a'i neges yn ddiwahân, heb haeddiant. Eithr yn ail, ynghyd a'r Gras Cyffredinol ceir Gras Arbennig a roddir yn waredigol gan Grist i'r rhai a dry ato Ef a'i geisio o ddifri, i bawb sy'n plygu ac yn estyn dwylo gwag tuag ato. Dyma'r ateb parhaol neu dragwyddol rydd, o drefniant Duw. A

pherthyn hyn i ffrwythau'r Ysbryd. Mae goleuo'r drwg yn y ffrwythlondeb hwnnw yn un o'r ffyrdd y'n harweinigir gan yr Ysbryd. Mewn gwirionedd, y mae'r ffaith hon o bechod bellach yn esgorol ganolog i lawer o athrawiaethau Cristnogol eraill – Ymgawdoliad, Y Farwolaeth Iawnol, Atgyfodiad, Sancteiddhad, Bywyd Tragwyddol, ac yn y blaen.

Gras yw'r ateb, hynny yw, rhodd yw'r ffrwythau oll oddi wrth Dduw.

Mae Gras Cyffredinol yn cynnwys y Greadigaeth: yr holl ddaear a'i chyflawnder, ein cyrff a'n cyneddfau, ein doniau, ein hiechyd, y drefn a'r ystyr a'r gwerthoedd sydd ym mhob man, pwrpas bywyd. Bywyd ei hun, pob diwylliant a phob medr i ddiwyllio, a synnwyr o Dduw. Pob dim a grewyd, ac a gynigiwyd i ddynol-ryw.

Hynny i gyd a pherthynas â Duw. Cynigiwyd mwy na Gras y greadigaeth inni. Soniwyd gan Ras Cyffredinol am fywyd diderfyn hefyd yn y teulu tragwyddol ynghyd â Chyfiawnhad Crist a Sancteiddhad yr Ysbryd Glân. Cwmni Duw ar hyd y daith bresennol; ac wedyn. Bywyd ysbrydol cynyddol yw nes cyrraedd llawnder difrycheulyd. Ac yna erys. Mae'r materion hyn bron yn gyfan gwbl annealladwy i'r dyn naturiol. Hyd yn oed i'r sawl a dderbyniodd Grist i'r galon drwy Ras Arbennig, erys annealladwyaeth iddynt yn wedd anferth ar gyflawnder y Duwdod.

Ac wrth gwrs, yn achos pawb ar hyn o bryd, o ran fach yn unig y gwyddom.

Rhwng Gras Cyffredinol a Gras Arbennig, ceir gagendor aruthrol, er bod Rhagluniaeth Duw yn llywodraethu ar y cwbl. Mae Gras Cyffredinol yn agored i bawb, boed yn gredadun neu'n anghredadun. Nid yw Gras Arbennig, er y cynigir ef i bawb drwy Ras Cyffredinol, ond ar waith yn y credadun. Cyfiawnheir hwnnw gan farwolaeth iawnol Iesu Grist, fe'i sancteiddir gan yr Ysbryd Glân, fe'i gogoneddir gan y Tad. O'u herwydd, gellir dweud bod modd i Gristion weld dwy wedd ar ddiwylliant, y naill a'r llall dan benarglwyddiaeth: sef Diwylliant 'seciwlar' fel y'i gelwir, neu'n well diwylliant pawb; a Diwylliant Cristnogol sy'n ddeublyg ac sy'n ymwneud â phopeth, y delyneg a'r emyn, y stori a'r weddi.

Mae'n briodol inni yr un pryd gofio cyfyngiadau'r Cwmp. Er llygru pob gwedd a phob cymal ar ein natur, er peri bod dyn mewn cyflwr mor ddwys wahân fel na allai ei iacháu'i hun, nid anifail oedd ef, ac nid peth. Arhosai'i ddynolrwydd urddasol. A chyda hynny cadwai'i natur a'i bwrpas crefyddol, a hyd yn oed Gras Cyffredin, ei *sensus divinitatis* a'i gydwbybod. Felly, ni chenslir mo'r gorchymyn diwylliannol, fel y gwelwn yn

achos Noa. Nid ymwedir yn gyfan gwbl chwaith â delw Duw. Dyn yw dyn o hyd, ychydig is na'r angylion. A phwy bynnag yw, dibynna ar Ras.

Fe gredaf hefyd fod dyn, heblaw cyflawni'i bwrpas o ffrwythloni'r ddaear, er yn ddiarwybod iddo, yn byw ac yn gweithio fel pob dim arall er clod i Dduw, hyd yn oed pan fydd yn gwrthryfela'n erbyn Duw ac yn ei drin â dig: 'Bydd EDOM, er ei ddig, yn dy foliannu'. (Salm 76: 10). Eto, oherwydd yr ysgariad, gyrrwyd diwylliant allan o Ardd Eden. Ymddigrifai dyn yn ei waith 'annibynnol' ei hun. Ymfalchïai hefyd mwyach yn yr offer weithiau fwy nag yn y gwaith. Ac elw neu hunanfynegiant oedd nod dybiedig celfyddyd iddo, oni newidid ef.

Gwyllt yw pechod. Mae angen ei dorri fel ceffyl gwyllt. Mae angen ei daro yng nghyswllt ei glun. Brwydr fewnol yw. Lle bynnag y mae'r Gydwybod yn pigo, mae yna ymdeimlad o ryw 'Arall'. Mae'r Gydwybod ynghlwm wrth argyhoeddiad o Bechod. Erys y Gydwybod yn dystiolaeth ddigonol i'r Cwmp. Ac y mae ynghlwm wrth ragdyb y Gwrthosodiad. Dyma gymhelliad yr Ysbryd Glân ar waith yn fewnol. Eto, O! fel y diflannodd y sôn a'r sobrwydd a'r sylweddoliad o'r syrthio syrffedus hwn.

Pan ddaw'r amser yng Nghymru i fyfyrion o ddfri am ymddatodiad Cristnogaeth enwadol ein gwlad yn y cyfnod diweddar, caiff y Colegau Diwinyddol le go amlwg; ac yn eu plith, seiliau'r symudiad addysgol crefyddol swyddogol. A ffigur a meddwl y duwiol Lewis Edwards, efallai, yn brif gynrychiolydd (anfwriadus o naif) i'r datblygiad tuag at wahanu Dysg a'r Weledigaeth Gristnogol, Dadgymdeithasiad y Goruwchnaturiol. Ef a'i ddilynwyr, arloeswyr y methiant i gymryd pylni lluosedd Seciwlariaeth o ddfri, oedd y gelyn naif o'r tu mewn i'r Ardd, collwyr y dychryn melys.

A dwy o'i ragdybiau yn arbennig:

1. Rhagdyb y ddysg ddyn-ganolog, a 'balchder' dysg; heresi'r ddysg niwtral.
2. Rhagdyb y cyfosodiad (Dialecteg Hegelaidd); cyfaddawdu â'r gelyn. Yr hyn a wnaeth Lewis Edwards oedd niwlio'r gwahaniaeth rhwng (a) Y Gwrthosodiad angenrheidiol / Gwahaniaeth, a (b) Y Cyfosodiad Hegelaidd, ynghyd ag eistedd ar y ffens. Ond bwriadaf ymdrin yn llawnach â Beirniadaeth Lenyddol Lewis Edwards mewn man arall, gan fwrw golwg dros ei ragoriaethau yn ogystal â'i ddiffygion.

Mae'r cwbl o'r ysgrythur yn cynnig i ni yn sylfaenol erioed fframwaith clir y *gwrthosodiad*. Hyn yw'r fframwaith sy gan y Gydwybod. A hyn sydd y tu ôl i'r

argyhoeddiad o bechod. Duw a Satan, Seciwlariaeth a'r Efengyl, yn ddigyfaddawd, ac yn wrth-niwtral.

Credaf fod hyn yn sylfaenol yn perthyn i Ras Cyffredinol fel y gellir ymwybod â'r gwahaniaeth rhwng da a drwg, byw a marw (goroisol neu beidio), bodolaeth y 'gwerth' fod un yn rhagori ar arall. Perthyn hyn i lefel elfennaidd o ymwybod; sef y rheidrwydd dwfn i ddewis er mwyn goroesi a llwyddo, gan ymwrthod o raid â'r rhwystrau. Ni pherthyn hyn oll i Gristnogaeth yn unig, mae'n wir. Ond y mae sylweddoliad o natur ddofn y gwrthosodiad hwn yn weledigaeth Gristnogol. Daw Gras Arbennig yn benodol i mewn i weddnewid yr agwedd Gyffredin pan genfydd y galon ei phechod ei hun a phlygu o flaen trugaredd Duw. Dibynnodd gwerthuso daearol o'r dechrau ar bresenoldeb y llai gwerthfawr.

Y Gydwybod sy'n didoli. Mae'r rhagdyb yna yn gogwyddo calon dyn, er gwaetha'r Cwmp, er gwaethaf llygredd trwyadl pob rhan o'i natur, yn erbyn sylweddoli pegwn y gwir wrthosodiad, ac ymdrech y Cwmp i sefydlu y cyfosodiad eelectig – 'llwyd yw popeth, mae yna ryw ddaioni (sy'n trechu) ym mhawb, cyfaddawdu a'r tir canol yw'r llwybr cywir'. Bu'r math hwn o ymagweddu digyhyrau a gafwyd gan Lewis Edwards yn ymgais i ganslo'r frwydr real hon: ymwadu oedd, osgoi.

Ceir gwreiddyn i'r Gydwybod yng ngweithred greadigol Duw o wahanu neu o ddidoli. Pan wahanodd Ef Oleuni a Thywyllwch, ac yn y blaen, sefydlwyd yr un pryd ar gyfer y dyfodol y gynneddf a'r egwyddor neu'r dechneg o wahanu. Gosodiad â gwrthosodiad, ond y Gosodiad yn drechaf.

Gadewch i mi, sut bynnag, 'wahanu' yn hyn o fater hefyd. Sef gwahaniaethu rhwng Cyfosodiad Cyfaddawdu a Chyd-osodiad Gwahuno. Yr un sy'n gwahuno yw Duw; Un sy'n Dri; ac yn hynny o beth y mae Ef yn dal yn Wahaniad. Drwy wahuno y mae Ei waith cadarnhaol, creadigol yn gweithio. Gwahanu ffrwythlon a chadarnhaol yw lluosrwydd Duw, sy'n cronni yn amllder o fewn Undod. Yr amllder adeiladol hwn sy'n ymostyngiad i ogoniant Duw, nid i ogoniant dyn.

Pan geir gwrthosodiad i Dduw, ceir gwrthosodiad sy'n ymwrthod ac yn datgan Na. Nid gwrthosodiad sy'n ymuno'n hunan-ganslog yw. Fe'i sefydlir yn wrthosodiad er mwyn diffinio ac egluro gelyniaeth. Mae gennym, felly, ddau wrthosodiad: sef y gwrthosodiad creadigol rhwng Goleuni a Thywyllwch mewn Gras Cyffredinol, a

gwrthosodiad ffydd rhwng Dinas Duw a theyrnas y byd hwn. Cydosodiad creadigol oedd Duw a dyn yn wreiddiol. Gwrthosodiad Duw oedd Duw yn erbyn pechod. Daeth barn Duw i'r golwg yn erbyn dyn fel gwas pechod. Nid oes cymodi â phechod, neu â had y Sarff. Erys bellach y cyferbyniad rhwng bywyd o ras a bywyd o anufudd-dod i Dduw. Duw a Mamon. Ni ellir cyfaddawdu, er mor hynaws y bo rhyddfrydwyr.

Oherwydd bod y frwydr hon ar waith o dan ein trwynau, y mae'n gallu pigo cydwybod. Mae'n gallu dihuno dyn i fodolaeth Duw a'r daionus. Ac eto, yr un pryd yn achos y Pietist, fe all pechod ei amddifadu mewn ffordd gywrain, drwy farweiddio doniau naturiol cyfreithlon Duw, drwy ladrata'r hyfrydwch a geir mewn diddanwch creadigol, drwy wahanu amddifad.

Ac yn hyn oll, canfyddwn Bechod wrthi'n difwyno bywyd i gyd ac yn meddiannu canolbwnc llenyddiaeth. Yr arteithio a'r ffeidd-dra hwn, y boen a'r dioddef erchyll; dyma'r hyn sy'n ymyrryd yn ein diwylliant pob dydd beth bynnag fo'r ymdrechion i'w ddiogelu. Diwylliant wedi'i ddifwyno yn y gwraidd yw Pietistiaeth. Ni thâl chwarae â hyn na thewi amdano.

Mewn disgyrchiant ysbrydol, ym Mhenarglwyddiaeth y greadigaeth, ymhlith egwyddorion Moesoldeb, person go reolaidd ei bresenoldeb yn ein hanes yw'r Pietist. Un ecsentrig yw, ond wedi prinhau heddiw. Erys yn grair weithiau o fewn eglwysi. Gallwn ei barchu, wrth gwrs. Ond wrth wynebu cyflwr llygredig y gymdeithas gyfoes, ni thâl fod yn rhy oddefgar at y pietistig. Ni cheisiodd ddigon erioed i ddatrys perthynas ei brofiad crefyddol o fewn bywyd beunyddiol y gymdeithas. Ni ddeallodd fwriadau Duw ar gyfer ei greadigaeth weithiau. Ni ddeallodd fwriadau ymarferol sanctaidd llawn yng Nghrist. Gall yn fynych fod yn elyn imperialaidd i ddiwylliant. Neu o leiaf, gall dueddu i beri gwrthdaro rhwng defosiwn a'r celfyddydau, hyd yn oed y celfyddydau ar eu mwyaf cadarnhaol. Ni raid iddo fod yn Gristion profiadol.

Gwaith diwinyddiaeth diwylliant, felly, yw archwilio bywyd beunyddiol dyn a normaliaeth ymarferol y Cristion ar y ddaear yng ngoleuni cyflawnder yr efengyl ar waith. Sancteiddio yw'r her i'r Cristion, boed ar wahân i'r bydol, bid siŵr, a heb fod ar wahân i'r Greadigaeth. Bod yn elyn cariadus i bechaduriaid ac i bietistiaid yw ein galwedigaeth, mewn gostyngeddwrwydd ac edifeirwch, gan sylweddoli bob amser, er eu mwyn ar y ddaear ddiriaethol, dreiddgarwch aruthrol y Cwmp.

8. FFRWYTHAU'R CORFF A FFRWYTHAU'R YSBRYD
DIWYLLIO'R ANWELEDIG A'R GWELEDIG

Wrth droi i drafod Ffrwythau Anweledig, hawdd synhwyro gwên reit lydan yn meddiannu rhai bochau. Empeiriaeth sef ennill gwybodaeth drwy'r synhwyrau fu prif draddodiad Athroniaeth 'Brydeinig' drwy gydol y tair canrif ddiwethaf. Y mudiad hwn a ymlusgodd ymlaen o Locke, Berkeley, a Hume hyd at Mill, Russell ac A. J. Ayer yn yr ugeinfed ganrif. Daeth yn norm.

Eto, mae'n rhyfedd iawn bod dynion meddylgar a disglair yn gallu rhagdybio cyfyngder synhwyrau mewn Egwyddor Wireddu, heb sylweddoli natur yr egwyddor honno ei hun. Rhaid ymwadu â'r Egwyddor er mwyn ei phrofi. Ni ellir gwireddu'r Egwyddor Wireddu gorfforol gyffredinol ei hunan ond *heb* y criterion hwnnw. Eto, ceir ysfa nwydus, lac a chibddall ar waith yn gyrru'r meddwl i synied fod pob gosodiad, na ellir ei wireddu ond drwy gyfrwng synhwyrau gweld, clywed, cyffwrdd, blasu, neu arogli, ac yn y blaen, yn ddi-ystyr. Onid ystyrllon, mewn modd arall, yw ystyr ei hun? Sylwer mai dewisol yw'r synhwyrau hyn oll. Corfforol ydynt. Ni chynhwysir na'r *sensus divinitatis* na'r synnwyr moesol, wrth gwrs.

Ond ni chynhwysir sail rheswm chwaith. Yn wir, y mae'r Empeirwyr eu hunain yn sylweddoli hynny, o leiaf yn isymwybodol, ac yn awyddus bellach inni gynnwys gosodiadau Mathemateg a Rhesymeg yn eithriadau hwylus o fewn corlan y synhwyrau corfforol, ynghyd â damcaniaethau gwyddonol yn gyffredinol ar sail enghreifftiau arbennig. Sef, wedi'r cwbl, yr anweledig bondigrybyll. Cyfaill twyllwyr, dethol. Ond her yw sy'n ymagor yn rhyfeddol er ein gwaethaf tuag at ddimensiwn tragwyddol.

Pwy erioed a welodd syniad neu deimlad neu rinwedd? Pwy a flasodd amser? Pwy a aroglodd y *berthynas* rhwng achos ac effaith? Pwy a glywodd ddisgyrchiant?

Bu'n rhaid synhwyro effaith y dimensiwn anweledig erioed, wrth gwrs. A dylai hynny fod yn hawdd ddigon i wyddonydd gan mai ceisio'r egwyddor anweledig y tu ôl i'r gweledig yw hanfod y method gwyddonol. Yr artist sydd, meddant hwy, o'r cyfeiriad arall, yn dechrau yn yr anweledig, ond yn ceisio'r gweledig neu'r clywadwy... O'm rhan i, cytunaf ac anghytunaf. Oni allant ill dau gyd-ganu 'Anweledig, rwy'n dy garu'?

Felly, hyd yn oed yn yr ugeinfed ganrif, gwelsom ysgol boblogaidd iawn o athronwyr yn Lloegr (ac felly yng Nghymru) yn dwyn yr enw 'Positifiaeth resymegol'. Yn ôl hyn, 'doedd dim ystyr i unrhyw osodiad os na allech ei brofi'n empeiraidd.' Hynny yw, ystyr prawf oedd defnyddio'r synhwyrau corfforol, dim arall. Yn awr, unwaith eto, yr

oedd yr athrawiaeth hon yn methu ag wynebu'r cam nesaf: 'Profwch eich rhagosodiad eich hun yn empeiraidd'. Ar ôl cael bod athronwyr o'r fath yn methu ag ateb hynny drachefn, mae yna demtasiwn anffodus i beidio â bod yn amyneddgar gyda phopeth a ddywedant. Ysgol arall dros dro, meddir, oedd hyn. Ac eto, mae yna rywbeth yn isymwybod dyn sy'n ei yrru i goleddu'r safbwynt hwn yn reddfól, hyd yn oed ar ôl sylweddoli'i gamgymeriad. Dywedid rhywbeth am ddyn, nid am brawf.

Y gwir yw bod rhaid 'derbyn' bodolaeth cyn y gellir cyfundrefnu, fel y sylwodd Kierkegaard. Rhaid cael rhagdybiaeth ynghylch realaeth. Ond rhagdyb yw sydd eto'n anweledig.

Un man cychwyn posibl yn unig wrth fyfyrto am y synhwyrâu yw'r method gwyddonol. Mae dibynnu ar synhwyrâu'n unig yn y maes hwnnw yn anfoddfaol. Gwyddom o brofiad sythweledol nad yw'r haul bach a welwn draw acw rhwng dwy gangen ddim yn llai na'r goeden. Sythweled yr ym.

Tybiai empeiriaeth fod yn rhaid pwyso'n drwm ar ein profiadau synhwyról mewn sawl safle. Ond cyn hynny yr oedd gennym gyneddfau a rhagdybiau cyffredinol. Y rheini a ddywedai wrthym beth i'w wneud â'r synwryiadau hynny. Dyma er enghraifft y cyneddfau sy'n caniatáu gwybod *gwahaniaethau* rhwng y profiadau synhwyrus, a hefyd wybod *tebygrwydd*. Dyna'r profiad sy'n peri i mi *ddibynnu* ar brofiad a gaf, gyda sicrwydd ymarferol: yr ailadroddrwydd. Dichon, fel yn achos yr haul uchod, y bydd profiad pellach yn lleddfu'r casgliad. Dichon y meithrinwn dechneg o amau awtomatig. Ond y mae'r rhagdyb ymatebol o sicrwydd hefyd yn darparu i ni 'fyth' neu fan cychwyn rhagosodiadol hefyd, fel y gallwn ohono ddod o hyd i ffordd o fyw.

Ond yr hyn a wnawn ar sail y sythwelediadau hyn, y cyneddfau i wahanu ac i uno, y rhagosodiad (mytholegol os dymunir) o sicrwydd ymarferol, yr hyn a ddefnyddiwn yw'r method gwyddonol. Dyna'r offer cyffredinol a ddefnyddiwn gyda'r gweledig i ddod o hyd i'r anweledig, gan gofio'r un pryd mor ffaeledig yw'r synhwyrâu.

Mewn iaith, y gramadeg fel y'i hadweinig, yw un o'r ffactorau anweledig. Y gramadeg cyffredinol sy'n amodi ffurf y brawddegau, a sut y'u rhown hwy wrth ei gilydd, a sut y ffurfiwn y geiriau unigol a'u llinynnu wrth ei gilydd. Y gramadeg cymharol sefydlog hwn, sy'n glymau o gyfundrefnau, sy'n gadael inni wneud gosodiadau amrywiol o lawer math. Ac y mae'n anweledig, fel y mae'r holl ddeddfau sy'n rheoli ffiseg a

mathemateg a chemeg. Y gramadeg anweledig a ddefnyddiaf i eirio'r deddfau, dyna yw hanfod y perthnasoedd rhwng y geiriau gweledig a gyd-ddefnyddiaf ag eraill.

Ond felly y mae hi, hyd yn oed gyda geiriau unigol eu hunain. Tŷ, anifail, cwmwl, wyneb, person, môr. Does neb wedi gweld 'y tŷ': hynny yw, gwelsom un tŷ, gwelsom lawer o dai gwahanol o lawer maint a ffurf; ond y tŷ, y gair hwnnw sy'n cwmpasu pob tŷ posibl, yr hyn sy'n diffinio pob tŷ gwahanol heb fodloni ar synwyruswydd diriaethol un, does neb wedi gweld hwnnw. Hynny yw, cyffredinol anweledig yw, ond mae'n gyffredinol wir.

*

*

*

Mae'r Beibl yn dysgu inni fod yn ffrwythlon yn weledig ac anweledig, i ddwyn gweithredoedd y corff a ffrwythau'r ysbryd at yr allor.

Mae'n weddus i'r sawl sydd a wnelo â phwysigrwydd diamheuol y synhwyrâu yn y Celfyddydau (a manau eraill) sylwi ar gylchdroad yr hyn a alwaf yn helics dwbl Ffurf a Deunydd. Drwy gydol ein traddodiad y mae'r naill a'r llall wedi cydreddeg drwy'r cof, gan flaenori neu'n olynu ei gilydd am yn ail, yn ddiwahaniad. Mae hi'n ymrestru fel Ffurf *absennol / presennol* neu *weledig / anweledig* i gyflyru'r synhwyrâu drwyddynt draw wrth ddeall pendantrwydd y deunydd. Mae gennym feddwl dadansoddol yn ogystal â meddwl synhwyrus, yn ddiwahân. Camgymeriad yw ein hamddifadu o'r naill oherwydd poblogrwydd y llall.

Os ceisiwn feddwl am Ddiwylliant fel rhywbeth sy'n rhagorach na'r gweledig yn unig, byddwn yn canfod ei natur yn well.

Mae eisiau inni ddechrau dod yn gyfarwydd â'r 'anweledig', felly. Mae'n bwysig i Wareiddiad. Hebdo 'allwn ni ddim deall na meddwl na siarad. Yr ydys yn rhannu'r priodoledd hwn gyda'r Creawdwr ei hun: *ei anweledig bethau er dechreuad y byd.* (Rhuf. 1:20). *Trwy ffydd yr ydym yn deall i'r cyfanfyd gael ei lunio gan air Duw yn y fath fodd nes bod yr hyn sy'n weledig wedi tarddu o'r hyn nad oedd yn weledig* (Heb. 11: 3).

Priodol felly inni geisio amgyffred gymaint ag y gallwn ni beth yw ei natur. Un peth a ddysg gwyddoniaeth – heblaw synnwyr cyffredin – yw nad yw'r ffaith fod rhywbeth yn anweledig yn lleihau'r un iot ar ffaith ei fodolaeth.

Dechreua'r method gwyddonol yn yr arbennig, yn amllder yr arbennig. Ac wedi sicrhau a chanfod gwahaniaethau, symuda i ganfod ailadrodd neu debygrwydd. Hynny

yw, eir o'r arbennig at y cyffredinol. Dosberthir er mwyn dygymod â ffrwythlondeb diwyllio.

Mewn gwirionedd, mewn iaith ac mewn gwybodaeth ceir dau gyfeiriad yn y broses o ddeall. Gellir dechrau, fel yr Empeirydd, yn y profiad unigol. Ond weithiau, fel yn achos Locke, byddir yn ceisio disgrifio profiadau unigol – yn ôl 'method hanesyddol plaen' – heb geisio canfod o'r tu ôl iddynt yr esboniadau cyffredinol, yr amodau, na'r casgliadau terfynol. Mae fel gwyddonydd a fyddai'n disgrifio sefyllfa'n ofalus, ac yn amlinellu hynt arbrawf, eithr gan ymatal rhag dwyn y cwbl i ddamcaniaeth. Neu fe all ddechrau, fel y Rhesymolydd, mewn egwyddorion cyffredinol sy'n gwbl ddiogel ac yn atebol i reswm a chanfod y canlyniadau sy'n dod i'r fei o ganlyniad i'r amodau hynny.

Diddorol sylwi fel y mae dull y Rhesymolydd o weithio yn ymffurfio drwy gydnabod cymdeithasiad gweledig ac anweledig.

Dau gyfeiriad sydd: i fyny'r afon, ac i lawr yr afon. O'r ffeithiau yn y golwg i'r ffeithiau o'r golwg. Ond yr ydym yn symud ac yn bod eisoes fel pobl ym mhobman rhwng y gweledig a'r anweledig.

Dyna'r gwrthrych uniongyrchol mewn canfod a meddwl, a'r ystyr i'r peth o'r tu ôl.

Y gwir yw bod Locke yn fuan iawn yn gadael y profiadau synhwyrus gwahân ac yn dechrau dosbarthu, yn syml ac yn gymhleth, yn allanol ac yn fewnol, y cynhenid a'r cymysg, yr ynysedig a'r perthynol, y diriaethol a'r haniaeth. Ac y mae dosbarthu'r ailadroddol yn golygu dod i gasgliadau anweledig neu i egwyddorion cyffredinol.

Yn *Beirniadaeth Gyfansawdd* ac ym *Meddwl y Gynghanedd* ceisiwyd amlygu sut y mae hanes Cerdd Dafod yn arddangos sut yr adeiladwyd (neu y darganfuwyd) Tafod yn gyntaf, yn gyfundrefn o gyfundrefnau, yn gynhysgaeth sy'n egwyddorol barhaol ac yn fytholegol sefydlog ar sail arferiadau Mynegiant, a Mynegiant yn ei holl enghreifftio diraethol achlysurol drwy roi Tafod (y cyflyrwr) ar waith.

Ym maes crefydd, y mae a wnelo â sylweddoli perthynas o fath arbennig, perthynas â'r Anweledig ei hun, drwy lygaid yr ysbryd.

Ymwneir â hyn drwy gynneddf neu'r wedd ar y bersonoliaeth ddynol, sy'n naturiol farw ar ddechrau bywyd pob person. Canlyniad yw'r arwahanrwydd hwn. Collwyd yr undod profiad naturiol rhwng dyn a Duw. Bellach, nid oes ond y goruwchnaturiol sy'n gallu'i adfer. Gall yr ysbryd wybod *bod* Duw, a'i adnabod yn

bersonol. Ond ni wna hynny mo'r tro nes bod yr ysbryd yn cael ei fywhau neu'i ddiuno. Rhaid trafod tebyg â thebyg. Hynny yw, ni all rhai yr adfywhawyd eu hysbrydoedd brofi Duw goruwchnaturiol yn ôl technegau neu daclau neu ddyfeisiau naturiol. Wrth i Dduw'i ddadlennu'i hun yn fyw iddynt, y maent yn darganfod realiti Duw, a hefyd dônt yn ymwybodol hefyd o'r ysbryd dynol. Mae'r *sensus divinitatis* sydd gan bob dyn yn deffro ac yn dod yn effeithiol fyw farnol. Drwy ffydd a thrwy'r ysgrythur, try'r wybodaeth fod yna Dduw yn bod, yn adnabyddiaeth o Dduw, yn berthynas. Profion yw'r rhain i'r gydwylbod neu'r galon oherwydd *sensus divinitatis* sydd yn awr yn gweithredu yn ôl ei holl botensial. Ac o'r herwydd, heblaw'r wedd anweledig ar bawb ohonom, fe ddaw'r corff o dan lywodraeth newydd. Ond drwy'r ysbryd a ddeffrowyd y daw'r corff yn eiddo ysbrydol i Dduw. I'r Cristion, y mae'r corff yn gymaint o eiddo i Dduw ag yw ysbryd dyn.

Wedi cyrraedd anghenraid i ffrwytho'n anweledig, dechreuwn werthfawrogi holl sfferau Diwylliant yn ôl eu gweddau gweledig ac anweledig, yr amryw mewn undod. Felly y cydnabyddwn led diwylliant, crefydd, ac iaith; corff ac ysbryd.

* * *

Mae sôn am 'ddiwyllio'r' anweledig mewn ffrwythau, yn mynd â ni'n ôl at emyn Pantycelyn 'Gardd yr Iesu' lle y dechreusom y gyfrol hon. Dyna ni ymhlith 'Ffrwythau'r Ysbryd'. Byddai rhai yn dweud nad oes y fath beth â chariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth: blodau'r galon sanctaidd. Dim ond yr amlygrwydd a geir mewn gweithredoedd. Gwasgariad neu gasgliad o ddiriaethau ydyw, heb fod y grym na'r egwyddor na'r haniaethad yn bosibl. Ond ceir iaith sy'n defnyddio'r rhain yn ystyrllon, heb eu didoli'n ymarferol oddi wrth ddiriaethau, megis y gwnâi Iesu Grist mewn Damhegion. A'r cwestiwn mawr sy'n dod o'r rhestr hon i ni yw, sut y mae meithrin y rhain a'u bugeilio a'u dwyn i aeddfedrwydd a chynhaeaf. Ac y mae'r ateb i'w gael, dybiwn, yng nghynffon y rhestr, mewn hunanddisgyblaeth. Rhwir trefn Duw ar bethau i'w disgyblu a'u diwyllio, eu dwyn i synnwyr, eu darostwng i'r deall, a'u corffori mewn Mawl yn y galon; ac yn y Cristion drwy gymorth a goleuni'r Ysbryd Glân, fe'i gwneir drwy offer dibynnu. Does dim syndod i Bantycelyn weiddi, 'Anweledig, rwy'n dy garu.'

Un o'r gweddau pwysicaf oll mewn diwylliant yw disgyblaeth iaith. Nid yw yn ail ond i 'grefydd'. Mae'n werthfawr i gyfathrebu; ond yn fwy gwaelodol y mae'n offeryn dadansoddi i'r meddwl, ac yn ddefnyddiol i ystyried yr hunan, ac i foliannu.

Mewn trafodaethau amrywiol ar Iaith, yr wyf wedi ceisio dadlau cyn hyn o blaid tair rhagdyb na fuont, ar y cyd, yn hysbys iawn efallai yn Lloegr, nac o'r herwydd yn boblogaidd ymhlith y Cymry.

Yn gyntaf, ceisiwyd dadlau nad cyfathrebu oedd swyddogaeth gyntaf na natur sylfaenol iaith. Tybiaeth anghyfrifol fu'r swyddogaeth. Dadansoddi profiad yw swydd gyntaf iaith, adnabod y gwahaniaeth a'r tebygrwydd mewn bywyd, dyna'i gwreiddyn; a'i bod ar gael yn bennaf i ogoneddu. Adnabod, felly. Nid oes cyfansoddi heb ddadansoddi.

Felly'n ail, ceisiwyd awgrymu bod '*geiriau*' fel y cyfryw (y ffrwythau seiniol) yn ail beth ac yn ufuddhau yn eu bodolaeth i '*ramadeg*', ac yn gweithredu ar lefel lawer mwy arwynebol. Mae'r cyswllt greddfol adweithiol unionsyth traddodiadol o iaith â geiriau'n bennaf, yn colli golwg ar yr hanfod. Eto, mae'r 'gair' fel uned ramadegol yn rhagflaenu 'geirfa' ar egwyddor: megis yr enw sy'n cynnwys rhif, cenedl, rhan ymadrodd. Mewn gwirionedd, mae yna ramadeg yn y gair ei hun yn unigol: Semanteg / Morffoleg; Ffurf / Deunydd; Llafariad / Acen / Cytsain; i gyd yn glymau mewn un gair. Nid oes gair ar waith heb ramadeg.

Yn drydydd, yn amgylchfyd Diwylliant (a llenyddiaeth) daw hunaniaeth yn sgil gwahaniaeth ieithoedd o fewn undod y byd. Perthynant i hunaniaeth Cymdeithas. Dyna egwyddor anghlywedig anweledig ddiwylliannol. Rhaid adeiladu mecanwaith cenhedlu yn y gymuned cyn y gellir llunio mynegiant achlysurol yn y golwg. Fel y mae iaith yn gorfod ceisio undod, felly y mae'n bywydu llenyddiaeth. Dysgir iaith drwy iaith, a dysgir llenyddiaeth drwy lenyddiaeth. Dyma bont dyn a dyn. Nid oes iaith heb gymuned.

I mi, y mae'r tair 'ffaith' hyn yn awgrymu bod diwylliant yn ffenomen isymwybodol, a hyd yn oed yn ymddangos yn anghymdeithasol ac yn gymdeithasol felly yr un pryd, wrth allu digwydd yn y meddwl (yn wir yn *gorfod* digwydd yn y meddwl) yn gyntaf, cyn dod i'r fei. Gan mor ganolog yw iaith mewn diwylliant, y mae'r fath honiad unigolyddol a chymdeithasol yn arwyddocaol mewn unrhyw syniadaeth sydd gennym ynghylch diwylliant. Dyma feysydd – iaith a diwylliant – lle y cyfrannwn oll o Ras *Cyffredinol*.

*

*

*

Wrth geisio amlinellu strwythur a theori *Beirniadaeth Gyfansawdd*, mae dau fater neu ddwy egwyddor sy'n berthnasol iawn ym maes Diwylliant.

Ym mhob gwedd ar fywyd, ceir cyfundrefnau anweledig. Dyma offer arbennig gan Ras Cyffredinol. Nid yw'r meddwl na'r corff dynol na'r holl amgylchfyd yn gallu gweithio hebddynt. Y maent i'w cael ymhobman – atomau, celloedd, organau (gan gynnwys yr ymennydd), iaith, llenyddiaeth, deddfau gwyddoniaeth a moeseg, yn yr holl weddau ar Ddiwylliant. Hynny yw, os disgrifir y cysyniad neu os disgrifir unrhyw wedd ar Ddiwylliant mewn unrhyw fodd cyfansawdd, mae'n amhriodol gwneud hynny heb gydnabod a disgrifio'r cyfundrefnau perthnasol. Adeiladwaith o gyfundrefnau yw Diwylliant oll. Diwyllio yw dysgu'r rhain. Felly ffrwythau'r Ysbryd hefyd.

Dywedir wrthyf fod trafod yr Anweledig yn fwy na thramgwydd, y mae'n 'amhosibilrwydd' i'r deall Ôl-fodernaidd ei amgyffred. Wrth geisio disgrifio'r tair prif wedd ar gyfundrefnau eu hunain i gyd, sef Tafod (neu Gynllun), Cymhelliad, a Mynegiant, fe fu ychydig o 'anhawster' neu o 'ddryswch', naill ai oherwydd diffyg manylder neu eglurder mynegiant gan yr awdur neu oherwydd anallu. Bu amharodrwydd i amgyffred o du ambell ddarllenwydd efallai, nid pob un o bell ffordd. Dywedwyd gan un beirniad mai anodd oedd 'rhoi'r pen o gwmpas' y cysyniad o Dafod. Trosiad oedd Tafod gan amlaf i gyfleu Gramadeg, ond nid yn unig Ramadeg y Frawddeg yn gyntaf eithr adeiladwaith y gair (e.e. o safbwynt sain a synnwyr). Ond os bydd darllenwyr yn derbyn Gramadeg ei hun fel cyfystyr, fe ddeellir yn gyffredinol fod yna gynllun deinamig gan un siaradwr a gyfrennir yr un pryd gan siaradwr arall. Mae'r heuwr yn hau. Nid mater cymhleth iawn, fe ymddengys, yw'r cysyniad o gynllun.

Dyma'r Meddwl Cyffredin, a gwedd ydyw ar Ras Cyffredinol. Gwedd bwysig yw ar yr Anweledig.

Nid wyf yn credu bod llawer o anhawster i amgyffred Mynegiant chwaith, ar y llaw arall, gan mai dyna yn syml yw'r hyn a feddylir fel 'llenyddiaeth' gan amlaf, sef y peth allanol a ddarllenir neu a sgrifennir yn y golwg. Ffydd yw un, gweithredu yw'r llall. Dyma'r hyn a roddai'r traddodiad gynt yn yr ugeinfed ganrif ger ein bron, a hynny a bwysid ac a fesurid fel arfer o ran Ffurf a Deunydd gan feirniaid yn yr ysgolion a'r colegau, – ffrwythau gweledig.

Eiddo'r Gymdeithas yw'r Tafod: eiddo i'r unigolyn yw Mynegiant. Tebyg ydynt i ysbryd a chorff. Mae'r wedd ysbrydol ar Gymdeithas wedi profi'n beth tramgwydd, mae'n wir. Ond y lle y ceid mwyaf o dramgwydd oedd yr un a gynigid fel fframwaith Cymhelliad i ffrwytho. Nid oedd amheuaeth ynghylch presenoldeb Cymhelliad fel ffactor hanfodol i roi pin ar bapur na bys ar gyfrifiadur. Ond yr oedd y triawd 'Gwerth, Ysfa am Drefn, Diben' yn codi dychryn diwinyddol ac yn tanseilio rhagdybiau rhai Ôl-fodernwyr, a hynny yn ôl pob tebyg, mewn ffordd a ystyrir yn annheg. Dyna ysgogiad digon croyw, felly, imi ddychwelyd at y broblem honno. Mae'n cysylltu iaith â hanes dimensiwn ysbrydol yng Nghymru.

Nid wyf yn credu bod neb wedi gwadu natur gynhenid dyn i ganlyn yr hyn sy'n werthfawr iddo ef beth bynnag y bo, fel man cychwyn ac fel diben yn y pen draw. Yr ysfa am drefn a'r rheidrwydd i ufuddhau i drefn oedd y tramgwydd. Pan esbonnir anocheldd trefn yn y broses ddeall neu yn y dasg o ddysgu iaith, neu o ddiwyllio, cydnabyddir y realiti o'u Gras Cyffredinol; eithr erys rhagfarnau eithafol o gryf yn erbyn yr orfodaeth o drefn mewn cyd-destun rhamantaidd Ôl-fodernaidd. Mae'n ymddangos yn fwy ofnus fod y 'cymdeithasol' yn hyn o beth yn orfodol. Gall Gras Cyffredinol ei hun fod yn 'orfodol' megis atomau bodolaeth. Ond yn y Cristion, y mae ynghlwm wrth Ras Arbennig.

Yn iaith y baban yn anad unlle y gwyliwn fyfyrion un o'r cyfundrefnau mwyaf sylfaenol, onid y mwyaf sylfaenol o bob un, yn y deall a'r iaith ddynol. Soniaf amdani yn eofn, yn wir, y rhodd a'r darganfyddiad 'cyntaf' i ddyn, yn syml am nad yw'n bosibl i'r baban ddeall dim oll heb fod y mecanwaith meddyliol hwn yn ei le o flaen popeth arall. Y mecanwaith hwn, y soniais lawer tro amdano o'r blaen, sy'n caniatáu i'r baban feddwl yn ystyrion o gwbl. Yn awr, gwyddom mai cymhelliad cyntaf y baban wrth geisio amgyffred ei amgylchfyd yw ceisio trefn. Heb osod trefn ar yr hyn a brawf, neu o leiaf wrth geisio darganfod y drefn sydd eisoes yno, ni bydd yn gallu ymdopi yn y bywyd o'i ddeutu. Swyddogaeth gyntaf iaith felly yw dadansoddi realiti er mwyn ymlwybro drwy hyn o anialwch deall. Ffaith ymarferol, galed, real yw'i threfn anweledig sy'n sianel i ffrwythlondeb. Ond pa fath o drefn?

*

*

*

Yr wyf i mewn manau eraill eisoes wedi ceisio disgrifio'r mecanwaith cyntaf a adeiladodd y baban yn ei feddwl ar gyfer hyn fel cyfundrefn 'ddeuol' seiliol. Y mae'r baban yn gyntaf oll yn gorfod dod o hyd i wahaniaethau yn yr hyn a ganfyddir. Hyn hefyd sy'n dysgu gwahaniaethu da a drwg. Rhaid yw ynysu'r gwrthrychau a gydadeilada anferthedd cyffredinol y gymysgedd a bleidia'i synhwyrau. Ac eto, dyw'r gwrthrychau hynny ddim yn chwarae'n deg. Dyw popeth ddim yn sefyll yn llonydd yn yr un amgylchfyd mewn lle ac amser. Fe ymddangosant hwy fel petaent yn toddi i'w gilydd. Symuda rhywbeth ar y llawr o'n blaen, a symudir gwerthoedd. Ac wedyn, diolch i'r drefn, y mae'r symud hwnnw'n gymorth i ganfod y gwahaniaethau, i ganfod ymylon i bethau ac i ynysu profiad. Mae'r symudolrwydd yn gymorth i ymateb i wth ac ysfa'r baban bach i ymaflyd mewn gwahanu. Rhaid yw gwahanu. Â'n drachwant ar ryw olwg. Ac eto, erys y rheidrwydd i werthuso. A'r rheidrwydd i gysoni a sefydlogi. Trefn sydd yma mewn Gwerth.

Dyma un o roddion gorfodol Gras Cyffredinol. Ffrwyth cariad y cyfundrefnu yw y cyfarfyddir ag ef mewn amgylchiadau perthynas. Ac y mae cyfundrefn bob amser yn anweledig, sut bynnag y bydd yn ei mynegi'i hun yn weledig. Daw'r baban ati a'i synhwyro, ei darganfod, ei mabwysiadu. Y gyfundrefn ffrwytho hon sy'n rheoli'r ddaear yn ymarferol: grym mynegiant.

Eto, pe na bai'r baban *ond* yn gwahanu – yn gwahanu pob profiad, y profiad o dad â'i war tuag ato, neu â'i wyneb ar un ochr, ei lais y tu ôl i'r drws ynghau, dad wyneb yn wyneb, neu'r drws yn agored, y golau ynghyn, a chyd-destun marc ar y ffenest y tu cefn, heb yr un sefydlogrwydd, yn rhibyn diffiniau gerbron y synhwyrau, heb ailadrodd yn ddychwelol, heb sicrwydd, a hynny o foment i foment ac o ddydd i ddydd, – yna chwalfa ddiystyr a dibwrpas fyddai bywyd. Amrywiaeth fyddai ef heb undodau. Amllder digyswllt hyd yn oed o'r un gwrthrych. Hynny yw Ôl-foderniaeth ronc. Roedd gan y baban y ddawn i adnabod yr anweledig a'r gweledig yn ôl trefn gwahanu a chysylltu.

Felly, yn y mecanwaith a adeilada'r baban er mwyn deall a gwneud bywyd yn ystyrlon, mae'n rhaid, ynghlwm wrth y weithred o wahanu, gael gweithred-gydymaith. Nid yw gweld gwahaniaethau yn ddigonol heb weld eu cyswllt. Gyda gwahanu'r cyferbyniol y mae angen symudiad meddyliol arall i gydnabod perthynaas y cyffelyb.

Mecanwaith deuol drwy drugaredd yw mecanwaith deall, a meddwl, a llefaru. Perthynas yw popeth; undod. A dyna'r allwedd i'w ffrwytho. Myn ffrwytho bob amser bwrpas.

Un yw Duw yntau, a chanddo'r gweddau gwahanol; ond ceir ynddo berthynas.

GWAHUNO yw'r term a dadogais ar y ffenomen hon. Ac y mae'r gweithredoedd neu'r sythweliadau a gyflawna'r baban – o weld gwahaniaeth ac o weld tebygrwydd – yn gyntefig ac yn elfennaidd iawn. Gellir eu cyflawni'n ddifyfyrdod sydyn, yn reddfod bron. Hebddynt does dim iaith. Ym mhob gweithred ieithyddol, ac ym mhob gweithred lenyddol, y maent yn gyd-bresennol unol. Ar sail y gyfundrefn seml a ffrwythlon hon yr adeiledir pob cyfundrefn feddyliol arall hyd at y rhai aruchelaf. Dyfais i ffrwytho yw, allan o'r ychydig. Mae Duw yn ddychrynus o ar-wahân. Ond myn Ef undod.

Er fy mod wedi sôn yn fynych o'r blaen am y mecanwaith cynhyrchiol hwn, ni soniais fawr am ddull nac am dermau fy mentor Gustave Guillaume, wrth ei drafod: sef 'Particularisation' ac 'Universalisation'. Sonia ef am arbenigoli yn y symudiad meddyliol cyntaf, ac am fydsawdu yn yr ail. Termau dysgedig yw'r rhain. Ac am fy mod yn trafod cyfnod cyntefig y plentyn, mwy dewisol gennyf yw ymgyfyngu i dermau cyntefig ac elfennaidd fel gwahanu ac uno. Yn y bôn, meddwl difeddwl sydd ar waith. Mae'r rhain eto yn aruthrol o anweledig, ac eto'n aruthrol o angenrheidiol.

Sôn yr wyf i am weithred seml ffrwythlon bob dydd a gyflawnir gan faban. Sôn a wna Guillaume am yr egwyddor ddysgedig gyfatebol. Ond yr un peth yw. Symuda'r meddwl o'r llydan i'r cul (o'r cyffredinol i'r arbennig), ac yna o'r cul i'r llydan (o'r arbennig i'r cyffredinol). Cysylltu a chymharu. Ceir gweithred sydyn, ond fel pob gweithred feddyliol y mae'n cymryd amser. Ac er cyflymed y bo, am ei fod yn symud ar hyd echel, gellir olrhain datblygiad y weithred feddyliol ar hyd echel gronolegol ddwyran.

A'r hyn sydd o bwys i ni, yn y drafodaeth yn awr, yw sylwi bod gwahuno (ar sail *Genesis* I) yn offeryn yn y deall sy'n disgyblu pob un o ffrwythau'r Ysbryd yn eu tro – cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, huanddisgyblaeth. Ni chât'r un o'r rhain fod yn botensial yn gyntaf nac yn effeithiol yn ail, heb wahuno. Mae modd adnabod y rhain ym maes moes a phrofiad. Y maent yn wedd ar y Greadigaeth wedi'i chyfundrefnu. Ffitiant o fewn gwahuno'r Duwdod, ac fe'i deallir oherwydd y Gair. Hyn sy'n eu troi'n ffrwythau.

*

*

*

Carwn yn y fan hon gysylltu'r ymdriniaeth ag awgrym a wneuthum yn *Canu'r Cynllun*. Yn y fan honno, ceisiais ystyried fel yr oedd yr Archgyfundrefnau (ar ffurf Gras Cyffredinol) i gyd yn fynegiant o'r Arfaeth ddwyfol. Yn wir, yr oedd yn bur amlwg fod nodweddion diffiniol 'cyfundrefn' yn hanfodion a gaed yn y Duwdod ei hun, megis Amryw mewn Un, Arbennig/Cyffredinol, ac Arwydd yn lle'r Arwyddedig. Dyma rai o briodoleddau Duw, o ran Ffurf. Ond trown at Ffrwythau'r Ysbryd mewn dyn, gwelwn drachefn fod Duw wrthi'n ei fynegi'i hun drwy undod ac amrywiaeth. Dyma briodoleddau eto, sydd i'w cael yn eu purdeb yn Nuw, ac wedi'u llychwino mewn dyn, er bod yr Ysbryd wrthi'n eu sancteiddio yn achos y Cristion. Ffrwythau Duw yw gweithredoedd ffrwythlon dyn; bob gwedd yn gysylltiedig, a phob un yn hunaniaethol benodol.

Y mae hyn yn ein harwain i ystyried cyfundrefn sylfaenol arall a ddargenfydd y baban, gan symud oddi wrth drefn gynieithyddol GWAHUNO tuag at gyfundrefn y GAIR mewn iaith. Ac yma, yr wyf yn gorfod cyfeirio at theori Gustave Guillaume, sy'n ymgysylltu â'i ymchwil hirfaith ar gyfundrefn y rhannau ymadrodd, a'i ddisgrifiad o'r modd yr esgorir ar y gair ystyrion. Dyna ni'n ymwneud â therm sy'n ganolog mewn ieithyddiaeth ac mewn diwinyddiaeth Gristnogol. Fe geir symudiad deuol drachefn. Ac nid yw'n annhebyg drachefn, o safbwynt olyniaeth, i'r drefn a brofasom mewn GWAHUNO. Mae'r GAIR yn ganlyniad esgor yn gyntaf ar yr ystyredig geiriadurol a'r ystyredig gramadegol, yr hyn a eilw Guillaume yn *ideogenèse* (syniant) a *morphogenèse* (ffurfioliant). Mae'r syniadu yn weithred feddyliol o arbenigoli. Fe'i bernir yn ôl y deunydd geiriadurol a ddelwedda. Mae'r ffurfioli yn weithred gyffredinol. Fe esgora ar ran ymadrodd. Ymgnewdolir. A math o ffrwytho yw ymgnewdoli.

Sonnir hefyd, fel cofiwn, am yr Arglwydd Iesu Grist fel y *Gair a wnaethpwyd yn gnawd*. Ef sy'n cynnwys yr amllder mewn Un, a'r Un yna yn berson.

Hynny yw, mae'r baban yn Nasareth wrth fynegi'r GAIR aeddfed yn gorfod adeiladu cynneddf sy'n medru arbenigoli a chyffredinoli, ac sydd hefyd yn gallu cysylltu arwydd a synhwyrir ag ystyr 'anweledig'. Rhaid i'r medr neu'r mecanwaith hwnnw fod yn elfennaidd, gan gorffori'r syniadair noeth fwyfwy o fewn ffurf gydberthynol. Yn dawel bach, mae'n dechrau ar waith â thechneg diwyllio. Bu'r Gair ei hun yn dysgu iaith ac yn aeddfedu. Mae Ef yn mabwysiadu byd ffrwytho.

Gellir olrhain y gwaith adeiladu hwn yn gronolegol drwy'r ddwy gyfundrefn olynol hyn a grybwyllais yn y fan yma. GWAHUNO a'r GAIR a wnaethpwyd yn gnawd. Mae'r naill, sef y gyntaf, yn gyfundrefn gynieithyddol, yn gyfundrefn ddeall a meddwl. Mae'r ail (a fu o flaen pob peth) yn gyfundrefn ieithyddol, yn gyfundrefn lefaru: 'Bydded'. Mae'r naill echel i'r gyfundrefn ddeuol hon yn y ddwy gyfundrefn hyn fel ei gilydd yn symud yn feddylol o'r mwyafswm i benodoli yn y lleiafswm, a'r echel arall yn symud o'r lleiafswm tuag at gyffredinol yn y mwyafswm. O safbwynt yr hyn a wnaeth Duw yn y creu, y mae'n drefn ddealledig tuag yma'n ôl, fel y mae pob gwyddonydd yn dechrau yn yr Effaith ac yn gweithio'n ôl at yr Achos. Daeth yr Arglwydd i'n bryd i wasgaru geiriau. Dyma ymgawdoliad, yr Anweledig yn dod yn Weledig, yn gysgod i ffurfio gair. A'r gair yn y Beibl yn ymagor, yn aeddfedu, ac yn dwyn mwyfwy o ffrwythau.

Cais y baban yw cyrraedd synnwyr o'r tu mewn i brofiadaeth gymysg. Trechu tryblith. Er mwyn ateb hyn, rhaid ymgyfyngu yn anaeddfed, mae arnaf ofn, i ran gyntaf y broses neu'r gyfundrefn ddeuol a ddisgrifiais. Dyweder yn awr fod y baban yn y gwaith o WAHUNO yn methu â mynd ymhellach na hanner ffordd. Mae'n ceisio deall, ond y mae'r ysfa i wahanu yn ei drechu. Yn ei orthrymu. Ni fedr ymestyn i gyflawnder y gyfundrefn sy'n mynd i ganiatáu iddo amgyffrediad yr oedolyn. Fe'i beglir ar ôl cwpla'r gwahanu. Nid ffrwythloni yw hynt y baban sydd heb aeddfedu. Symuda y ffordd yna at yr arbenigoli mwyfwy, at weld gwahaniaethau: cenfydd yr unigolion. Ond ni wêl mo'r berthynas. Gorfydd iddo aros yn y chwalfa, felly yn yr ansicrwydd gwahân, heb geisio cysylltu a dod o hyd i gyffelyb. Hynny yw, methu mewn anaeddfedrwydd llusedd, relativrwydd yw'r gogwydd cyson, y dôn gron. Ond yr hyn sy'n creu diwylliant aeddfed yw – yr Amryw a sylweddola Undod.

Wrth efyddu Beirniadaeth Feiblaidd, difyr i ambell un yw canfod yr awydd cyson gan un math o feirniad wrth ddarllen un o awduron y Beibl i'w rannu a'i ddryllio. Pwysleisir bod sawl Eseia dyweder, neu fod angen ychwanegu sawl Paul. Dyma'r ddamcaniaeth barod Baflofaidd a chyson bron mewn un traddodiad. Rhagdybiau'r awdur sy'n ddifyr bob un. Lle yr oedd y goruwchnaturiol penarglwydd yn uno, yr oedd y dynol yn gwahanu; felly, rhaid oedd ymwrthod â chynsail annifyr y goruwchnaturiol. Er bod gwahuno yn sylfaen i bob deall a phob iaith, wrth ymgyfyngu i'r gwahanu ac ymwrthod â'r uno, gellid cofleidio ansicrwydd dirgel.

Yr hyn sy'n fy niddori yw nid pa un o'r damcaniaethau hyn – dyweder un Eseia, dau, tri, pedwar, sy'n llythrennol arferol, eithr pam y gogwyddid mor ysol fythol i'r cyfeiriad arbennig hwn yn hytrach na mynd ati i esbonio'r peth drwy nifer o ffyrdd cadarnhaol. Roedd hi fel pe bai'r deall yn gorfod troi'n ddiymatal at wahanu a thanseilio. Ni wnâi ddim gwahaniaeth i'r gair ei hun. Math o drachwant cynhenid oedd i symudiad meddyliol a oedd heb ei gydbwysu gan y symudiad cyflenwol o uno. *Différance* yw'r term Ôl-fodernaidd. Gogwydd y cyfnod yw. Mowld meddyliol anorffen a hidlwyd o duedd un oes i geisio bod ar y blaen i oes arall. Ymwithiai'r cyfnod bron yn wyllt i ragdybied yn ddiymadferth o ddiymward, mewn cywair ysol am ymwahanu. Ymddengys i mi fod yna rywbeth yn yr awyr a oedd yn esbonio pam.

Ond er ein gwaethaf, cludir yr ymgais am y gwir hefyd yn y blaen, a thrwy geisio a methu, trosglwyddir yn ffrwythlon hyd yn oed yn yr achos hwn. Mae'r dadansoddiad o'n golwg ni ar y byd, ac o'n profiad o fywyd, drwy gyfannu, yn debyg ddigon i'r hyn a geir gan bob iaith unigol mewn ffyrdd gwahanol. Trodd drwy draddodiad yn gyfrwng i gludo'r dadansoddiad hwnnw o genhedlaeth i genhedlaeth megis DNA. Dô'i'r iaith yn gyfrwng meddwl aeddfed oherwydd traddodi. Hynny yw, trosglwyddwyd cenhedlu. Ei strwythurau yw'r hyn sy'n caniatáu cyfathrebu. Mae'r berfau'n dadansoddi amser yn isymwybodol, fel y mae'r enwau a'r rhagenwau'n dadansoddi gofod. Cyflyrir y Mynegiant gan y Tafod. Y Tafod a adeiledir gan Fynegiant sy'n cofio'n wrthrychol yr hyn y bu'r isymwybod llwythol yn ei gasglu drwy'r canrifoedd ac yn rhagluniaeth Duw o'r Hen Destament i'r Newydd. Felly, y mae yna draddodiad clasurol ac uniongred wedi ymffurfio a dod o hyd i ddehongliad naturiol-oruwchnaturiol cyfoethog.

Dibynna ffrwytho ar berthyn a throsglwyddo.

Mae'r berthynas rhwng y mewdol a'r allanol mewn iaith yn adlewyrchu rhywbeth sy'n amlwg wir mewn crefydd; eithr nid annhebyg yw'r rhagdybiau cudd hynny sy'n dylanwadu ar ddiwylliant.

Dylai'r hyn a gredwn bob amser effeithio rywfaint ar yr hyn a wnawn. Ni ellir gorbwysleisio arwyddocâd rhagdybiau. Dyweder ein bod yn credu o ddifri, ym mhob meinwe yn ein bod, mai nod pob meddwl, teimlad, ac ewyllys sydd gennym ddylai fod i ddod o hyd i'w sylwedd yng ngogoniant Duw, yna dylai fod ein gweithredoedd yn

wahanol i rai'r sawl a gred mai hunanfynegiant yw'r cyfan. Ac mae'r diwedd yn y dechrau. Mae'r blagur yn diolch i'r gwreiddiau am undod yr hunan.

Rhagdybiau hunan-awdurdodol, statws, a balchder, dyna'r math o bethau sy'n difetha'r hunan, ac yn peri i hunanfynegiant fod yn hunanol fynegiant.

Eto, ni raid i'r Cristion deimlo'n betrus nac yn euog wrth sôn am yr hunan. Hwnnw sy'n dwyn cyfrifoldeb. Mae'r hunan yn greadur y dylid myfyrio'n betrus amdano o bryd i'w gilydd. Hwnnw a gaiff wybod yr argyhoeddiad o bechod a'r rhyddhad a geir ac a ddatguddir gan yr Arglwydd Iesu. Hwnnw a all fod yn hunanfeirniadol, gobeithio, a sicrhau gweld ffrwythau. Gan ein bod oll wedi'n creu ar ddelw Duw, y mae pob un ohonom yn dri-yn-un. *Fi; ti; ef/hi*. Mae pob un ohonom yn amryw. Bydd pob un ohonom o bryd i'w gilydd yn chwarae'n feddyliol ac yn hunaniaethol bob un o'r tair rôl hyn: fel Brenin, Proffwyd, ac Offeiriad. Yr ydym yn lluosog mewnol. Ac nid drwg o beth yw sylweddoli'r *fi* chwaith. Yn wir, un peth sy'n digwydd wrth i rywun ddod yn Gristion yw darganfod mwy am y *fi*. Ynddo'i hun, daw'n ymwybodol ohono'i hun. Sylweddola'i ddiffygion; dihuna'r ysbryd; ymleda'r adnabyddiaeth o'i gymeriad gweledig ac anweledig a'i anghenion a'i safle'i hun o fewn anferthedd y bydysawd a cherbron y Duw perffaith.

Ond wele'r *ti* hefyd. Y ffaith ein bod oll, hyd yn oed cyn ein geni, mewn perthynas. Perthynas yw honno rhyngom a Duw, a rhyngom a'n cymydog. Mae a wnelo'r gorchymyn mawr cyntaf â'n perthynas agos â Duw; ac y mae honno'n ostyngiad yn gyntaf (peth iachus iawn yn sylfaenol), ac yn ail y mae'n golygu bod mewn cariad. Ond ceir ail orchymyn mawr atodol, sef caru'n cyd-ddyn; ewyllysio'i les a phob caredigrwydd iddo. Meithrin haelfrydedd ysbryd. Ac i bawb, y mae hynny eto'n golygu gostyngiad.

Yna'r *ef/hi*. Yr un sydd o leiaf ychydig bach ar wahân, hyd yn oed 'fel pe bai'n absennol'. O'r neilltu, yn encilgar hyd yn oed. Y sylwebydd allanol, yr un sy'n ceisio deall yn wrthrychol. Mae hwn yn gweld ei le mewn patrwm o wrthrychau llawn ledled y greadigaeth. Yn ogystal â bod yn *fi*, ac yn *ti*, y mae hefyd yn rhan o fosëig mawr creedig. Mae'n un o'r 'eraill'. Mewn cymdeithas o'r fath y meithrinir diwylliant, ac y mae dysg aeddfed am gymdeithas yn gyfraniad i'r math o ffrwythau a gynhyrcha cymdeithas.

* * *

I'r Cristion, y mae'r Gwirionedd Anferth yn wrthrychol ac yn oddrychol, yn dragywydd ac yn gwbl bersonol hanesyddol. Cariad oll yw Duw yn ei hanfod. Dyma,

felly, y Duw sy'n ordeinio iaith mewn modd deallol, diwylliol, mewn amgylchfyd. Ac yn y fan hon, fe sylweddolwn y lle sydd i Gof cymdeithasol yn ffurfiant iaith.

Gadewch inni drachefn gofio tair gwedd a gafwyd ar iaith a diwylliant. Yn gyntaf, yr hyn a elwir yn Dafod (*Langue*): y dadansoddiad mewnol, y drefn gyffredinol, yr adeiladwaith potensial deinamig yn y meddwl unigol ac ym meddwl y gymdeithas. Dyna wreiddyn ffrwythlondeb iaith a llên. Yn gyferbyniol, ac yn ail, y Mynegiant (*Discours*) neu'r cynnyrch dros dro gan yr unigolyn, y cynhaeaf allanol. Gan y llawer. Dyma'r cyfathrebu. Dyma hefyd yr ymwybod o hunaniaeth berthynol yn y gymuned. Fe'i defnyddir i foli Duw (a dyn), ac i ddatgan y gwirionedd (a phroffwydo), ac i bob math o bwrpasau distadl eraill; yn fach ac yn fawr. Mae'r defnydd adeiladol a chadarnhaol hwn mewn iaith yn gynhenid yn y greadigaeth fel disgyrchiant, ond yn cael ei ddefnyddio mewn enghreifftiau penodol, rhwng dyn a dyn. Dyma'r ffrwyth ieithyddol a brofir yn flaenaf. Ond yn drydydd, diddorol sylwi fel y ceir – ar ôl ac o dan y ddau safle meddyliol neu'r ddau gyflwr mawr hyn mewn iaith (Tafod a Mynegiant), sef yr Amgylchfyd Parhaol neu Sefydlog ar y naill law a'r Dibarhad a'r Achlysurol ar y llall – drydydd safle. Mae'r *Amgylchfyd* yn ddi-iaith yn aml. Ac y mae'r trydydd safle hwn felly fel pe bai'n barhaol adnewyddol, yn ansefydlog ac eto'n sefydliad ac yn llawn o'r achlysurol. Ond datblygiad di-dor yw: cysylltydd yw rhwng gwraidd a ffrwyth y rhed y sudd ar ei hyd.

Dyma wrthrychau'r Traddodiad Beiblaidd, y deinamig cyson. Ymhlith y gwrthrychau a brofodd deiliaid uniongrededd, mae yna ddiwylliant ieithyddol gwrthrychol nad yw'n rhan o'r gyfathreb bresennol ymarferol. Mae hyn eto'n Draddodiad llafar a llyfr a dderbynia'r cenedlaethau. Fel y mae'r iaith a etifeddwn yn gynhysgaeth a gasglwyd gan y canrifoedd o'n blaen, felly y mae'r ffyrdd a'r dillad, y moesau a'r tai, y dulliau addysgol a'r wybodaeth am iechyd, yr acen a'r ymdeimlad (neu beidio) o hyder, ac yn y blaen, oll yn gyfuniad amrywiol os unigolyddol o gyfanswm y gorffennol. Cof ydynt: traddodiad i gyd i'w drosglwyddo. Storfa diwylliant mewn cenedl ac yn rhyngwladol. Rhan o beth felly yw'r traddodiad clasurol Cymraeg hyd y cyfnod diweddar.

Yn ogystal â'r Traddodiad sydd ar gael mewn iaith neu ddiwylliant yn gyffredinol, ceir traddodiad unigryw ymhob un iaith neu ddiwylliant arbennig. Dysgw'n am y Traddodiad o amllder iaith drwy ieithyddiaeth gymharol a hanesyddol, a hefyd drwy

astudio datblygiad iaith plant. Defnyddir o genhedlaeth i genhedlaeth lawer o'r un dulliau o drin geiriau'n symbolaidd ac o'u cydadeladu. Eithr o fewn pob iaith unigol ceir traddodiad arbennig sy'n mynd yn ôl yn ddi-dor, fel arfer, i'r dechrau cyntaf, ac y gellir olrhain ei draddodiad unigol, mewn rhai ffyrdd, yn bur bell.

Yr uned ddiwylliannol yn Ewrob, y ffurf ar gyfer cynnwys diwylliant ers canrifoedd, fu'r traddodiadau diffiniol genedlaethol ar y cyd. Artiffisial hollol fu'r 'gwladwriaethau' ochr yn ochr â hwy: gwaith bwriadus yn sefydlu pethau felly, a'u pwrpas oedd grym drwy ddeddfu. Eto, rhan o'n diwylliant fuont. Ond oherwydd y Cwmp, ac er gwaethaf eu lle mewn diwylliant, gallent hwy wneud cryn gawl o'u swydd.

Ordeiniwyd y wladwriaeth ar gyfer deddfu cymdeithasol angenrheidiol, a dylid o'r herwydd barchu'i swyddogaeth. Pan anghytunir, nid anghytuno a wneir â'r egwyddor o ddeddfu, ond â chynnwys y deddfau. Nid ymward â 'llywodraeth' fel y cyfryw a wneir wrth ddatblygu, eithr ei newid am lywodraeth arall. Gall mai creulondeb yw cynnyrch un wladwriaeth. Gall chwenychu concro a meddiannu eraill. Ond cynnyrch cariad yw priod gynnyrch diwylliant cadarnhaol, er gwaetha'r rhwystrau a'r chwyn a geir.

Heblaw patrwm parhad-wrthryfel sydd mewn Traddodiad, gwiw hefyd yw pwysleisio'r syniad o dwf organaidd. Yn ôl yr *Aufklärer*, sef hyrwyddwyr yr Ymoleuo Almaenig, yr oedd pob tamaid o gymdeithas yn gysylltiedig â'r gweddill. 'Cydgysylltiad digwyddiadau', meddai Schlözer; twf ydoedd. Nid oedd a wnelo'r syniadaeth hon o anghenraid â chenedlaetholdeb gwleidyddol. Cenedlaetholdeb diwylliannol oedd. A Johann Gottfried von Herder, a'i Sylwadau ar *Athroniaeth Hanes Dynolryw* (1784-91) sydd orau yn cynrychioli'r safbwynt hwnnw. A'r sefydliad o iaith sy'n corffori orau hunaniaeth a phersonoliaeth y genedl: nid hil ac nid gwleidyddiaeth.

Y Traddodiad llenyddol, a fydd yn ymgorffori orau o fewn iaith, oedd ysbryd mewnol yr uned genedlaethol. Tuedda barddoniaeth hithau i gynnwys 'gwladgarwch' dan fwgwd wrth gwrs, yn anuniongyrchol fel arfer. Mawl yw a fwriadwyd i gynnal eto'n anfwriadus yn aml, drefn y gymdeithas a hoffter o'i hamgylchfyd. Ynglyma wrth gredoau crefyddol dyfnaf y bobl. Ond ymwna llenyddiaeth â llawer, ymhlith cyfoeth arall, â serch rhwng llanc a llances, marwolaeth, adar, pysgod, mynyddoedd, iaith,

diwydiant, lleoedd, cyfeillgarwch, hwyl a gwyliau, portreadau pobl, gobeithion a thristwch.

Nid oes dim tebyg drwy gydol hanes ein dinasyddion sy'n ymdroi gyda'r un rychwant o feddwl a theimlad y wlad.

Gwerth pennaf ffrwythlondeb Hanes Llenyddiaeth yw bod a wnelo'r Hanes hwnnw â bywyd a meddwl y genedl oll, bob gwedd fach a mawr, ac felly'n fwy ac yn well o lawer na'r un math o hanes arall.

Tuedda haneswyr y Sefydliad (am resymau hanesyddol) i ormodieithu'n anhygoel o newyddiadurol ynghylch gwleidyddion. Peth yw'r rheini sy'n dra defnyddiol weithiau. Eto, mewn unrhyw gyfnod penodol, y tebyg yw bod cyfraniad meddygon, peirianyddion, entrepreneurwyr, a gwyddonwyr ynghyd â gweithwyr cyffredin yn gwneud llawer mwy o gyfraniad i fywyd cynhwysfawr y wlad; a bod beirdd, storïwyr, a dramodwyr yn cyfrannu'n anhraethol lawnach i feddwl ac i ysbryd parhaol y bobl na dim a wneir gan wleidyddion. Eto, etifeddwyd hen bwyslais y drefn frenhinol gynt gan haneswyr modern, ysywaeth. A chul newyddiadurol yw haneswyr fel arfer, megis y gwleidyddion eu hun.

Yn y bôn, yn arbennig yn achos Cymru, beth bynnag a ddywedir am wleidyddion, rhyw fath o ymwybod ysbrydol fu cenedligrwydd dros y canrifoedd; o leiaf hynny y ceisiais ei ddadlau yn *Ysbryd y Cwlwm*. Mae gan wleidyddion eu rhagoriaeth anweledig wrth gwrs; ac nid wyf yn goeg. Gallant hwythau fod yn ffrwythlon.

Dylid gwahaniaethu rhwng Traddodiad a Thraddodiadaeth. Mae Traddodiadaeth yn tueddu i bleidio'r edmygedd o rywbeth sydd yn y traddodiad am ei fod eisoes yn y Traddodiad. Ond adeiladwaith o fath deinamig yw'r Traddodiad iach, nid allor. Heb ryw ymgais i dorri ar draws y Traddodiad, i'w ddisodli neu ei newid, ni byddai'r fath beth â Thraddodiad yn bod. Traddodiad yw ffurf ffrwytho meddyliol a theimladol.

Yn fynych ceir gwth mewn Traddodiadaeth tuag at unffurfiaeth ac undonedd, mewn amser fel mewn lle. Fel yn Babel y ceisid canoli a sefydlu llywodraeth byd uniaith, felly o bryd i'w gilydd y bydd rhyw unbennaeth neu imperialydd yn ceisio dileu rhyw odrwydd fel y Gymraeg neu'r Fasgeg neu'r Wyddeleg neu'r Llydaweg. Dyma falchder grymus yr un tŵr. Dadffurfio yw unffurfio.

Ond ar ôl i Noa dderbyn y gorchymyn i luosogi a ffrwytho, gwasgarwyd y cenhedloedd: '*pawb wrth eu hiaith eu hun, drwy eu teuluoedd, yn eu cenhedloedd.*' (Gen.

1: 5 cf. 20: 31-2) Gwasgaru oedd y daioni a fwriadwyd. Diau fod adeiladwyr tŵr Babel yn 'rhyngenedlaetholwyr' modern cynnes a pholitaidd gywir. Ond yr oedd Duw eisoes newydd orchymyn sut oedd hyrwyddo undod yr amryw, un byd gydag amllder o ddiwylliannau. Bellach, datganai ei 'drefn': (Gen. 11: 7-9) *'Deuwch, disgynnwn, a chymysgwn yno eu hiaith hwynt fel na ddeallont ei gilydd. Felly yr Arglwydd a'u gwasgarodd hwynt oddi yno ar hyd wyneb yr holl ddaear; a pheidiasent ag adeiladu'r ddinas. Am hynny y gelwir ei henw hi Babel; oblegid yno y cymysgodd yr Arglwydd iaith yr holl ddaear, ac oddi yno y gwasgarodd yr Arglwydd hwynt ar hyd wyneb yr holl ddaear.'* Gweithred Duw: gweithred dda.

Ond yr oedd yna undod pwrpas i fod i'r rhain oll.

'Efe a wnaeth o un gwaed bob cenedl o ddynion, i breswyllo ar holl wyneb y ddaear, ac a bennodd yr amseroedd rhagosodedig, a therfynau eu preswylfod hwynt; fel y ceisient yr Arglwydd, os gallent ymbalfalu amdano Ef, a'i gael, er nad yw Efe yn ddiau nepell oddi wrth bob un ohonom.'

Cenedloedd oeddent: amllder, lluosowgrwydd diwylliannau ffrwythlon mewn cyweiriau a chlymiadau amrywebol. Ond yr oedd eu diben oll yn y bôn yr un.

Diau fod yna lawer o Gristnogion didwyll sy'n meddu ar *agenda* nad ydynt yn gallu dygymod â bodolaeth ffrwythlondeb diwylliant o gwbl. Gall gwanc a hunanoldeb fod yn gudd yn y galon. Yn sicr, ceisiant ein perswadio nad oes a wnelo Duw ddim oll â diwylliant Cymru. Fe glywch y slogan blinedig 'Mae'r Efengyl yn bwysicach na'r iaith.' Mae'r Efengyl yn bwysicach na ffrwytho, yn bwysicach na gras cyffredinol, yn bwysicach na'r greadigaeth a sancteiddhad, yn dileu sofraniaeth y sfferau a'r ymwybod o werth a diben. Mae'n bwysicach na thatws a moron. Ac yn y blaen. Ac ystyr 'Efengyl' yw'r cam cyntaf – iachawdwriaeth. Ymwna sancteiddhad â'r cyfan. Hynny yw, yn yr ymgais i ddileu amrywiaeth diwylliant, gall unrhyw slogan hanner pob a lled-wir wneud y tro. Prinheir efengyl ac awdurdod a chylch perthnasoldeb Cristnogaeth. Cyfyngir y Gwirionedd a Gogoniant Duw. Delfrydir culni er drwg i'r dystiolaeth. Ac os caf ddweud, dylai hyn fod yn dra phwysig i'w wylid o safbwynt cenhadu a thystiolaethu a chyflwyno'r Gwir i eraill. Mae crebachu maes a phwysigrwydd arfaeth Duw, nid yn unig yn sarhad arno Ef, eithr hefyd y mae'n rhoi camargraff lwyr o drylwyredd a phenarglwyddiaeth oludog y meddwl Cristnogol. Gwir mai egwyl yw dyn ar y ddaear.

Mae Arfaeth a Duwdod yn ddiderfyn. Ond ceisir hollti bywyd y Cristion: ceisir neilltuo'r efengyl i gornel ac i'r math o weithgaredd a meddwl sydd ar gerdded yn yr eglwys leol, ac yn arbennig i bregethu, ac yn fwy arbennig byth i bregethu am gymod yn y gwaed. Esgeulusir cryn gyfran o deimlad, o feddwl, o waith ac o ewyllys iach a chymeradwy a ffrwythlon dyn. Anwybyddir llawnder bywyd a mawrhydi'r Drindod drwy ganolbwyntio – yn naturiol ar anghenion dynol.

Mae'n hawdd deall y culni naturiol hwn. Ond does gennyf ddim amynedd ag ef. Mae'n gwneud yr 'Efengyl' yn gelwydd diflas. Mae'n cyfyngu ar awdurdod Duw. Mae'n creu argraff o fydysawd pitw ac afiach ac annigonol. Mae'r arfaeth oll yn cael ei gwneud yn 'sound-bite'. Y Gras yw canolbwynt hanes y byd i'r Cristion. Ond nid y byd yw priod gartref na'r Cristion na thragwyddoldeb. Cyfiawnhad ac aileni yw'r dechreuad i wir fywyd y Cristion, ond erys Sancteiddhad; ac y mae Gogoneddu'n fwy godidog nag y gallwn byth ei ddychmygu. Pan astudir Diwinyddiaeth Diwylliant, priodol yw mawrygu Gras Arbennig o fewn fframwaith cyfannol o Ras Cyffredinol.

Rŷm yn deall yn burion yr amharodrwydd i uniaethu'n ddiwylliannol â'r rhai sydd heb adnabod Iesu Grist. Does gan y sawl sydd heb brofi argyhoeddiad o bechod nac o effeithiolrwydd aberth Crist ddim amgyffrediad o ogoniant y byd ffrwythlon meddiannol ei hun mewn gwirionedd. Y mae amgyffrediad yr anghredadun o ryfeddod ac anferthedd y derbyniad dwyfol mor anhraethol bell fel y mae'n ymddangos bron yn amhontadwy. Rŷm yn siarad ieithoedd gwahanol. Ond mae'r cwbl yn eiddo i'r Cristion mewn modd nas gŵyr yr anghredadun. Mae ein diwylliannau yn eu cyflawnder mor ddieithr i'w gilydd. Ac eto, ni throsglwyddwyd y moroedd a'r mynyddoedd a'r bronfreithod a'r plant bach a'r heulwen i wladwriaeth Satan. Nid y Diafol fel y cyfryw biau'r glaswellt a'r gwymon. Ac mae yna botensial credu ym mhob anghredadun.

Gelwir arnom i ganfod teyrnas Crist mewn persbectif cyflawn, gan ddechrau mewn Gras Cyffredinol yn y Creu (cyn y Cwyp), a chan symud i sefyllfa o Ras Cyffredinol parhaol ynghyd â Gras Arbennig (wedi'r Cwyp), ac ymlaen i'r Nef Newydd a'r Ddaear Newydd lle y bydd Gras Cyffredinol o'r newydd heb angen Gras Arbennig mwyach, ond yn gwbl ddigonol ac yn berffaith ei ffrwythlondeb i bawb. Egwyl yw'r ddaear lle y dodwyd ffrwythau'r Duw-ddyn.

9. SANCTEIDDHAD

Yn wahanol i'r Gorchymyn Diwylliannol ac i Ras Cyffredinol, nid oes wnelo Sancteiddhad â'r anghredadun o gwbl. Mater i'r Cristion yn unig yw. Ond i'w ddiwylliant yntau, y mae'n ganolog ac mae'n effeithio pob dim. I Gristion, rhaid wrth Sancteiddhad.

Mae a wnelo Sancteiddhad â pherthynas y Goruwchnaturiol ac â phob gweithred a phob sffêr yng nghyfanrwydd amser i'r Cristion. Ystyr Sancteiddhad yw ymarfer â Chymdeithasiad rhwng y Goruwchnaturiol a'r Naturiol, ei adeiladu ac ufuddhau iddo. Roedd y Dadgymdeithasiad (*Dissociation*) rhwng y ddau hyn a feithrinwyd gan Naturiolaeth amddifad ac Empeiriaeth yr Ymoleuo yn un o'r trasiadau deallol yn hanes y meddwl gorllewinol diweddar. Mewn gwirionedd, problem i'r Cristion oedd datrys perthynas Seciwlariaeth â'i fywyd beunyddiol. Cymdeithasiad beunyddiol oedd yr ateb. Buwyd o'r blaen yn y penodau hyn yn cyfeirio sawl tro at 'Ddadgymdeithasiad y Goruwchnaturiol a'r Naturiol' (Ymadrodd yw hyn a luniwyd ar sail beirniadaeth lenyddol T.S. Eliot ynghylch 'dissociation of sensibility' – sef ysgariad meddwl a synhwyriad. Symudais innau ef i gyd-destun digon gwahanol; ac eto, eisoes yng nghyd-destun metaffusegol Eliot, nid oedd yn gyfan-gwbl wahanol.) Dyma un o'r ymosodiadau mwyaf ar gydlyniad y Ffydd Ddiffuant.

Sanctaidd had yw Sancteiddhad. Pethau sy'n tyfu yn araf ydynt. Yr Ysbryd Glân yw'r Heuwr. Sancteiddhad yw un o athrawiaethau mawr Cyfiawnhad. Ac nid yw'n llai o broses na Chyfiawnhad ei hun. Tyf ym mhob man a phob amser. Nid yr hyn a wna rhywun ar wahân ar ei ben ei hun gyda'r Ysbryd Glân yn ddefosiynol yw Sancteiddhad, er bod hynny'n rhan ohono. Mae Sancteiddhad i lawr yn yr arena – gyda phobl yn eu holl ddiddordebau a'u diffyg diddordeb a'u hangen. Nid oes un dim nac un lle nac amser nad oes eisiau ei sancteiddio.

Efallai mai un o ddymuniadau pennaf Cristion difrif – ynglŷn â'i fywyd ef ei hun – yw bod yn 'sanctaidd'. Gall Cristion fod mewn gwaith diwylliannol sy'n ymddangos yn ddigon pell o fywyd 'uniongyrchol grefyddol'. Gall fod yn glerc mewn ffatri neu'n gantores broffesiynol. Er bod y gwaith hwnnw'n gyfreithlon angenrheidiol, ar yr wyneb o leiaf mae'n debyg i waith 'seciwlar' pobl eraill. Ond i Gristion, braint ac ufudd-dod yw. Gyda hynny, gall y Sanctaidd hunan-feirniadol fod yn ymwybodol hefyd o'r hyn a elwir

yn 'bietistiaeth', sef yr ymdrech artiffisial gan rywrai i dynnu 'tystiolaethu' uniongyrchol grefyddol i mewn i bob sefyllfa ar ffurf cenhadu. Gall hyn ein drysu braidd.

Gall y fath ymagweddu ddwyn cysgod ar draws hwyl a hyd yn oed ymroddiad mewn ymddygiad neu weithgareddau ymarferol digon cyfiawn.

Trown, sut bynnag, i ystyried y berthynas benodol rhwng Diwylliant a Sancteiddhad. Bydd Cristion Beiblaidd yn sôn am dri chyflwr mawr a grasol yn ei fywyd. Nid oes gan y rhain fawr o ddiddordeb i anghredadun. Ond yn niwylliant y Cristion, y maent yn gwneud byd o wahaniaeth.

1. *Cyfiawnhad*: dyma'r llwybr y deuir yn Gristion – drwy aileni. Mae'r ysbryd dynol (sydd yn farw i Dduw yn naturiol) yn dod yn fyw; y mae aberth Crist yn golygu bod Ei gyfiawnder Ef yn cael ei gyfrif i'r pechadur; hynny yw y mae'n clirio pechodau'r Cristion drwy dalu amdanynt ei hun. Ac yng ngolwg Duw, mae'r un a fu'n bechadur bellach yn cael ei gyfrif yn gyfreithlon gyfiawn. Ond ar unwaith fe'i sancteiddiwyd rywfaint, ei osod ar wahân. Y mae'r pechadur wedi dod i berthynas effro a bywiol â Duw drwy gyffyrddiad gan Ysbryd Duw.

2. *Sancteiddhad*: dyma'r ail gam ym mywyd y Cristion. Os oedd Cyfiawnhad yn ddigwyddiad (ac yn broses), proses (a digwyddiad) yw cyflwr Sancteiddhad sy'n parhau weddill ein bywyd. Proses o agoshau fwyfwy at Dduw ydyw drwy waith yr Ysbryd yn y galon: proses o bellhau oddi wrth y bydol. Yr awydd mwyach yw anrhydeddu enw Duw a mawrhau'r Mab. Dyma waith y pererin pryd y mae'r Cristion yn gorfod ymladd â phob math o rwystrau, ac ymdrechu i ufuddhau i Dduw ym mhob peth, drwy gymorth Gras. Dyna bwnc y bennod hon.

3. *Gogoneddiad*: dyma'r cam olaf. Dechreuir gogoneddu Duw, rywfaint ers aileni bywyd y Cristion. Ond ni ddeuir i lawnder Gogoneddiad tan ddiwedd oes ac wedyn. Dyma'r cyflawnder Cristnogol, wedi marw, y gellir cael blas ohono eisoes yn y fuchedd hon. Ymroddiad llwyr a pherffaith yw, pryd yr ymwaredir â phob rhwystr er mwyn dyrchafu ac anrhydeddu Person ac Ewyllys a Chariad Duw yn dragywydd. Hyn yw ein gwynfyd. Ac Ef sy'n ein gogoneddu ni. Paid Sancteiddhad fel proses wedi perffeithiad y Nef. Bellach, Gogoniant fydd ymhobman.

Yn awr, yn y fframwaith hwn, yr un sy'n ymddangos yn fwyaf diwylliannol berthnasol ar hyd ei oes i'r Cristion yw'r ail. Mewn Diwylliant, sef yn ei weithgareddau

bob dydd, y mae'n ceisio gwasanaethu Duw ym mhopeth. Rhaid inni beidio â meddwl am hyn fel rhan o waith eglwysig. Sôn yr ŷm am holl batrwm bywyd, am fywyd teuluol, am waith sy'n gydwbybodol ac yn onest ac yn ffrwythlon, am hamdden iach, am bob math o hobïau rhyfedd a diddanwch, bob awr o'r dydd, ym mywyd yr unigolyn, er ei fod yn effeithio ar y gymdeithas wedyn. Yn wir, i Dduw yn uniongyrchol y mae Cristion yn gwneud popeth yn y bôn ac nid i ddynion. Yn hynny o beth, y mae 'enw Duw' yn cael ei sancteiddio ('Sancteiddier Dy enw'). Ond y mae'r Cristion ei hun yn cael ei sancteiddio hefyd: hynny yw, y mae'n cael ei neilltuo, y mae'n ymwahanu'n ysbrydol oddi wrth ormes y bydol. Ac y mae'r hyn y mae'n ymwneud ag ef yn ymarferol – ecoleg, llafur cyflogedig neu ddigyflog, y gymdeithas, masnach – oll yn cael eu sancteiddio mewn bywyd addolgar. Hynny yw, teyrnas i Dduw yw pob sffêr drwy waith yr Ysbryd yn y bod dynol. Dyma'r diwylliant y mae'r Cristion yn ei gyfrif yn wedd ar eiddo Duw, y diwylliant a weddnewidir yn y galon am mai Duw biau ef.

Er fy mod yn cyfyngu sancteiddio i Gristnogion, nid yw hynny'n golygu nad yw anghredinwyr yn gallu, yn wir yn gorfod, ymwneud ag egwyddorion sy'n grefyddol, yn wir yn Gristnogol. Mae a wnelo Cristnogaeth â phob gwedd ar y Greadigaeth. Cymerer mater mor elfennaidd â Threfn. Trefnir bywyd gan y Drindod o fewn tri dimensiwn gofod, a gorfodir y Rhagenw Personol i fod yn ganolog driphlyg – yn fy marn i oherwydd bod y Crëwr Absoliwt ei hun wedi gosod Ei argraff ar y creedig. Y mae'r holl egwyddor o drefn yn ras neu'n rhodd gyffredin inni. Felly'r strwythur i bawb o werthoedd esthetig a moesol hefyd. Felly hefyd, fel y pwyslais lawer tro o'r blaen, y gwasgariad helaeth ac 'annethol' o doniau celfyddydol naturiol. Fel y bydd chwaraewyr rygbi yn derbyn doniau'n wasgaredig 'afradlon', beth bynnag fo eu credoau neu'u 'diffyg credoau', felly hefyd y llenorion. Dyma bwyntiau ynghylch natur llenyddiaeth a esbonnir o fewn fframwaith athrawiaeth Gristnogol. A threfnu yw un o nodweddion Sancteiddhad.

Ond saif Sancteiddio ar wahân i'r 'byd' oll yn llythrennol ysbrydol, er y gall fod ar waith yng nghanol yr arena yn allanol. Fe'i cyflwynir fel yn Cor. 10: 5, '*yn cymryd pob meddwl yn garcharor i fod yn ufudd i Grist.*' Meddai Effesiaid 2: 10, '*Ei waith Efydym, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i fywyd o weithredoedd da, bywyd y mae Duw wedi ei drefnu inni o'r dechrau.*' Hynny yw, y mae safle bywyd y Cristion a'i gyflwr sylfaenol o flaen Duw wedi newid o ran perthynas: dylai ef, bellach, wedi'r troi, radical fyw yn unol

â'r hyn sydd wedi digwydd iddo (Effes. 4: 24), '*a gwisgo amdanoch y natur ddynol newydd sydd wedi ei chreu ar ddelw Duw, yn y cyfiawnder a'r sancteiddrwydd sy'n gweddu i'r gwirionedd.*' (cf. 1 Pedr 1: 15-16; 1 Thes. 5: 23)

Dyma ni, heb fychanu llenyddiaeth seciwlar o gwbl, yn dechrau dynodi'r hyn sy'n wahanol yn awr, ac yn thematig bosibl, o fewn llenyddiaeth sy'n benodol ac yn uniongyrchol Gristnogol. Hyn yw hanfod canolog Diwylliant. Yn yr ymwybod yr ydym yn sylweddoli ein bod yn byw yng ngŵydd Duw, ac o fewn ei ddisgyblaeth Ef.

Mae sancteiddio diwylliant mewn gwirionedd yn y man eithaf yn waith i'r Ysbryd Glân ac i Gristion, nid i anghredadun. Dechreua Sancteiddhad yn hanes rhywun pan fo wedi profi Cyfiawnhad. Sef ar ôl i'r ysbryd dynol ynddo ddeffro, edifarhau, a derbyn bendith Duw: hynny yw, ar ôl ail-enedigaeth. Nid oes modd i neb ohonom ond Duw wybod na barnu'n 'derfynol' ddilysrwydd nac ansawdd ysbrydol neb arall. Ac eto, nid yw hynny, wrth gwrs, yn atal un mymryn y posibilrwydd na'r ddyletswydd i anrhydeddu Duw – yn ffaeledig – drwy ufudd-dod a mawl, mewn meddwl, gair, a gweithred.

Ond beth y mae hynny'n golygu, dyweder, i lenor cyffredin o Gristion? Nid wyf yn sôn am lenor sy'n sgrifennu llenyddiaeth uniongyrchol grefyddol, ac yn sicr nid wyf yn meddwl am ddefnyddio'i sgrifennu ar gyfer proselytio. Meddwl yr wyf am lenor sydd yn benderfynol o agor drysau'i feddwl i ymdrin â phob pwnc a phrofiad yn y Greadigaeth. Meddwl yr wyf hefyd am lenor sydd – oherwydd Gras Cyffredinol – heb ragori, o raid, o ran dawn, medr ieithyddol, nac egni creadigol, ar yr hyn yr oedd ef cyn ei dröedigaeth. Ac eto, mae ganddo safbwynt neu gyfeiriolwg sy'n llawnach na'r Naturiol yn unig. Dadlau a wnawn i nad yw'n cael ei gyfyngu, o ran testun na chreffft. Fel arall, bellach, agorir iddo/iddi ddimensiwn ysbrydol goruwchnaturiol yn ogystal â dimensiwn naturiol yn yr un pethau. Ond y mae ei agwedd neu'i sylweddoliad o werth, trefn, a phwrpas wedi ymledu a dyfnhau. Y term a ddefnyddiais i amgylchu ac amlygu hyn oedd Mawl.

Term od efallai.

*

*

*

O bryd i'w gilydd (yn *Llên Cymru a Chrefydd*, *Cyfriniaeth Gymraeg*, *Ysbryd y Cwlwm*, *Mawl a'i Gyfeillion*, a *Mawl a Gelynion ei Elynion*) bûm yn trafod y berthynas rhwng Mawl, Cristnogaeth, a Llenyddiaeth. Yma ac acw, ceisiais ddiffinio Mawl fel y

mae'n cael ei ddefnyddio yn y cyd-destun Cymraeg ac mewn llenyddiaeth yn gyffredinol, ac nid o anghenraid mewn llenyddiaeth sy'n uniongyrchol grefyddol. Dyma rai gosodiadau, yn arbennig o'r gyfrol *Mawl a'i Gyfeillion*:

71: 'Dyma'r elfennau ynddo: yr ysfa orfodol i gydnabod gwerth (ni ellir gweithredu heb hynny), gwth cynhenid i ddarganfod trefn (ni fyynnir meddwl heb hynny).

21: Y mae fel pe bai yna ryw riniau, rhyw hadau mewn Mawl, sy'n hanfod amlwg i oroesiad llenyddiaeth ei hun. ... Dim ond oherwydd cymhelliad cadarnhaol Mawl y gwna'r llenyddiaeth yn bosibl. ... Y mae fel pe bai'r proses o greadigrwydd yn gorfodi gwedd gadarnhaol, a bywyd ei hun yn gorfodi bod yn adeiladol.

24: Calon Cymhelliad, y strwythur sy'n ei adeiladu'n greadigol, yw Mawl.

25: Maent [h.y. Gwreiddiau Mawl] yn dathlu gwerth bodolaeth ... Cymeradwyo bywyd a wna Mawl. Ac fe'i llunnir pan ymlunia Cymhelliad llenyddiaeth ei hun. ... Mae llenyddiaeth ei waethaf ei hun yn gorfod cydnabod gwerth gwneud rhywbeth. ... cysylltw'n Fawl â'r gwaith o ddehongli a dathlu Pwrpas, o ddatgan Gwerth, ac o hyrwyddo Trefn ystyrlon, gan fynnu gwrthrychu a synwyruso a chlymu'r rhain mewn Mynegiant wrth destun arbennig.

26: Hawlia'r traddodiad Mawl mai hollol amhosibl oedd dianc rhag Ystyr a Diben.

I raddau, priodol gosod y cysyniadau hyn yn y cefndir cyfoes lle y ceir gweddau Ôl-fodernaidd sy'n pwysleisio yn ôl yr ysfa geidwadol a'r credoau byrolwg egwyddorion megis relativrwydd, llusedd, amhenderfyniadaeth, gwahanu (heb uno) a'r ymosodiad ar werth, trefn, a phwrpas. Hen *repertoire* Adda. Gwedir Absoliwt (a chyflyraeth rhagdybiaeth). Trafodais y tanseiliad i'r tanseiliad hwn a'r sgeptigiaeth ynghylch y sgeptigiaeth hon lawer tro o'r blaen. Gormes anhunanfeirniadol fu'r ffasiwn hwn yn saithdegau'r ganrif (ac wedyn). Fel yr Ystafell Wag enwog, a ddarparodd enghraifft ym maes Celf Weledol i Gyngor y Celfyddydau ac a gafwyd yn 'Chapter' Caerdydd, fel math o froc môr gwaddodol o *avant garde* y dauddegau, felly y gwacaodd yr Ôl-foderniaeth lawer o'r brwdfrydedd a arddelwyd mor ffres ddiniwed ar y pryd.

Mae gan bawb ohonom werthoedd, er hynny. Does dim modd eu hosgoi. A threiddia'r rhain drwy bob ddisgrifiad ac adroddiad, pob cymeriad a sefyllfa, heb fwriadu proselytio. Mae eu cyffyrddiad arnom. Gwerth yw bwyd gwrthryfel mawl.

Gadewch imi drafod ychydig o broblemau sy'n codi ym meddwl y llenor o Gristion yn yr unfed ganrif ar hugain. A sôn wyf am lenor cyffredin, sydd hefyd yn Gristion cyffredin, ond sy'n dymuno bod yn rhydd i drafod pob rhyw bwnc heb ymgyfyngu i destunwaith crefyddol uniongyrchol. Oherwydd, trafod Cristnogion yn unig yr wyf wrth sôn am sancteiddrwydd.

Fel Cristion, y mae'n dymuno gael ei lwyr sancteiddio gan Dduw. Mae'n dymuno byw a bod fel petai ef bob munud yn cyflwyno'i fywyd yng ngolwg Duw. Gerbron Duw y mae'n meddwl. Ac eto, ar ryw olwg gall fod yn grefftwr: mae'n chwaraewr rygbi hefyd. Mae'n ceisio gwneud ei orau o fewn amodau'i gelfyddyd. A'r un pryd, y mae ef wedi 'gweld' rhai pethau, wrth gwrs. Mae rhai profiadau wedi gweithio yn ei galon a rhai athrawiaethau wedi'u hadeiladu yn ei ben. Sut y mae hyn yn ymyrryd yn ei waith?

Mae yna frwydr barhaol rhwng yr hen ddyn (natur gyfyngedig) a'r dyn newydd. Rhydd hyn dyndra yn ei waith ef, – yng ngwaith Saunders, Gwenallt, a Waldo dyweder – mewn modd nas gwyddai anghredinwyr yn union o'u blaen, na phroffasant efallai ormes Ôl-foderniaeth, onid ar lefel moesoldeb a chydwybod a blas awyrgylch y dyn anianol. Nid yw'r tyndra hwn – os delir ag ef yn onest ddychmyglon – yn debyg o wneud dim niwed iddo o safbwynt llenyddol. Fel arall, ei gyfoethogi a'i ddwysáu a wna.

Mae ef yn bechadur wrth gwrs, ac yn ymwybodol o ystyr ysbrydol hynny. Un o'r ffactorau bythwyrdd yw pechod ym mhob llenyddiaeth, er ei fod yn tueddu i fod mewn dimensiwn allanol, achlysurol, symleiddiol ym mryd llenorion seciwlar. Gelyn dyfal beunyddiol pechod yw Sancteiddhad. Yn y fan hon y mae'r broblem i Gristion yn debyg o fod yn ddwysach eto, yn fwy ysbrydol ychwanegol, ac yn 'llethol'. Bydd ef/hi yn hydeiml i holl bresenoldeb pechod.

*

*

*

Nid yw Sancteiddhad yn golygu peidio â bod yn y byd, felly. Golyga ymneilltuo rhag y bydol. Nid yw 'o'r byd'.

Dadlau a wnawn i fod mynd o'r neilltu ac ymadael â'r byd yn Anghristnogol, onid wrth gwrs yn ysbeidiol i ymdawelu, myfyrio, a gweddio yn ôl yr angen. Yn baradocsaid, o safbwynt tarddiad semantaidd y syniad o sancteiddio, nid *mynd* ar wahân, ond closio at Dduw yw'r nod er mwyn ei fwynhau a'i weld a'i arddangos ym mhob dim tan *fod* ar wahân yr un pryd. *'Beth bynnag a fwytawn neu a yfwn, beth bynnag a wnawn, gwnewch*

ef er gogoniant i Dduw.' (1 Cor. 10: 31) Golyga gydnabod mai Ef yw'r canol i'n diwylliant, sef y ffynhonnell, y trefnydd, a'r cynheilydd. Dathliad yw llenyddiaeth o'r amrywiaeth allanol a mewnol, gweledig ac anweledig hwn a brofir ganddo Ef ac yn Ei greadigaeth. Mawl yw un o brif gyfryngau Sancteiddhad.

Golyga i lenor o Gristion ei fod yn effro i rai grymsterau nad ydynt yn fyw i'r anghredadun, megis i fod yn y byd, heb fod o'r byd; i fod mewn brwydr bob amser ac i gysegru pob rhan o fywyd i Dduw. Meddai R. Tudur Jones yn ei gyfrol *Yr Ysbryd Glân*, 'Trwy ddylanwadau'r Ysbryd Glân, cyfleuir ei anian dduwiol a roddwyd i ddynt wrth ei atgenghedlu fel bod ei weithgareddau sanctaidd yn lluosogi.'

Mae Pietistiaid yn medru brigo i'r golwg ym mron pob prif draddodiad Cristnogol a chrefyddau eraill. Tueddant i gymysgu'r gair 'byd' â'r 'bydol', yn hytrach nag i synied amdano weithiau yn nhermau'r creedig. Ymdriniant â'r naturiol fel rhywbeth na ddylid ceisio'i ddefnyddio er gogoniant i Dduw. Adeg y Diwygiad Protestannaidd yr oedd yr Anabaptistiaid yn ceisio iachawdwriaeth bersonol drwy adeiladu teyrnas Dduw ar wahân ar y ddaear. A chafwyd llawer o'r un osgo ymhlith Catholigion a Phrotestaniaid o bob cenhedlaeth.

Yn hyn o beth fe gaed peth gwahaniaeth rhwng Luther a Chalfin. I Luther, ffynhonnell y gwirionedd cadwedigol oedd y Beibl: i Galfin, norm ydoedd ar gyfer ein holl fodolaeth. I Luther, ni ddaeth yr Arglwydd Iesu Grist ond i newid calonnau pobl, tra oedd Calfin yn pwysleisio'i Benarglwyddiaeth hefyd ar bob modfedd o'r greadigaeth.

Ychydig o sôn a glywir am ddiwinyddiaeth diwylliant yn Lloegr. O ganlyniad, tenau yw'r sylw a gaiff yn y byd Eingl-Gymreig. Mae'n faes pwysicach o lawer yn yr Iseldiroedd, gyda dylanwad Kuyper ac ysgol Dooyeweerd a Rookmaaker. Tarddu o hynny a wnaeth y gwaith a wnaethpwyd yn y maes ymhlith Americanwyr fel Cornelius a Henry Van Til. Rhaid diolch i Seminari Awstin yn Texas am drefnu'r darlithiau a gyhoeddwyd fel *Christ and Culture* 1951, gan H. Richard Niebuhr ar yr un thema. Ni fu'r diddordeb hwn yn anghysbys yn y Gymraeg yn sgil astudiaethau R. Tudur Jones.

Oherwydd imi ddarganfod yn ddiweddar iawn ddwy gyfrol Ffrangeg Auguste Lecerf, *Introduction à la Dogmatique Réformée* I, 1931 a II 1938 (a gyfieithwyd i'r Saesneg fel *An Introduction to Reformed Dogmatics*, 1949), agorwyd i mi wlad newydd-hen ar gyfandir Ewrob. Dylid bod wedi disgwyl y gallasai Calfin ei hun fod wedi bod yn

ddigon o ysgytwad, beth bynnag oedd yr erledigaeth wedyn, i gadw peth meddwl Diwygiedig yn fyw yn Ffrainc hyd heddiw. Ond ychydig o flynyddoedd yn ôl am y tro cyntaf y cefais i drwy olrhain cefndir Lecerf wybod am bobl fel Émile Donmarque, Jean de Saussure, Jean Cadier a Pierre Maury, ac am gyfraniad arbennig Amyraldiaeth. Cânt gymryd lle mwyach i mi ochr yn ochr â chewri'r Iseldiroedd ac Unol Daleithiau America.

Heblaw'r gwaith yn y traddodiad Diwygiedig, ceir wrth gwrs gryn sylw i ddiwinyddiaethau Diwylliant gan Gatholigion.

Ond yn yr ugeinfed ganrif, oherwydd cyfyngder yr olwg ymhlith pobl ddiwygiedig ym Mhrydain ar efengylu, yn hytrach nag ar ogoneddu Duw ac ar gyfiawnhad, a heb ddigon o sylw ar sancteiddhad, pur brin at ei gilydd fu'r drafodaeth a gafwyd ar Ddiwinyddiaeth Diwylliant. Ymhlith efengyleiddwyr cafwyd cryn sylw i Ddiwygiadau a hanes pregethwyr; ond prin fu'r sylw i natur Gristnogol Diwylliant.

Ar ôl i rywun ddod yn Gristion, sancteiddhad mewn gwirionedd sydd yng nghanol bywyd ymarferol, a gogoneddu Duw yw ei bennaf angen a'i nod. Ac mae Penarglwyddiaeth Duw yn mynnu bod a wnelo'r rhain â phob gwedd ar Ddiwylliant. Y mae'r gorchymyn cyntaf a roddodd Duw i ddyn yn Eden, gorchymyn sy'n diffinio ei rôl ar y blaned hon, yn gosod dyn yn blwmp yng nghanol Diwylliant. Diwyllio yw ei briod swydd o hyd, a'r adeg sylfaenol yn chwe diwrnod o bob saith.

Priodol yw sylwi sut y llwyddodd Cristnogion i esgeuluso ac osgoi hyn, hyd yn oed adeg yr efengyl gymdeithasol pan droid tuag at foesoldeb a gwleidyddiaeth.

Mae'r pwyslais a gafwyd ar efengylu a chyfiawnhad ac ail-enedigaeth, neges a bwysleisiwyd hyd yn oed i lawer cynulleidfa lle na cheid namyn Cristnogion a iachawyd eisoes, yn gallu bod yn bwyslais annigonol fel cyflwyniad i Gristnogaeth. Yn sicr, nid oes a wnelo â llawnder bywyd ymarferol.

Yr ydym oll, sydd yn y traddodiad efengylaidd, ie hyd yn oed yn y traddodiad efengylaidd diwygiedig, yn gyfarwydd â phietistiaeth ddjarbed. Dyma'r awydd i gyfyngu myfyrdodau bywyd i faterion uniongyrchol eglwysig sefydliadol a chyfyngedig ac i sffêr addoliad ar y cyd. Hynny yw, ceisir gwasgu sancteiddhad i gornel, gan anwybyddu adrannau helaeth iawn o fywyd, megis llafur beunyddiol, y celfyddydau, y gwyddorau, a masnach: sef teyrnas ddeddfol Penarglwyddiaeth Duw. Yn ôl awgrym a welais gan Lecerf, dichon fod y cyferbyniad negyddol a chadarnhaol hwn ym maes diwinyddiaeth

Diwylliant yn y cyfnod diweddar yn tarddu o bwyslais cyferbyniol yng nghanadwriau Luther a Chalfin. Oherwydd mawr angen yr amseroedd, a gwylltineb natur Luther, fe geisiai ddatgan yn groch y rheidrwydd wrth Gyfiawnhad drwy Ffydd. Roedd ymgolli mewn gweithredoedd a dyrchafu pwysigrwydd yr hyn a ddigwyddai yn droadol i ddyn, er cywired oedd yn sylfaenol, yn gallu bod yn gamarweiniol. Rhaid cyfrif Duw yn flaenaf ymhob peth. Ei rad ras sy'n gyfan gwbl gyfrifol am gyfiawnhad dyn. Ond nid cyfiawnhad sydd yn flaenaf ymhlith blaenoriaethau bywyd, eithr gogoniant Duw. Deuai'r pwyslais yn wahanol wrth i Brotestaniaeth aeddfedu dan ddylanwad Calfin: mawrygir Duw yn ei gymeriad ac yn ei holl swyddogaethau a gweithredoedd hysbys. Bob amser, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn cwsg ac effro, mewn hamdden a gwaith, gogoniant Duw yw pwrpas pob peth. Dyma ddaioni a lles ac iechyd dyn. Gogoniant yw sy'n cynnwys ei Greadigaeth a'i Gariad, ei Drefn a'i Harddwch, ei Gyfiawnder a'i Raslonrwydd, a'i Gynhaliaeth feunyddiol.

Rhaid gofalu bob amser rhag cambwyslais. Gellid casglu na ellid cyfeiliorni wrth sylweddoli blaenoriaeth Duw ym mhob peth. Ond os tybir mai Penarglwyddiaeth hierarcaidd Duw yn hytrach na'i Gariad, a'i Iachawdwriaeth yn hytrach na'i Sancteiddrwydd sydd yn gywir ac ar y blaen, ni sylweddolwyd llawnder unol y Duw Tri-yn-Un yn Ei ogoniant, sy'n cyfleu'r cyfanswm.

Mawrhau, moliannu a dyrchafu enw Duw yw ein pennaf diddanwech a'n holl ystyr. Dyma'n swydd offeiriadol. Yn y tair swyddogaeth sydd i'r Cristion – offeiriad, brenin a phroffwyd, y mae a wnelo'r gyntaf â'r alwad ganolog i ogoneddu Duw. Estyniad o hynny yw'r alwad i fod yn frenin ac i lywodraethu neu ddarostwng y ddaear. Ac estyniad anochel o waith achubol Duw wedyn yw'r angen i efengylu neu i broffwydo.

Diau ein bod yn sôn yn awr am ddyn syrthiedig anghyflawn o dan drefn Duw. Dyna'r unig fath sydd ar y ddaear hon. Cyfrifoldeb sydd arnom tuag at ddynion ffaeledig, llawer ohonynt yn gwadu'r Cwmp. Mewn amgylchfyd o falchder a hunanoldeb y meithrinir diwylliant, ac mewn ymgais weithiau i ddyrchafu dyn.

*

*

*

Yn rhy fynych, ceir tuedd a grybwyllwyd eisoes i Gristnogaeth gael ei hystyried fel rhan o Ddiwylliant. Eto, i'r sawl sy'n gyfarwydd â llawnder hawliau Duw a'r darlun ysgrythurol o fywyd a diffyg bywyd, rhaid canfod y berthynas fel arall. Mae gan

Gristnogaeth rywbeth i'w ddweud am yr hyn sy'n ddiffaith ac am yr hyn sydd wedi'i ddiwyllio: y negyddol a'r cadarnhaol. Mae'n cynnwys amser a gofod wrth gwrs, ond ymestynna hefyd y tu hwnt i'r dimensiwn tragwyddol. Mae'n ymwneud â'r hyn sy ar dir y byw dros dro ac â'r hyn sy'n farw, â'r mewnol ac â'r allanol, â'r Naturiol a'r Goruwchnaturiol.

Penarglwyddiaeth Duw yw'r maen prawf cyntaf wrth geisio diffinio perthynas Diwylliant cyflawn. Dyma sy'n pennu maint a lleoliad Diwylliant. Ond fel y gwelsom, nid dyna'r unig wedd ar gymeriad Duw sy'n arwyddocaol. Ni all Cristion lai nag ystyried bod a wnelo ansawdd diwylliant – o'i gyferbynnu â'i leoliad – â chariad Duw, cyfiawnder Duw, sancteiddrwydd Duw, ei ddoethineb, ei allu, a'i ddaioni, ac wrth gwrs ei wirionedd. Maent oll yn berthnasol. Megis natur y gelyn hefyd.

Er tarddu o ddiwylliant garddwrol yn y gorchymyn cronolegol cyntaf a roddwyd yn y Beibl, ei roi a wnaeth Duw i'r holl gyneddfau. Mae'n wir, hefyd, fod y gorchymyn hwnnw wedi'i roi ac yn para'n berthnasol i bob dyn ac i bob peth. Nis cyfyngwyd i Gristnogion nac i anghredinwyr, nac i ddyn yn unig. Rhoddodd Duw gynhysgaeth i ddyn i gyflawni hyn, sef gras cyffredin: ei rhoi a'i chynnal. Bywyd i ddechrau. Ac yna, yn yr holl doniau personol a fedd dyn, boed yn gorfforol neu'n ysbrydol.

Mae'n amlwg y dylai presenoldeb Crist pan ddaw i galon y Cristion, ymwneud â'r awydd i ogoneddu Duw bob amser ac ym mhob peth. Dylai wneud gwahaniaeth yn naws a natur ac ansawdd diwylliant neu fywyd ymarferol dyn. Ond a yw hyn yn golygu bellach fod y bardd yn peidio â sgrifennu mwyach am serch a byd natur a phobl a digwyddiadau'r dydd, ac yn troi i byncio'n gyfan gwbl ac yn uniongyrchol ddi-baid am Waed y Groes? A yw'n gorfod ymadael â meysydd helaeth yn ei fywyd, ac ymgyfyngu i faterion eglwysig?

Fel arall gan amlaf. Lletach a dyfnach, o ran potensial, yw rhychwant diddordebau'r Cristion na rhai'r anghredadun sy'n meddu ar rai o'r un doniau naturiol. Yn ogystal â'r holl ddimensiwn naturiol, agorir y dimensiwn goruwchnaturiol. Mae a wnelo'r credadun â'r hedyd mwstard: yn wir, mae'n dipyn o giamster gyda had mwstard. Ond brain hefyd; a lili'r maes. Ac wrth gwrs, llygredd: gŵyr y Cristion fwy o lawer am bechod nag a wna'r un anghredadun.

Tuedda'r anghredadun i synied mai swydd y sawl sy'n dod yn Gristion yw cyflwyno moeswersi i bawb am bopeth. Unwaith eto, fel arall y mae. Nid swyddogaeth yr

eglwys, yn ôl ei rôl fel eglwys, yw ceisio dysgu moesoldeb i'r byd yn gyntaf. Gall mai dyna'r syniadaeth ddyneiddiol amdani. Ond gogoneddu Duw yw gwaith pennaf a chyntaf yr eglwys; a rhan o'r gwaith godidog hwnnw yw cyflwyno'r gwirionedd moesol ac arall am Dduw i bobl, a thrwy nerth yr Ysbryd eu dwyn i adnabyddiaeth bersonol, lân ohono.

Mae'n bwysig sylweddoli'r syniad Cristnogol o Ras. Rhodd rad oddi wrth Dduw yw Gras. Rhodd yw nas haeddwyd ac nas enillwyd. Duw ei hun sy'n gyfrifol am ei gyflwyno yn ôl ei ewyllys benarglwyddiaethol ei hun. Ond ymetyb i weddi daer.

Mae'n cynnwys bywyd a bydysawd, a phob cynneddf bersonol. Mae Gras Cyffredin yn cael ei ledu, heb wahaniaethu yn ôl gweithredoedd neb, ledled y boblogaeth. Tywelltir ei ddaioni helaeth ac amlochrog dros bawb. Dyma'r dimensiwn a ystyrir gan rai yn 'naturiolaid' neu'n 'seciwlar'. Ond mewn gwirionedd, ni olyga'r ffaith ei fod yn gyffredinol ac ar gyfer pawb, ei fod ar wahân i Dduw. Rhodd uniongyrchol oddi wrth Dduw yw natur ei hun. Gras Cyffredin gan Dduw sy'n ysgogi diwylliant. Mae'n llydan. Eto, nid Gras Cyffredin yw maes Sancteiddhad.

Ceir fel y gwelsom bellach Ras Arbennig neu Achubol. Dyna'r ddawn oddi wrth yr Ysbryd Glân sy'n dihuo neu'n bywhau ysbryd dynol yr unigolyn. Hyn sy'n agor y sianel o adnabyddiaeth rhwng dyn a Duw. Hyn sy'n dwyn dyn i mewn i'r teulu dwyfol. Mae'n rhoi bywyd tragwyddol yn y galon ddynol ac yn plannu Cariad Cristnogol ym mywyd y credadun. Dyma'r Cariad sy'n codi tuag at Dduw megis codi dŵr yn anwedd i'r awyr, nes y bo'n disgyn mewn dŵr glaw i'r ddaear ar gyd-ddynion.

Mae hefyd, ac fel arfer yn gyfredol gyda sylweddoliad o berson Duw, yn goleuo'r meddwl fel y bo ymwybod o bechod yn cael ei blannu. Argyhoeddir rhywun o'r arwahanrwydd oddi wrth Dduw, yr hunanoldeb a'r balchder sy'n dyrchafu 'fi' i fod yn awdurdod ar feddwl, teimlo ac ewyllys. Canfyddir presenoldeb y drwg cynhenid sydd yn y byd, ac yn arbennig yn y galon ddynol. Dyma'r rhodd a sylweddolodd.

Ond dyry Duw i bawb a'i cais iachawdwriaeth. Dyry ryddhad a glanhad cychwynnol. Yna, drwy ei geisio ymhellach ac ymofyn ufuddhau iddo a'i fwynhau, fe ddyry sancteiddhad. Peth eithriadol lafurlawn ond rhyfeddol ogoneddus. A hyn sy'n gweddnewid yr agwedd waelodol at ddiwylliant. O'r herwydd, mae yna fath beth â diwylliant Cristnogol. Pe gofynnid beth yw'r gwahaniaeth rhwng Gras Cyffredinol i'r Cristion a Gras Cyffredinol i'r anghredadun, dylid ateb yn gyntaf – yn gychwynnol, dim

byd. Rhoddir yn ddiwahân. Ond wedyn, os newidir calon, y mae'r Cristion ailanedig yn canfod y bydysawd, i raddau cynyddol, drwy lygaid Duw. Ei awydd pennaf yw cael ei unffurfio fwyfwy â'r Arglwydd Iesu Grist. Mae'n dymuno i Ysbryd Duw ddisgyn fel gwllith ar bob gwedd ar ei fywyd. A daw ystyr newydd i bopeth. Canys mae popeth yn eiddo i Dduw.

Yn ymarferol resymegol, yr hyn sy'n gwahaniaethu rhwng Gras Cyffredinol ar y naill law, a Gras Arbennig ynghyd â Gras Cyffredinol, ar y llall, yw'r rhagdybiau. Ac y mae rhagdybiau yn cyflyru neu'n amodi popeth a wnawn yn ddiwylliannol. Beth yw'r rhagdyb sydd yn arwyddocaol? Yn achos Gras Cyffredin amddifad, gall dyn dybied ei fod yn hunanlywodraethol. Yn achos Gras Arbennig ynghyd â Gras Cyffredin, gŵyr dyn ei fod yn ymostwng i ewyllys Duw fel y'i mynegwyd yng Nghrist: ehangder persbectif y 'cyffredin' Cristnogol. Rhagdybiau sy'n blaenllymu'r gydwybod sydd gan y Cristion a'r Anghredadun. Ond glŷn y Cristion wrth ddysgeidiaeth obeithlon fod Duw yn hunanddigonol, yn hunan-ddatguddiol, ac yn yr ysgrythur yn hunan-ddehongliadol. Yn achos y dyn naturiol wedi'r Cwmp, cais ef druan, ei gyfeirbwynt o fewn y bydysawd creedig. Mewnbylgol yw cyfundrefnau'i feddwl; ni ddibynna'r meddwl dynol ar y meddwl dwyfol. Yn y mudiadau diwylliannol seciwlar diweddar, boed yn ôl-fodernaidd neu beth bynnag, mae hyn yn gyson gyffredin, – boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn optimistaidd neu'n besimistaidd, yn drefnus neu ar chwâl, yn ddi-foes neu'n foesol, yn ddi-werth a disafon neu'n gwerthuso'n ddeallus, yn sefydlog neu'n ansefydlog. Mae'r cwbl yn tarddu yn yr un rhagdybiaeth beryglus – y dyn hunanlywodraethol. Hwnnw sy'n diffinio'i ddiwylliant o ran calon; ond ni raid iddo aros yn y negyddiad.

*

*

*

At ei gilydd, pan gyfeirid at y 'byd' gan foesegwyr yr ugeinfed ganrif a cheisio meddwl am le Iesu Grist ynddo, byddid yn ymdroi gyda'r materion a geid mewn angen corfforol. Y tlodion o ran eiddo, cleifion, a ffoaduriaid, dyna'r math o bobl a'r cyflyrau y bernid eu bod yn haeddu sylw gan bobl dda. Byddai Hywel D. Lewis yn *Dilyn Crist* er enghraifft yn gallu sôn am Grist fel math o Sosyalydd diniwed. Gwir fod yr anghenion dan sylw ganddo ef ac eraill yn dra phriodol i Gristion. Byddwn i fel y ceisiais ei ddangos eisoes yn dymuno effro sylweddoli llawer mwy o'n hamgylchfyd a'n pobl o fewn penarglwyddiaeth Duw. Ystyriaf mai egwyddor amheus yw canoli trefn gymdeithasol

felly yn y Cristion yn benodol ac yn unig. Yn wir, dymunwn roi sylw i bob angen a phob person a phob cyd-destun, gan gofio o hyd flaenoriaeth a thaerineb rhai sectorau.

Bid a fo am hynny, fel y gwyddom oll, cafwyd ymgais i ddisodli Cristnogaeth oruwchnaturiol a'i hiachawdwriaeth a'i her ysbrydol gan Ddyngarwch seciwlar, materol. Ac yna, adwaith i hwnnw. Canfuwyd hefyd yn hwnnw weithiau wyrad unochredd. Perygl adwaith o'r fath bellach fyddai cael ein gwyro i adael materion amlwg lesol sydd o fewn amgyffrediad rhwydd ym mryd pobl ddiefengyl, fel y gellid sianelu egnïon i gyfeiriadau na byddai anghredinwyr yn gallu eu dilyn. A chenadwri iechyd gydbwysol o du *Tearfund* pan ddigwyddai adwaith cyfyngus felly fu ein hatgoffa, beth bynnag oedd bryd pobl seciwlar, mai priodol o beth i Gristnogion hwythau yw cynnwys yn gyson faich yr anghenion materol yn ogystal â'r rhai ysbrydol, a pheidio byth ag anwybyddu dyletswyddau corfforol. Gwedd ar ein tystiolaeth a'n parch yw cyfanrwydd y gynhysgaeth ddyngarol a gynhelir, pa mor wan bynnag y bo ein gallu.

Saif llydanrwydd a chulni ar y naill ochr a'r llall i'r min rasal y mynnir inni bellach gerdded arno. Bu, y mae, a bydd pietistiaeth yn broblem barhaol i'r rhai sy'n Gristnogion Diwygiedig Efengylaidd. Ac nid cwestiwn diweddar, ac nid cwestiwn i ni yn unig, yw hyn. Bu'n broblem i fynachod yr oesoedd canol ac yn broblem i'r Eglwys Gynnar ynghynt. Dyma, i raddau ac ar ryw wedd, y gwrthdrawiad Jerwsalem-Athen, problem fawr diwylliant Cristnogol erioed. Mae a wnelo ag *arwyddocâd y ddaear greadig ond syrthiedig i'r Cristion cadwedig*. Ymhlith Cristnogion Diwygiedig Efengylaidd, cyfrifoldeb arbennig i leygwyr yw myfyrio am hyn. Gwyrad naturiol i bregethwyr ac athrawon ac arweinwyr yr eglwysi unplyg yw gwyro tuag at efengylu. Hynny yw, tuag at ddehongli a datgan yr efengyl i golledigion. Dyma alwedigaeth arbenigol. Fe'n cawn ein hun mewn cymdeithas weddol denau o ran dysgeidiaeth grefyddol, amgylchfyd lle y mae cryn gyfran o'r boblogaeth yn ymdroi'n isymwybodol amddifad o'u cyd-destun ysbrydol. Ceir tuedd ynddynt i feddwl y gorau y gallant amdanynt eu hunain ac i gartwneiddio crediniaeth. Nid yw eu pellter oddi wrth berthynas bersonol â Duw yn eu blino fawr o ddim. Does dim llawer o'r dimensiwn goruwchnaturiol o fywyd yn brofiad ystyrion iddynt. Dieithrwch i lawer, wrth reswm, yw sylwedd yr Efengyl sy'n sôn am bechod gwreiddiol yn erbyn Duw, yr esboniad o'r drwg sydd yn eu natur – y balchder, yr hunanoldeb, a'r gwrthryfel cynhenid yn erbyn person

Duw. Dieithr hefyd i anghredadun y posibilrwydd o iawn a chymod rhwng dyn sy'n farw yn ysbrydol ac yn wrthwynebus fewnol yn erbyn Duw, â'r Duw anfeidrol bersonol hwnnw. Mae'r crud llawn neu enedigaeth un o'r Drindod yn ein plith yn gymaint o dramgwydd â'r Bedd Gwag. Mae'r syniad y gallai'r person dynol dderbyn modd i gael adferiad o gyswllt bywiol a hardd a daionus â'i Greawdwr yn gwbl estron. Mae pregethwyr Efengyl, wrth gwrs, yn ymwybod â'r angen ysol i ddangos sut y gwneir hynny. Mae'r ffaith y gellid derbyn dieithryn o'r fath yn ôl i'r teulu dwyfol am byth yn ymddangos yn bur denau o ran ystyr i berson seciwlar ei fryd. Mae'r posibilrwydd goruwchnaturiol y byddai'n gallu wedyn ogoneddu Duw mewn meddwl, gair a gweithred megis ym mryd pagan fel pe byddid yn sôn am fyd arall. Ac felly y mae hi wrth gwrs. Byd cwbl arall yw hwnnw. Dyna'r calonnau yr ymunir â hwy'n ymarferol feunyddiol. Pa amser sydd felly i ddiwylliant Cristnogol?

Mae yna dasg go enfawr yn wynebu'r Cristion sydd eisoes wedi derbyn tystiolaeth fywiol anffaeledig o'r gwirioneddau hyn: cyflwyno dysgeidiaeth sydd bellach yn gwbl groes a gwrthun i natur yr ysbryd marw. Dyna ddigon o waith i lethu a llenwi amser a meddwl pob cenhadwr.

Beth, felly, am fywyd a gwaith y sawl sydd bellach wedi'i oleuo a'i dderbyn a dod yn Gristion, ac yn eiddo cadwedig i Dduw? Pa fath o fywyd sy'n agor i hwnnw? Ai gorchwyl i'r pregethwr a'r athro a'r arweinydd diwygiedig efengylaidd yw trafod hyn? Oni ellid gadael hyn i'r lleygwr ei hun drwy weithio allan ei iachawdwriaeth yn ymarferol? Mae yna ddigon o leygwyr a ddylai ystyried y materion hyn. Hynny yw, a yw tasg y pregethwr yn ddeuol – cyflwyno'r efengyl i ddieithriaid neu anwybodusion neu elynion yn gyntaf – ac ochr yn ochr â hynny egluro bywyd a ffydd yn ei lawnder Gristnogol ar ei hyd yn ei holl gyfoeth i'w braidd newynog. Onid her afreal yw dwyn gogoniant Duw i glyw pobl Dduw eu hunain yn ogystal ag i'r gwrandawyr di-Dduw gyda'i holl berthnasoldeb llawn?

Ie. Ond gwaith i bob Cristion yw'r ddeuliaeth hon, sef argyhoeddi ac adeiladu, nid i genhadon ac i arbenigwyr yn unig. Dyma gydbwysedd tystiolaethu am fywyd llawn y Cristion. Nid oes yr un Cristion nad yw hefyd yn offeiriad, yn broffwyd, ac yn frenin i Dduw o ran swyddogaethau. Mae pobun yn gyfrifol am lawnder diwylliant o funud i funud, ac am gydnabod Penarglwyddiaeth ymarferol Duw.

Eto, rhennir y doniau a'r galwadau yn wahanol ymhlith arweinwyr a lleygwyr. Ysgrifennu'r wyf i fel lleygwr llipa. A'r her i ni yw peidio ag osgoi llawnder y bywyd Cristnogol, saith diwrnod yr wythnos ym mhob man, bob modfedd, bob eiliad, gan ystyried hefyd sut y gellir bod yn Gristion cyflawn mewn swydd, mewn cylchoedd cymdeithasol gwahanol – teulu, fel dinesydd, gyda chyfeillion a chydweithwyr, gerbron y dasg o diwyllio'r ddaear, bob amser o dan lygad cariadus Duw. Dyna sancteiddhad.

Hynny yw, nid trafod yr addoliad neilltuedig o Dduw yr ydym o gwbl. Nid trafod gwaith yr eglwys leol fel sefydliad. Nid trafod yr ydys yn benodol yr alwad i weddio, yr angen i fyfyrion ar bob gwedd ar y datguddaid ysgrythurol o berson Duw er mwyn ei adnabod yn well. Nid oes a wnelo hyn yn uniongyrchol yn awr â'r ordinhadau o fedydd na'r swper olaf. Nis oes a wnelo â phregeth eiriol sy'n cyhoeddi'r efengyl newydd i neb. Y cwestiwn sy'n codi yn syml yw tystiolaethu bod a wnelo ewyllys Duw â bywydau'i blant ym mhob gwedd ymarferol ar hyd eu hoes.

Beth sydd a wnelo Crist â phob tamaid o'n hamser a'n gofod ar ôl ymadael â moddion gras yr eglwys leol, a mynd allan i'r byd mawr i fyw, i gyfathrebu, i astudio, i lafurio, i orffwys, ac i chwarae? Beth a datguddir i ni a pha arweiniad a rydd Duw i ni ynglŷn â'n diwylliant benbwygilydd – yn ein gwaith, y celfyddydau, y gwyddorau, masnach a diwydiant, gwleidyddiaeth a hamdden – y drefn gymdeithasol a'r economi, a'r holl gylchoedd ymarferol i bobl gydweithio – megis y teulu, y wladwriaeth, y clwb, neu'r tîm, y dosbarth neu'r swyddfa, y ffatri neu'r stiwdio, yr undeb neu'r blaidd, beth bynnag?

Ai'r hyn a fyn pietistiaeth gennym yw ymneilltuo, holli bywyd, cuddio'n pennau, peidio ag ymddiddori'n ormodol, bodloni ar yr ymylon? Myn y pietist i bob golwg ein rhybuddio ynghylch yr obsesiwn o euogrwydd efallai wrth ymhél â deniadau'r llawr fel pe bai'n wastraff amser. Ond os yw'n Gristion, mae ganddo gryn broblem.

Un duedd anffodus sy'n rhan o'r adeiledd seicolegol pietistig yw'r hen arferiad o ddisgwyl neu o ddymuno moeswers mewn celfyddyd. Rywfodd, credir nad yw'r mwynhad synhwyrus syml o stori ddifyr neu o gymeriad diddorol, o sain, o liw, neu o ffurf, ddim yn ddigon o fwynhad os nad oes yna estyniad dysgeidiaeth: gwers. Mae hyn yn arbennig o niweidiol yn y celfyddydau. Ac y mae hyn yn rhyfedd, gan y caiff rhai pobl o'r fath fod gweithio yn yr ardd yn bleser syml. Neu fe gânt ddiddanwch wrth ymhel â chyweirio car, neu wrth edrych ar dai a dodrefn. Yn wir, ceir pob math o ddefnydd

dychmyglon a chorfforol a synhwyrus lle y mae parodrwydd i fwynhau'r greadigaeth. Ond pan lithrir i fyd dychmyglon a diwylliol llenyddiaeth, y mae llythrenogrwydd wrthi, neu 'realaeth' fel y'i gelwir, neu rinweddoldeb moesol; ac ni werthfawroga'r crebachedig ddaioni'r esthetig. A'r mwynhad hwnnw, mewn gwirionedd, yw'r 'wers'.

Mewn estheteg, ceir rhagoriaeth dechnegol hardd a chain. Dyma wedd sy'n wir am lenyddiaeth ysgafn a seml ac mewn llenyddiaeth sy'n fwy solet. Dyma yn y diwedd a rydd undod i ystyriaethau beirniadol.

Ceir hefyd ddeallusrwydd a chynnwys y gellir ei barchu o ran sylwedd. Ni raid cytuno â hyn, ond gellir ei ddeall a gwerthfawrogi cydwead a phraffter yr ystyru. Yma, fe geir gwirediad, medr a gonestrwydd y gwaith ei hun, a gynhyrchir i gyfleu'r hyn sydd gan y llenor neu'r artist yn ei grebwyll.

Gellir yn wir roi gormod o bwyslais ar bedwerydd ffactor – 'Cytundeb' – â'r neges. Os cyflawnir y tri ffactor cyntaf gyda meistrolaeth, fe ddylai fod yn bosibl gwerthfawrogi llenyddiaeth ac eto gredu bod cynnwys y neges, er yn anghywir, yn ddidwyll greadigol i rywun. Hynny yw, fel y gallwn anghytuno â dyn y cyfarfyddwn ag ef, eto gydnabod ei ddynoliaeth a pharchu ei gymhellion a'i allu, ie a'i weledigaeth, felly gyda llenor. Gall hwnnw fod yn athrylith, ac oni werthfawrogwn hynny (os yw'n wir) mae ein dealltwriaeth a'n pleser o lenyddiaeth y byd wedi'u crebachu'n enbyd. Yr harmoni yna yw'r gwerthfawrogiad.

Weithiau, bid siŵr gall rhagdybiau a sylfeini athrawiaethol celfydd fod mor negyddol a di-sail nes difwyno'r llenyddiaeth a gynhyrchir ar eu sail. Mater arall yw hynny. Dichon ei bod yn drendi. Dichon fod pwysau ar feirniaid gan bob math o rymusterau *à la mode*, grymusterau ffasiynol meddyliol, hyd yn oed grymusterau hysbysebwl, ariannol, soffistigedig. Ond os yw'r llenyddiaeth yn wag yn y canol, y mae'n bwysig meithrin digon o ruddin ac o gymeriad, i wrthod y sothach. A dweud hynny. A dweud pam.

*

*

*

Ceisiodd y cerddor John Cage sylfaenu ei gerddoriaeth ar yr athrawiaeth mai siawns oedd hanfod bywyd. Fel Jackson Pollock mewn arlunio, dyfeisiodd Cage fethod o esgor ar hap. Amhersonol oedd y gymysgfa a gynhyrchid, a cheisid ei chyfiawnhau'n ddeallol. Ond roedd gan Cage hobi, sef astudio a chasglu madarch (*mycoleg* yw teitl

technegol y pwnc). A da y dywedai Schaeffer pe bai Cage wedi mynd i'r goedwig gyda'r athrawiaeth hon o siawns a dechrau hel madarch ar siawns, ymhen ychydig o ddyddiau ni byddai'r un siawns i'r un Cage fod ar dir y byw. Dibynnai Cage – a'i ddillad, a'i dŷ, a'i gar, a'i fwyd, a'i agwedd at foesoldeb, a'i economi, a'i iechyd, a'i gynhaliaeth, a'i gyfraith gwlad, a'i ddŵr, a'i iaith, ynghyd â'i feddwl (am siawns) – ar drefn bendant ddi-siawns a amgylchai bob siawns faldodus. Dibynnai ar galon go bendant ac ar gyfundrefn nerfol weddol daclus. A heblaw ei amgylchiadau, roedd ganddo ddynoldeb rhoddedig.

Cerddor pwysicach na Cage oedd Schoenberg. Ond hudwyd ef yn ormodol gan anorffennedd. Mewn cerddoriaeth y mae Schoenberg (1874-1951) wedi dyfeisio y cyfuniad deuddeg nodyn lle y derbynnir amrywiaeth di-ben-draw heb gwllwm, o'i gyferbynnu â Bach a arddelai sail ysgrythurol, a'i gerddoriaeth yn tynnu tua'r cwlwm yn undod. Roedd perfedd cerddoriaeth Schoenberg yn hunanladdiol, ac yn rhedeg i'r tywod.

Er hynny, fel mynegiant o oes a redai i'r tywod yn feddyliol, onid oedd yn gywir hefyd bid siŵr? Pwysig odiaeth, gredaf i, oedd corffori'r chwalfa a'r cyfwng. Roedd eisiau ei dweud hi. Ond fel mynegiant llawn ac fel sylfaen i gelfyddyd aeddfed gynhwysfawr, nid oedd iddi ond rychwant emosiynol a phersonol cyfyngedig.

Dyna pam y mae'n bwysig bod yn ofalus wrth sôn am Gyfiawnhad drwy Ffydd. Nid ffydd neu gredu yw'r sail, ond cynnwys y ffydd. Gwaith gorffenedig Crist ar y Groes yw sylfaen cyfiawnhad. *Drwy* gynnwys y ffydd y daw nerth gweithred Crist, mae'n wir, ond oddi wrtho Ef y mae. Y person gwrthrychol yw achos Cyfiawnhad.

Ceir absoliwtiau mewn bodolaeth, moesau a gwybodaeth. A hynny sy'n sicrhau'r catholigrwydd sydd mewn dynoliaeth. Ond nid pob absoliwt yw'r Absoliwt.

Yn awr, gŵyr pob efengyllydd sut y mae'r gŵr naturiol o anghredadun yn debyg o ymddwyn. Ymddengys fod patrwm y byd o gydymffurfio â'r Cwmp yn weddol ragweladwy o ran ei brif briodoleddau. Ond dylid crybwyll spesimen yn awr, her arall, a brawd sy'n benblethol o lethol. Sut y mae'r Cwmp yn patrymu bywyd y Pietist? Sôn yr ŷm am Gristion go gywir, un sy'n meddu ar amryfal rinweddau disgwylidig efallai – difrifwch, parch, awydd am lendid, a chryn ymroddiad i rai o brif ddyletswyddau'r efengyl. Ymhyfryda mewn harddwch, ac eto mae'n ddiwylliannol annheilwng yn ei fywyd. Gall fod 'ar-wahân' Canys mae'n osgoi bod yng nghanol yr arena. Gwahana'r cylch crefyddol oddi wrth y byd 'real'. Ond mae'n camgymryd penarglwyddiaeth Duw o

ran rhychwant ymarferol. Mae'n camddeall y 'byd'. Bychana ddiwylliant. A cheir o ganlyniad ddwy nodwedd reit wrth-ffrwythol mewn rhai ffyrdd i lethu'i fywyd.

Tuedda tuag at asgetigiaeth o ran diddanwch y synhwyrau a mwynhad amddifad syml o fywyd. Gall wgu o'r herwydd ar hiwmor a chwarae. Cofiwn am Howell Harris yn ceryddu Pantycelyn a Daniel Rowland am chwerthin. Wedi'r cwbl, mater difrif yw'r bywyd hwn mewn byd sy'n llawn o lygredd a thristwch. Cysgodir felly rhag naturioldeb iach. A gall hynny olygu ymneilltuo rhag bywyd garw yr efengyl. Collir gwydnwch garw Paul a rhai o'r proffwydi. Arweiniai hyn oll at orbarchusrwydd propor, mindlynsni sychdduwiol, a hyd yn oed hunangosbi 'gwneud' asgetig.

Yna, daw'r duedd *farnedigol* i'n baglu, sef y baich i 'bobl eraill' fabwysiadu patrwm o ymddygiad, peth a all fod yn briodol o'i wneud yn hydeiml, yn ostyngedig, ac yn hunanfeirniadol. Yn rhy aml, y mae hunangyfiawnder (oherwydd diffyg ymwybod o drylwyredd personol pechod) yn ymddyrchafu a magu parodrwydd i weld bai ac i gondemnio. Mae'n ddiddorol ac yn drist, i sylwi fel y mae hollti diwylliant a chrefydd yn fynych wedi arwain nid yn unig at sarhau hawliau Duw, ond at hollti bywyd yr hunan. Gall rhywun hynod rinweddol gael gormod o flas ar lygadu diffygion eraill. Yn fynych, cyfyngir yr ymwybod o bechod i gylch cartwnaidd o ddrygau. Gellir yn ddjarwybod anwybyddu balchder, hunanoldeb, a malais, a gorbwysleisio drygedd rhyw. Ond mae'r drwg yn athrylith amlochrog, ac nid yw'n hoffi'i chwilio ei hun o ddifri.

*

*

*

Mae'n deg ddigon cofio yr un pryd â'n hunanfeirniadaeth am y syniad mwy cyffredin ymhlith efengyleiddwyr am Sancteiddhad, heb ymdroi gyda'r newyddiadurol. Dyma'r ymdrech a'r gras a roddir i ufuddhau i'r gorchmynion; i fod yn Gristnogol eirwir ac yn Gristnogol onest, yn ostyngedig ac yn garedig er gogoniant i Dduw, yn ddiwyd ac yn lletygar er clod i Grist, yn weddigar ac yn haelfrydig, yn ddiwair ac yn deulugar. Darlennir y Gair hefyd a meithrinnir myfyrdod ac awydd i garu a gwasanaethu. Mynychir moddion Gras. Rhyw fath o sancteiddhad domestig yw hyn oll, ac y mae'n ganolog ymarferol. Ond y mae a wnelo diwylliant cyffredinol – gwleidyddiaeth a diddanwch, y celfyddydau a'r gwyddorau, a gwaith beunyddiol, sef lled ein cyfrifoldebau a'n diddordebau bob dydd drwy'r greadigaeth, hefyd â sancteiddhad. Ym mha ffordd y mae a wnelo Cristnogaeth â hyn? Onid mewn cornel y saif yr efengyl, ac oni adewir pob

dim arall i'r ochr arall? Cofiwn yr hen briwritaniaid. Gellir camfarnu Ffurfiâu Ffilm a Theatr, o bryd i'w gilydd: teimlir bod y rhain mewn rhai cyfnodau yn tueddu i fynd yn nihilistig ac yn anllad, yn bropaganda dros ffeidd-dra. Oni ddylid eu gadael ac ymneilltuo? Yna, dawns, onid dyna faes arall a glymir yn gyfan gwbl wrth anniweirdeb? Onid yw'n briodol felly i honno gael ei gadael? Bu sôn am rywrai ers talwm a wgai ar 'chwarae'. Onid ar hyd llwybr imperialaidd felly y mae'r 'byd' yn meddiannu pobman, oni ofelir. Pa beth a wnawn? Ai iawn ymneilltuo cyn gynted ag y daw'r gelyn yn fwyafrif? Ynteu ai ein gwaith yw aros, meddiannu, ymosod, a ninnau'n 'fychain' ac yn ychydig?

Y gwir yw: y mae pob dim yn eiddo i'r Cristion. Mae'n agored i wynebu pob dim. Mae ganddo yntau ymerodraeth. Y peth cyntaf yw ffurfio'r meddwl ar hyn, ac yna benderfynu o fewn gostyngeddwydd y cyfyngiadau personol eithafol, i wneud rhywbeth bach yn unol â'r weledigaeth Gristnogol am Sancteiddhad. Y mae'r Cristion i fod i feddiannu'r cwbl dros Grist, oherwydd Penarglwyddiaeth Duw a chynhwysfawredd Mawl. '*Pa beth bynnag a wneler, gwneler i Dduw ac nid i ddynion,*' Eto, cofier y cyfannu. Tro mewn bywyd yw Cyfiawnhad, twf yw Sancteiddhad. Cyfiawnhad yw'r cam cyntaf mewn hadu Sancteiddhad. Mae a wnelo Cyfiawnhad â chyfrif rhywun yn gyfiawn a gweithio cyfiawnder ynddo. Ansawdd a statws sy'n eiddo i Dduw yw cyfiawnder, ansawdd ac iddo arlliw moesol; fe'i cyfrifir i'r sawl sydd yng Nghrist. Ansawdd dwyfol eto yw Sancteiddrwydd; ond tyfu a wna i'r sawl sydd yng Nghrist. Gras yn gweithredu ac yn ffrwythloni ydyw mewn dyn.

Drwy ffydd y'i cyfiawnheir; ond ffydd gariadus yw natur y ffydd Gristnogol, ac felly try oddi wrth fendith 'noeth' tuag at ufudd-dod llawn. Drwy syrthio mewn cariad ag Iesu Grist y ceir ffydd, ond ffydd yw sy'n dymuno ac yn ewyllysio caru. (Ceir llawer math o 'ffydd', gan gynnwys yr Ego Trosgynnol wrth gwrs). Ffydd sy'n caru Arall ac eraill yw ffydd y Cristion. A Chyfiawnder Duw sy'n sancteiddio.

Rhaid deall yr ymadrodd *sola fide* yng nghyd-destun yr ymgais wrthgyferbyniol i bleidio gweithredoedd dynol sy'n ennill iachawdwriaeth. Y mae ffydd a gweithredoedd yn gadarn gysylltiedig; eithr ffydd yn unig yw sy'n derbyn y fendith neu'r iachawdwriaeth yn gynhwysol, sef â dwylo gwag, nid dim a ddaw *gyda'r* ffydd. Ac eto, undod ydyw. Meddai Calfin [*Institution* III, xi, 20]: 'Cydabyddwn yn wir gyda Paul mai'r unig ffydd sy'n cyfiawnhau yw'r un sy'n gweithio drwy gariad (Gal. 5:1); ond nid cariad sy'n rhoi

iddi ei gallu cyfiawnhaol.' Ac eto [ibid. III, xvi. 1] 'Nid yw Crist, felly, yn cyfiawnhau'r un dyn heb hefyd ei sancteiddio.' Ffydd mewn cymdeithas yng nghariad Crist yw'r ffydd Gristnogol, felly, nid ffydd sy'n eistedd yn ôl. Gyda'r ffydd honno y mae anadl einioes, meddwl, teimlad ac ewyllys, ynghyd â chariad a gobaith; ond drwy'r ffydd yn unig y'n cyfiawnheir, er mwyn ein sancteiddio. Dyma'r athroniaeth am ddiwylliant a oedd yn sylfaen i'r Diwygiad Protestannaidd a'r Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru, megis i Fudiad Efengylaidd eiddil yr ugeinfed ganrif.

Beth yw prif broblem tystiolaethu Cristnogol y dyddiau hyn? Hawdd tybied mai blaenoriaeth y sefydliad yw rhedeg ar ôl erthylu, ordeinio merched, condemnio gwrywgydiaeth, a thrafod pa mor llythrennol y mae pob gair yn Genesis I, ac yn y blaen.

Mae'n bwysig ymhlith Cristnogion, ac yn hanfodol ar gyfer rhai wrth gwrs sydd heb fod yn Gristnogion, i ddatgan Iachawdwriaeth ac Aileni, Cyfiawnhad a dod i'r bywyd. Ond y mae'n hanfodol hefyd i Gristnogion ac yn bwysig i rai sydd heb fod yn Gristnogion eu bod hwy'n clywed am *Sancteiddhad* gan fod hwnnw hefyd yn wedd ar obaith Diwylliant. Ble mae Cyfiawnhad yn arwain? Mae'n symud tua chyflawnder cyfoethog y bywyd Cristnogol diwylliedig. Hyd yn oed i anghredinwyr, y mae cyflawnder y darlun o'r bywyd Cristnogol yn help i ateb y cwestiwn *pam*. Mae Sancteiddhad yn golygu sôn am gyflawnder ymarferol byd y Cristion o ddydd i ddydd tan y diwedd. I hyn oll y mae Cyfiawnhad yn arwain. Dyma obaith go aruthr.

Dyma mewn gwirionedd brif broblem y Cristion ymarferol, a'r cyfrwng sydd ganddo i'w fynegi yw Mawl: i gadw golwg cyn belled ag sy'n bosibl ar gyflawnder yr Efengyl. Dyma wedd groywlan hefyd ar Ogoniant Duw a dyn.

* * *

Pan ddechreuais ers talwm ymddiddori yn niwylliant Cymru, yn llencyn plorynnog estron, yr oeddwn wedi disgwyl y byddai'n weddol debyg i bob gwlad arall ac ynddi iaith arall. Ni syniwn y buasai'n meddu ar swyn ychwanegol a chyfrifol. Ni ddisgwyliwn gael ei gysylltu â man benodol a'r fan honno yn ystyrllon leol i *mi*, yn hytrach nag â 'dynoliaeth nac â'r byd i gyd' yn unig. Ni ddisgwyliwn y byddwn byth yn darganfod gwlad o dan fy nhrwyn a fyddai'n gwbl wahanol o ran ysbrydoledd ei DNA i ddim y gwyddwn amdano. Wrth ymgymryd â'r fath ddiddordeb esoterig â diwylliant gwlad gyfan real, – pe nad efrydaswn ond y cyfnod o'r unfed ganrif ar bymtheg hyd

heddiw, – gwelwn yn fuan y buasai a fynnai wrth ddarllen llenyddiaeth Gymraeg â meddwl cenedlaethol a oedd yn llawn dop o Gristnogaeth, hyd at gwmp sydyn diweddar. Dyma'r hyn a oedd mor Ewropeaidd â dim yng Nghymru. Dyma hefyd godi cwesytiynau a oedd yn ddeallol ac yn bersonol fyw bydeang yn ein gorffennol. Wrth imi fynd ymlaen i efrydu llenyddiaeth Gymraeg – yn arbennig *ar ôl* dyddiau myfyriwr Prifysgol pryd yr oedd pethau felly'n swyddogol ofynnol – deawn wyneb yn wyneb beunydd â phobl od a galluog efengylaidd yr oedd dimensiwn arall i'w bywyd heblaw'r un syml, empeiraidd, allanol. Gorfu imi feddwl am Gymreictod yng ngoleuni Cristnogaeth. A llenorion Cristnogol diweddar megis Saunders, Waldo, Euros, a llu o efengyleiddwyr drwy'r oesoedd. Mae'n wir fod rhai'n tybied fod yna awduron Cymraeg 'Cristnogol' a oedd yn gymharol ddof eu profiad. Ni feddent oll ar y wreichionen fyw, wrth gwrs. Fframwaith rhesymol dynol oedd Cristnogaeth iddynt. Amgylchfyd diwylliannol ydoedd: dyma iddynt yr esboniad gorau y gellid ei gael ar bwrpas a threfn dyn a'i fyd. Ond nid felly yr oedd bob tro o bell ffordd. Yn wir, at ei gilydd yr oedd amryw o sêr llenyddiaeth fodern yn ystod y cyfnod rhwng yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed yn bobl a amgyffredai brofiad arall, llawnach, dwysach na Seciwlariaeth, profiad a ymwnâi â'r holl bersonoliaeth, profiad o gyfarfyddiad afieithus ond cytbwys. O'm rhan i, testun deallol gynt oedd hyd yn oed hynny hefyd; ond parai imi bendroni. Ac eto, nid oedd yn destun deallol i'w gymryd yn gyfan gwbl ysgafn. Ceisiwn ddirnad rhywfaint ar ei natur, heb lwyddiant, a heb sylweddoli'r aflwyddiant chwaith. A deuthum fwyfwy i sylweddoli blaenoriaeth anochel yr Absoliwt yn y darlun llawn. Eto, pan fynychwn leoedd addoliad gynt, pan ddarllenwn y gweithiau deallol amdano, ymhél â 'diwylliant' yr oeddwn. A rhan o ddiwylliant oedd crefydd i mi. Nid awn i'r lleoedd hyn nac efrydu'r cyfrolau hyn er mwyn cyfarfod â Duw personol o bethau'r byd. Pe bawn yn gwybod fod Duw yn disgwyl amdanaf y tu ôl i'r cornel ac yn barod i ymafaelyd ynof yn unigol, byddwn wedi ffoi i'r dafarn agosaf gynted ag y gallwn. Ac fe'm claddwn fy hun mewn hedonistiaeth ddiogel.

Felly y caniatawyd i mi fynd linc-di-lonc o fewn cyrraedd Gair Duw yn ddiniwed ddidramgwydd. Onid chwilio am Gymru yr oeddwn? Ceisio adnabod y wlad fechan hynod gyfoethog hon, dyna'r cwbl. Y wlad frodorol alltud. Yr wrthodedig ymhlith gwledydd. Dyna ddigon o goflaid i unrhyw un mewn storm Awst. Ond yn fy ymchwil am

Gymru ddilys yr oeddwn hefyd wedi dod o hyd i rywbeth llawer llai, sef i mi fy hun; ond roeddwn i hefyd, er gwaetha'r ymgais yn fynych i chwilio yn y lle anghywir, wedi dod o hyd hefyd i rywun llawer mwy, sef i'r Crëwr-Atgyfodwr ei hun. Hwnnw a ddarfu beri mai dechreuad fyddai diwedd y daith ddiwyllianol hon, Un a oedd yn bleth drwy Gymru.

I mi, yr oedd yr ymrwymiad Cymraeg yn dynodi aeddfedu o fod yn fachgen i fod yn oedolyn. Aeth heibio hunanfodlonrwydd clyd crwtyn seciwlar. Ond o fewn sillaf Seisnig o Gaerdydd yr oedd ystyr Gymraeg wedi disgyn arnaf mwyach. Angorwyd y gwirionedd yn y ddaear fwyfwy oherwydd gweddillion yn naear y wlad.

Eto, ni chyrhaeddwn byth mo'r gwladgarwch a fynegai Paul yn *Rhufeiniaid* 9: 4, '*Gallwn ddymuno i mi fy hunan fod dan felltith, ac yn ysgymun oddi wrth Grist, pe bai hynny o les iddynt hwy, fy mhobl i o ran cenedl.*'

Ond hyn a'm perswadiai, er gwaethaf yr amrywebau, fod yna'r fath beth ag 'Ysbryd y Cwlwm.' Camgymeriad arall a wnawn oedd tybied mai teimlad oedd y troi Protestannaidd. Dyma gwestiwn mwy cymhleth am fod a wnelo â chymhlethdod y bersonoliaeth ddynol. Yn fras, gellid honni mai yn y meddwl y dechreua pob tröedigaeth, drwy sylweddoli gwirionedd. Gall y gwirionedd hwnnw fod yn fân. Ond allan o'r gydnabyddiaeth honno y tardda unrhyw deimlad a deall sy'n dilyn. Ni ddibynna er hynny ar drai a llanw cynhesrwydd. Wedi dod yn eiddo i Grist o ddifri, nid oes colli ar yr afael honno. Gellir llithro o fewn Gras, ond nid allan o Ras. Mae'r cyswllt yn un o dan y ddeddf, drwy Ras. Mae'r gwrthrychol yn oddrychol. Ildio, ymostwng, gwendid, dibyniaeth, ac yna ffrwytho o fath, dyna'r nodweddion a fabwysiaada ef. Dyna ymrwymo hefyd. Math o garchar rhydd yw i bob cynneddf, a'r lle olaf i fod yn smyg.

Ar y ddaear hon, nid oes diwedd ar y cynio a'r morthwylio, y cnocio a'r torri. Mae'r hyn a elwir yn 'Sancteiddio' ym maes Diwylliant yn golygu bob amser, – yn ogystal â'r adeiladu gorgaredig, – negyddu aml a ffyrnig hefyd. Mae'r rhagddodiad 'di' mewn Diwylliant cymdeithasol ac unigol yn cwmpasu proses fygythiol a digymrodedd.

Ni cheir byth gymdeithas Iwtopaidd, wrth gwrs. Sylfaenir gwleidyddiaeth ar y pechod gwreiddiol ac ar awydd i ymgyrraedd a threfnu, boed yn seciwlar neu'n Gristnogol. Mae'r ymgyrraedd sydd yna yn gallu tarddu o gydwybod foesol seciwlar neu o ras a dardda o'r Ysbryd Glân ac iachawdwriaeth. Gellir fel petai ymdeimlo â

dynwarediad o'r Ysbryd Glân neu o waith yr Ysbryd. Ond hunan-dwyll yw tybio bod y dynol amddifad yn meddu ar ddirgelwch cyflawniad twf sanctaidd oddi allan.

Yng ngardd diwylliant, tyf sancteiddhad o had Iesu Grist:

Planna'r egwyddorion hynny

Yn fy enaid bob yr un,

Ag sydd megis peraroglau

Yn dy natur Di dy Hun:

Blodau hyfryd

Fo'n disgleirio daer a nef.

10. SYNŃWYR O DDUW:

I BAWB

Beth sy'n gwneud 'y Synnwyr o Dduw'?

Elfen mewn Gras Cyffredinol yw.

A Gras dilys a dwyfol yw Gras Cyffredinol: y mae 'Gras' yn golygu'n gyntaf fod Duw ar waith trwyddo, a 'Cyffredinol' yn golygu bod pawb normal iach, yn hwyr neu'n hwyrach, yn ei brofi. Un wedd yw'r ymwybod rhoddedig o fodolaeth Duw. Diesgus ydym o'r herwydd felly. Gwybodaeth *am* Dduw ac *o* Dduw yw'r Synnwyr o Dduw. Sonia Paul am hyn. Gŵyr y dyn naturiol yn y bôn ei fod yn greadur i Dduw ac yn gyfrifol ger Ei fron, a'i fod wedi mynd ar wahân. (Rhuf. 1: 19-20). Gall llawer o bethau ysgogi'r Gwybod hwn. Rhyfeddod y Greadigaeth, darllen, clywed pregethiad yr efengyl, a llawer iawn o bethau eraill – rhai go od ac ymddangosiadol amherthnasol. Nid gwybodaeth achubol yw hyn; ond ni ddylid ei bychanu o'r herwydd. Ymwybod a Chydwbybod yw.

Pan feddyliwn am Ras Arbennig, ar y llaw arall, credwn fod yr Ysbryd Glân bob amser ar waith yn achubol. Mae'r ysbryd dynol yn deffro. Ceir perthynas unol rhwng dyn a Duw, edifeirwch dyn a maddeuant Duw, a bywyd tragwyddol. Gwahanol felly yw Gras Cyffredinol a'r Synnwyr o Dduw. Profir y ddau hyn gan Gredadun ac Anghredadun. Y maent yn gyffredinol arwyddocaol yn ein diwylliant, megis doniau naturiol. Hynny yw, y mae'r seciwlaryn yntau yn rhannu'r profiad hwn â'r credadun, er nad yw'n rhoi cymaint o sylw iddo â'r credadun. Fe all y seciwlaryn ar y llaw arall, yn ei ymdrech i dagu'r wybodaeth hon ymladd yn ingol yn ei herbyn. Ac eto, fe all wybod cyffyrddiadau ysbrydol ym mhob math o amgylchiadau. Hyn, yn wir, fu profiad y llenorion mwyaf na ddaethant yn Gristnogion. Sonient weithiau am Awen, neu ysbrydoliaeth, neu ymwybod o ynni mewdol nad yw'n normal. Os felly, annheg efallai eu hystyried yn seciwlaryn rhonc. Yr wyf yn amheus iawn o'r term 'seciwlaryn' beth bynnag, os yw pobun yn ymwybod â gwedd oruwchnaturiol o fywyd ac yn ymwneud â doniau a darddodd yn Nuw.

Ambell waith, yn yr ugeinfed ganrif ceid llenorion amlwg problematig neu enigmatig o safbwynt eu crefydd. Sgeptigwr yn chwilio am ei ffydd oedd Miguel de Unamuno, un o lenorion mwyaf Sbaen. Eto, lluniodd un o'r cerddi crefyddol godidocaf yn Sbaeneg, *El Cristo de Velázquez*. Yn ei 'nofel-gerdd' *San Manuel Buenod Martir*, ei

waith creadigol pwysicaf, mae ef yn ymlafnio'n dreiddgar â phroblem anfarwoldeb, pwnc a aeth â'i fryd yn ei fyfyrddod rhyddiaith *Del Sentimiento Trágico de la Vida*, lle y mae'i syched am Dduw yn ingol. Math o hedonydd, hyd yn oed animist, oedd Nikos Kazantzakis (1882-1957). Yn sicr, nid Cristion mohono. Gellid dadlau mai ef oedd llenor blaenaf Groeg yn yr ugeinfed ganrif ar sail *Yr Odysei (Parhad)*, ei arwrgerdd anferth. Ond y mae ei nofel *Crist Wedi'i Ailgroeshoelio* yn adlewyrchu, ar gefndir Anatolaidd, gorddiad yr ymholydd ynghylch y gwreiddiau goruwchnaturiol bythol bresennol. Does neb yn ddi-Dduw.

A gellid ymhelaethu ynghylch llu o lenorion sy'n cael eu trafferthu gan yr un math o argyfwng. Ni allaf lai na synied mai'r Synnwyr o Dduw sy'n eu cwmpasu, hyd yn oed y tu hwnt i'r berthynas. Ond yr hyn a ddadleuwn yw nad oes neb yn byw heb 'grefydd'.

Ymddengys mai dyma fater y dylsid bod wedi'i grybwyll ar *ddechrau* cyfrol fel hon, ar ryw olwg. Mae mor elfennaidd. Y Synnwyr o Dduw yw'r gweddillion a erys yn ymwybod dyn wedi'r Cwmp – yn y gydwyl, yn y greadigaeth – sy'n peri bod pob dyn yn 'ddiesgus.' Erys digon o gyfle gan bawb i ymateb i'r her hon sydd gan Dduw i ddyn. Term Awstin (O.C. 356-434) amdani ydoedd 'Gras Cyffredinol'. Ac y mae ef yn sôn am y synnwyr hwn sydd megis hedyn yn disgwyl am yr Ysbryd Glân i'w aileni, a'i ddeffro i ffynnu yn y Gwirionedd cyffrous am Grist. Ond y mae gennyf reswm arbennig o blaid ei grybwyll fel hyn yn *niwedd* yr ymdriniaeth gyffredinol hon. Crybwyllais eisoes Ras Cyffredinol, ac fel y mae'r anghredadun yn derbyn yn rhad ac am ddim, yn gwbl ddihaeddiant, bob math o ddoniau a rhoddion. Gall ef ymuno'n llawn ac yn gyfartal ym mywyd diwylliant naturiol y byd oherwydd hyn. Sylwn ar sawl bardd seciwlar ac anghredinol. Gall ef fod yn ffrwythlon orchestol yn ei fawl. Gwn am ambell un, sydd yn cyrraedd copa llwyddiant naturiol, ac yna, fe â un cam ymhellach. Mae fel pe bai'r byd ysbrydol ei hun wedi cyffwrdd ag ef. Cafodd afael ar ddimensiwn mwy na'r bydol. Drwy ddychymyg, drwy ddilyn yn ffyddlon wirionedd yr awen, daeth cyffyrddiad sy'n fwy o lawer na dawnusrwydd crebwyll. Cafwyd sythwelediad neu dinc arall na ellir llai na chyfaddef bod hyn ei hun fel pe bai'n fendithiol, yn annisgwyl o lân, yn rhyfedd o sythweliadol. Gwelir ambell seciwlar yn sy'n amlwg yn mynd ymhellach na 'gwybod'.

Mae hyn yn digwydd. Hynny yw, rhaid gennyf i mai'r *sensus divinitatis* sydd gan bawb a fyn gyffwrdd â meddwl ac â medr ieithyddol llenor yn y fath fodd fel y mae bron

yn cerdded yr hanner milltir ychwanegol tragwyddol. Mae'r ysbrydol yn cynhyrfu'i gynnyrch fel y gall ymwneud â golwg yr wybren gyda gorfoledd neu'r 'coed ar fynydd sy'n bloeddio canu'. Gwaith yr ysbryd yw Gras Cyffrediol ei hun, er nad Gras Arbennig argyhoeddedig mohono hefyd fel arfer. Mae Gras Cyffredinol yn rhoi bywyd i'r ddaear megis i bobl ei hun, ar wahân o bosib i'r Gras Arbennig sydd ar waith yn ceisio perthynas dyn a Duw. Gwybod yw Gras Cyffredinol: adnabod-berthyn yw Gras Arbennig.

Yr arfer yw cysylltu *Sensus Divinitatis* â'r 'Gydwybod', mater a drafodwyd gan Forgan Llwyd yn helaeth. Dyma wedd ar yr amlygiad o Dduw sy'n ein gadael yn ddiesgus ger ei fron. Ond carwn grybwyll y wedd hon ar Ras Cyffredinol drwy gyfeirio at y 'Gydwybod' yng ngwaith Waldo. Wrth gwrs, enigma oedd Waldo, yn gymysgfa o uniongrededd ac anuniongrededd, y bardd a ganai er clod i'r Tystion Jehofa ac i'r Merthyron Pabyddol. Sonia am rywbeth mor anghrynwrol, gellid meddwl, â'r *Cwypmp* – ('Trwy chwys bwytei di ... gweled ein gwir a'n gwael, Myned o'i Heden hael. Ym mhob rhyw ardd ... Mae cwypmp yn cysgu ... methu â dysgu ... A'r cwypmp yn hyllach. Diwedd pob Eden hael – crwydro ymhellach ...' Dyna 'Cyrraedd yn ôl': cf. *Cân Bom*) Rhan o'r enigma ynddo yw'r optimist yn y pesimist, y gobeithlu a'r anobeithlu yn ei gerddi, y plentyn a'r gŵr hynod aeddfed, y myfyriwr anecdotal topicalaidd a'r athronydd treiddgar. Mae a wnelo'r Gydwybod â'r naill a'r llall. ('Cododd cydwybod hawl / Uwch yr ewyllys.') Ond yr wyf am gysylltu'i Gristnogaeth â'r ddwy dröedigaeth ryfedd a ddisgrifiai ef, y naill yn Rhan Gyntaf 'Tŷ Ddewi' a'r llall yn 'Mewn Dau Gae'. Mae'r ddwy'n ymwneud â phrofiadau ei lencyndod rhwng 8 a 10 oed. Mae'r ddwy'n delweddu gweledigaeth am Gristnogaeth sydd a fynno â deffroad ysbrydol wrth ganfod cariad dyn at gyd-ddyn: un o'r pennaf o'r athrawiaethau Cristnogol, ond nid y 'cynnwys' a gysylltir fel arfer â thröedigaeth brofedigaethol glasur. Mae'n burion fel arfer i fod yn sail 'credu' i ddyngarwyr dyneiddiol yr 'Efengyl' Gymdeithasol. Eto, gall Duw chwyldroi'r ysbryd hwn ymhellach a dihuno perthynas ddofn drwy'r cyffyrddiadau Cristnogol mwyaf annisgwyl.

Dyma'i dröedigaeth o ddyngarwch i Gristnogaeth; o adnabod nes bod Adnabod (cyfarfod yn troi'n berthyn); wedi'i arwain gan Awen y Bardd a luniodd y byd, o deimladrwydd i gynnwys; o'r amgylchfyd rhyddfrydol i orfodaeth y dewis gwir; o synnwyr o Dduw i ymostyngiad; gan aros yn enigma cynhwysol o hyd.

Yn Rhan I 'Tŷ Ddewi', mae Waldo'n sôn am weledigaeth ysbrydol a ddisgynnodd arno ar Garn Llidi. Dychmygu a wna Dewi yno, a hwnnw'n profi storm enaid a adleisiai yng nghalon y bardd yntau:

*Trwy storom enaid rhoist dy rym inni,
A thrwy'r storom heb siomi yr hedd rhwydd,
Hafan distawrwydd y dwfn dosturi.*

A fu Waldo'n darllen Madame Gouin yng nghyfieithiad Cowper cyn dweud hyn? A feddiannwyd y Synnwyr o Dduw gan weledigaeth Gristnogol o undod.

(Yn ôl Emyr Llywelyn mewn trafodaeth olau, roedd y storm yn tarddu o'r profiad yn ddeg oed o goll'i' chwaer agos Morfydd, a hithau'n ddeuddeg oed.)

Sonia am gyrraedd tangnefedd a buddugoliaeth Crist uwchlaw stormydd byd mewn disgrifiad allblyg a gwrthrychol, sydd hefyd yn oddrychol:

*Rhwygo'r cryfder yn weryd – a throi a hau
Braenar y bau i Brynwr y Bywyd ...
Daw dyn i'w gariad o dan Ei goron ...
Golch Ei fawl o gylch Ei fyd ...
Yn esgud wŷs i ddysgu Duw Iesu ...
Eithr fe gyfodes Iesu
O'r llwch â'i dywyllwch du.'*

Ni welaf lawer sy'n fwy uniongyrchol uniongred na hynny yng nghanol yr ugeinfed ganrif. Ac eto, gwêl realedd cysylltiad â'r ymwybod o Dduw yn gyffredinol drwy wead y ddaear: â'r hyn a adwaenir ers canrifoedd fel *sensus divinitatis*. 'Yn y newydd ffydd ni phaid / Hen degwch Brân Fendigaid.'

Tua'r un pryd â'r dröedigaeth hon ar Garn Llidi, cyflwynir ni i dröedigaeth arall, fwy mawreddog garismataidd, ar Weun Parc y Blawd a Parc y Blawd. Yno daw'r profiad yn fwy Pawlinaidd – 'môr goleuni ... yr eglurwr sydyn ... Dygai i mi y llonyddwch mawr [unwaith eto] ... Rhoddai i mi'r cyffro ... Pwy sydd [Y Duw personol] yn ymguddio ynghanol y geiriau? ... Tyst pob tyst, cof pob cof, hoedl pob hoedl ... Mawr oedd cydnaid calonnau wedi eu rhew rhyn, / Yr oedd rhyw ffynhonnau'n torri tua'r nefoedd / Ac yn syrthio'n ôl a'u dagrau fel dail pren ... Daw'r Brenin Alltud a'r brwyn yn hollti.' Unwaith eto, cysyllta ef y weledigaeth o Berson Crist â'r cariad at gyd-ddyn. Dyma Iesu sy'n

Dduw, dyma hollti'r bedd, dyma'r Prynwr. Dyma'r athrawiaeth brofedig a phersonol lachar sy'n drobwynt iddo mwyach ac yn gyswllt.

Nid wyf am ddilyn enigma Waldo ymhellach yn y fan hon; ond rhaid peidio â'i symleiddio. Credaf iddo – er gwaetha'r cefndir anuniongred – ddilyn yr Awen drwy lawer o'r union gred, a chydabod dilysrwydd ei brofiad, er bod hynny wedi'i arwain ar dro at eglurder Crist ein Duw, y Goruwchnaturiol, y deffro ysbrydol, yr Atgyfodiad, Cwyp a Barn. A ninnau, dilynwn ninnau ei farddoniaeth, ac nid unrhyw ddisgrifiadau wedyn gan feirniaid dyngarol 'ar wahân i'r digwyddiad', mewn gwaed oer gor-ragdybiol.

Dysgai ef hunan-feirniadaeth farddonol. Priodol cofio, yn y cyd-destun, nad oes neb oll ym marn Waldo yn berffaith mewn syniadaeth, profiadaeth, nac ymarfer defosiynol hyd at y gogoneddiad. A hynny er gwaethaf pob gwrthddywedyd. Gwarchod a gwareiddio'r greadigaeth syrthiedig hon yw swyddogaeth diwylliant. A gwneir hynny yn ddiwylliant Cristnogol er clod ac o ufudd-dod i gariad a threfn Duw. Ond bu Waldo'n byw mewn canrif adfeiliol yn ysbrydol. A chafodd mewn barddoniaeth awdurdod a'i codai uwchlaw'r oes honno a oedd yn llesg o sgeptig.

Ar ôl canrif o ddifaterwch go benderfynol ym maes Crefydd, yn ddiweddar dechreuodd credoau ysbrydol ledled y byd adennill cadernid o'r newydd. Gwaetha'r modd, tueddai hyn mewn gwledydd Asiaidd (ond nid yno'n unig) i droi fwyfwy tuag at ddulliau arfog o weithredu eto, adlewyrchai hyd yn oed hyn fath o sêl newydd. Yn sydyn, yn ddiweddar fe ymddangosai fel pe bai ambell grefydd wedi dechrau troi'n ôl at ryfel fel modd o amddiffyn ei ffordd o fyw ac o ennill tir.

Holir weithiau pam y mae amllder o grefyddau wedi digwydd o gwbl ac ar gael, pam yr anundod, a beth ddylai fod yr agwedd Gristnogol tuag atynt. I Waldo, yr oedd yr ymwybod o fath o undod yn obsesiwn athrawiaethol.

Credaf fod yr ateb i'n cwestiynau'n blwmp ac yn blaen. Tarddant mewn dwy ffynhonnell: (1) y Cwyp a (2) y Synnwyr o Dduw (*Sensus Divinitatis*) ac y mae'r ail yn wedd ar Ras i ddynoliaeth yn gyffredinol. Cred Cristnogion fod rhyw ymwybod o Dduw drwy fath o synnwyr a moesoldeb cynhenid yn eiddo i bawb, eithr ar ffurf syrthiedig. Ymyrrodd y Cwyp nid yn unig â'n perthynas â Duw, eithr hefyd ag eglurder ein dealltwriaeth ohono Ef, ein hawydd i fod yn ufudd iddo, ac â'n hargyhoeddiadau moesogol ac ymarferol. Felly y mae'r Cwyp yn treiddio drwy bob rhan o'n bodolaeth,

ac yn gwenwyno bywyd a meddwl. Hyn sy'n cyfrif na dderbyniwn yr un Duw yn union â'n gilydd, a pham y ceir anabledd i'w adnabod a'i wasanaethu'n naturiol. Ac eto, yr un pryd, rywle, rywle, mewn diwylliannau ledled y byd, ymdeimlir â *bodolaeth* Duw.

Mewn Cristnogaeth, credir bod y Gras neu'r abledd i ymateb i Dduw wedi dod i lawr yn gyfan gwbl oddi wrtho Ef: a'r gwrthodiad yn gyfrifoldeb i ddyn ei hun. Tuedda rhai crefyddau eraill, rhai dyn-ganolog, i ystyried mai oddi wrth ddynol ryw yn y pen draw y tardd yr hawl a'r gallu i ennill iachawdwriaeth drwy ein hymdrechion ein hun fel y mynnwn.

*

*

*

Gellid ceisio efallai'n gyntaf ddeall pwysigrwydd yr athrawiaeth am y Synnwyr o Dduw fel y cyntefigrwydd mwyaf elfennaidd mewn crefydd. Dyma'r hedyn a ddefnyddir i ddeall bod Duw yn bod o gwbl. Dyma'r gynneddf sy gan bob person, yr ysbryd canolog ymddangosiadol farw *a all fywhau*, i sylweddoli bodolaeth a phresenoldeb Duw, ond yn bwysicach na hynny y bywhad *potensial a all arwain at berthynas* ac iachawdwriaeth wedyn. Ar ôl yr ymwybod o fodolaeth Duw, y daw'r ail gam hwnnw: yr un mawr – sef perthynas. Ond peth arall yw'r ail hon.

Beth yw arwyddocâd y cam cyntaf o safbwynt diwylliannol?

Dyma sy'n rhoi i ddiwylliant yn gyffredinol ei ogwydd a'i ansawdd ysbrydol. I feirdd dyma'r dyfnder sy'n eu codi'n uwch na rhigymwyr. Dyma sy'n cysylltu diwylliant â gwerthoedd. Fe'i gwreiddiwyd yn yr ymwybod o ddaioni o'r dechrau cyntaf. Y daioni cyntaf hwnnw a'i cyflyrodd, meddir: rhoes i ddiwylliant awydd i feddiannu daioni. Hynny yw, yr hiraeth am ailymaflyd yn naioni'r dechrau; ac o'r herwydd, yr oedd cyswllt rhwng diben diwylliant a tharddiad diwylliant. Mae 'ansawdd' a 'rhagoriaeth' o'r fath yn sylfaenol i fodolaeth diwylliant dynol ei hun. Mae'n dyrchafu diwylliant i lefel ddofn.

Sylweddolodd y beirdd erioed yn eu hiraeth yn fwy na'r cyffredin efallai y cyswllt rhwng yr awen a'r allor. Ond yr offeiriaid hefyd, daethant hwythau yn fyw iawn i'r berthynas rhwng byd natur â'r Crëwr a'r credadun. Yn y greadigaeth ysbrydol-gorfforol, amodwyd natur gan yr Awdur Nefol. Mae stamp yr Achos ar yr Effaith. Corfforir cymeriad Duw yn yr hyn a luniodd. Ymgawdolwyd bwriadau'i feddwl dwyfol yn y drefn a'r ffrwythlondeb, yn yr undod a'r amrywiaeth. Mae diwylliant dyn ynddo'i hun yn

dathlu'r rhoddion hyn oddi wrth y Crëwr ffrwythlon. Darganfod a hyrwyddo'r hyn sydd eisoes ar gael, yno'n drefn guddiedig, yw diwylliant.

Ceir Synnwyr o Dduw felly'n gyffredinol yn y byd drwy Ras Cyffredinol. Nid sôn yr ydys am wybod manylion natur Duw, na'i feddwl na'i weithredoedd na'i berthynas Ef â dyn; nid gwybodaeth ddiwinyddol aeddfed mo hyn; eithr yn gyntaf oll, symlder ymwybod go noeth o'i fodolaeth. Nid oes diwylliant yn y byd lle na cheir gwedd o ryw fath ar grefydd. Gall fod yn gyntefig syml, yn animistig, yn 'ofergoelus' ddychmyglon; gall fod yn ddyneiddiol, gan ddyrchafu awdurdod a hunan-ganolgrwydd dyn; gall fod yn ddatblygedig ddwfn yn ysbrydol, yn seremonïol gymhleth, yn foesol oleuedig, neu'n athrawiaethol gyrhaeddbell, yn deimladol neu'n ewyllysiol fywiol ynghylch gwrthrycholdeb Duw â'i Air. Gall ar y llaw arall ymddangos yn ymosodol seciwlar neu'n 'wrthgrefyddol' a 'materol', hyd yn oed. Ond ni all yr un o'r gweddau hyn ddianc rhag ymagweddu at y cwestiwn o bresenoldeb neu o absenoldeb Duw, o awdurdod ei feddwl moesol Ef, neu o ysgogiad neu ogleisiad meddyliol ynghylch ei wirionedd. Ceir rhai sy'n ymwybod ag Ef yn nhlodi a chulni ymddangosiadol gorwelion y goedwig dewaf neu ynteu ym mharlyrau mwyaf soffistigedig y byd addysgedig. Ond mae Ef yno.

Yr athrawiaeth o *Sensus Divinitatis* sy'n esbonio bodolaeth diwylliant ei hun – pam y ceir gwerth, pam y ceir y fath wth tuag at yr ysbrydol drwy gydol hanes y byd, ac ar bob cyfandir. Hyn hefyd sy'n esbonio ffaith crefydd gymharol. Pan gymherir llenydiaeth seciwlar dda â darn dieneiniad o ryddiaith, sylwn fod yna 'rywbeth arall' yn y cyntaf, rhyw ddimensiwn, rhyw wefr, rhyw weld. A syniaf fod a wnelo hyn â dyfnder y *Sensus Divinitatis*. Dyna pam na ellir cael ysgolion 'seciwlar' heb grefydd.

Ymddengys i mi fod a wnelo'r holl gelfyddydau yn *darddiadol* â'r Synnwyr o Dduw, a hyd yn oed yn *ansoddol* wedyn â'r Synnwyr o Dduw. Yn y ffynnon, yn ôl pob tebyg, ac am gyfnod hir wedyn, cyn belled ag y gellir olrhain, yr oedd llenyddiaeth (yn ei thri llenfath canolog – y delyneg, y ddrama, y nofel) yn ymwneud yn wreiddiol â seremonïaeth a delweddaeth gysegredig. Byth wedyn, rywfodd yr oedd yr ymwybod o fyd arall, weithiau o gydfyd anweledig, delfrydol, a'r ymwybod o werthoedd a phwrpas wedi gadael ei ôl ar rin y ffenomen. Ceisient o hyd fynd y tu hwnt i'r amlwg a'r materol syml er mwyn cael ystyr a gallu cudd. Ceisient ragoriaeth anrhydeddus ffurf. Ceisient gynnig byd arall o'r dychymyg. Drwy ddedhol yn ieithyddol, dyrchafent yr aruchel.

Nid oedd a wnelo hyn â chynnwys Cristnogaeth o raid nac ag unrhyw grefydd benodol arall. Yr oedd a wnelo â rhywbeth mwy cyffredinol ac elfennaidd. Nid oedd yn ceisio proselytio na pherswadio. 'Math' o addoliad oedd: 'math' o fwllch. Bodolaeth Duw *per se* oedd yr ysgogiad; ac felly'n Ras Cyffredinol.

Felly, o fewn cyfyngiadau'r datguddiad cychwynnol cyfyngedig hwn, ni wynebid yr anghenraid Cristnogol o iachawdwriaeth. Prin iawn oedd unrhyw gynnwys athrawiaethol, a phrin odiaeth y myfyrdod o brofiad ysbrydol. Ond fel yr oedd yr ymwybod o Dduw, fel y cyfryw, yn wybodaeth gyffredinol ym mhob gwlad, felly ym mhob gwlad datblygid llenyddiaeth gyffredinol mewn cysylltiad â dimensiwn ysbrydol.

Am mai synhwyro oedd yr offeryn i ymwybod â *sensus divinitatis*, heb ddeunydd penodol nac athrawiaeth ddatguddiedig, y mae tuedd i'r profiad hwnnw ymlacio, niwlio, a phellhau oddi wrth 'grefydd' fwy deallol fel y'i hadweinir yn llawnach erbyn hyn. Llacio a wnaeth y paramedrau fel petai. Ond hyn yw'r ddolen gydiol. Peidiwn â'i gorddyrchafu.

Yr wyf yn ceisio gwahaniaethu rhwng o leiaf tri pheth:

- (i) Crefydd ar ei mwyaf elfennaidd, yr ymwybod noeth o fodolaeth Duw,
- (ii) Y datguddiad cynhwysol rhoddedig o Dduw, ei gymeriad, ei waith, a'i berthynas,
- (iii) Crefydd fel pwnc i'w drafod a'i ddisgrifio o'r tu allan i'r profiad fel petai, a'r cysylltiad a'r ymgais i'w lledaenu.

Er nad yw'n arferiad cyfrif *sensus divinitatis* yn wedd ar 'ras cyffredinol', felly y mae ef. Dawn yw, dawn gyffredinol a roddir gan Dduw yn ddiwahân yn ôl ei freintiau a'i drugaredd anfeidrol ei hun. Fel arfer, cysylltir 'gras cyffredinol' â materion fel bywyd, tywydd, cynhaeaf, doniau meddyliol a chorfforol, yn ras ataliol sy'n dal dyn yn ôl rhag distrywio'r bydysawd. Ond y mae'r fraint fawr hon, a roddir i ddyn yn gyffredinol, hefyd yn peri ymwybod yn syml â bodolaeth a phresenoldeb a rhyfeddod Duw, braint sy'n weithred aruthr o drugaredd effro, er cymaint yw awydd dyn i'w gwrthwynebu a'i gwrthod. Ac y mae hyn wedi effeithio ar foesau diwylliant: moesoldeb, arferion, parch, goddefgarwch, gostyngeddwydd. Ie, ac ag ymwybod â Duw yn nhraddodiad Cymru.

Defnyddia Duw lawer o gyfryngau gwahanol i ysgogi dyn i sylweddoli'r gwirionedd aruthr hwn. Yn bennaf, efallai, y greadigaeth: anferthedd diderfyn y greadigaeth, cywreinrwydd y greadigaeth honno yn y mân a'r mawr, harddwch ei ffurf a'i lliw, egni a nerth yr elfennau, y distawrwydd awgrymus. Ond yn llai amlwg, y pwysau

mewnol, y modd y mae'r gydwylbod yn gogwyddo i sylweddoli pethau sy'n ymddangos yn haniaethol megis gwerthoedd moesol ac esthetig ac ymarferol.

Dyma ddiwylliant go ryngwladol.

I'r sawl sy'n ymhel â phrydyddu, nid cam mawr yw'r sylweddoliad o ysbrydoliaeth greadigol 'yr awen', ysbrydoliaeth sy'n annisgwyl, y tu hwnt i reolaeth ymwybodol, ac yn gam ymlaen i synied wedyn am allanolion sy'n rhoi'r dychymyg a'r weledigaeth i drafod y profiad hwn. Rywfodd, y mae'r olwg 'ddieithr' a gaiff y bardd mewn bywyd, yn arbennig yn y rhyfeddod o fawl, yn arwain yn weddol gyffredin at *ymwybod* â'r ysbrydol a'r wybodaeth am yr anweledig.

Ond nid beirdd yn unig a wŷyr yr ysgogiad hwn. Bydd yr alwedigaeth amaethyddol, sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag angenrheidiau bywyd, yn dod yn fynych ymwybodol ledled y byd â grym a haelfrydedd ysbryd arall. Ceir math o uniongyrchedd rhwng amaethyddiaeth â ffrwythau'r corff. Mewn rhai pethau, hyd yn oed yn y Gymru wrth-Gristnogol, cynhelir cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhaeaf. Gall pobl sy'n ymhel yn uniongyrchol â byd natur, – â'r môr, a'r sêr, a'r mynyddoedd, â distawrwydd y gwastadeddau eang – ddod i wybod, er eu gwaethaf eu hun, am olwg uwchnaturiol ar fodolaeth. Gallant stopio weithiau. Nid syn yw bod crefyddau animistig wedi datblygu yn y rhan fwyaf o gymdeithasau cynnar annatblygedig.

Medr y fam sy'n esgor ar syfrdandod a phrydferthwch y baban diymadferth hithau hefyd brofi rhyfeddod gallu mawr iawn. Mae gwyrth bywyd dynol newydd yn medru torri drwy galedrwydd yr amharodrwydd i ddeffro i fodolaeth greadigol y Crëwr ei hun.

* * *

A dimensiwn 'ysbrydol' a rydd ddyfnder i farddoniaeth, ac i ddiwylliant yn gyffredinol. Canfyddir bywyd i gyd ynddynt mewn dimensiwn uwch-anifeilaidd. A chynigiais fod cyffredinolrwydd y fath olwg ar ddiwylliant yn ddyledus i *sensus divinitatis*. Hyd yn oed i anghredadun amddifad, symud y mae ar ymylon ymwybod.

Ond crybwyllais fod yna rywbeth arall sy'n gyfredol â'r ymwybod hwn o bresenoldeb Duw y gellir hefyd ei gyfrif yn gysylltiedig. A hynny yw'r gydwylbod. Cysylltir cydwylbod gan Galfin, Morgan Llwyd ac eraill â'r synnwyr elfennaidd hwn, fel pe bai'r ymwybod o realiti bodolaeth Duw yn anochel gysylltiedig â gwybodaeth am ei ddaioni a'i lendid a'i sancteiddrwydd rhyfeddol. Mae yna ymwybod bod y dimensiwn

ysbrydol o fewn teyrnas ddeddfwriaethol Duw ei hun. Ef biau'r llais mewnol sy'n llefaru o blaid rhinwedd.

Hynny yw, yn y bôn, yn y profiad mwyaf cyntefig o Dduw, ceir ymwybod cyffredinol hefyd o ddaioni a drygioni. Ac yn ystod y blynyddoedd diweddar, efallai ar ôl i ôl-foderniaeth yr ugeinfed ganrif greu'r fath chwalfa arwynebol mewn ffurf, daethpwyd fwyfwy i sylweddoli – yn nannedd propaganda'r hen foeswersi proselytiog ac yn nannedd naifder y didactig, ac yn sgil y rheini yn nannedd yr esthetig hunanlywodraethol – fod y moesol sylfaenol o ran cynnwys yn wedd anochel ar aeddfedrydd llenyddiaeth, a bywyd yn gyffredinol.

Hynny yw, y mae moesoldeb nid yn unig yn un o briodoleddau diwylliant, ond perthyn i'r sylfeini cychwynol mwyaf cynhenid ac aeddfed.

O safbwynt diwylliant, fe ddwedwn i fod synnwyr o Dduw yn sefydlu tri ffactor mawr diwylliant – ac y mae'r celfyddydau yn enghraifft go drawiadol o hyn. Rhagflaenir pob peth gan fodolaeth Duw: gan ymwybod o Fod:

(1) Mae ymwybod o'r fodolaeth honno yn sicrhau'r cefndir anweledig i'r gweledig, a'r ysbrydol yn gudd yn y materol; rhydd i lenyddiaeth arwyddocâd haenog, symbolaidd, cyffredinol;

(2) Y mae hefyd yn diogelu'r *rheidrwydd* o werth, o ddaioni, a'r orfodaeth i sicrhau rhagoriaeth fel man cychwyn ac fel nod. Mae'r Bod yn awdurdodol. Hynny yw, ceir ail briodoledd ynghlwm wrth yr ymwybod o Dduw sy'n rhagflaenu neges arbennig Cristnogaeth, a hynny yw natur Penarglwyddiaeth bêr ddaionus Duw. Mae'r Gydwybod yn rhoi cyffyrddiad o'r argyhoeddiad o 'Bechod' (a moesoldeb) i ni er na bydd y gymdeithas yn llawn gydnabod dyfnder y gair. Dyma ran o fod yn oedolyn. Diddorol sylwi ar yr ysgol ddeallusaf Gatholig o lenorion bwriadus Gristnogol a gafwyd yn yr ugeinfed ganrif a'u cred, mai Pechod oedd calon eu myfyrdod cyfoethocaf. Paul Claudel oedd eu llenor mwyaf, a Mauriac (y nofelydd) eu beirniad mwyaf dylanwadol. Yr oeddent oll y ddwfn eu dyled i'r argyhoeddiad o Bechod, ond yn arbennig efallai Georges Bernanos. Ei nofel olaf ef (1946) oedd *Monsieur Ouine*, lle'r oedd y teitl yn tarddu o *Oui au néant* (Ie i ddifancoll): meddai François Mauriac 'y cyflwr o bechod a'r cyflwr o ras a luniodd y dydd a'r nos yn y byd gostyngedig a ddychmygwn i – , y tywyllwch y saethwyd drwyddo gan belydrau o oleuni.'

(3) Cyn pob peth creedig, y mae natur Penarglwyddiaeth Duw o'r herwydd yn penderfynu undod pob peth a wneir. Dyna'r gwth bythol tuag at undod mewn celfyddyd.

Er bod y credadun a'r anghredadun yn rhannu'r un pwynt cyswllt hwn, sef y synnwyr cynhenid o Dduw, y mae'r ffordd o'i drafod yn gwahaniaethu. Mae'r anghredadun yn ceisio'i dagu neu'n rhedeg rhagddo, gan ei ddyrchafu yn orchestersonol, tra bo credadun yn ei goleddu'n betrus o bosib. Fe geir synnwyr o'r Duwdod; ond pan na fo dyn ond yn dibynnu ar ragdybiau dyn-ganolog, nid yw'n meddu ond yn gloff ar y gallu dychrynus i farnu beth sy'n gywir a beth sy'n au.

Rhennir yr ymwybod cyffredin hwn oherwydd bod pob person wedi'i greu ar ddelw Duw yn wreiddiol er gwaetha'r Cwmp.

Mae'n ofynnol inni bwysleisio nad yw'r 'Synnwyr o Dduw' sydd gan ddyn yn hunanlywodraethol. Nid yw'n bodoli ond yn ôl ei darddiad ac mewn perthynas â'r datguddiad a ganiatâ Duw. (Rhufeiniaid 1: 19 – 21; 2: 14 – 15; Calfin – *Institutes* I:v. 1,9,14.)

Fe'i profir drwy ganfyddiad uniongyrchol o waith Duw yn y greadigaeth ac ynom ni ein hun. Canfyddiad unionsyth yw – ac ni ddibynna ar ddadleuon sy'n ein dwyn i ddeall natur oruwchnaturiol Duw a sail sylwadau ar y byd naturiol megis bodolaeth symud a digwyddiadau, bodolaeth trefn ac yn y blaen. Ni charwn fychanu'r dadleuon hynny. Ond mater arall yw. Mae holl ffeithiau bodolaeth yn datgan Duw – nid 'Duw Efallai' nid Duw damcaniaethol, ac nid rhyw allu goruwchnaturiol, ond y Duw byw ac unigryw agos. Lle bynnag y troir, os arhosir ac os meddylir i'r pen am bethau, gellir mentro ymhellach ac arweiniant at y Duw y cyfarfyddwn ag Ef yn y Beibl.

Dywed Paul fod y cyfeiliorni yn digwydd nid yn y synnwyr o Dduw, ond yn y ffaith nad yw dyn yn Ei ogoneddu fel Duw o ganlyniad. Ceisir gwrthweithio'r synnwyr hwn, Rhuf. 1: 18. Sonia Van Til am y dyn naturiol bob amser yn ceisio mygu tân na all ei ddiffodd. Mae'r dyn naturiol yn ceisio datblygu'r ymwybod hwn o Dduw yn ei ffordd ei hun; mae'n meithrin syniadau chwiwus amdano'i hun. Mae ef yn gwybod Duw heb Ei adnabod. Dyma un o frwydrau mewn Diwylliant aeddfed a datblygedig.

* * *

Yr wyf wedi bod yn cyferbynnu 'credinwyr' ag 'anghredinwyr'. Ond y gwir yw, fel yr hawliodd Cornelius Van Til, y mae 'anghredinwyr' hefyd yn gredinwyr o fath.

Datguddiad Naturiol yw hyn. Oherwydd ei fod yn gynhenid, nid yw'n ddiwylliannol; ond cyfranna i ansawdd diwylliant. Gwyddant oll (efallai heb ei sylweddoli) fod yna Dduw a'i fod yn dda ac yn hollalluog. Dibynnant ar hynny i esbonio 'achos', 'bodolaeth', 'gwerth', 'trefn', 'cynnwys', 'moesoldeb', 'pwrpas', a hefyd wrth ddyrchafu Absoliwt, hyd yn oed os yr Ego Trosgynnol yw. Ystyr ddilys tröedigaeth yw peri i'r anghredadun gyffredin ddefro, i gyffesu Duw uwch nag ef ei hun, a dymuno byw yn unol ag ef. Symud rhwystrau i hynny yw rhan o'r gwaith sydd gan yr efengylwr. (Act 17: 28; Salm 19: 1; 97: 6 – 9).

Mae Van Til yn tanlinellu'r gwahanfur rhwng Datguddiad Naturiol a Diwinyddiaeth Naturiol, sef rhwng yr hyn a ddatguddir yn uniongyrchol gan Dduw ac yna'r ymateb gan ddyn i'r datguddiad hwnnw fel y'i ceir gan Aquinas mewn estyniad diwylliannol. Mae Datguddiad Naturiol yn peri drwy ymwybod uniongyrchol unionsyth o Dduw i wybod yn sythweledol mai Hwn yw'r Creawdwr a'r Cynhaliwr. Ar y llaw arall, ymdrech lafurus, ddigon hynaws yw Diwinyddiaeth Naturiol i ddyfeisio profion thëistig. Mae Datguddiad Naturiol ym mhobman ac yn glir ar hyn. Gweithgaredd cyfyngedig yw Diwinyddiaeth Naturiol, a all fod yn her ac yn bell oddi wrth galon yr efengyl.

Sonia Abraham Kuyper hefyd am *semen religionis*, fel pe bai'r datguddiad goruwchnaturiol yn rhan gynhenid o'n hetifeddiaeth bersonol gorfforol hyd yn oed, a DNA yn adlewyrchu'r ffaith fod delw'r Tad yn y creedig. Mae'r wybodaeth naturiol, y cais dyn ddianc rhagddi, yn dod yn ddefnyddiol drwy wybodaeth arbennig. Mae ymwybod mewnol dyn yn ogystal â'r datguddiad yn y greadigaeth yn llefaru am ei Greawdwr yn eglur.

Ond heb ragdybied Duw Personol-tragwyddol, nid yw'n bosibl 'profi' dim arall gyda sicrwydd. Hyn yn unig sy'n ein diogelu rhag 'siawns'. Ac eto, ymleddir i rwystro'r gwelediad hwn, rhag i'r llygaid gael eu hagog gan yr Ysbryd Glân a chanfod yr Arglwydd yn Ei gyflawnder. Brwydr wanddeallol yw hwnnw.

Er mai offeryn go wamal a gwan, yn fynych yw, gyda'r rhan fwyaf o'r boblogaeth, y mae rhyw gynneddf o'r fath yno'n ddiarbed ar waith. Mae'r gydwybod yn pigo dyn pan fo'n anufuddhau i ddeddfau Duw fel na all ddianc rhag ei Greawdwr.

Mi gredaf i fod y synnwyr hwn o Dduw yn gynhenid anedig mewn dyn, oherwydd delw Duw arnom. Soniais am ddwy ffordd neu ddau faes lle y mae Duw yn

ymamlygu'n naturiol, sef (i) y gydwybod, (ii) y greadigaeth. Ac ymddengys y gosodiadau hynny yn glir. Ond ystyriaf fod yna gynneddf sylfaenol fewnol etifdeddig sy'n meddu ar y cymeriad o 'adnabyddiaeth ddwyfol uniongyrchol'. Ac y mae'r ffaith hon yn dyrchafu diwylliant uwchlaw crafu am fwyd yn y ddaear, yn unig.

Oherwydd Gras Cyffredinol ac oherwydd yr ymwybod annileadwy hwn o Dduw, caniatéir i anghredadun weithredu daioni yn ei waith. Ond oherwydd presenoldeb y gelyn bob amser, hyd yn oed gyda Christion, gall syniadaeth o lawer math ymyrryd, a thwylllo, i'r sawl sydd heb fod wylidwrus. Sylfaen i'r gwahaniaeth rhwng Credadun ac Anghredadun yw'r cyferbyniad arferol 'addoli'r Creawdwr / addoli'r credadun'. Yn hytrach na chydabod y creadur ar ddelw'r Creawdwr, meddylir yn sgil y twyllwr am y Creawdwr ar ddelw'r creadur, neu fe gollir gafael ar uniondeb. Mae'r dyn naturiol yn chwenychu bod megis Duw, yn Farnwr drosto'i hun ynghylch beth sy'n dda a beth sy'n ddrwg, union gwypm Adda. Hynny yw, gwada'i fod yn greadig. Dywed mai ef ei hun yw mesur gwirionedd.

Eto, heb seiliau nad ydynt yn uwch na'r materol seciwlar, does dim dirnadaeth ddeallus wrth wahaniaethu rhwng daioni a drygioni, rhwng yr estheteg a'r anesthetig. Mae angen sylwi nid yn unig fod anghredadun yn gwneud rhagdybiau, ond pam – ac, felly, – fel y mae'n llunio'r rhagdybiau a wna. I gredadun, y gwirionedd yw'r hyn sy'n cydymffurfio â meddwl Duw. A'r gwirionedd hwnnw sy'n amodi pob diwylliant.

Er fy mod yn trafod y Gydwybod a'r Greadigaeth, a hynny ar ôl sôn am yr Ymwybod, y gwir yw nad dau beth yw'r Gydwybod a'r Ymwybod. Atgoffawn ein hun fod Morgan Llwyd yn ymdrin â hwy fel un peth – sef Cydwybod. Ac ef sydd yn yr iawn. Ond yr wyf i'n canolbwyntio a bwriadu sôn am un wedd ar y Synnwyr Cynhenid hwn o Dduw yn yr Ymwybod, sef y wedd foesol yno, sef y modd y mae'r sylweddoliad o gyferbyniad daioni a drygioni, yn datguddio Duw ym mhob diwylliant.

Ac y mae cyffredinolrwydd y gynneddf hon yn arwyddocaol. Mae gan y credadun a'r anghredadun ymwybod cyffredin o Dduw. Yr hyn â'u gwahaniaetha yw'r ymateb i'r wybodaeth honno ac ansawdd y wybodaeth. I'r naill, gwybodaeth gariadus yw. I'r llall, gall mai gwybodaeth i'w hanwybyddu a'i dirmygu yw. Ceir peth ymryson yn *psyche'r* anghredadun. Cais fod yn hunanlywodraethol, hyd yn oed yn hunanol, ond y mae deddfau gwrthrychol Duw yn pigo'i gydwybod. Mae'n gwrthryfela'n erbyn bodolaeth

Duw ac eto'n cario'r ymwybod ohoni. Bydd hyn yn effeithio ar ei ffordd o fyw, a'i berthynas â'i gymydog.

Meddiannwr gwirionedd bellach sydd hefyd am dagu'r 'gwirionedd' yw'r anghredadun. A chan bwyll, y mae diwylliant y meddwl hwnnw yn iselhau delwedd y dyn ôl-fodern o werth dyn.

*

*

*

Crynhown. Yn y bennod gyntaf o lythyr Paul at y Rhufeiniaid, y mae'r awdur yn honni dau beth go syfrdanol. Mae'n haeru'n gyntaf fod pawb yn gwybod bod Duw ar gael, drwy'n cydwybod ac oherwydd Ei bresenoldeb amlwg yn y greadigaeth. Mae'r gynneddf hon i wybod am Dduw, ac i'w adnabod Ef bob amser, yn glwyfedig, weithiau'n aruthrol felly. Ond fe geisiwyd ystyried rhai o'r rhwystrau sy'n ei aneffeitholi. Hyn yw'r gynneddf y mae Calfin yn sôn amdani fel y 'synnwyr o Dduw'.

Dyna, yn ôl pob tebyg, pam, mewn pâl piniwn a wnaethpwyd ym 1991 ledled y byd, yr honnodd bron 80% o'r rhai a holwyd eu bod yn credu mewn duw o ryw fath. Nid oedd drwy'r byd i gyd ond 4% o atheistiaid, ac yr oedd 100% o'r rheini'n methu â *phrofi'u* safbwynt mewn *unrhyw* ffordd.

Ond y mae Paul yn mynd ymhellach. Er bod Duw mor hysbys i bawb, dyw dyn yn naturiol ddim yn barod i'w gydnabod a'i anrhydeddu fel Duw. Dyna'r her. Defnyddia dyn bob math o 'resymau' ac o annealltwriaeth er mwyn peidio â gogoneddu'r Un hwn sydd mor eglur. Yn sylfaenol ac fel arfer, yr hyn sy'n digwydd yw bod dyn yn ei ddyrchafu'i hunan i fod yn dduw. Ef ei hun, yn hunanlywodraethol, sy'n rhoi'i farn ei hun, ei allu rhesymol efallai, neu ei brofiad, neu ei chwantau yn y canol. Dyma'r awdurdod terfynol. Rhywbeth – rywbeth wnaiff y tro ar gyfer 'profi', efallai. Mae hyn yn wedd ar y farn gyffredinol yn y gymdeithas.

Ond mae'n ymddangos hefyd fod yna fath o ddiwylliant cyffredin neu dir cyffredin rhithiol rhwng yr anghredadun a'r credadun; ac yn wir fe alwn ni'r peth hwnnw yn 'ras cyffredin'. Ond mae yna bethau eraill sy'n gyffredin yn ysbrydol i gredinwyr ac i anghredinwyr – buom ni oll yn bechaduriaid o'r dechrau, perthynwn rywbryd i deulu, yn syrthiedig yn Adda a chydag Adda, rŷm oll yn gorfod wynebu realiti a ffeithiau'r un ddaear hon. Ond wrth gwrs mae yna wahaniaeth difri hefyd: cymer yr anghredadun yn ganiataol nas crewyd ef erioed. Derbynia ef ddeddfau sydd yn y meddwl a'r byd o'i

ddeutu fel petaent yn ganiataol. Maen nhw'n digwydd bod yno; ac at ei gilydd, mae ef yn hen foi iawn neu'n hen hogan iawn wedi'r cwbl. Eto, ar hyd a lled y ddaear mae yna lais ym meddwl pob un, a hwn sy'n sibrwd wrtho, wrth ddod wyneb yn wyneb â'r drwg, nad yw hyn na'r llall ddim yn hollol ddigonol efallai. Mae'r gydwybod yn arbennig o fywiog wrth sylwi ar bobl eraill yn cyfeiliorni. Ond caiff waith ryw damaid o annifyrrwch yn achos pob unigolyn hefyd.

Ymyrra hyn oll â'r ffordd y ceisiwn adeiladu cymdeithas.

Meddai Cicero, cyn dyddiau Crist, 'Dim ond gwallgofddyn a hawliai mai mater o biniwn, ac nid rhan o'n natur, yw gwahaniaethu rhwng yr anrhydeddus a'r dianrhydedd, rhwng rhinwedd a throredd.' Cyfrifaf mai elfen hynod yn fframwaith diwylliant yw Cydwybod. Mae yna ryw gynneddf gennym sy'n cosi. Nid materion yw'r rhain i'w rhesymu na hyd yn oed i'w gweithredu o gyfleustra yn unig. Dyma synnwyr sy'n perthyn yn gynhenid i lefel uwch mewn dyn, ond sydd gan bob un. Pan feddyliwn ymhellach am y peth, sylwn fod yna'r fath beth â threfn y tu ôl i'r holl safonau hyn.

Wrth gwrs, ychydig o bobl sy'n barod i gymryd yr ymwybod o Dduw o ddifri, a phan ddaw'n rheidrydd i ddewis ynghylch ufuddhau i'w ddeddfau mae yna lawer sy'n barod i aberthu egwyddor foisol er mwyn hunan-les. Mae'r mewnol yn cyflyru'r allanol.

Efallai fod rhyw syniad yn goglais y gall fod yna Dduw, beth bynnag yw hwnnw – grym, ysbryd amheronol, gwth sy'n gweithredu fel rhyw fath o ddisgyrchiant anweledig. Rhyw bwer pell, nad yw e byth yn ymwneud â ni'n bersonol. Ond does dim ymwybod o DDUW ei hun, o aruthredd perthynas â Duw'r Beibl, o sancteiddrwydd arswydus Duw, o anferthedd ei gefnforoedd o Gariad yn torri ar ein traws, o wefr drugarog ei lais, o'r Bod real ac agos hwn y darllenwn amdano yn y Testament Newydd sy'n ein hatal ni yn ein llwybr, a heb orfodaeth yn peri inni suddo ar ein gliniau mewn rhyfeddod syfrdan.

Erys bwlch rhwng y credadun a'r anghredadun, taw pa mor ddymunol neu ymchwilgar y gall yr anghredadun fod. Bydd hyn yn amodi ymddygiad. Ai unigolyddol yw hyn?

Dadleua Paul, Acwin, a Chalfin, ac athronwyr Cristnogol diweddar fel Van Til a Plantinga, fod gan bob person dynol y gynneddf, nid annhebyg i'r cof neu i reswm, sy'n ymwybod â Duw. Fel y gall y cof ballu, neu fel y gellid camresymu, felly y mae'r

gynneddf hon yn ein hystâd naturiol yn glwyfus. Ond drwy ymweliad neu gyffyrddiad gan Ysbryd Glân Duw, fe ellir ei deffro'n effeithiol. Gellir ei fywhau'n wyrthiol. Hyn, cyn ei fywhau, a alwasom yma yn *sensus divinitatis*. Wrth i hyn gael ei fywhau y mae'r ysbryd dynol yn newid yn sylfaenol. Bellach y mae'r ymwybod o Dduw yn troi'n berthynas. Fe'i tynnir – weithiau'n araf deg, weithiau'n sydyn – i ymhyfrydu yn Nuw, i orfoleddu ynddo Fe, i'w fawrygu yn ei galon, a'i ogoneddu. Fe hiraethir am Ei wasanaethu ym mhob peth. Dyna Dduw yn diwyllio yn Ei ardd, yn gyffredinol ac yn arbennig. Gras Cyffredinol oedd y gydwbybod a gosai'r dyn naturiol ynghynt ac a'i hanogai bellach i aeddfedu i fod yn ymwybodol o Dduw ar lefel lai cyffredinol.

Does dim cymrodeddu rhwng diwinyddiaeth y dyn naturiol a diwinyddiaeth y Cristion. Nid pont yn y deall o raid yw Gras Cyffredinol at Ras Arbennig. Ond un wedd ar Ras Cyffredinol yw Gras Ataliol. Mae hyn yn rhaid. Hyn sy'n atal llygredd dyn rhag cyrraedd yr eithafion y mae ei natur syrthiedig ar-wahân i Dduw yn medru eu cyflawni. Mae Gras Cyffredinol, hyd yn oed yn achos y paganiaid pennaf yn ysgogi ac yn cyfnerthu llawer o weithredoedd da. Yn awr, gellid gweddnewid y Gras hwnnw yn Ras Arbennig gwardedigol buddugoliaethus. Ond rhaid i rywbeth ddigwydd cyn hynny. Mae'r gwahaniaeth yn fater o fywyd a marwolaeth. Nid diwylliant cyffredin ym mhob ffordd yw Gras Cyffredinol rhwng anghredinwyr a chredinwyr. Erys Gras Cyffredinol yn ddigyfnewid yn nhiriogaeth marwolaeth ysbryd oni weithreda'r Ysbryd Glân, a'r pryd hynny daw'n ystyrllon newydd, yn eiddo llawn i awdurdod a theyrnas Duw, yn rhan ddiwiniad o Ras tragwyddol. Man cyswllt rhwng dynion yw'i synnwyr o Dduw, ond nid yr un yw'r cyswllt, oherwydd nid cyswllt yw â 'chymdeithas' ddwyfol. Ar ryw olwg, y mae Van Til (a finnau gydag ef) yn dadlau nad oes, ysywaeth efallai, dir cyffredin o bwys tragwyddol rhwng y Cristion a'r Anghredadun. Mae hyn, gredaf i, oherwydd Gras Arbennig. Nid oes eistedd ar ben lliidiart: does dim hanner marw. Ar ryw olwg, does dim pont naturiol. Ac eto, yna, mewn Gras Cyffredinol, ceir llawer o elfennau cyffredin, amgylchiadau, doniau a safonau naturiol – ac wrth gwrs, pechod. Ffaith bontiol syniadol a theimladol ysgogol arall yw Gras Cyffredin.

Hyn a bair fod modd i Gristion barchu neu fawrygu'r Greadigaeth fel y mae i'w phrofi yn y byd naturiol yn union, heb gymrodeddu â'r Farwolaeth ymosodol sydd ar waith yn erbyn yr Ysbryd; ac eto, heb fod yn union, eithr oblegid bod y Crëwr yno.

Mae gennym felly alw am ddirnadaeth a chymdeimlad wrth gyferbynnu diwylliant y credadun â diwylliant yr anghredadun. Oherwydd math o ormes diffyg gwelediad rhyngom, pleidia'r anghredadun diwylliant 'diduedd' (niwtral). 'Mae pawb eisiau trafod addysg fel pe na bai Duw yn bod. Hyn sy'n rhesymol.' Anodd goleuo'r tywyllwch hwn weithiau. Nid damwain yw'r gogwydd a gafwyd mewn ysgolion, er hynny, – hyd yn oed mewn Prifysgolion – at *Grefydd Gymharol* yn ystod yr ugeinfed ganrif. Na thybier am eiliad mai ymgyrch o blaid gwybodaeth oedd. Rhan isymwybodol oedd o'r ymgyrch yn erbyn yr absoliwt ac o blaid llusedd. Gellid tybied y caem hunanfeirniadaeth a datblygiad o'r ymwybod o werthoedd ynghlwm wrth y fath ledaeniad o syniadaeth a'r fath fyfyrddod am bwrpas bywyd. Mae pwyso 'cywirdeb gwleidyddol' yn pwyso'n erbyn hunanfeirniadaeth, yn arbennig felly yn achos Seciwlarïaeth. Gallwsid cyflwyno ensyniadau crefyddol dogmatig Seciwlarïaeth gyda thegwch. Ond yn ôl a welaf, ychydig o hynny a wneir. Defodaeth ac allanolion a gâi'r sylw pennaf mewn llawer o gyrtsiau eraill, ar draul athrawiaeth ac ystyr absoliwtiaeth angenrheidiol y materion hyn oll, a phwyso heb fesur safonau. Trowyd rhai o faterion yr ymylon yn bwysigrwydd sylfaenol; a phwysigrwydd yn ddogmâu na feddylir amdanynt ac nas gwerthusir.

Dyna faes, ac y mae *Hanes Crefydd* yn un cyffelyb, lle y denir plant a myfyrwyr i lyncu hygoledd didueddrwydd. Yn fynych, cyflwynir 'didueddrwydd' anghrediniol y diwylliant lluosol cyfoes. Pryd bynnag y clywir honiadau ynghlych didueddrwydd, yr hyn sy'n arwyddocaol yw bod y gynneddf feirniadol eisoes dan draed. Mae 'tegwch' yn amhosibl mewn cyd-destun o'r fath, a gwirionedd difrif wedi'i alltudio. Oherwydd, amhosibl ac anonest yw bod yn ddiduedd mewn maes fel Hanes neu Grefydd lle y mae dethol yn gwbl angenrheidiol. Lle bynnag yr honna didueddrwydd bod rhaid cyflwyno materion fel petaent yn gyfartal (gan gynnwys Nihilistiaeth er enghraifft; neu heb ei chynnwys), lle yr honna nad gair Duw sydd yn y canol ond mai rhagdybiau dynol 'beirniadol' sy'n llywio'r cyflwyniad, yna mae gwir ddidueddrwydd – pe bai'r fath beth yn bod – wedi hen fynd allan drwy ffenestr yr Ego Trosgynnol. Ni cheir ysgolheictod dilys mewn meysydd o'r fath heb 'lawn' sylweddoliad o natur a gorfodaeth tueddrwydd yn ei afiechyd eithaf. Ni cheir gwir wybodaeth onid gwybodaeth o'r tu mewn i'r Gwir.

Felly, hefyd wrth gyferbynnu arwyddocâd hanesyddol cymharol rhwng y Diwygiadau Crefyddol a'r Chwyldro Diwydiannol.

Mae honni diffyg ymrwymiad yn ymrwymiad rhonc. A dwedwn i mewn byd llygredig lle y mae anghyfiawnder ac anghrediniaeth yn rhemp, mai ymrwymiad go afiach yw. Yr hyn y mae angen ei gyflwyno yw rhyddid argyhoeddiad, gydag argyhoeddiad; ymddiriedaeth mewn gwerthoedd, gyda gwerthoedd. A chyfoeth profiad ynghlwm wrth athrawiaethau aeddfed. Ni raid ofni beirniadaeth. Ceir beirniadaeth ac agenda ym mhob un ohonom. Ond ar ôl canrif o ormes dyn-ganolog, pryd y buwyd ledled y ddaear yn bur ysgafn o fywyd diwylliant yn enw crefydd, a phryd y bychanwyd y Goruwchnaturiol heb reswm digonol, a phryd y caewyd yn afradlon sefydliadau mawr a gawd yn hanes y gymdeithas Gymraeg oherwydd llacrydd 'diduedd' arweinwyr, y mae'n bryd inni dueddu o'r diwedd at aeddfedrydd bannau'r meddwl gorau. Yn wir, mae diffyg cydymdeimlad deallus yn gallu achosi rhyfeloedd, gan gynnwys y rhai Prydeinig diddarfod.

Ni raid hawlio mai ffolineb relativrwydd yw rhan arall o gyd-destun cyflwyno Crefydd Gymharol fel pe baem eisiau rhoi 'chwarae teg' i bawb a phopeth. Roedd yr ymhonni ynghylch y meddwl llydan, a haelfrydigrwydd a pharch at hil ac yn y blaen, holl baraffernalia goddefgarwch di-glem, yn sarhad go anffodus ar gyfiawnder a glendid. Tybia rhai mai cymwynas i gredo yw gwneud Cristnogaeth yn llipa, ac Islâm yn llipa, a Bwdistiaeth yn llipa, a Seciwlarïaeth yn ymddangosiadol lipa a'u cymysgu nhw i gyd mewn un basn llipa, ac wele gawl. Felly y tybiasai rhai o'n heciwmenwyr pybyr o lipa yn yr ugeinfed ganrif y byddent wrth ddileu awdurdod Crist, a dileu'r goruwchnaturiol, a dileu Duw i gyd wedyn yn hapus braf ac yn gallu dod at ein gilydd mewn un eglwys lydan, ddyneiddiol i'w haddoli mewn gwagle grymus cytûn.

Sarhawyd felly y Synnwyr o Dduw heblaw'r datguddiad Cristnogol.

Mewn cyfrol feirniadol, hanesyddol ei hosgo, gymharol gynnar, *Llên Cymru a Chrefydd* 1977, tud.177, bûm yn dadlau, nid yn unig fod Cristnogaeth wedi rhoi undod meddwl a chymeriad i'n traddodiad llenyddol Cymraeg, ond y gellid tan 1850, o leiaf, ei hystyried yn 'Draddodiad Awstinaidd-Galfinaidd'. Yn y flwyddyn 2000, yn ei gyfrol *Warranted Christian Belief*, bu'r athronydd Alvin Plantinga yn sôn am 'the A/C model', sef traddodiad Acwin-Galfin. Nid oes gwahaniaeth mawr rhwng y ddwy ddamcaniaeth. Mae'r ddwy yn pwysleisio'r hyn sy'n gyffredin ac yn uno dau gyfnod. Mae'r gwahaniaeth rhyngom yn tarddu o'r ffaith fod y traddodiad Cristnogol Cymraeg yn dechrau'n gryf

gyda'r tyndra pwysleisiol rhwng Pelagius a'r meddwl Awstinaidd (ac Oes y Seintiau), a bod Acwiniaeth yn ddiweddarach yng Nghymru, er yn eithriadol bwysig, yn bennaf arwyddocaol fel cefndir i'r hyn a alwn yn Wrthddiwygiad.

Craidd y gred y soniaf i, megis Plantinga, amdani, yw patrwm gwaith y Garddwr a'r datganiad bod Duw goruwchnaturiol wedi *creu* nefoedd a daear, ac wedi llunio dyn yn ôl ei ddelw ei hun; bod *pechod* neu wrthryfel balch yn erbyn Duw wedi'i ddistrywio i'r fath raddau nes bod angen iachawdwriaeth arno, bod Mab dwyfol wedi'i *ymgnawdoli* drwy drugaredd, wedi dioddef a *marw'n iawnol* dros ein pechod, wedi *atgyfodi* o farwolaeth fel y câi creaduriaid dynol fywyd tragwyddol gyda Duw Barn a Chariad. Mae yna faterion eraill lawer sy'n hanfodol i'r ddau draddodiad; ond dyma graidd gwir eciwmeniaeth 'Ysbryd y Cwlwm'. Dyma asgwrn cefn traddodiad meddyliol y Winllan a roddwyd i Gymru – er cymaint embaras i rywrai ers 1850, pryd y cawn gyfnod cyfredol yr hyn a alwaf yn gyfnod yr Ego Trosgynnol a'r Ar-i-waered.

Ymhlith y materion eraill lawer yn y Model, fe geir y Duw sy'n llefaru, yr hyn a elwais yn *sensus divinitatis*, sef yr ymwybod cynhenid o Dduw y soniai Rhufeiniaid I amdano, a'r ffaith o berthynas fywiol sy'n bodoli rhwng y Cristion adferedig a Duw ei hun, sef cariad yn y berthynas bersonol.

Yn ystod cyfnod diweddar yr Ego Trosgynnol modern, sut bynnag, ceir sawl newid sy'n ddwfn iawn ac wedi effeithio ar natur ein llenyddiaeth fodern. Nid y lleiaf o'r rhain yw'r hyn a ddigwyddodd i'r ymwybod o Bechod. Un o bynciau a grymoedd cymhelliol mwyaf llenyddiaeth erioed, fel y pwysleisiodd Saunders Lewis lawer tro, yw'r ymwybod o Bechod. I anghredinwyr, un o'r dadleuon cryf yn erbyn credu yn Nuw yw 'pechod' a'r holl ryddid a ganiatêir i ddyn (a'r byd) i gyflawni ffeidd-dra. Ond etyb Cristnogaeth fod Duw wedi creu dyn er mwyn cariad goruwchnaturiol rhwng y naill a'r llall. Er mwyn bod yna gariad dwfn gwirfoddol, rhaid bod yna ryddid i ddewis yn gynhenid. Yn lle ymyrraeth sy'n gaethiwus, yn lle harddwch dilyffethair trachwant, yr hyn a roddodd Duw oedd gras i ddyn wynebu'i bechod a cheisio o'r galon iachawdwriaeth. Gwelwn eisiau pechod.

Gyda chamddealltwriaeth o natur pechod, dirywiodd y myfyrdod am y pwnc mewn llenyddiaeth a diwylliant. Aeth yn arwynebol iawn. Aeth yn rhywbeth y gallai dyn ei setlo'i hun drwy weithredoedd dyngarol bondigrybwyll. Aeth yn ymddygiad

'penrhydd' hunanlywodraethol. Yng Nghymru, defnyddir yr ansoddair ystrydebol 'beiddgar' ar gyfer Rhyw Amddifad: sef serch digariad. Ac fe ddynodir 'pechod' i olygu gorbarchusrwydd, rhagrith henffasiwn, ac yn y blaen. I'r Cristion, craidd pechod yw colli Duw. Ac mewn llenyddiaeth, wrth i fywiogrwydd o'r Synnwyr o Dduw bylu, mae hynny wedi golygu yng nghyfnod yr Ego Trosgynnol, golli gwerth, trefn, a phwrpas. Trafodir yn feistraidd yr arwyneboli pechod a hyrwyddwyd gan Ôl-foderniaeth (gw. Plantinga op. Cit. 422-423). Drwyddi teneuwyd Diwylliant.

Felly, un ffordd i ddiffinio arwyddocâd y Synnwyr o Dduw heddiw yw drwy drafod ei le yn y Dirywiad a gyflymodd yn y Sefydliad Cymreig ers 1859. Wele ymosod deallol mwyfwy ar y Goruwchnaturiol. Dyma'r pryd y cynyddodd y methiant i drafod Seciwlariaeth a'r Dadgymdeithasiad o Oruwchnaturiol/Naturiol. Cryfhaodd y duedd ddiweddar hon yn arbennig yn sgil gwaith Lewi Edwards. A chredaf fod angen cymryd hyn o ddifrif. Gyda thwf dogma anoddefgar a gormesol Seciwlariaeth yn yr ugeinfed ganrif, cawsom orseddu'r dagfa i'r Synnwyr o Dduw mewn addysg ac yn rhagdybiau'r meddwl cyfoes a 'chywirdeb gwleidyddol'. Datblygodd hyn bellach i gyfeiriad erledigaeth. Cynrychiolai'r Synnwyr o Dduw y gynneddf seml a gydnabyddai'r wybodaeth o'r Goruwchnaturiol o fewn y deall dynol. Oherwydd gorthrwm yr Ego Trosgynnol a myth hurt didueddrwydd Empeiriaeth a Phositifiaeth Naturiol, o fewn fframwaith gorfodol y 'ffasiynau' deallol bydol, suddodd y pwlpud Cymreig. Ymledodd yn norm drwy'n diwylliant ymhlith arweinwyr llipa a dof. A chollwyd Cristnogaeth gyhyrog i raddau helaeth.

Un llewyrch a roddai foddhad i mi yn ddiweddar oedd adfywiad bydeang yr hyn a alwn yn draddodiad Awstin-Galfinaidd. Dychwelodd yr awydd i fawrygu natur y Goruwchnaturiol a diwinyddiaeth uniongred yn sgil Calfiniaeth all-Farthaidd. Cofleidiwyd ers tro amhendantwydd dogmatig a chyfaddawdu babïaidd, ac wele'r traddodiad Awstin/Calfin yn procio hydeimledd ynghylch dimensiwn goruwchnaturiol a oedd i ddyn mor naturiol. Mewn cymdeithas seciwlar yr ildwyd mor rhwydd iddi, a lle y cryfhaodd gwacter ystyr, ariangarwch, yr eclecticig, a phleserau cnawdol, cryfhaodd goleuni tragwyddol newydd drachefn.

At ei gilydd, mae'n drist cyn lleied o drafodaeth a gafwyd erioed yng Nghymru ymhlith efengyleiddwyr ynghylch perthynas Cristnogaeth a Diwylliant. Buont yn

ymwneud ag efengyl, o leiaf, a gydnabyddai Benarglwyddiaeth Duw ar bob rhan o'u bywyd. Nid oedd neb ar wyneb y ddaear nad oedd yn ymwneud rywfodd â diwylliant. A gwelsom y gorchymyn cyntaf a roddodd Duw i ddyn yn benodol yn y Beibl wedi'i gyfeirio at swydd diwyllio modern. Ac eto, rhyfedd mor ychydig o feddwl a gafwyd hyd heddiw yng Nghymru – o bob man – ynghylch y wedd Gristnogol hon ar ein bywyd.

Gydag un eithriad. Sef gwaith D. Miall Edwards. Bu hwnnw yn hynod ddiwyd gyda llyfrau megis *Crefydd a Bywyd* (1915), *Crist a Gwareiddiad* (1921), *Iaith a Diwylliant Cenedl* (1927), *Crefydd a Diwylliant* (1934). Mae popeth a wn i am bersonoliaeth Miall Edwards yn delweddu gŵr caredig a haelfrydig. Ond meddai'r Athro W. Eifion Powell amdano, 'Ei gamgymeriad yn ddiau oedd iddo uniaethu'r Efengyl yn ormodol â syniadau ei oes ei hun.' Hynny yw, dyneiddiwr dynwaredol oedd ef, prif ladmerydd 'rhyddfrydiaeth' fel y defnyddir y term am brif feddwl ei gyfnod. Bellach, gwelwyd methiant ei anuniongrededd o ran parhad. A daeth yn bryd ailystyried Cristnogaeth yn fwy Beiblaidd, sy'n nes i brif draddodiad Protestaniaeth Cymru. Dyma Gristnogaeth, nid o safbwynt 'naturiol' a 'rhesymol' yn unig, ond o bersbectif goruwchnaturiol / naturiol.

*

*

*

Mae'n bryd i rywun heblaw'r diweddar R. Tudur Jones nid yn unig ddadansoddi ond disgrifio a diffinio ffactorau pennaf y dirywiad.

Os ydym am ddeall gorffennol diwylliant Cymru, allwn ni ddim fforddio torri twll yn yr ardd a chladdu'n pennau. Synhwyras ysywaeth beth symudiad ymhlith rhai o'n haneswyr oddi wrth syniadaeth tuag at ddigwyddiadaeth ddethol, hynny yw at allanolion crefydd. Gellir ymguddio y tu ôl i hanes anwerthusol.

Mewn gwareiddiad cynyddol 'Ôl-Gristnogol', ers 1859, mae yna berygl inni edrych yn ôl at ganrifoedd pryd yr oedd diwylliant Cristnogol yn rhan o'r awyr y syllem drwyddi drwy lygaid anfedrus. Ceisiwyd bychanu, weithiau, le Cristnogaeth ym meddwl a theimladau rhai o'n prif lenorion wedyn fel Daniel Owen. Tybid yn rhy aml mai rhaid yn y bôn eu bod yn synied am berthynas pobl a phwrpas neu ddiffyg pwrpas fel y gwnawn ni. Ni chofiwn mor nerthol oedd rhagdybiau Cristnogol difrif fel adeiladwaith

normal hyd yn oed am gelfyddyd ym meddwl Goronwy Owen ac Elis Wynne, Pantycelyn a Thudur Aled. Ni chofiwn fod yna Absoliwt bob amser a oedd yn amodi trefn.

Os ydym am ddeall gorffennol diwylliant Cymru, mae'n bwysig inni gofio'r rhagdybiau a gymerid yn ganiataol. Gan fod i'r Beibl le mor ganolog ac mor amodol yng ngwneuthuriad y meddwl Cymreig a'r awyrgylch cymdeithasol, onid amherthnasol yw ceisio archwilio beth yw'r syniadaeth ymwybodol ac isymwybodol heb fframwaith a gyflwynwyd i'w cydwladwyr gan William Morgan a Griffith Jones, a chan yr Eglwys o'u blaen hwy.

Ceisiwyd yn y gyfrol hon drafod Diwinyddiaeth Diwylliant. A chynigiwyd mai'r traddodiad cryf cynhwysol-Gristnogol, os cymharol ddi-astudiaeth hwn, yw'r prif feddwl a oedd yn gefn i'r diwylliant Cymraeg. Mae'n hen bryd yn yr unfed ganrif ar hugain inni archwilio'i arwyddocâd meddyliol wedi'r dirywiad bellach, ac arddel y ddyletswydd anorffen a adawodd Saunders Lewis inni.

* * *

Ni cheisiwyd yn hyn o ymdriniaeth namyn chwilio beth oedd yr athrawiaethau Beiblaidd ynghylch Diwylliant. Nid defodau, confensiynau nac athrawiaethau'r Eglwys na rhai Cristnogion unigolyddol a ystyrid. Bwriwyd golwg ar ambell ddehongliad cyson a chroyw o ddiwylliant a gawd dros y canrifoedd gan unigolion a sefydliadau. Ond yn y diwedd, cesglid bod yno yn y Beibl ganllaw digonol ac awdurdodol lle y ceid y prif egwyddorion yn gytûn, ac yn y dehongliad a alwaf yn Fodel A/C: yno, ceir math o gydlynid.

Ond o ran credoau cytûn a chyffredinol canolog, ymddengys i mi fod gan Fodel A/C bresenoldeb parhaol digyfaddawd yng Nghymru drwy'r blynyddoedd. Mae'r diwylliant Cymraeg hefyd yn ei hyd a'i led yn darparu digon o fodd i brofi'r egwyddorion ar waith yn ymarferol. Dyma'r lle y cafwyd asgwrn cefn uniongred y meddwl Cymraeg. Hyderaf y cawn weld mwyfwy o barodrwydd i wynebu'n onest ac yn gyhyrog bresenoldeb syniadaeth gyfoethog Gristnogol hyd yn oed wrth efrydu Hanes Diwylliant.